



# **Gramadeg areithyddiaeth : yn cynwys rheolau a chyfarwyddiadau i ddarllen, siard ac areithio yn gywir ac effeithiol**

<https://hdl.handle.net/1874/380691>

GRAMA FEG  
AREITHYDDIAETH

YN GYNWYS

RHEOLAU A CHYFARWYDDIADAU

I DDARLEN, SIARAD, AC AREITHIO

YN GYWIR AC EFFEITHIOL.

GAN Y

PARCH. THOMAS THOMAS





WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN R. HUGHES AND SON, HOPE STREET.

VAN HAMEL  
401

E DONATIONE  
**A. G. van HAMEL**  
PROFESSORIS  
ORDINARII IN  
ACADEMIA  
RHENO-TRAIECTINA  
1923—1946





*Van Hamel 401*

# GRAMADEG AREITHYDDIAETH:

YN CYNWYS

RHEOLAU A CHYFARWYDDIADAU

I DDARLLEN, SIARAD, AC AREITHIO

YN GYWIR AC EFFEITHIOL.

GAN Y

PARCH. THOMAS THOMAS.



WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN R. HUGHES AND SON, HOPE STREET.



## CYNWYSIAD.

- AT Y CYHOEDD . . . . . 5-6
- RHAGARWEINIAD.—Pwysigrwydd y gelydydd—Anallu naturiol—Rhai wedi ei oresgyn—Beiau siaradwyr cyffredin—Y gwir araithydd yn tafu ei hun i'w bwngc . . . . . 7-11
- PENNOD I.—TAFODAETH (*Articulation*).—Ei bwysigrwydd—Demosthenes fel engraifft o benderfyniad—Sheridan ar y pwngc—Esgeulusdra rhient—Ein bysgollon—Y modd i wella hyn—William Pitt—Siarad yn araf—Darllen o faen ereill—Peidio gostwng y llais—Efelychu rhinweddau siaradwyr da, a gochel eu beiau—Peidio arfer geiriau rhy sathredig—Peidio arfer geiriau Saesoneg . . . . . 12-16
- PENNOD II.—GORPHWYSIADAU.—Y gwahaniaeth rhwng gorphwysiadau gramadegol a rheithegol—Engreiffiau—Y gorphwysiad byr—Y gorphwysiad canol—Y gorphwysiad llawn—Y gorphwysiad hir—Rheolau—Esiamplau . . . . . 17-27
- PENNOD III.—ACENIAD.—Y llais dynol—Yr acen esgynol—Yr acen ddisgynol—Aceniadau i nodi y synwyr—Rheolau—Esiamplau . . . . . 28-34
- PENNOD IV.—PWYSLEISIAD.—Ei bwysigrwydd—Peidio pwysleisio gormod o cirian—Pwysleisiad y synwyr—Pwysleisiad y teimlad—Pwysleisiad yn ei gysylltiad âg aceniad—Nodiad—Brawddegau rhyddion—Dr. Whately—Rheolau—Esiamplau ar aceniad a phwysleisiad . . . . . 35-44
- PENNOD V.—Y LLAIS.—Ei gyweirsdain—Awstin ar y llais—Goslef—Plutarch a Demosthenes—Sut i siarad fel ag y gellir ein gwrandio heb boen a chyda phleser—Prif teiau siaradwyr—Rheolau cyffredinol i anrwyio y llais—Rheolau neillduol—Esiamplau o'r gwahanol deimladau—Cariad, o "Myfanwy," Ceiriog—Galar, "Marwolaeth Haber," gan Alun—Gobaith, o'r un farwnad—Ofn, "Y bysedd ar y pared"—Gawdiaeth, "Esther," Glan Alun—Diglonrwydd, o'r un darn yn "Dychryn," "Y Daran," Dafydd ab Gwilym—Llawenydd, "Priodasgerdd," gan Dafydd Ddu o Eryri—Hiraeth, "Hiraethgân," Talhaiarn—Digalondd, "John Jones, Talysarn," Glan Alun—Gwroldeb, "Y Gwynt," Pedr Mostyn—Digofaint, "Awdl Job," Eben Fardd—Tosturi, "Awdl Blusengarwech," Dewi Wyn . . . . . 45-65
- PENNOD VI.—YSTEM.—Gwahanol aelodau y corff yn arddangos y gwahanol deimladau—Y llygad—Y dwylaw—Christmas Evans yn pregethu—John Elias o Fôn ac Ardalydd Môn—Cicero ar y pwngc—Sefyllfa y corff—Quintillian ar y pwngc—"Y Traethodydd" ar Williams, Pantycelyn—Betterton ac Esgob Llundain . . . . . 66-73



PENNOD VII.—Y NWDYDAU (*The Passions*).—Rhesymu, 1 Cor. xv.—Trychineb, “Dystryw Senacherib”—“Llongddrylliad”—Melldith, Ezec. xxxv.—Gweniaith, Diar. vii. 14—21.—Cerydd, Mat. xxiii. 18—24.—Amheuaeth, Gen. xxvii. 18—29.—Ymdaeru, 1 Bren. iii. 16—28.—Esbonio, Mat. v. 17—26.—Desgrifiad, “Yr Ymeangiad,” Iorwerth Glan Aled . . . . . 74—87

PENNOD VIII.—ARDDULL (*Style*)—Eglurder—Gochel arddull gwmpasog—Cyfaddasu at amgyffredion y gwrandawyr—Am ail-adrodd—Pryd y dylid ail-adrodd—Geiriau sathredig—Ansathredig—Brawddegau i fod yn fyrion—Pffugresymu—Siarad er mwyn siarad—Siarad i ladd amser—Arfer iaith chwyddedig a thywyll er mwyn synu yr anwybodus. GRYM.—Dewisiad geiriau—Geiriau neillduol a chyffredinol—Y gwahaniaeth rhyngddynt—Cydmariaethau—Cyffelybiaethau—Dr. Campbell ar y pwngc—Troell-eiriau a chyffelybiaethau—Geiriau llanw—Geiriau newyddion—Bydrâ—Brawddegau diangenrhaid—Trefn y geiriau . . . . . 88—106

PENNOD IX.—HYAWDLEDD Y PWLPUD.—Manteision neillduol y Pwlpud—Gwisgo hen bethau mewn dull newydd—Yr wrthddadl yn erbyn hyawdledd yn y Pwlpud—Dyben pregethu—Dylai fod yn ymarferol—Dylai fod yn ddyn da—Mae i fod yn ddirifol a gwresog—Dylai y Pregethr fod yn ddefnyddiol—Dewis pyngciau dealladwy Pregeth fel cyfansoddiad. GWAHANOL RANAU PREGETH—Esiamplau gan Morgan Howells—John Elias—Christmas Evans—Rowland Hughes—John Jones, Talysarn,—John Evans, Llwynffortun—D. Roberts, Caerynarton,—Pregethu Chwaryddol, gan Goodwin—Gweddi yr Arglwydd, gan Wright . . . . . 107—148

ATTODIAD.—AREITHYDDIAETH.—Yn erbyn “Oes Rheswm,” Paine, gan Erskine—Diweddglô Araith Arglwydd Brougham ar Ddiwygiad Seneddol, 1831—Dyfodiant y symudiad Dirwestol, gan Gough—Y Gwirionedd, gan Gough—Y Meddwyn, gan Gough—Ffolineb Uchelgais, yn cael ei ddangos yn Anerchiad y Scythiad i Alecsander Fawr, gan Curtis. RHYDDIAETH—Diwydrwydd Demosthenes—Ymddibyniad y nail ar y llall, gan Sturm—Rhyddid a Chaethiwed, gan Sterne—Sefydliad Cristionogaeth, gan Milman—Cenfigen a Chydymgais, gan Larbauld—Dewisiad Hercules, gan Tatler—Yr enwog Critchton, gan Hawksworth—Solon a Cressus, gan Robinson—Peryglon diogi a moethau, gan Johnson—Medrusrwydd milwrol Robadil, gan Ben. Johnson. BARDDONIAETH.—Rhybudd Lochiel, gan Campbell—Y Goes Aur, gan Hood—Cato ar Anfarwoldeb yr Enaid, gan Addison—Saith Gradd Einioes, gan Shakspeare—Beth yw Bywyd? gan Lewis Glyn Dyfl—Cynylau Dysglaer ar Fachludiad Haul, gan Mrs. Sigourney—Y Fam ar Gloewyn Byw—Y Cristiau yn Marw, gan Pope—Amynedd a Gobaith, gan Bulwer—“Nid marw hi: eithr cysgu y mac.” . . . . . 149—200

## AT Y CYHOEDD.

---

### ANWYL GYDWLADWYR,—

Dyma lyfr newydd eto yn cael ei ddwyn i'ch sylw, a hyderaf na bydd ei ddyfodiad i'ch plith yn hollol aflesol. Y mae gan y darlennydd, yr ysgolor, a'r bardd, eu gramadegau, a phaham na chaiff yr areithydd ei ramadeg? Yr ydym yn credu fod angen am dano yn ein gwlad yn y dyddiau presenol, am fod ein hysgolion Sabbathol, ein heisteddfodau, a'n cyfarfodydd llenyddol yn rhoddi y fath gyfleusdra i'n dynion ieuange i amlygu eu meddyliau yn gyhoeddus. Nid ydym yn myned ar draws neb ag sydd wedi ymddangos eisoes yn y llwybr hwn: y maent oll yn dda mor bell ag y cyrhaeddant: bwriedir y llyfryn hwn fel attodiad neu barhad o honynt—yr ydym yn dechreu lle y mae ein llyfrau ar ddarlennyddiaeth yn diweddu. Nid ydym yn honi llawer o wreiddiolder: yr ydym wedi darllen pob llyfr y daethom ar ei draws, a phigo pob peth y gallasem farnu a fuasai o fudd i'r areithydd ieuange. Nid ydym yn meddwl fod hwn yn berffaith: yn wir,

yr ydym yn gwybod nad ydyw; ond y mae mor gyflawn ag y gallasom ei wneuthur: ac yr ydym yn sicrhau na bydd i'r efrydydd ieuange gael achos edifarhau o herwydd dysgu y rheolau a osodir i lawr, a dilyn ei gyfarwyddiadau. Nis gallwn ddweyd, fel y mae "arfer rhai," ein bod yn ei gyhoeddi "ar gais miloedd o brif lenorion yr oes!" Yr oll a allwn ddweyd ar y pen yw, ein bod wedi ei ddangos i ychydig o'n cyfeillion, ac wedi derbyn eu cefnogaeth. Dyma ni yn ei adael i drugaredd y cyhoedd, gan hyderu y bydd iddo gael croesaw i'w plith, ac y bydd yn foddion i dynu sylw ein hareithwyr a'n pregethwyr ieuange at y gelfyddyd bwysig o siarad yn gyhoeddus.

YR AWDWR.

## RHAGARWEINIAD.

---

NID yw y gelfyddyd o siarad gyda phrydferthwch a nerth yn feddianol ond gan ychydig iawn o'n dynion cyhoeddus. Y mae yn achos o syndod fod celfyddyd mor anheggorol angenrheidiol yn cael ei hesgeuluso i'r fath raddau—celfyddyd ag nas gall neb ag sydd yn meddwl dyfod yn enwog fel siaradwr cyhoeddus gyaedd ei amcan heb ei hefrydu. Tra yr oedd Groeg a Rhufain yn eu gogoniant, yr oedd yr unig ddrws i barch a dylanwad.

Nid ydym yn meddwl fod eisieu dywedyd dim am bwysigrwydd y gelfyddyd hon, pan yr ydym mor aml yn gorfod gwrando ar rai yn siarad, a roddant brawf amlwg nad ydynt yn gwybod dim am y gelfyddyd. Gall eu pethau fod yn dda, ond nid ydynt yn cael dim effaith ar y gwrandawyr, am nad ydynt yn gwybod pa fodd i siarad gyda nerth, prydfferthwch, a dylanwad.

Dygir yn mlaen, fel rheswm, rai gweithiau, nad oes angen ar y cyffredinolrwydd o ddyinion, ag ydynt wedi derbyn cyfran weddol o wybodaeth, boeni eu penau i geisio mabwysiadu dull boneddigaidd i gyfleu eu syniadau. Ond yr ydym o'r farn y dylai pob dyn wrïdo a ddywedo, "nad oes dim angen arno i geisio dysgu y dull goreu o siarad." Os nad ydyw y rhan luosocaf o'n dynion ieuauinge wedi eu bwriadu yn siaradwyr cy-

hoeddus, naill ai ar yr esgynlawr neu yn yr areithfa, a ydyw yn canlyn na ddylent gymeryd tipyn o drafferth i ddysgu siarad yn briodol eu hiaith eu hunain?

Y mae y gallu o siarad yn gywir, hyd yn nod yn mhlith cyfeillion ar yr aelwyd, yn werthfawr iawn. Golygwch fod dyn ieuange, yr hwn na fwriadwyd i fod yn gyhoeddus, ai na fydd byth alwad arno i ddarllen mewn cwmni, yn mhlith ei gyfeillion? Bydd, wrth gwrs. Y mae yn anhosibl i ddyn ieuange gwybodus, ag a fyddo yn troi mewn cylch parchus, allu myned trwy y byd, heb iddo gael ei alw mewn rhyw amgylchiad neu gilydd i ddarllen neu ddatgan ei farn ar ryw bwngc. Gall fod yn selog dros iawnderau ei wlad a'i genedl, ond heb y gallu o siarad ei feddwl yn eglur a chywir, rhaid iddo eistedd i lawr a gwranddo arnynt yn cael cam, ac yntau heb allu eu hamddiffyn. Bydded i un o aelodau Tŷ y Cyffredin sefyll ar ei draed, a dechreu datgan ei farn ar ryw bwngc ag sydd yn dal cysylltiad agos â phresenol a dyfodol y wladwriaeth: y mae ganddo y gallu o gamarwain y mwyafrif o'r aelodau, os na bydd ganddynt y gallu i wahaniaethu rhwng yr hyn sydd gywir ac anghywir yn ei ymresymiau. Yr un fath yn union y mae mewn lleoedd llai eu pwys—megis pwyllgorau, cymdeithasau dyngarol, cyfarfodydd llenyddol, a manau ereill, lle y mae llithrwydd y tafod, a gallu i siarad yn cario y mwyafrif, a hyny yn aml yn erbyn rheswm a synwyr cyffredin.

Y mae yn wir, ag edrych ar y pwngc mewn ystyr fydol, nad yw yr hyn a enillir yn ddigonol i ad-dalu am lafur mawr a diffino, fel ag a arferwyd gan Demosthenes, Pericles, Eschines, Demetrius Phalereus, Isocrates, Carbo, Cicero, Marc Anthony, Hortentius, Julius, Augustus, Peel, neu Cobden, &c. Er hyny, byddai yn fanteisiol i bob dyn ieuange—er budd parrai y mae y llyfryn hwn wedi ei gyfansoddi—i fod yn ddigon gwybodus yn elfenau areithyddiaeth i allu gwneyd eu hunain yn ddealladwy a derbyniol, pan yn

siarad yn gyhoeddus. Mewn gair, yr ydym o'r farn, fod llawer boneddwr ag sydd wedi esgeuluso hyn yn ieuange, ac felly yn teimlo yn annedwydd pan yn cael ei alw i siarad yn gyhoeddus, yn barod, ar draul colli haner ei gymhwysderau ereill, i feddu ar ddull priodol a dylanwadol i wneyd ei feddwl yn hysbys i'r rhai a fo yn gwrando arno.

Pa beth ydyw yr achos fod ein darlithiau yn cael eu hesgeuluso i'r fath raddau? Paham y mae gweinidogion yn gorfod cwyno o herwydd diffyg sylw eu cynulleidfaeodd? Beth ydyw yr achos fod can lleied o argraff yn cael ei adael ar feddyliau y bobl gan ein pregethu, ein gweddio, a'n darlithio? Beth, mewn gwirionedd, ydyw yr achos fod y chwareudai a lleoedd o'r fath yn llawnion, tra y mae tai addoliad bron yn weigion? Am fod bai ar y pregethwyr a'r siaradwyr. Y mae eu dull, lawer o honynt, ryweth rhwng *canu a siarad*. Y mae eu hareithyddiaeth yn ddiffygiol, yn aml yn wrthun; y mae eu geiriau yn dyfod oddiwrth-ynt fel darnau o iâ, gan mor oered ydynt, ac ymddangosant mor ddifraw, fel y mae eu cynulleidfaeodd yn myned i gysgu. Bydded i'r rhai hyny a safant i fyny, siarad yn briodol a nerthol, a rhoddwn ein gair na chysga neb o'r gwrandawyr. Y mae yn anmhosibl i berswadio gweithredwyr drygioni i adael eu pechodau, heb fod y pregethwr yn ymddangos ei fod o ddifrif. Ac yr ydym yn sier pe byddai dynion cyhoeddus yn ceisio cyraedd gradd o fedrusrwydd yn y gelfyddyd o areithyddiaeth, at eu synwyr da a bendith Duw, y gwelid yr addoldai hyny ag sydd yn weigion yn bres-enol, yn cael eu llanw â gwrandawyr astud, a buan y gwagheid y lleoedd hyny ag sydd wedi eu cysegru i wasanaeth y diafol.

Gall y darlennydd ddweyd, gyda llawer o briodoldeb, nas gall yr oll o'r rhai ag sydd wedi derbyn dysgeidiaeth lled dda ddyfod yn areithwyr hyawdl. Caniatawn hyny. Gall rhai, i'e, lawer, feddu diffygion naturiol yn eu

llafar. Ni chynghorem hwynt i geisio dyfod yn siaradwyr cyhoeddus. Er hyn i gyd, y mae genym engreiffiau o rai ag oeddynt yn meddu ar ddiffygion naturiol, yn goresgyn yr anhawsderau ac yn dyfod yn siaradwyr gwych. Er engraifft, Demosthenes, pan y dechreuodd efrydu rheitheg, ni fedrai swnio llythyren gyntaf y gelfyddyd. Ac yr oedd gan Cicero wddf hir ac amryw anafanteision ereill. Ond darfu iddynt trwy lafur mawr oresgyn yr holl ddiffygion naturiol, a gwneyd eu hunain yn anfarwol fel areithwyr. Yr ydym yn cael ein poeni rai gweithiau gan ddynton cyhoeddus yn siarad fel pe byddai lediaeth arnynt; siarad trwy eu trwynau, a cham accenu amryw eiriau; ereill yn siarad yn uwch na'u llais cyffredin, a'r lleill mor isel a phe byddent am godi ysbrydion; ereill yn gwaeddi nerth eu penau, fel hên werthwyr *oysters* Llundain; rhai yn taflu eu geiriau gyda'r fath nerth, pa beth bynag fo y pwngc, nes y bydd yn amhosibl eu dilyn; ereill yn eu dwyn allan mor araf, fel y mae yn orchwyl mor amhleserus gwrando arnynt a phe byddech yn cyfrif ticiadau cloc mawr; y mae rhai yn arfer codi eu hysgwyddau; ereill luchio eu cyrff o'r naill ochr i'r llall, ac yn mlaen ac yn ol, fel pe byddent yn sefyll ar farwor tanllyd; y mae rhai yn agor eu geneuau a'u llygaid nes peri dychryn; ereill yn eu cadw mor gauedig a phe buasant ofn i rywbeth ddiane allan; y mae rhai yn codi eu haeliau bob tri gair; y mae rhai yn crychu eu gwynebau at eu gilydd; ereill a estynant allan eu gwefusau fel pe byddent yn gwneyd *sport* am ben y gwrandawyr; rhai a besychant ar ol pob gair, ereill a lyfant eu gwefusau, a throï eu tafodau yn eu geneuau, fel pe byddent o dan ddyllanwad syched parhaus. Wrth gwrs, arferion drwg yw y rhai hyn oll—arferion ag sydd yn gwneyd y rhai a'u harferant yn wrthddrychau gwawd. Ein hamean yn y llyfryn hwnfydd gwella yr holl ddrwg arferion a nodwyd.

Nid yw siaradwyr cywir yn gwneyd yr un symudiad heb reswm digonol dros hyny. Pan y mae yn siarad

â'i gyd-ddynion yn ddirgel neu gyhoeddus, nid yw yn edrych o'i gwmpas, fel pe byddai wedi colli y ffordd; neu i fyny, fel pe byddai yn siarad â rhywrai yn y *ceiling*, ond y mae pob ysgogiad yn naturiol—edrycha arnynt, nid llygadrythu, ond yn fwyn a mawreddog. Pan y mae yn cyfarch y nefoedd, y mae yn edrych i fyny. Y mae ysbryd yr hyn a ddywed i'w weled yn ei eiriau. Pan y mae eisiau creu syndod, cyfyd ei ddwyllaw a'i lygaid i fyny, a gellir gweled syndod yn ei wedd, syndod yn ei lais, a syndod hyd yn nod yn mhen ei fys. Pan y mae yn cymell i rinwedd, y mae taerni a chariad yn ei wedd ac yn tywynu tryw ei lygaid erfyngar, a'i freichiau sydd ar led. Pan y mae yn myned i fygwth, nid yw fel rhai yn siarad bygythion mewn rhyw dôn chweringar; ac, y mae yr ystorm yn dechreu ymgasglu o amgylch ei eiliau, ei lygaid, a'i lais, ac o'r diwedd ymdora, ac anhawdd fydd peidio deall nad bygythio y bydd. Nid yw ef yn lluchio ei freichiau nac yn curo ei ochrau yn ddiangenrhaid. Nid yw ef byth yn rhoddi ei law ar ei fyuwes, os na bydd eisiau siarad am dano ei hun, neu rywbeth mewn perthynas i gydwybod. Nid yw yn cilio yn ol, os na bydd eisiau arddangos teimlad o ddychryn. Nid yw yn dyfod yn nes os na bydd yn gwahodd. Nid yw byth yn codi ei lais, os na bydd ganddo rywbeth pwysig i'w ddweyd. Nid yw yn gostwng ei lais ond fel y byddo yn alluog i'w godi pan fo angen am dano. Y mae rhai siaradwyr yn dechreu siarad mor uchel ag y gallant, ac felly, pan y daw rywbeth pwysig, ni fyddant yn alluog i ddangos dim gwahaniaeth rhyngddo a pheth dibwys. Am yr areithydd, y mae ei *lygaid*, ei *lais*, a'i *wedd*, yn caru, ceryddu, cashau, llawenhau, tristau, gwahodd, a gwrthod, yn ogystal a'r llais a'r teimlad. Y mae yr holl ddyn i gael ei daflu i'r peth a siaredir, ac yna y mae yn sicr o gael argraff dda. Gall pawb ag sydd yn feddianol ar alluoedd cyffredin gyrrhaedd y perffeithrwydd hwn, ond iddynt ymarfer eu hunain i hyny.



The first part of the report is devoted to a general  
 description of the country and its resources. It  
 is followed by a detailed account of the  
 various industries and occupations of the  
 people. The third part of the report  
 contains a list of the principal towns and  
 villages of the district. The fourth part  
 contains a list of the principal rivers and  
 streams of the district. The fifth part  
 contains a list of the principal mountains and  
 hills of the district. The sixth part  
 contains a list of the principal lakes and  
 ponds of the district. The seventh part  
 contains a list of the principal forests of  
 the district. The eighth part contains a  
 list of the principal minerals of the  
 district. The ninth part contains a list  
 of the principal animals of the district.  
 The tenth part contains a list of the  
 principal plants of the district. The  
 eleventh part contains a list of the  
 principal birds of the district. The  
 twelfth part contains a list of the  
 principal insects of the district. The  
 thirteenth part contains a list of the  
 principal reptiles of the district. The  
 fourteenth part contains a list of the  
 principal fishes of the district. The  
 fifteenth part contains a list of the  
 principal shells of the district. The  
 sixteenth part contains a list of the  
 principal fossils of the district. The  
 seventeenth part contains a list of the  
 principal rocks of the district. The  
 eighteenth part contains a list of the  
 principal soils of the district. The  
 nineteenth part contains a list of the  
 principal climates of the district. The  
 twentieth part contains a list of the  
 principal winds of the district. The  
 twenty-first part contains a list of the  
 principal rains of the district. The  
 twenty-second part contains a list of the  
 principal snows of the district. The  
 twenty-third part contains a list of the  
 principal frosts of the district. The  
 twenty-fourth part contains a list of the  
 principal thaws of the district. The  
 twenty-fifth part contains a list of the  
 principal earthquakes of the district. The  
 twenty-sixth part contains a list of the  
 principal volcanoes of the district. The  
 twenty-seventh part contains a list of the  
 principal comets of the district. The  
 twenty-eighth part contains a list of the  
 principal meteors of the district. The  
 twenty-ninth part contains a list of the  
 principal auroras of the district. The  
 thirtieth part contains a list of the  
 principal eclipses of the district. The  
 thirty-first part contains a list of the  
 principal solar flares of the district. The  
 thirty-second part contains a list of the  
 principal solar winds of the district. The  
 thirty-third part contains a list of the  
 principal solar storms of the district. The  
 thirty-fourth part contains a list of the  
 principal solar eruptions of the district. The  
 thirty-fifth part contains a list of the  
 principal solar flares of the district. The  
 thirty-sixth part contains a list of the  
 principal solar winds of the district. The  
 thirty-seventh part contains a list of the  
 principal solar storms of the district. The  
 thirty-eighth part contains a list of the  
 principal solar eruptions of the district. The  
 thirty-ninth part contains a list of the  
 principal solar flares of the district. The  
 fortieth part contains a list of the  
 principal solar winds of the district. The  
 forty-first part contains a list of the  
 principal solar storms of the district. The  
 forty-second part contains a list of the  
 principal solar eruptions of the district. The  
 forty-third part contains a list of the  
 principal solar flares of the district. The  
 forty-fourth part contains a list of the  
 principal solar winds of the district. The  
 forty-fifth part contains a list of the  
 principal solar storms of the district. The  
 forty-sixth part contains a list of the  
 principal solar eruptions of the district. The  
 forty-seventh part contains a list of the  
 principal solar flares of the district. The  
 forty-eighth part contains a list of the  
 principal solar winds of the district. The  
 forty-ninth part contains a list of the  
 principal solar storms of the district. The  
 fiftieth part contains a list of the  
 principal solar eruptions of the district.

## GRAMADEG AREITHYDDIAETH.

---

### PENNOD I.

#### TAFODAETH (*Articulation*).

DYMA y gair cyntaf mewn areithyddiaeth—y cam cyntaf yn yr yrfa; ac felly y mae o'r pwys mwyaf i ni fod yn ofalus yn y fân hon. Pa beth bynag a all y diffygion fod, y mae ymdrech a phenderfyniad di-ildio yn sicr o'u goresgyn: cawn engraifft darawiadol o hyn yn hanes bywyd prif areithydd y byd, Demosthenes. Ar gy-chwyniad ei yrfa, yr oedd pob peth yn ei erbyn—ei gorff yn wanaidd ac anffurfiol—ei lais yn aflafar, a phob ysgogiad o'i eiddo yn bobpeth ond boneddigaidd a nerthol. Ond yr oedd ynddo benderfyniad, a thrwy ymdrech galed am flynyddoedd a feistrolodd yr holl ddiffygion ag oeddynt yn rhwystrau ar ei ffordd: ac er fod ei gynyg cyntaf i sefyll yn gyhoeddus wedi bod yn fethiant teg, ac wedi peri i'r holl dorf dori i chwerthin am ei ben, aeth yn y blaen yn fwy gwrol nag erioed, ac nid yn unig daeth yn areithydd da, ond yn brif areithydd y byd, hyd yn nod yn y cyfnod hwnw, pan oedd safon areithyddiaeth yn llawer uwch nag y bu cynt nac wedi hyny. Fe ddaeth y dyn bach gwargam yn *Hercules* yn ei gelfyddyd—yn gawr areithwyr, ac yn wrth-ddrych syndod ei gydoeswyr dysgedig a hyawdl.

Y mae Sheridan, yn rhywle yn ei weithiau, yn sylwi nad oedd un o bob cant o'r rhai a glywodd yn methu swnio geiriau yn briodol, yn meddu ar unrhyw anallu naturiol. Fel prawf o hyny, y mae yn cyfeirio at yr athrofa y cafodd ei ddwyn i fyny ynddi; ac y mae yn myned yn mlaen i sylwi fod yr athraw yn talu sylw neillduol i ddull ei ysgolorion o swnio geiriau, ac fel canlyniad, nad oedd cymaint ag un o honynt yn camswnio yr un gair, er fod llawer o honynt ar eu dyfodiad ato yn lispio, a'u llafar yn cael ei anharddu â math o atal-dywedyd poenus.

Y mae y craff a dalo ymweliad â'n hysgolion Sabbathol a dyddiol, yn sicr o weled y diffyg mawr sydd yn bodoli ynddynt yn y peth hwn. Y mae nifer o blant yn cael eu casglu ynghyd yn ddiobarth, ac y maent yn cael eu goddef i adrodd eu gwersi mewn dull cysglyd, undonol, ac fel pe byddent yn haner-canu—nid yw yr athraw yn talu dim sylw i aceniad priodol y geiriau. Nid yw yn syndod fod plant o dan y fath amgylchiadau yn mabwysiadu dull afler ac anghywir o siarad, ac yn cael eu cadarnhau yn eu harferion drwg!

Dylai personau ag y mae gofal plant arnynt gywilyddio o achos hyn. Nid ydynt yn ystyried y dylent ddechreu eu dysgu gyda'r geiriau hawddaf eu swnio, a myned yn mlaen yn araf a gofalus nes y deuant trwy y geiriau mwyaf anhawdd. Yn lle y dull priodol hwn, y maent yn cael eu cymell i gynyg ar y geiriau anhawddaf, a thrwy nad yw eu peirianau llafar y pryd hwnw, wedi eu cyfaddasu i'w swnio, y maent yn gadael llythyren neu ddwy allan o'r gair, er mwyn myned trwy y dâsg, ac felly yn gosod i lawr gamduedd (*bias*) anghywir, ac, yn aml, annhosibl ei gwella. Y mae y plentyn fel hyn yn mabwysiadu y dull hawddaf, ac nid y dull cywiraf, i swnio geiriau, ac nid yw rhieni braidd byth yn ceisio dysgu iddynt yn wahanol.

## Y MODD I WELLA Y BEIAU HYN.

Pan yr oedd yr enwog William Pitt yn blentyn, yr oedd yn arfer ac adrodd darnau o farddoniaeth a phethau anhawdd ereill o flaen ei dad, Iarll Chatham, yr hwn oedd yn gwybod y pwys o arfer y meddwl pan yn ieuange i fabwysiadu dull esmwyth a rhwydd o siarad. Priodolir rhan fawr o'i lwyddiant dyfodol i'r gwersi a gafodd pan yn ieuange.

Addefir yn gyffredin, mai aneglurdeb ydyw prif fai siaradwyr ieuange, yr hyn sydd yn codi yn y cyffredin oddiar yr arferiad o siarad yn rhy gyflym. Pan y mae yr areithydd yn myned yn rhy gyflym, y mae yn naturiol iddo adael llythyrenau allan, acenu eraill yn aneglur, rhedeg sillebau i'w gilydd, a chydio brawddegau anghysylltiol yn nghyd. Dylid gochel y bai cyffredin hwn, hyd yn nod pe costiai i ni beth trafferth. Dyma lythyr-en gyntaf y gelfyddyd, ac ni ddylid symud gam yn mlaen nes ei dysgu yn drwyadl. Dywedir wrthym fod hyn yn un o brif feiau Demosthenes ar gychwyniad ei yrfa, yn cyfodi, y mae yn debyg, oddiar esgeulusdra ei rieni. Y mae yn debyg mai i wella hyn yr arferai lanw ei enau â cheryg mân.

Efallai mai y ffordd fwyaf effeithiol i wella y beiau hyn, yw arfer a darllen yn uchel, mewn tŷn arafach o lawer na'r cyffredin; ac os gwneir hyn yn mhresenoldeb ereill, wedi eu penodi gan yr efrydydd i ddangos ei wallau, y mae yn sicr o ddyfod yn mlaen yn gyflym.

Peidiwch a gostwng y llais yn ormodol ar ddiwedd brawddeg, na dweyd gormod o eiriau ar yr un gwynt; ond ymdrechwch swnio pob sill yn eglur, a rhoddi y pwysleisiad yn y man priodol.

Bydded i chwi hefyd fyned i wrando ar y siaradwyr cyhoeddus mwyaf galluog—sylwch ar bob ysgogiad o'u heiddo yn fanwl—craffwch ar eu llygaid, eu breichiau, eu traed, a chewch, os byddant yn deall y gelfyddyd

fod pob symudiad o'r eiddynt yn fawreddog, yn briodol, ac yn berffaith naturiol. Y mae llawer o'n dynion ieu-ainge yn efelychu yr hyn sydd yn anghelfyddgar ac annaturiol yn ein dynion cyhoeddus—yn cymeryd yr hyn sydd ddrwg, ac yn gadael ar ol yr hyn sydd dda.

Y mae o'r pwys mwyaf hefyd ar i chwi fabwysiadu y geiriau mwyaf priodol i osod eich meddyliau allan—gochelwch, er dim, a llusgo geiriau rhy sathredig i'r areithfa: nid ydym wrth hyn yn eich cynghori i arfer geiriau annealledig: arferwch ciriau Cymraeg nerthol a chryno i osod eich meddyliau allan: y mae digon o honynt yn yr hen Gymraeg gyfoethog. Y mae y *slang terms* a arferir yn rhy aml yn disgyn yn ddrewdod ar glustiau pob dyn o chwaeth. Dylai yr areithfa, yn lle myned i lawr at ddull isel y werin o egluro eu meddyliau, geisio eu codi—amcanu eu puro a'u coethi.

Y mae yna arferiad arall, ag y mae yn rhaid i ni gael dweyd gair arni wrth fyned heibio, sef arfer geiriau Saesoneg wrth siarad Cymraeg. Y mae Saesoneg yn burion yn ei lle, ond y mae yn bobpeth ond angenrheidiol wrth siarad Cymraeg. Y mae llawer yn meddwl eu bod yn ymddangos yn fwy dysgedig wrth arllwys rhyw eiriau estronol am benau eu gwrandawyr. Gochelwch y bai cyffredin hwn, os ydych am gael eich parchu gan ddyinion o wybodaeth.

Y mae brawddeg wrth gael ei swnio yn iawn mewn llais isel yn cael ei chlywed yn well gan y gwrandawyr, na phe byddai yn cael ei chamswnio, hyd yn nod pe byddai llais lawer yn uwch. Y mae eglurder yn hanfodol er cynyrchu dylanwad ar y gwrandawyr.

Y mae amryw lythyrenau yn y Gymraeg yn annhosibl eu swnio yn briodol, os na arferir â hwy pan yn ieuange. Dyma yr anhawsder mawr sydd ar ffordd y Saeson i allu dysgu swnio ein hiaith yn briodol. Y mae llai o rwystrau o lawer ar ffordd yr Ellmynwr a'r Ffrancwr, am fod y swn y maent hwy yn roddi i'r llythyrenau hyn yn debyg iawn i'n heiddo ni.

## PENNOD II.

## GORPHWYSIADAU.

Y MAE y *gorphwysiadau gramadegol* ag sydd wedi eu cyfeirio at *lygad y darlennydd* yn anigonol i'r *siaradwr*; yr hwn sydd yn cyfeirio ei ymadroddion at y deall trwy gyfrwng y *ghust*. Y mae arno ef angen am fwy o orphwysiadau, ac mewn manau mwy hwylus, a hyd mwy cyfartal, er ei les a'i esmwythdra ei hun; er ei alluogi i gymeryd gwynt ar ei daith; ac er hwylusdod y rhai hyn fyddo yn dilyn ei gamrau, er eu galluogi gyda rhwyddineb i ddeall yr hyn a ddywedir.

Yr ydym, gan hyn, yn mabwysiadu *gorphwysiadau rheithegol*, yn annibynol ar, er nad yn anghyson â, gorphwysiadau gramadegol. Y mae o bwys fod y gorphwysiadau hyn yn cael eu deall yn drwyadl; gan nad ydynt yn unig yn dangos gwahaniad priodol y drychfeddyliau, a chysylltiad un rhan o'r synwyr â'r rhan arall, ond y mae eu hymarferiad yn anhebgorol er i'r areithydd gael y dylanwad priodol; *hebdddynt* y mae yn rhaid iddo weithio ei ffordd trwy bob brawddeg hir a thywyll er poen iddo ei hun a'i wrandawyr: *gyda'r* cymborth, y mae ei symudiadau yn dyfod yn gyson, sicr, ac esmwyth.

I brofi hyn, bydded i'r efrydydd ddarllen yn uchel y tair brawddeg ganlynol, heb orphwysiad o unrhyw fath; oblegid nid oes yr un gorphwysiad gramadegol wedi ei nodi ynddynt. Yr wyf yn eu rhoddi fel y maent wedi eu hargraffu mewn amryw lyfrau.

1. Nid oes dim yn fwy niweidiol i lwyddiant a dedwyddwch cenedl na gweinyddiaeth ansefydlog.

2. Nid ydych yn disgwyl cael oddiwrth y gwneuthurwr yr un prysurdeb mewn anfon eich archeb ag a ddisgwylwch oddiwrth y siopwr neu y nwyddfawr.

3. Y mae yn sicr fod golygfeydd swynol natur yn dyfod yn fwy amlwg a dyddorgar pan yr astudir hwy trwy gyfryngoliaeth celfyddyd.

Gall y darlennydd weled ar unwaith fod rhyw orphwysiadau yn angenrheidiol yn y brawddegau hyn, er ei gynorthwyo ef i draddodi, ac i gynorthwyo y glust i ddeall a gwrando, y rhai heb hyny sydd yn agored i'w cymysgu yn nghyd, a thrwy hyny golli y cysylltiad ac amharu y synwyr.

Y mae hyn yn dangos fod rhyw gyfundrefn o orphwysiadau yn angenrheidiol, mewn darllen a siarad, yn annibynol, er fel cynnorthwywyr, i orphwysiadau gramadegol.

I'r pwrpas hwn yr wyf yn mabwysiadu pedwar o orphwysiadau rheithgol, fel y canlyn,—

1. *Y gorphwysiad byr*, a nodir fel hyn ♪ i ddal arno tra y rhifir un.
2. *Y gorphwysiad canol*, ♪, tra y rhifir dau.
3. *Y gorphwysiad llawn*, =, dwbl amser y gorphwysiad canol.
4. *Y gorphwysiad hir*, ■, dwbl y gorphwysiad llawn.

O'r rhai hyn, y cyntaf, neu y gorphwysiad byr ♪ yw yr un mwyaf pwysig, am ei fod yn cael ei ddefnyddio yn amlach, ac o'r cymhorth mwyaf i'r areithydd, gan ei fod yn fwy o gyfleusdra iddo i gymeryd ei wynt na gorphwysiad.

#### 1.—Y GORPHWYSIAD BYR. ♪

Yn y lle cyntaf gellir defnyddio y gorphwysiad byr yn mhob man ag y mae rhagwahanod mewn atalnodaeth ramadegol.

I ateb dybenion areithyddiaeth y mae yn rhaid iddo gael lle—

AR OL,—

1. Y frawddeg neu amryw eiriau ag sydd yn sefyll fel testun i ryw ferf : fel,—

*Y mae nwydau dynotryw* ∟ yn rhy aml yn cymylu eu barn.

*Gwneyd cyfiaunder* ∟ yw y rhinwedd dynol uwchaf.

*I alhu barnu ereill* ∟ dylem adnabod ein hunain.

2. Pan y mae ffurf y frawddeg wedi ei *gwrthdroi*, y mae y gorphwysiad hwn i'w ddodi *ar ol* yr ymadrodd gwrthrychol; fel,—

*Wrth weithredu yn rhinweddol* ∟ yr ydym yn astudio ein cysur.

*Wrth weithredu yn rhinweddol* ∟ yr ydym yn gweithredu yn ddoeth.

*Trwy angerddoldeb ein tymerau* ∟ y mae ein barn yn aml yn cael ei dallu.

*Digon i'r diwrnod* ∟ ei ddrwg ei hun.

*Y doethaf o ddynion* ∟ oedd Solomon.

*Y lle mwyaf prydfferth* ∟ yw yr arddangosfa fawr.

*Fel deiliad ffyddlon* ∟ amddiffynodd ei frenin.

*Yn wrol a doeth* ∟ daliodd i fyny gyfreithiau ei wlad.

*Ychydig ac anaml* ∟ oedd y geiriau a ddywedodd.

*Yn dawel a hunan-feddianol* ∟ gwynebodd y dorf wrthryfelgar.

Iawnderau y byw a fathrodd ∟ lludw y meirw ∟ a wasgarodd i'r gwynt.

Ar y ddaear oer ∟ yn noeth y gorweddodd.

Oddiar ben yr hwylybren ∟ y syrthiodd i'r môr.

3. Ar ol geiriau o bwys, a thestun y frawddeg pe na byddai ond *un* gair os yn un pwysig; fel,—

*Rhinwedd* ∟ yw yr athroniaeth ddoethaf.

*Wel, cariad* ∟ yw ∟ testun fy chwedl.



4. Ar ol pob rhan o *gyfres*; fel,—

*Elusengarwch* ∽ *llawenydd* ∽ *heddwch* ∽ *amynedd* ∽ ydynt  
addurniadau y *cligion*.

(Y mae y gorphwysiad canol yn cael ei ddodi ar y  
gair diweddaf yn y *gyfres*.)

*Calon dda* ∽ *tymer addfwyn* ∽ *yspryd gostyngedig* ∽ *diwyd-  
rwydd difest* ∽ ac *ymroddiad di-ildio* ∽ ydynt yn hardd  
mewn ieuengetyd ∽ yn anrhydeddu y dyn ∽ ac yn goron  
yr henafgwr.

Yn yr ail le y mae y gorphwysiad byr i'w ddefn-  
yddio, yn—

5. O flaen y *modd anherfynol*; fel,—

Gelwir arnom ∽ i gynorthwyo ein cyd-ddynion mewn cyf-  
yngder.

6. O flaen *aroddodiaid*, pan y maent yn llywodraethu  
yr holl frawddeg; ond nid pan y maent yn digwydd yn  
nghorff y frawddeg; fel,—

Y mae yn ddyledswydd ∽ ar bob dyn ∽ i ragddarbod pan  
yn ieuaingc ∽ *gogyfer* a heh ddyddiau ∽ a damweiniau.

7. O flaen rhagenwau *perthynasol*; fel,—

Dyma y dynion ∽ y *rhai* a ddymunant eich llwyddiant.

Y cyfryw yw y beiau ∽ y *rhai* sydd raid i chwi eu hosgoi;  
y cyfryw yw yr esiampl ∽ yr hon a ddylech efelychu.

8. O flaen *cysyllteiriau*; a *goreiriau* o *amser*, *tebygol-  
rwydd*, a *rhai* eraill; megis,—

Cenedloedd ∽ fel dynion ∽ ni ffaelant yn yr un anturiaeth ∽  
â'r hon yr ymgymerant ∽ pan yn cael eu cynal ∽ gan amcan  
daionus ∽ a phenderfyniad diysgog.

Pan y mae y *cysyllteiriau* "ac," "ond," "nac," yn  
gwasanaethu ond yn unig fel bachau i gysylltu un syn-  
iad llawn, neu o eriau neu syniadau yn perthyn yn  
agos i'w gilydd, ni ddylid bod yno orphwysiad o'u

blaenau, oblegid dyben gorphwysiad ydyw dangos gwahaniad un frawddeg, ac un gam yn yr ystyr, oddiwrth un arall; fel,—

Bywyd rhinweddol  $\curvearrowright$  yn fwyaf sier sydd yn arwain i heddwch a dedwyddwch.

Yn y fan hon ni ddylid bod un gorphwysiad o flaen *a*; y mae y syniad a gyfla mor debyg ac mor gysylltiol y naill a'r llall, fel na oddefa iddynt gael eu gwahanu. Ond, pe buasai y frawddeg yn sefyll—

Bywyd rhinweddol  $\curvearrowright$  a sierha heddwch mewn ieuengetyd  $\curvearrowright$  a dedwyddwch mewn hen ddyddiau.

buasai gorphwysiad, fel y nodwyd, yn angenrheidiol o flaen y *cysylltair a*, gan wahanu, fel y gwna, ddwy frawddeg wahanol, er heb fod yn anhebyg i'w gilydd.

9. Y mae y gorphwysiad byr i gael ei arfer pan y mae gair yn ddiffygiol; fel,—

Y cyfryw yw y llyfr  $\curvearrowright$  a gynygir i chwi.

(Yn y fan hon y mae y gorphwysiad yn cymeryd lle y gair "*yr hwn*" a adawyd allan.)

Pobl  $\curvearrowright$  unwaith mewn caledfyd  $\curvearrowright$  allant ruddfan  $\curvearrowright$  oesau  $\curvearrowright$  mewn caethiwed.

(Yn lle *am* oesau.)

## 2.—Y GORPHWYSIAD CANOL $\curvearrowright$ .

Y mae hwn yn digwydd yn aml yn nghanol brawddeg—yr hon a wahana drwy ysgaru y rhan gyntaf, neu yr hyn a ellir alw y rhan anorphenol o honi, oddiwrth y rhan olaf ag sydd yn diweddu y frawddeg—lle y mae y synwyr yn cael ei berffeithio.

### RSIAMPLAU.

Os nad yw y byd yn effaith damwain  $\curvearrowright$  y mae yn rhaid fod iddo Greawdwr doeth.

Er nad ydych yn gweled llawer yn feddianol ar chwaeth dda 𐌹 eto gallai y rhan amlaf o ddynolryw fod yn feddianol arni.

Cenedloedd, fel dynion, ni ffaelant yn yr un anturiaeth, â'r hon yr ymglymerant 𐌹 pan yn cael eu cynal gan amcan daionus, a phenderfyniad diysgog.

### RHEOL 1.

Y mae y gorphwysiad yn myned o flaen ac yn nodi dechreuad esgyneb (*climax*) y frawddeg.

Ac yn awr bydded i'r darlennydd gymhwyso yr holl reolau blaenorol, trwy ddarllen yn uchel y brawddegau ag y mae eisoes wedi eu darllen heb y gorphwysiadau rheithegol; ac ni bydd iddo ffaelu teimlo yr hyn a enilla mewn rhwyddineb ac effaith.

Dylent gael eu nodi fel y canlyn, o ran gorphwysiadau rheithegol:—

1. Nid oes dim yn fwy niweidiol 𐌹 i lwyddiant a dedwyddwch cenedl 𐌹 na gweinyddiaeth ansefydlog.
2. Nid ydych yn dysgwyl cael 𐌹 oddiwrth y gwneuthurwr 𐌹 yr un prysurdeb 𐌹 mewn anfon eich archeb 𐌹 ag a ddisgwylir oddiwrth y siopwr neu y nwyddfauwr.
3. Y mae yn sicr 𐌹 fod golygfeydd swynol natur 𐌹 yn dyfod yn fwy amlwg a dyddorgar 𐌹 pan yr astudir hwy 𐌹 trwy gyfryngoliaeth celfyddyd.

### RHEOL 2.

Dylid doddi y gorphwysiad canol ar ol y gair olaf o gyfres, o flaen y ferf, neu y gair sydd yn llywodraethu yr holl gyfres.

Elusengarweh 𐌹 llawenydd 𐌹 heddwch 𐌹 amynedd 𐌹 ydynt addurniadau y cristion.

Bod yn barchus o'n cydraddolion 𐌹 yn foneddigaidd wrth ein uwchraddolion 𐌹 mwyn a charedig wrth ein israddolion 𐌹 dyma y pethau pwysig mewn ymddygiad 𐌹 ag sydd yn gwahaniaethu y boneddwr 𐌹 oddiwrth yr ysgogyn.

## RHEOL 3.

Y mae y gorphwysiad canol yn cael ei arfer i nodi ymadrodd cromfachol, neu pan yr atelir y synwyr; os na bydd yr ataliad yn bur ysgafn; yn mha achos y gellir defnyddio y gorphwysiad byr.

1. Dynion o athrylith anghyffredin  $\surd$  tra y maent yn gweled y gweddill o ddynolryw  $\surd$  yn ymdrechu yn galed  $\surd$  i ddeall gwirioneddau tywyll  $\surd$  dreiddiant  $\surd$  eu hunain  $\surd$  fel mellten  $\surd$  trwy y calyniadau mwyaf pellenig.

2. Athrylith  $\surd$  balchder dyn  $\surd$  fel y mae dyn i'r greadigaeth  $\surd$  a fwynheir ond gan ychydig o ddynion.

## 3.—Y GORPHWYSIAD LLAWN —.

Y mae hwn yn nodi cwblhad neu berffeithiad y synwyr.

Y mae y diweddnod ag a ddefnyddir mewn atalnodiaeth ramadegol i nodi diwedd brawddeg neu adran, yn anigonol ac aniogel fel rheol; oblegyd y mae yn aml yn cau brawddeg pan y mae y synwyr yn parhau, ac yn cael ei gario i'r frawddeg nesaf, ac efallai i amryw ar ol hono. Yn y fath amgylchiadau, dylai y diweddnod ag sydd yn nodi diwedd y frawddeg ramadegol, gael ei wrthod mewn darllen; dylid defnyddio y gorphwysiad canol yn ei le; ac ni ddylid dwyn i mewn y gorphwysiad llawn nes y byddo y synwyr yn gyflawn, neu y cyrhaeddir esgyneb (*climax*) y frawddeg.

Cymerwch y brawddegau canlynol, yn nghyd a'u hatalnodiaeth ramadegol, fel

## ESIAMPL.

Gall rhesymegwyr siarad am ddansoddiadau, ond nis gall y dosparth lluosocaf o ddynolryw deimlo dim dyddordeb ynddynt. Rhaid iddynt gael delwan.

Yn yr uchod y mae y frawddeg fechan ag sydd yn diweddu yn meddu cysylltiad agos, ac yn ffurfio rhan

o'r gyntaf; mewn gwirionedd, y mae yn diweddu a chwblhau yr hyn sydd wedi ei ddechreu a'i osod i lawr yn y gyntaf. Eto y mae wedi ei dadgysylltu oddiwrth y rhan gyntaf trwy y diweddnod gramadegol. Dylai y frawddeg fod fel hyn, a'i darllen yn ol y gorphwysiadau rheithegol a ganlyn,—

Gall rhesymegwyr siarad am ddansoddiadau, ond nis gall y dosparth lluosocaf o ddynolryw byth deimlo dyddordeb ynddynt. Rhaid iddynt gael delwau.

#### 4.—Y GORPHWYSIAD HIR I.

Y mae yn nodi diwedd y pwnc, neu ran bwysig o hono.

Y mae yn rhagflaenu—

Y newidiad o un rhan o'r araith i ran arall;

Cwrs newydd o feddylddrychau neu ymresymiad;

Dychweliad o rhyw ran gynhyrfus i ymresymiad tawel.

Y mae y gorphwysiad hwn yn rhoddi cyfleusdra i newid tôn neu uchder y llais, yr hwn a ddichon fod wedi cael ei godi yn rhy uchel o herwydd y brwdfrydedd a deimlwyd wrth ymdrin a rhyw ran o'r pwnc, ac yn gofyn cael ei ostwng er esmwythau y llefarwr a chysur y gwrandawyr. Yn yr ystyr olaf y mae y gorphwysiad hwn o werth mawr i'r areithydd a'r gwrandawydd.

Y mae y gyfres hon o *orphwysiadau rheithegol* yn galw am sylw arbenigol yr efrydydd; oblegid gwna ei alluogi i siarad gyda nerth a dylanwad, heb gollu ei anadl, a pheri i'w wrandawyr deimlo yn anedwydd.

Yn awr bydded i'r darlennydd ddarllen yn uchel yr esiamplau canlynol,—

#### RHUF. XII.

Am hyny yr wyf yn stolwg i chwi, frodyr er trugareddau Duw, roddi o honoch eich cyrph yn aberth byw santaidd cymeradwy gan Ddau; yr hyn yw

eich rhesymol wasanaeth chwi, — ac — na chydffurfiwech a'r byd hwn: — eithr — ymnewidiwech — trwy adnewyddiad eich meddwl; — fel y profoch — beth yw daionus, — a chymeradwy — a pherffaith cwyllys Duw. = Canys — yr wyf yn dywedyd — trwy y gras a roddwyd i mi — wrth bob un a'r sydd yn eich plith, — na byddo i neb uchel-syniad — yn amgen nag y dylid syniad; — eithr — synied i sobrwydd, — fel y rhanodd Duw — i bob un — fesur ffydd. = Canys — megis y mae genym aelodau lawer — mewn un corph — ac — nad oes gan yr holl aelodau — yr un swydd. — felly — ninna, — a ni yn llawer — ydym un corph — yn Nghrist, — a phob un — yn aelodau i'w gilydd — A — chan fod i ni — amryw ddoniau — yn ol y gras a roddwyd i ni, — pa un bynag — a'i prophwydoliaeth — prophwydwn — yn ol cyssondeb y ffydd; — ai gweinidogaeth, — byddwn ddyfal yn y weinidogaeth; — neu — yr hwn — sydd yn athrawiaethu, — yn yr athrawiaeth: — neu — yr hwn — sydd yn cynghori, — yn y cynghor: — yr hwn — sydd yn llywodraethu, — mewn diwydrwydd; — yr hwn — sydd yn trugarhau, — mewn llawenydd. = Bydded cariad — yn ddiragrith. = Cashewch — y drwg — glynwch — wrth y da. = Mewn cariad brawdol — byddwch garedig i'ch gilydd; — yn rhoddi parch, — yn blaenori — eich gilydd: — nid yn ddiog — mewn diwydrwydd; — yn wresog — yn yr ysbryd; — yn gwasanaethu — yr Arglwydd: — yn llawen — mewn gobaith: — yn ddi-oddefgar — mewn cystudd; — yn dyfal barhau — mewn gweddi: — yn cyfranu — i gyfreidian y saint; — ac — yn dilyn lletygarwch. = Bendithiwech — y rhai — sydd yn eich ymlid: — bendithiwech — ac — na felldithiwech. = Byddwch lawen — gyda'r rhai — sydd lawen — ac, — wylwch — gyda'r rhai — sydd yn wylo. = Byddwch yn unfryd — a'ch gilydd: — heb roi eich meddwl ar uchel-bethau; — eithr — yn gyd-ostyngedig — a'r rhai iselradd. = Na fyddwch ddoeth-

ion a yn eich tyb eich hunain. — Na thelweh i neb a ddrwg am ddrwg. — Darperwch bethau onest a yn ngolwg pob dyn. — Os yw bosibl, a hyd y mae ynoch chwi a byddwch heddychlon a phob dyn. — Nac ymddielwch, a rai anwyl, a ond a rhoddwch le i ddigofaint: a canys a y mae yn ysgrifenedig, a i mi a y mae dial; a myfi a dalaf, a medd yr Arglwydd. a Am hyny a os dy elyn a newyna a portha ef; a os sycheda a dyro iddo ddiod; a canys a wrth wneuthur hyn, a ti a bentryi a farwor tanllyd a ar ei ben ef. — Na orchfyger di a gan ddrygioni a eithr gorchfyga di ddrygioni a trwy ddaioni. —

## PSALM XIX.

Y nefoedd a sydd yn datgan a gogoniant Daw, a a'r ffurfafen a sydd yn mynegu a gwaith ei ddwyllaw ef. a Dydd a i ddydd a draetha ymadrodd, a a nos i nos a ddengys wybodaeth. — Nid oes iaith a nac a ymadrodd, a lle a ni chlybuwyd eu lleferydd hwynt. a Eu llinyn a aeth a trwy yr holl ddaear, a a'u geiriau a hyd eithafoedd y byd: a i'r haul a y gosododd efe babelld ynddynt: a yr hwn a fel gŵr priod a yn dyfod allan a o'i ystafell; a ac a a ymlawenha a fel cawr a i redeg gyrfa. — O eithaf y nefoedd a y mae ei fynediad ef allan, a a'i amgylchiad a hyd eu heithafoedd hwynt; a nid ymgudd dim a oddiwrth ei wres ef. ■ Cyfraith yr Arglwydd a sydd berffaith, a yn troi yr enaid; a tystiolaeth yr Arglwydd a sydd sier, a ac a yn gwneuthur y gwirion a yn ddoeth. — Deddfau yr Arglwydd a sydd uniawn, a yn llawenhau y galon: a gorchymyn yr Arglwydd a sydd bur, a yn goleno y llygaid. — Ofn yr Arglwydd a sydd lân a yn parhau a yn dragywydd. — Barnau yr Arglwydd a ydynt wirionedd, a cyfiawn ydynt i gyd. a Mwy dymunol ŷnt a nag aur coeth a lawer: —

melusach a hefyd a na'r mêl a ac a na diferiad a diliau  
 mêl. Ynddynt hwy a hefyd a y rhybuddir dy was; a  
 o'u cadw a y mae gwobr lawer. = Pwy a ddeall ei gam-  
 weddau? = Glânha fi a oddiwrth fy meiau cuddiedig. =  
 Attal a hefyd a dy was a oddiwrth bechodau rhyfygus; a  
 na arglwyddiaethont arnaf: a yna a y'm perffeithir a ac a  
 y'm glânheir a oddiwrth anwiredd lawer. = Bydded a ym-  
 adroddion fy ngenau, a a a myfyrdod fy nghalon a yn  
 gymeradwy a ger dy fron, a O a Arglwydd, a fy nghraig, a  
 a'm prynwr. =

## LLAWENYDD A DIGRIFWCH.

Yr wyf bob amser wedi dewis llawenydd a o flaen digrif-  
 wch a Ystyriaf yr olaf fel gweithred a y blaenaf a fel cyn-  
 neddf yn y meddwl a Mae digrifwch a yn fyr a diflanol, a  
 llawenydd a yn sefydlog a pharhaus a Yn aml a y rhai a  
 ymgodant i uchder digrifwch a yw y rhai mwyaf tueddol o  
 gael eu gorlethu gan ddigalondid: a i'r gwrthwyneb, a y  
 mae dedwyddwch a er nad yw yn codi dyn i'r fath eithafion  
 o sirioldeb, a yn ei gadw rhag syrthio i'r fath gyflwr o iselder  
 ysbryd a Mae digrifwch a fel flachiad mellten a yn tori  
 trwy y cymylau caddugol a ac yn disgleirio am foment; a  
 ond a dedwyddwch a sydd oleuni parhaus yn y meddwl, a  
 canol-ddydd gwastadol a digwmwl. =



## PENNOD III.

## ACENIAD.

Y MAE y llais dynol yn debyg i offeryn cerdd—organ: wedi ei gwneuthur gan law gywrain y Creawdydd Holl-ddoeth. Y mae ganddo ei fegin, ei bibau; a phan y byddo yn gwybod pa fodd i'w drin yn briodol, dyga allan y gerddoriaeth felusaf. Y mae ganddo ei *gamut*; ei gyweirsain—ei dônau—ei haner-tônau—a phobpeth er ei wneyd yn gyflawn. Gall siarad mor esmwyth a'r awel yn chwythu dros wely o berlysiau, neu mor uchel a'r udgorn; gall chwareu ar nodyn melus cariad, ac efelychu rhwad yr ystorm; mewn gair, gall ei droi i fyny ac i lawr—yn esmwyth a chryf, fel ag y myn, a hyny yn llawer cywirach na'r un offeryn cerdd a wnawd erioed. A'r gelfyddyd sydd yn enill y gerddoriaeth hon oddiar y tanau yw AREITHYDDIAETH. Y mae yn rhaid cyraedd perffeithrwydd yn y gelfyddyd hon o rîs i rîs, trwy ymarferiad diffino.

Yn bresenol, gadewch i ni ddysgu y *cyfodiad* a'r *disgyniad* syml—dywedwch un dôn mewn cerddoriaeth, i fyny ac i lawr. Y mae y *disgyniad* a'r *cyfodiad* hwn yn cael ei alw gan areithwyr, Aceniad, ac y mae ganddynt ddau o

## ACENIADAU SYML.

Yr *Acen Esgynol*, wedi ei nodi gydag acen ddyrchafedig, fel hyn —

Yr *Acen Ddisgynol*, fel hyn —


Gall yr efrydydd bob amser, wrth ei ewyllys, daro yr aceniadau hyn gyda sicrwydd a rhwyddineb, trwy ofyn iddo ei hun y gofyniad canlynol, yr hwn ni ellir braidd ei siarad heb wneyd yr aceniadau yn eglur, fel y maent wedi eu doddi:—

## ESIAMPL.

A ddarfu'm godi ynte gostwng?

Yn yr hwn y mae yr acen dderchafedig yn digwydd ar y gair *codi*, a'r acen ddisgynol ar y gair *gostwng*. Y mae yn anmhosibl i chwi eu hanghofio, a gwasanaethant fel agoriad i chwi i'r ddwy acen syml hon.

Y mae hwn a gofyniadau cyffelyb yn rhedeg ar raddeb (*scale*) esgynol a disgynol y llais, ac a ellir arddangos neu egluro, fel hyn,—



Yn mha un y mae y llais yn gostwng ar "*a ddarfu'm*" —yn codi ar "*godi*,"—y llais yn y man uwchaf ar "*ynte*," ac yn gostwng yn uniongyrchol ar "*gostwng*."


Y mae yr acen dderchafedig yn amrywio yn ei chylch cyffredin o *un* i *dair* tôn. Y mae y codiad yn cynyddu fel y mae llais y siaradwr yn ychwanegu. Mewn siarad cyffredin, pan nad oes dim yn galw am sylw neillduol, ni bydd y codiad yn fwy nag un dôn. Y fath ofyniad, er esiampl, a

A ddaw fy mrawd?

yn cael ei ofyn yn *ddibwys*, a dderbynia godiad o *un* dôn: yn cael ei ofyn gyda dyddordeb, a dderbynia godiad o *dair* tôn: yn cael ei ofyn yn bryderus, a goda i *bump* tôn; a phan yn cael ei ofyn mewn dychryn neu ryfeddod, a goda hyd yn nod yr *wythfed*; ond wrth siarad neu ddarllen gyda gradd o nerth, y mae yr aceniad derchafedig syml yn gyffredin yn *dair* tôn (*y drydydd*), a'r acen ddisgynol yr un hyd. Ac y mae newidiad y cyweirsain yn uniongyrchol; hynny yw, y mae y llais yn myned yn sydyn o'r naill dôn i'r llall.

I hyrwyddo a chynefino clust y darlennydd â'r gwanhaniaeth rhwng yr acen dderchafedig a'r un ddisgynol, bydded iddo arfer ei hun i wahaniaethu rhyngddynt trwy redeg dros yr esiamplau canlynol.

Bydd i'r ymarferiad fod o wasanaeth mawr iddo i wellhau tôn ei lais, a'i wneyd yn ystwyth a llyfn. Dylai yr efrydydd ei arfer nes gallu taro y drydydd i *fyny* ac i *lawr*, yn rhwydd, eglur, a chyda sierwydd.



## ACENIADAU I NODI Y SYNWYR.

Y mae y cynghor cyffredin a phoblogaidd—*gostymgwch eich llais ar ddiwedd y frawddeg*—yn ddisynwyr ac anghywir; ac wedi bod yn achos o ddysgu drwgarferiad i lawer dyn ieuange; a rhywfodd neu gilydd ar ol dechreu ar ambell i ddrwg arfer, y mae cystal gan ddyn gael tynu ei glust a'i adael. Fel yna y mae gyda'r arferiad ffôl a chlogyrnaidd o ostwng y llais ar ddiwedd pob brawddeg. Yr effaith uniongyrchol o hyn, trwy i'r siaradwr neu y darllenwr ddweyd y geiriau diweddaf yn isel a diofal, yw fod y synwyr yn aml iawn yn cael ei golli i'r gwrandawydd, am y rheswm da, na chlywodd y frawddeg i gyd. O bob bai, gochelwch hwn. Y mae geiriau diweddaf pob brawddeg mor bwysig a'r rhai sydd yn y dechreu,—ac yn gyffredin y maent yn fwy felly: gan hynt bydded iddynt gael eu llawn swnio bob amser, neu bydd eich nerth gael ei golli a'r synwyr ei gymylu.

Y mae yr aceniad priodol ar ddiwedd brawddeg yn dibynnu ar ei ffurf a'i natur: pa un a fyddo yn un gadarnhaol, nacaol, neu gofynol; neu pa un a ydyw y synwyr wedi ei gwblhau neu ei ohirio; oblegid, fel rheol, llywodraethu y *brawddegau anorphenol* y mae yr acen dderchafedig, fel y mae yr un ddisgynol yn dangos *gorpheniad* neu *gwblhad synwyr* y frawddeg; ac y mae yr acen ofynol yn cael ei *phenderfynu* gan y *synwyr*.

## RHEOLAU.

1. Y mae geiriau ag sydd yn **GADARNHAOL**, yn gofyn yr acen ddisgynol, fel—

Yr wyf newydd ddychwelyd; bum yn mhell.

Gorchfygodd Iwl Caisar yn Pharsalia.

Y mae yr hin yn hyfryd.

2. Y mae brawddegau **NEGYDDOL** yn cymeryd yr *acen dderchafedig*; fel—

Nid wyf yn dyfod, gyfeillion, i'ch drygu.

Nid yw yr afalau yn addfed.

Nid dyma y llyfr sydd arnaf eisiau.

Nid yw cariad yn ofnus.

Ni fu'm yn glaf.

Sylwer fod yr acen i'w doddi ar y gair neu y syniad *negyddol*; ond pan y mae y brawddegau o natur y rhai canlynol, dodder yr acen ostyngol ar y gair sydd yn negyddu y frawddeg

Ni *wnaf* aros.

Nid fy llyfr i yw hwn.

Ni *ddarfu* i mi wadu.

Ni *wnaf* eich credu.

3. Pan y mae brawddeg yn cynwys cadarnhad a negyddiad, bydded i chwi ddodi yr *acen ostyngol* ar y rhan gadarnhaol, a'r *acen dderchafedig* ar y rhan negyddol; fel

Dywedais da, nid drwg; rhinweddol, nid anfoesol.

Condemniwyd ef am ei droseddau, nid am olygiadau gwladyddol.

Fy llyfr i yw hwn, ac nid eiddo chwi.

Eich llythyr chwi yw hwn, ac nid fy eiddo i.

Nid adeg i wencithio yw y presenol; ond i siarad y gwir yn onest.

Dywedasoch eich bod yn dyfod gartref, ond ni ddaethoch, cymerasoch ffordd arall.

Naddo; nid aethum.

Ond adran gadarnhaol, yn ffurfio rhan o'r holl ymadrodd negyddol, a ofyna yr acen esgynol, fel.—

Ni chondemnir ni am ddweyd y gwir; hyny yw, ni wna ein gwaith yn siarad y gwir ein condemnio.

Ni chospwyd ef oherwydd ei olygiadau gwleidyddol; hyny yw, nid oherwydd ei olygiadau gwleidyddol y condemnwyd ef.

Byddai y darlleniad yn hollol wahanol pe buasai yr un frawddeg yn cael ei bwriadu i fod yn gadarnhaol, er yn cymeryd lle mewn ymadrodd negyddol: fel,—

Ni chondemnir ni am ddweyd y gwir: hyny yw, bydd i'r gwir ein dyogelu.

Ni chospwyd ef am ei olygiadau gwleidyddol: hyny yw, ei olygiadau gwleidyddol a'i cadwodd rhag cael ei gosbi.

4. Y mae y MODD GORCHYMYNOL yn gofyn yr aceniad gostyngol:

Na thwng ddim.

Cytuna a'th wrthwynebydd ar frys.

Na ladrata.

Siaradwch! yr wyf yn cich tyngbedu!

Ni wrandawaf ychwaneg.

Ymaith! adyn truenus.

5. Mewn HOLIAD yr acen esgynol a ddefnyddir:

A ddywedodd ef y deuai?

Sut felly?

Tŷ pwy yw hwn?

Pa bryd y daw yma?

Y mae y rhan *ddewisiadol* o ofyniad yn galw am yr acen ddisgynol, fel,—

A wna fyw y ynte marw?

A ddarfu iddo ddweyd y deuai y ai dweyd ddarfu na ddeuai?

Ond mewn ymadroddion fel y canlyn, pan y mae y cysylltair *neu* yn cael ei ddefnyddio, dodir yr acen esgynol ar y ddau air a gysylltir â'r *neu*, fel,—

“A gasgl rhai rawnwin oddiar ddrain, neu ffigys oddiar ysgall?”

A ddaw canwyll i'w doddi dan lestr, neu dan wely?

A all ūs foddioni enaid anfarwol?

A wna gweniaith gadw angen draw?

Yn yr esiamplau uchod, y mae y cysylltair yn cael ei ddefnyddio i uno ymadroddion cyffelyb, ac nid i wahanu rhai anhebyg. Y mae areithwyr galluog yn colli golwg ar hyn, a thrwy hyny yn darllen yn anghywir.

Pan y mae cwestiwn yn digwydd mewn brawddeg gadarnhaol, dodir yr acen ostyngol, fel,—

Y gofyniad yw—a lwyddwn?

Y mae yn dymuno arnaf ofyn i chwi—a wnewch chwi ymdrechu?

Pan y mae y fath ofyniadau yn digwydd mewn brawddegau negyddol neu holiadol, dodir yr aceniad ag sydd yn briodol i'r frawddeg, fel,—

A ewch o amgylch, gan ofyn y naill i'r llall—pa newyddion?

Ni ofynais—pa newyddion?

## PENNOD IV.

## PWYSLEISIAD.

Y MAE pwysleisiad yn llanw yr un lle mewn brawddeg-  
au ag a wna aceniad mewn geiriau. Aceniad yw y  
gadwyn ag sydd yn cysylltu sillafau â'u gilydd, a'u  
ffurfio yn eiriau, a phwysleisiad yn cysylltu geiriau, a'u  
gwneyd yn frawddegau. Y mae aceniad yn rhoddi  
pwysigrwydd ar y sill a noda; a phwysleisiad a osoda  
bwys ar y gair, ac yn ei gyflwyno gyda mwy o nerth i'r  
gwrandawydd.

Dylid bod yn ofalus i beidio pwysleisio gormod o eir-  
iau yn yr un frawddeg, gan mai eu defnyddio yn gynil  
a'u gwna yn effeithiol.

Y mae dylanwad pwysleisiad i gryfhau neu newid  
meddwl unrhyw frawddeg yn fawr; ac y mae gallu eu  
defnyddio yn briodol yn ychwanegu yn fawr at nerth  
a dylanwad yr hyn a ddywedir; am hynny y gelwir rhai  
siaradwyr yn areithwyr pwysleisiol, am fod eu dull yn  
ddydanwadol a miniog. Ond nid yw pwysleisiad yn  
golygu *dâl* neu *bwys* o llais; ond gwneir ef i fynny o  
*bwys* ac *aceniad*.

Y mae dau fath o bwysleisiad,—

1. *Pwysleisiad y SYNWYR.*

2. *Pwysleisiad y TEIMLAD.*

1. *Pwysleisiad y SYNWYR* yw y pwysleisiad hwnw  
sydd yn nodi neu yn dangos synwyr y frawddeg; a'r  
hwn, trwy ei symud o'r naill air i'r llall sydd yn gallu  
newid meddwl neu arwyddocâd neillduol y frawddeg  
hono. Mewn geiriau ereill, y mae yn golygu gosod ar  
y gair neillduol ag sydd yn llywodraethu synwyr y  
frawddeg, neu aelod o frawddeg, yr aceniad a ofynir



gan y cyfryw frawddeg, a rhoddi grym neu bwysleisiad ar y fath aceniad:—y mae y gair a nodir felly yn cael ei alw y *gair pwysleisiol*.

Yr wyf yn defnyddio y llinell hon (—) i ddangos pwysleisiad, wedi ei rhoddi o *dan* y gair, fel hyn,—

Siaradodd dros grefydd, nid yn ei herbyn.

Fy llyfr i yw hwn, dyna'ch un chwi.

#### RHEOL.

I wneyd i bwysleisiad y synwyr daflu yr aceniad priodol ar y frawddeg, neu aelod o honi; hyny yw, rhoddi mwy o bwys ar yr aceniad esgynol neu ddisgynol, fel y byddo yr achos yn galw.

Fel hyn,

Y mae y frawddeg ymfynol ganlynol yn galw am yr aceniad esgynol. Yn awr, wrth roddi yr aceniad ar *un gair*, ac ar yr un pryd roddi *pwys* neu *rym* ar yr aceniad, bydd y synwyr yn cael ei bwysleisio ar y gair neillduol hwnw; ac fel y mae yr aceniad yn cael ei symud o'r naill i'r llall, y mae pwysleisiad y synwyr yn cael ei symud ar yr un geiriau.

A ddarfu i chwi gerdded gartref heddyw ?  
neu,

A ddarfu i chwi gerdded gartref heddyw ?  
neu,

A ddarfu i chwi gerdded gartref heddyw ?  
neu,

A ddarfu i chwi gerdded gartref heddyw ?

A ddarfu i chwi gerdded gartref heddyw ?

Y mae pwysleisiad y synwyr, gan hyny, yn dangos aceniad neu feddwl y frawddeg, neu aelod o honi, ar ryw air neillduol: ac y mae yr aceniad yn esgynol neu

ddisgynol yn ol y rheol ag sydd yn gymhwysedig at y frawddeg neillduol, neu aelod o honi, yn yr hon y mae y gair yn digwydd.

Yn awr, meddylwch fod y cwestiwn blaenorol yn cael ei ofyn yn ddifater, heb amcan yn y byd ond er cael rhywbeth i'w ddweyd, ni byddai yr aceniad ofyniadol ar ddiwedd y frawddeg yn uwch na haner tŷn; ond pe byddai yr ymofyniad yn cael ei wneyd gyda dyben neillduol, byddai i'r acen esgyn i fyny yn uwch, yn ol fel y byddo pwys yr ymofyniad yn gofyn.

2. *Pwysleisiad y TEIMLAD*, yw y pwysleisiad hwnw a ddefnyddir gan y siaradwr i ychwanegu *pwys* ar ryw syniad neu air; nid am fod synwyr neu feddwl y peth a gyfleir yn gofyn hyny, ond am fod ei deimlad ef ei hun yn annog hyny.

## RHEOL.

Y mae pwysleisiad y teimlad bob amser yn cael ei ddangos gydag *aceniad ddisgynol*.

## ESIAMPLAU.

Allech chwi fod mor greulon?

[Yn golygu. A ydyw yn bosibl? *Yr wyf un rhyfeddu* i chwi allu bod, &c.]

Allech chwi fod mor greulon?

[Hyny yw, mor hynod o greulon.]

Ni ddywedais felly.

[Hyny yw, yr wyf yn ei wadu yn y modd mwyaf pendant.]

Y mae y brawddegau hyn—gofynol a negyddol—wrth reol gyffredin, yn gofyn yr aceniad esgynol; ond y mae pwysleisiad y teimlad yn cael ei ddodi ar y gair *allech*, neu *creulon*, a *ni*, yn rhoddi iddynt yr aceniad disgynol, heb effeithio y synwyr mewn modd yn y byd, er ei fod yn rhoddi *grym* i amcan y *siaradydd*.

Y mae pwysleisiad y teimlad wrth ei ddodi ar gysyllt-air, neu air dibwys arall, yn rhoddi nerth neillduol i'r frawddeg; fel,—

Gellwch gymeryd eich cwrs eich hun yn y mater os dymunwch, ond ¶ bydd i chwi ddyoddef canlyniad eich ffolineb.

Y mae y pwysleisiad a ddodir fel hyn ar “ond” yn rhoddi grym neillduol arno; fel pe buasai y siaradwr yn dweyd, “Cofiwch, yr wyf fi wedi eich rhybuddio.”

## RHEOL.

Pan y mae pwysleisiad y teimlad yn cael ei ddwyn i frawddeg fynegiadol mewn ffurf gadarnhäol, a'i dodi ar y ferf a lywodraetha yr aceniad esgynol ar y frawddeg neu yr adran wrthddrychol.

Wrth yru yn mlaen anturiaeth ddaionus, y mae y dyn gwrol yn diystyru perygl ac anhawsdra.

Wrth acenu a phwysleisio brawddeg fel hyn, nid yw ond gwir digon amlwg o hono ei hun; ond os byddaf fi, neu gyfaill, yn ymgymeryd â rhyw anturiaeth er lles y cyhoedd, heb fod yn amddifad o berygl iddo ef neu i mi, a'r gwrthwynebydd yn ameu a fydd i ni allu cyraedd yr amcan trwy y peryglon a'r rhwystrau sydd yn ein gwrthwynebu; ac yna, pe buaswn wrth ei wrthwynebu, yn defnyddio y frawddeg uchod, buaswn yn dangos fy niystyrwch o'r meddylddrith o ddiffyg penderfyniad a awgrymwyd, trwy roddi pwysleisiad y teimlad ar y gair “*diystyru*,” a darllenai y frawddeg fel hyn:—

Wrth yru yn mlaen anturiaeth ddaionus, y mae y dyn gwrol ¶ yn diystyru ¶ perygl ac anhawsdra.

Felly, os bydd i'r frawddeg gael ei newid, bydd i'r aceniad esgynol ei diweddu, ar ol pwysleisiad y teimlad.

Wrth yru yn mlaen anturiaeth ddaionus, y mae perygl ac anhawsdra yn cael ei ddiystyru 7 gan y dyn gwrol.

Eto,—

Dyn gwrol a ddiystyra berygl ac anhawsdra, wrth yru yn mlaen anturiaeth ddaionus

Cedwch mewn golwg, ynte, fod pwysleisiad y teimlad yma yn cael ei wneyd yn annibynol ar, ac yn uwch na, holl reolau aceniad, y rhai a lywodraetha.

Y mae pwysleisiad y teimlad rai gweithiau yn cael ei ddyblu; fel,—

Allech chwi fod mor greulon?

Yn mha un y mae y pwys wedi ei daflu ar y ddau air, ac yn arwyddo cymaint a phe dywedai yr areithydd,—

A ydyw yn bosibl eich bod yr hyn a ystyriaf mor ofnadwy greulon.

Y mae hefyd yr hyn a elwir pwysleisiad *pentyrol*; pan y mae y pwysleisiad yn cael ei bentyru ar amryw eiriau agos i'w gilydd; fel,—

Dywedaf wrthyh, na wnaf fi ef; ni wna dim ar y ddae  
fy mherswadio.

Dyma y dull cryfaf o bwysleisiad a ellir ddefnyddio. Egluraf ef yn fanylach eto.

---

#### NODIAD.

Dylid peidio defnyddio y pwysleisiad hwn yn rhy aml, nid yn unig oherwydd ei fod yn effeithio yn annymunol ar y glust, ond yn tueddu i ddinystri o nerth y frawddeg, trwy ei dweyd yn rhy aml. Dylai fod digon

o amrywiaeth o aceniadau a phwysleisiadau yn mhob peth a ddarllenir neu a draddodir: ac y mae yr hwn sydd yn curu yn barhaus ar y geiriau yn sier o fod yn boen iddo ei hun a'r rhai fyddo yn gwrando. Dylai drin ei frawddegau yn ddeheuig a thyner, meddai Shaksperé. Gorbwysleisiad yw y graig sydd o flaen y darllenwr neu yr areithiwr ieuange, ac er mwyn pob peth, dylai ei osgoi.

#### BRAWDDEGAU RHYDDION.

Yr hyn a feddyliwn wrth gyfannod (*period*), yw y brawddegau hyny pan y mae y synwyr yn cael ei ohirio neu ei gadw hyd y diwedd. Y mae brawddeg rydd, o'r tu arall, yn wrthgyferbyniol i gyfannod; y rhai hyny ag y mae eu gwneuthuriad yn caniatâu iddo aros ar yr haner, a chael synwyr cyflawn cyn cyrhaedd y diwedd. —*Elements of Rhetoric*, gan DR. WHATELY, Rhan III., Pen. ii., Dos. 12.

Gan dderbyn y diffyniadau uchod, y mae yn angenrheidiol sylwi ar rai rheolau cyffredinol er acenu brawddegau syml, cyfannodau, a brawddegau rhyddion, y rhai a wnant eu traddodiad yn hawdd i'r siaradwr, ac yn hawdd i'w ddilyn gan y gwrandawydd.

“Y mae parhad annysgwyliadwy brawddeg, yr hon a feddylia y darlennydd oedd wedi ei gorphen, yn neillduol, os wrth ddarllen yn gyhoeddus, ei fod, o dan y dybiaeth hono, wedi gostwng ei lais, yn cynyrchu teimlad hynod yn ei feddwl, tebyg i'r teimlad annedwydd wrth fyned i fyny grisiau pan y cawn fod yno un gris yn fwy nag a ddisgwyliasom: as os bydd i hyn gael ei wneyd yn aml mewn brawddeg rydd, y mae yna fath o deimlad o ansicrwydd poenus yn cael ei brofi.”

Yn awr y mae hyn yn berffaith gywir; ac y mae y syniad o gam gwag ar y grisiau yn un ag sydd yn cy-

nwys llawer iawn o feddwl, ac yn ddarluniad perffaith o'r darlennydd ag sydd yn rhyw gamu a syrthio wrth fyned trwy y frawddeg. Y mae bod gormod o frawddegau o'r natur yma mewn cyfansoddiad, yn fai, nid oes dim dwywaith; ond gall y darlennydd medrus wneyd i'r frawddeg fwyaf rhydd i aros wrth ei gilydd, gyda gradd o gysonrwydd, ac felly i guddio ei gerwinder.

Cymeraf yr esiampl ganlynol a rydd Dr. Whately fel brawddeg hynod o rydd; yn yr hon, fel y sylwa, nid oes lai na phump o leoedd wedi eu gwahanu gan *dashes* (—) wrth ba un y gellid aros a therfynu y frawddeg, ac iddi fod yn eithaf gramadegol.

Dyma *esiampl* Dr. Whately o frawddeg rydd:

Daethom i ben ein taith—o'r diwedd—trwy drafferth fawr—heb ychydig o flinder—trwy ffyrdd dwfn—a thywydd drwg.

Yn awr, gall y frawddeg uchod, er mor wasgarog a rhydd, gael ei darllen a'i thraddodi fel ag i ymddangos yn gryno ac esmwyth; fel hyn,—

Daethom i ben ein taith o'r diwedd, trwy drafferth fawr—heb ychydig o flinder—trwy ffyrdd dwfn a thywydd drwg.

Gwell genym ni y darlleniad fel uchod, am ei fod yn hawddach ac yn fwy naturiol na'r dull y dodir hi gan Dr. Whately; fel hyn,—

O'r diwedd, ar ol llawer o flinder, trwy ffyrdd dwfn, a thywydd drwg, daethom gyda thrafferth fawr, i ben ein taith.

Y mae yn rhaid i bob un, yr wyf yn meddwl, deimlo fod y gyfannod hon yn rhy ffurfiol ac anystwyth o lawer i ateb i'r frawddeg. O'm rhan fy hun, yr wyf yn dâl fod brawddegau rhyddion, wrth eu defnyddio yn gynil a phriodol, yn ychwanegu yn fawr at nerth yr ymadrodd, ac yn rhoddi ymddangosiad ddifyfyr iddi: tra y mae defnyddiad y gyfannod yn rhoddi sŵn ffurfiolaeth. Y mae yn gorphwys ar y darlennydd neu yr

areithydd i gyfranu esmwythder a phrydfferthwch i'r frawddeg fwyaf rhydd, ac i beri iddi lithro dros y tafod mor rhydd a'r dwfr.

Meddyliwch fod y "*dashes*" a ddefnyddir gan Dr. Whately yn golygu gostwng y llais wrth bob "*dash*," yna cawn y frawddeg yn esiampl berffaith o ddarlleniad anghywir, a bydd yn swnio yn affafar iawn ar glust y gwrandawydd; fel hyn,—

Daethom i ben ein taith—o'r diwedd—trwy drafferth fawr—  
heb ychydig o flinder—trwy ffyrdd dwfn—a thywydd drwg.

Yn awr, y mae llawer iawn yn darllen fel yna,—mewn dull afser ac ansicr—personau, hefyd, ag sydd yn deall pa beth a ddarllenant, ond heb allu (oherwydd diffyg trefn) cyfleu y meddwl hwnw i ereill.

Sylwch, ynte, yn y lle cyntaf, fod gwahaniaeth rhwng *ataliad y llais*—wrth yr hyn yr wyf yn golygu, dâl i fyny y llais heb ei ostwng—ac *aceniad esgynol*, wrth yr hyn y meddylir, fel y sylwyd yn barod, *ddyrchafiad y llais*.

Y mae aceniad yn nodi ac yn dangos y meddwl, ac yn nodi pegynau y synwyr; y mae ataliad y llais yn dilyn ataliad y synwyr tra y mae y frawddeg yn cael ei ffurfio; ac y mae yr aceniad esgynol yn dangos y man uchaf y gall ataliad y llais gyrhaedd; ac y mae perffeithiad y synwyr yn cael ei nodi gan yr aceniad *esgynol*.

Wrth darllen neu siarad yn ddifrifol y mae yr aceniadau hyn o dair gradd, yn esgyn neu ddisgyn yn olynol.

---

#### ESIAMPLAU O'R CYFANNODAU A'R BRAWDDEGAU RHYDDION.

Y mae y rhai hyn ag sydd mewn angen <sup>—</sup> yn natariol yn chwilio am gynaliaeth mewn lleoedd ereill.

1. Y mae iawn-y<sup>u</sup>md<sup>u</sup>dygiad, <sup>u</sup>
  
yn hardd yn mhawb <sup>u</sup>
  
a phob amser yn boddhau.
2. Y mae iawn-y<sup>u</sup>md<sup>u</sup>dygiad <sup>u</sup>
  
yn hardd yn mhawb <sup>u</sup>
  
yn neillduol mewn tywysogion <sup>u</sup>
  
a phob amser yn boddhau.
3. Y mae iawn-y<sup>u</sup>md<sup>u</sup>dygiad <sup>u</sup>
  
yn hardd yn mhawb <sup>u</sup>
  
ond i dywysogion <sup>u</sup>
  
y mae yn anhebgorol <sup>u</sup>
  
a phob amser yn boddhau.

## ESIAMPLAU PELLACH AR ACENIAD A PHWYSLEISIAD.

1. Yr wyf yn byw yn Llundain,—dinas ardderchog.
2. Ac yn awr y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad—a'r tri hyn.
3. Siaradodd dros, nid yn erbyn crefydd.
4. Fel y mae dwfr yn wrthwynebol i dan, felly y mae rhinwedd i bechod.
5. A fydd i ni ddewis afiechyd yn hytrach nag iechyd? bywyd nag angeu? caethiwed na rhyddid?
6. Pan y mae rheswm yn erbyn dyn, bydd ef yn erbyn rheswm.



7. Nid yw erledigaeth yn ddrwg, am ei bod yn greulon;  
ond yn greulon am ei bod yn ddrwg.
8. Ffydd, (1)  
    gobaith, (2)  
        a chariad, (3)  
            ydynt y prif rinweddau.
9. Bydded i ffydd, (1)  
    gobaith, (2)  
        cariad, (3)  
            heddwch, (4)  
                ac amynedd (5)  
                    feddianu eich eneidiau.
10. Y prif rinweddau ydynt,  
    ffydd (1)  
        gobaith (2)  
            a chariad. (3)
11. Meddianer eich eneidiau gan,  
    ffydd, (1)  
        gobaith, (2)  
            cariad, (3)  
                heddwch, (4)  
                    a llawenydd ! (5)
12. I orchfygu, i gaethiwo, i orthrymu, i ddinystrio, ei  
    gyd-ddynion (1)  
    ydyw buddugoliaeth y penllywydd anwaraidd. (2)  
    I ryddhau, i amddiffyn, i welldhau, ac i'w bendithio  
    hwynt (3)  
    ydyw gogoniant y tywosog doeth.

## PENNOD V.

## Y LLAIS.

Y MAE gan bob person lais naturiol, yn gwahaniaethu oddiwrth eiddo pawb arall. Y mae yn perthyn iddo dri cyweirsain—yr uchel, yr isel, a'r canol,—yr olaf a ddefnyddir fwyaf mewn ymddiddan cyffredin. Yn awr, gallwn siarad yn is neu yn uwch er bod un o'r cyweirseiniau hyn heb newid y sain, hyny yw, gallwn ychwanegu eu grym heb newid tŷn y llais. Gall y peirianau llafar naturiol gael eu cryfhau a'u gwella i raddau helaeth; gall y llais garw gael ei dyneru, ei wendid gael ei symud, a'i ragoricithau gael eu dadblygu, trwy ymarferiad cyson. Y cyweirsain canol a ddylid ddefnyddio yn gyffredin, oblegid ei fod yn gryfach ac yn fwy ystywyth oddiwrth arferiad cyffredin, ac am y gallwn godi neu ostwng o'r cyweirnod hwn i un uwch neu is gyda mwy o rwyddineb a chysonder.

Y mae y rhai ag nad ydynt yn arfer a siarad yn gyhoeddus, yn gyffredin yn myned i eithafion gyda'u lleisiau; naill ai trwy ddechreu mewn tŷn isel, ac felly yn anhosibl eu clywed, neu ynte wrth geisio ysgoi hyny, y maent yn rhedeg mor uchel ag y gallant; ac felly yn blino eu hunain, fel y mae crygni neu flinder yn dilyn.

O dan bob amgylchiad dylid cymhwyso y llais i'r ystafell y mae i gael ei arfer, ac i nifer y gwrandawyr; ac i arfer ar bob achos, mor bell ag y byddo yn bosibl, y llais arferol; wrth dalu sylw i hyn ysgoir uffurfaeth. Dylid cofio y gellir cyfodi y llais wrth ewyllys mor uchel ag yr â yn naturiol, ond fod eisiau ychydig gelfyddyd a llawer o ymarferiad i'w ostwng yn araf a chywir pan y mae unwaith wedi ei godi yn rhy uchel; gwell gan hyny yw dechreu yn rhy isel na rhy uchel.

Dylid bod yn ofalus iawn wrth ddysgu y nodau isel; ychydig o siaradwyr sydd yn gallu eu defnyddio yn briodol. Dywedir fod sisialiad y chwareuwaig enwog, Mrs. Siddons, pan yn y cymeriad o Lady Macbeth, i'w glywed yn y cwr pellaf o'r chwareudy, ac wedi cynyrchu mwy o deimlad na'r llais uchaf a mwyaf cynhyrfus.

Y mae Awstin, wrth siarad ar y pwnc hwn, yn dweyd:—"Nis gall yr hwn ag sydd yn feddianol ar lais naturiol aflafar, ddim gobeithio ei wella ar unwaith; y mae yn rhaid iddo wneyd hynny yn raddol a chyda llawer o arferiad. Dylai arfer ei hun bob dydd i ddarllen neu siarad, ac os yn bosibl, mewn ystafell fawr, gan gryfhau ei lais yn raddol; oblegid y mae yn hawdd iddo gynyddu yn raddol yn hyn, fel yn mhob peth arall, pan y mae codiad sydyn yn anmhosibl; a bydd i bob codiad a enillo, ei alluogi i fyned yn ei flaen i'r radd nesaf. Pan y cyrhaeddo y nôd hwnw ag na allo fyned heibio iddo heb ddirdynu ei lais ac achosi poen iddo ei hun, yno bydded iddo aros; ac yn y cywair hwnw, neu ychydig yn is, bydded iddo ymarfer, nes y byddo wedi blino."

Dywedir fod Garrick, Mrs. Siddons, a llawer o siaradwyr enwog ereill, yn arfer efrydu y darnau ag oedd ganddynt i'w hadrodd, ynghyd â'r tônau a'r pwysleisiadau a ddefnyddient pan yn eu dweyd yn gyhoeddus. Yr oedd y dull hwn hefyd yn cael ei arfer gan yr henafiaid. Gallwn ei egluro gyda y chwedl ganlynol, a gymerwyd o Plutarch:—Yr oedd gan eiliwr yn Rhufain biöden o alluoedd hynod; yr oedd ei thalent gerddorol yn falchder ei pherchenog, ac yn rhyfeddod ei gwsmeriaid; yn ei gallu efelychiadol yr oedd yn drech na holl adar y gymydogaeath. Un diwrnod safodd angladd gŵr cyfoethog yn agos i ddrws yr eillydd, a chanwyd dernyn o gerddoriaeth o natur hynod bruddaidd ac aruchel; yr oedd y biöden yn gwrando gydag

astudrwydd mawr, ac am ddyddiau lawer ar ol hyny yr oedd yn berffaith ddistaw. Yr oedd yr eilliwr mewn cyflwr hynod o'r digalon, a phenderfynodd fod y gerddoriaeth wedi byddaru ei drysor, ac wedi diffodd tân ei hathrylith am byth; ond er ei fawr syndod a'i ddirfawr lawenydd, ar y pedwerydd dydd dechreuodd y cerddor bychan efelychu y dôn ag oedd wedi glywed, ac aeth trwyddi mewn dull meistrolgar; felly yr oedd ei distawrwydd wedi ei achosi trwy ei bod yn dysgu y dôn yn ddistaw.

Y mae goslef y llais o'r pwys mwyaf. Er engraifft, pe byddai i rywun ddweyd wrthym yn ei ddull tawel ac arferol, "Yr wyf wedi fy ninystrio trwy fradwriaeth!" "Y mae angeu yn syllu yn fy wyneb!" "Ewch, neu mi a'ch lladdaf!" ni wnaem ond ychydig sylw o'r fath ymadroddion; oblegid y mae y tónau a allant gyrrychu cydymdeimlad neu ofn yn cael eu gadael allan, y rhai a adnabyddir gan ddyn yn mhob cŵr o'r byd, heb y geiriau, ac yn sicr, i ryw raddau, gan hyd yn nôd greaduriaid direswm.

Yr ydym yn cymeryd y chwedl ganlynol o Plutarch, am yr areithydd Groegaidd enwog, yr hwn un diwrnod a ymgynghorwyd gan ddyn ag oedd yn cwyno oherwydd triniaeth galed ac anghyfiawn a dderbyniodd gan ei elynion. Demosthenes, ar ol clywed y cwyn, a wrthododd gymeryd ei achos, a rhoddodd ar ddeall iddo nad oedd yn credu ei hanes; ar hyny ymneillduodd y dyn, gan synfyfyrion uwchben ei gyflwr a'i ofid ychwanegol. Yn mhen ychydig amser, yn gwaedu o dan ei ofid ac yn siomedig oherwydd ymddygiad yr areithydd, aeth drachefn at Demosthenes, ac a ddechreuodd ei feio yn fawr am ei ymddygiad creulon yn gwrthod cymeryd ei achos, ac aeth dros yr hanes drachefn; pan y dywedodd yr areithydd, "Yr ydwyf yn eich credu yn awr; oblegid yr ydych yn siarad mewn tŷn dyn wedi cael cam, yr hyn ni wnaethoch ar y dechreu."

Eglurwn hyn yn mhellach trwy osod ein sylwadau mewn ffurf o reolau, y rhai, ond sylwi yn fanol arnynt, a fyddant yn llesiol i'r efrydydd.

---

SUT I SIARAD FEL AG Y GELLIR EIN CLYWED HEB  
BOEN A CHYDA PHLESER.

1. Ymarferwch eich hun i siarad mor aml ag y gellwch, ac mor ieuange ag y byddo modd, oblegid y mae yn ddigon hawdd mabwysiadu dull aneffeithiol o siarad, ond anhawdd yw dadwneyd hyny. Hefyd, cynghorwn bob dyn ieuange i gael ei arwain mewn siarad, fel yn mhob peth arall, gan reswm yn hytrach nag esiampl; ac felly i fod yn hynod o ofalus pwy a efelycha, ac i beidio efelychu ond yr hyn sydd yn iawn yn eu dull o siarad, ac nid eu hanmherffeithderau, fel y gwneir yn aml.

2. Gofalwch yn gyntaf a phenaf am siarad fel y gallo pawb eich clywed a'ch deall gyda rhwyddineb. Mewn trefn i wneyd hyn, y mae yn fanteisiol i gael llais clir, cryf, a'r hwn, o leiaf, a lanwa y lle y byddwch yn siarad ynddo, ac i gael ei glywed gan bob person yn y lle. I gryfhau llais gwan, darllenwch neu siaradwch rywbeth yn uchel, am o leiaf haner awr bob boreu. Byddwch ofalus am beidio codi eich llais yn rhy uchel yn y dechreu. Dechreuwch yn isel, a chodwch yn raddol ac esmwyth.

Prif feiau siaradwyr ydynt—

1. *Siarad yn rhy uchel.* Y mae hyn yn anfanteisiol i'r gwrandawyr, ac ar yr un pryd yn hynod o anhwylyd i'r siaradwr; blegid y mae yn rhaid i'r gwrandawyr ei gyfrif naill ai i fursendod neu anwybodaeth, yr hyn sydd yn anesgusadwy wrth bregethu.

2. *Siarad yn rhy isel.* Y mae hyn, o'r ddau, yn fwy

anfanteisiol na'r bai blaenorol. Byddwch ofalus i gadw o fewn y ddau eithafnod : i gadw y cyweirnod, llywodraethydd eich llais, ac i'w gyfaddasu i'r lle yr ydych yn siarad, neu rif y personau y siaradwch â hwynt. Mewn trefn i wneyd hyn, ystyriwch pa un ai uchel ynte isel yw eich llais yn naturiol ; os ydyw yn gogwyddo i un eithafnod, bydded i chwi ei wella mewn ymddiddan cyffredin. Os yn rhy isel, siaradwch â phersonau sydd fyddar : os yn rhy uchel, â phersonau ag sydd yn siarad yn araf ac isel.

3. *Pentfyr a chymysgu y geiriau.* Y mae rhai personau yn siarad mor aneglur trwy eu bod yn llyngcu eu geiriau, ac yn gadael rhanau o eiriau a llythyrenau heb eu swnio o gwbl. Y mae hyn weithiau yn digwydd oherwydd diffyg naturiol ; weithau oherwydd ofn ; ond yn amlach o lawer oherwydd arfer ddrwg. I wella y diffyg hwn, ymarferwch eich hunain, mewn ymddiddan a darllen, i swnio pob gair a llythyren. Sylwch fel y mae rhai yn gallu rhoddi swm mor llawn i bob llythyren, a cheisiwch eu hefelychu. Os na wna yr un ffordd arall, gwnewch fel y gwnaeth Demosthenes i wella ei hun o'r diffyg naturiol oedd arno, sef adrodd darnau allan bob dydd a llon'd ei safn o geryg mân.

4. *Siarad yn rhy gyflym.* Y mae hwn yn fai cyffredin a phwysig iawn ; yn neillduol pan y byddwn yn siarad am bethau Duw. Gellir ei wella trwy arfer eich hun i ystyried pwys a phriodoldeb pob gair a ddywedwch.

5. *Nid bai cyffredin yw siarad yn rhy araf ;* ac unwaith y dywedir i ni am dano, y mae yn hawdd ei wella.

6. *Siarad gyda llais anwastad, yn cael ei godi neu ei ostwng ar adegau anmhrifodol.* I wella hyn, dylech gymeryd gofal i beidio dechreu eich brawddegau yn rhy uchel nag isel ; oblegid dyga hyny chwi i siarad mewn llais annaturiol. A chofiwch am beidio codi na gostwng eich llais heb reswm dros hyny : yn cyfodi naill ai oddiar byd y frawddeg, neu natur yr hyn a ddywedwch.

7. *Ond y bai gwaethaf, a mwyaf cyffredin, yw siarad gyda thôn.* Y mae rhai yn gwichian yn ferchedaidd; ereill fel pe byddent yn *chantio*; ereill yn siarad yn rhwysgfawr a chwyddedig, gan roddi gormod o bwyslais ar bob gair; y mae gan ereill lais pruddaidd ac ofnadwy, fel pe siaradant o'r bedd; a chan ereill rhyw dôn hynod, ag na ellir ei disgrifio â geiriau. Yr unig ffordd i osgoi yr holl ddulliau annaturiol hyn, yw siarad yn gyhoeddus yr un fath yn union ag y byddwch yn siarad gyda chyfaill. Bydd i hyn, ond sylwi arno yn fanwl, eich galluogi i siarad yn naturiol a phrydferth.

8. Os oes arnoch eisiau i'r bobl eich clywed gyda phleser, ac mewn trefn i adael argraff arnynt:— Gwnewch eich goreu i gael eich llais mor esmwyth a melus ag a fyddo yn bosibl; ac yn fwy felly os ydyw yn naturiol gryglyd ac aflafar, yr hyn a ellir ei wella trwy ymarferiad. Trwy arfer eich hun bob boreu, gellwch yn fuan wisgo ymaith y diffygion hyn, a mabwysiadu dull esmwyth a deniadol o draddodi.

9. *Ymdrechwch i ysgoi y dull hynod o besychu a phoeri tra y byddwch yn siarad.* Ac os nad ellwch wrth hyn, o dan rai amgylchiadau, eto cymerwch ofal i beidio aros yn nghanol brawddeg, ond yn unig yn y lleoedd hyn ag na byddo perygl o amharu y synwyr.

10. *Yn fwy na dim, byddwch yn ofalus am amrywio eich llais yn ol fel y byddo y mater mewn llaw yn galw.* Nid oes dim yn swnio mor annymunol a'r un llais o hyd. Ac eto y mae hyn yn beth cyffredin iawn. Nid yn unig y mae yr undonaeth yma yn anhyfryd i'r glust, ond yn dinystrio effaith yr hyn a siaredir.

11. *Y ffordd oreu i ddysgu amrywio y llais, ydyw gwrando ar bobl yn siarad yn gyffredin.* Sylwch sut y byddwch chwi eich hunan yn siarad wrth eich cyfeillion ar yr heol, a gwnewch yr un fath yn gyhoeddus, ond yn unig ganiatâu at faint y lle a phellder y gwrandawyr.

## RHEOLAU CYFFREDINOL I AMRYWIO Y LLAIS.

1. Gall y llais gael ei amrywio mewn tair ffordd wahanol; yn Iaf, o ran uchder; yn 2il, o ran nerth neu dynerwch; ac yn drydydd, o ran arafwch a chyflymder.

(1.) Mewn perthynas i uchder, dylid cadw oddi wrth y ddau eithafnod. Dylech beidio rhoddi gormod o bwysau ar y llais, trwy ei godi yn rhy uchel; ac ni ddylech ychwaith ei ostwng yn rhy isel, ac felly i furmur yn lle siarad.

(2.) Am angerddoldeb y llais dylid bod yn hynod o ofalus, rhag wrth geisio ei godi yn rhy uchel, ei ddinystrio. Nis gallwch wneyd hyny yn hir heb i'r llais dori a'ch gadael yn sydyn. Ac eto ni ddylech siarad mewn tŷn rhy isel a difater, neu dinystria bob effaith a dylanwad ag sydd yn perthyn i'r hyn a siaradir.

(3.) Am gyflymder, dylech reoleiddio eich llais fel ag i beidio myned ar garlam rhy wyllt; a thrwy hyny beidio rhoddi i'r gwrandawyr amser i feddwl, ac felly byddwch yn analluog i berswadio ac enill. Eto ni ddylech siarad yn arafach nag mewn ymddiddan cyfiredin. Y mae yn fai mawr i ddwyn y geiriau allan yn rhy araf, ac i wneyd gorphwysiadau lle na ddylent fod. Ni ddylai yr ymddiddan gael ei dori, ond ei oddef i redeg yn ei flaen. Dylai, pa fodd bynag, redeg fel yr afon, ac nid fel y rhaiadr wyllt.

2. Eto dylid sylwi, nad yw y dull a'r dŷn ganol a gymeradwyir genym yn golygu un llais arbenigol. Y mae yn caniatáu digon o le i chwareu. Mewn perthynas i uchder neu iselder y llais, y mae yna bump neu chwech o nodau â pha rai y gellir ei amrywio: felly y mae yma ddigon o le i amrywio, heb syrthio i'r eithafion a nodwyd. Hefyd y mae digon o le rhwng yr eithafion o angerddoldeb a thynerwch, i ddweyd y geiriau yn fwy angerddol neu dyner fel y byddo yr achos



yn galw. Ac am gyflymder ac arafwch, er i chwi ysgoi y ddau eithafnod, a ellwch, pa fodd bynag, siarad yn gyflymach neu arafach o lawer o raddau, fel y byddo yr achos neu natur y pwnc yn galw.

3. Dylid sylwi hefyd, na ddylid amrywio y llais yn rhy gyflym yn y naill achos na'r llall; ond y mae gwahaniaeth i'w wneyd yn raddol oblegid y mae newidiad rhy gyflym yn annaturiol, ac yn ganlynol, yn swnio yn atafar ar glust y gwrandawydd.

#### RHEOLAU NEILLDUOL I AMRYWIO Y LLAIS.

1. Pan y byddwch yn siarad am bethau naturiol, na fydded i chwi ond siarad fel y byddo y gwrandawyr yn deall: nid oes angen ond am lais clir ac eglur. Ond os byddwch am siarad am ddoethineb a gallu Duw, gwnewch hynny gydag acceniad llawnach a phruddach.

2. Dylid disgrifio gweithredoedd ac ymddygiadau dynion enwog mewn llais llawn ac acceniad aruchel; gweithredoedd drwg a phechadurus, mewn tŷn gref a ditrifol, a'r llais hwnw a gyflea y drychfeddwl o'ch casineb at y cyfryw weithredoedd.

3. Wrth siarad am amgylchiadau dedwydd bywyd, dylai y llais fod yn fyw a'r aceniad yn llon; wrth siarad am ddigwyddiadau galarus, marwolaethau, &c., dylai y llais fod yn araf a phruddaidd.

4. Dylai y llais hefyd gael ei amrywio yn ol mawredd a phwysigrwydd y pwnc; y mae yn beth hynod wrthun i siarad mewn llais a dull aruchel, pan y mae y pwnc yn un dibwys, neu i siarad am bethau pwysig, mewn llais isel, dideimlad, a chyffredin.

5. Ar bob amgylchiad, bydded i'r peth y siaradwch am dano fod wedi ei argraffu yn ddwys ar eich calon eich hun; a phan y byddwch wedi cael eich cyffwrdd

eich hun, gwaith bach fyddai i chwi beri i ereill deimlo, trwy gymhwyso y llais i bob teimlad ag sydd yn eich meddianu.

6. Y mae CARIAD yn cael ei ddangos gan lais mwyn a thoddedig, fel hyn,

Myfanwy! rwy'n gweled dy rudd  
 Mewn meillion, mewn briall, a rhôs;  
 Yn ngoleu dihalog y dydd  
 A llygaid serenog y nôs:  
 Pan gyfyd claer Wener ei phen  
 Yn loew rhwng awyr a lli,  
 Fe'i cerir gun ddaear a nen.  
 I fenaid, Myfanwy, goleuach, O tecach wyt ti,  
 Anwylach, perffeithiach wyt ti.

\* \* \* \*

O! na bawn yn awel o wynt  
 Yn crwydro trwy ardd Dinas Bran,  
 I sio i'rh glust ar fy llynt  
 A throelli dy wallt ar wahan:  
 Mae'r awel yn droiog a blin—  
 Un gynar ac oer ydyw hi;  
 Ond hi sy'n cusanu dy fin.  
 O feinwen fy enaid, nid troiog fy serch atat ti,  
 Trag'wyddol yw'm serch atat ti!

O "Myfanwy" Ceirioy.

Y mae GALAR yn cael ei ddangos mewn llais pwysleisiol, arafaid, a chrynedig. Dyma engraifft,—o "Farwolaeth yr ESGOB HEBER," gan ALUN:—

Lle treigla Caveri yn donau tryloewon,  
 Rhwng glenydd lle chwadd y pomgranad a'r pin,  
 Lle tyfa perlysiâu yn llwyni teleidion,  
 Lle distyll eu cangau y neithder a'r gwin;  
 Fisteddai *Hindoo* ar lawr i alaru,  
 Ei ddagrau yn llif dros ei ruddiau melynâdu,  
 A'i fron braidd rhy lawn i'w dafod ielaru,  
 Yndora! ei alaeth fel hyn dros ei fin:—

"Fy ngwlad! O fy ngwlad, lle gorwedd fy nhadau!  
 Ai mangre y nos fyddi byth fel yn awr?  
 Y seren a dybiais oedd seren y boren,  
 Ar nawn ei ddisgleirdeb a syrthiodd i lawr;

Y dwyrain a wenai, y tymor tywynodd,  
 A godre y cwmwl cadduglyd goreurodd ;  
 Disgwyliais am haul—ond y seren fachludodd  
 Cyn i mi weled ond cysgod y wawr.

\* \* \* \*

“ Dy goelgrefydd greulon wna d’ ardd yn anialdir,  
 Ei sylfaen yw gwaed, a gorthrymder a cham :  
 Pa oergri furlymawl o’r *Ganges* a glywir ?  
 Mabau a foddwyd gan grefydd y fam :  
 Ond gwaddod y gwae iddi lithau ddaw heibio ;  
 O ! dacw ’r nen gan y goelcerth yn rhuddo,  
 Ac uchel glogwyni y *Malwah* ’n adseinio  
 Gan ddolef y weddw o ganol y fflam.

\* \* \* \*

“ Fy ngwlad ! O fy ngwlad ! bu ddrwg i ti’r diwrnod  
 Yr aeth *HEBER* o rwyman marwoldeb yn rhydd ;  
 Y grechwen sy’n codi o demlau’r eulunod,  
 Ac uffern yn ateb y grechwen y sydd ;  
*Juggernaut* erch parotôa ‘i olwynion—  
 Olwynion a liwir gan gochwaed dy feibion—  
 Duodd y nos—ac i deulu Duw Scion  
 Diflanodd pob gobaith am weled y dydd.”

Pan y mae GOBAITH yn cael ei ddarlunio, dylai y  
 llais gael ei godi i dôn orfoleddus, ond eto arafaidd.  
 Dyma esiampl yn yr un dernyn,—

\* \* \* \*

Yn araf, fy mrawd, paid, paid anobeithio,  
 Gwnai gam ag addewid gyfoethog yr Iôr :  
 A ddifydd yr haul am i seren fachludo ?  
 Os pallodd yr âber a sychodd y môr ?  
 Na, na, fe ddaw boren bydd un *Haleluia*,  
 Yn enyn o’r *Gauts* hyd gopïau *Himalaya*,  
 Bydd baniar yr Oen ar bob clogwyn yn *India*,  
 O aelgerth *Cashgur* hyd i garth *Travancore*.

A hwyrach mai d’ wyrion a gasglant y delwau,  
 A fwrir i’r wadd ar bob twmpath a bryn,  
 Ar feddrod ein *HEBER* i’w rhoi yn lle blodau,—  
 Ei gyfran o ysbail ddymunodd cyn hyn :—

\* \* \* \*

OFN.—Dylai y llais fod yn gynhyrfus ac uchel—y llygad yn fyw, y corff yn gogwyddo yn ôl, a'r dwylaw yn estynedig. Arferweh eich llais ar yr esiampl hwn :

## Y BYSEDD AR Y PARED.

Ar y wâl draw, e welir  
 Ger gwen y canhwylbren hir,  
 Ryw ddigorff ddêlw annelwig,  
 Denen, gul, heb gnawd nen gig,  
 O mor drwm, ar y mur draw,  
 A llesgaidd y mae'n llusgaw;  
 Ac â bys, fel flamawg bûr,  
 Llysg eiriau, â llws gerwin.  
 O ! a'r newid wna'r neuadd,  
 Sigla, dygryna pob gradd.  
 Traidd trwy eigion y fron frau  
 Waedd ddwys yr arglwyddesau.  
 Dacw gerflun Bel uchelwawr  
 O'i le yn cwmpo i lawr.  
 Llewya gwawl y llugyrn,  
 Deryw eu chwai belyâr chwyrn  
 Oll, ond rhyw wyrdd-der teryll;  
 Llewyrn yw'r lleueriau urgawl  
 Ac erchyll, rhwng gwyll a gwawl  
 Aeth fferdod drwy 'u haelodau,  
 Fel caethion mewn cyffion cau.

GWAWDIAETH.—Dylai y llais fod braidd yn isel, y wedd yn chwerthingar, a'r ystum yn briodol. Dyma engraifft ragorol o "Esther," gan GLAN ALUN:—

[Ymwelwyr yn ymddiddan o'r neilldu]

## YMWELWR IEUANGC,—

Wel! yn wir! O bosibl ni gawn wel'd  
 Y fenyw odiaeth hon: ond gyda llaw,  
 Nid gorchest fawr i fun wedi ei hamdoi  
 Mewn sidan, porphor, gemau, plu, ac aur,  
 A choron berlog, ddrudfawr, ar ei phen,  
 I ymddygleirio. Anhawdd peidio dwyn  
 Breninol osgo mewn breninol wig.  
 Ond O! pe gwelent hwy fy mhriod hoff,  
 Fy nhag Faturia! gwelent ynddi hi  
 Frenines wrth naturiaeth! nid oes raid  
 Wrth wisgoedd gwychion, coron, perian teg,

I'w gosod allan,—pylent wrth ei gwedd.  
 Ei chorff mor luniaidd ! Ei modrwyog wallt !  
 Tryloew liwiau ei hawddgaraf wedd !  
 Y llygaid dysglaer yn serennu gan  
 Fwynoedd-dra, synwyr, a thyneraf serch !  
 Ei phob symudiad yn lledneisrwydd pur  
 Ac angeleidd-dra ; ie, os yn wir  
 Yw'r angel yn fwy prydfferth, teg, a mwyn.  
 Ni wn i ddim o ba le daeth y teg  
 A'r addfwyn i nodweddu engyl, gan  
 Nad oes i'w plith fenywod na babandod.  
 Nid aeth yr haul ond dwywaith trwy ei gylch  
 Blynnyddol er pan unwyd ni ein dau  
 Mewn rhwymyn priodasol ; a phob dydd  
 Gryfha fy serch ; canfyddaf degwech mwy,  
 Rhinweddau newydd, yn fy hoff Faturia.  
 Mae i ni faban, insel prid  
 O'n cariad paraidd ; ni ddaeth gair erioed  
 O'i enau eto, ond fe daflodd swyn  
 Drwy ein holl annedd. Mae y gwirion bach,  
 Y gallu bychan mawr, fel ag un llaw  
 Yn cydio yn nghalon bur ei dyner fam,  
 Tra yn y llall fy nghalon innau sydd ;  
 Ac felly trwyddo ef, o'r naill i'r llall,  
 Fe lifa serch yn gryfach nag erioed.  
 O ! na bawn adref ! Beth i mi yw Fasti ?  
 Mae hiraeth arnaf um Faturia gu.  
 O ! na bawn adref eto i grwydro maes,  
 Ymlid y geifr ar hyd y bryniau ban,  
 Neu hela petris y mynyddoedd iach,  
 Dychwelyd adre' yn llawen gyda'r hwyr,  
 I lôn ymddiddan â Faturia gu  
 A chwareu â'r bychan !

**DIGLLONRWYDD.** — Dylal y llais fod yn uchel a  
 hyrddiog, y wedd yn sarug, a'r ystum yn fawreddog.  
 Rhaid i ni gael difynu eto o "Esther,"—y mae mor  
 gampus :—

**AHASUERUS,**—

Digon Mehuman ; ni wrandawaf mwy  
 Ar yr esgusawd gwrthryfelgar fol.  
 Mae yma yn amlwg gydfradwriaeth hŷf  
 Ymhlith y gwragedd ; both i a ydwyf fi  
 Yn frenin ar dalaeithian Media fawr  
 A Phersia eang, a'm meddyliau yn

Gyfreithiau i'w phreswylwyr dirifedi;  
 Ac a gaiff benyw groesi fy ewyllys,  
 Amheu doethineb fy uhrefniadau i,  
 A fy sarhan ger bron fy nhywysogion,  
 A'r uchelwragedd oll! Nid all hyn fod!  
 Mynegwch i mi, ddoethion, beth yw'r gyfraith,  
 Pa beth a wneir i Fasti? A pha fodd  
 Cedwir fy urddas, ac y rhwystrir i'r  
 Fath ysbryd gwrthryfelgar daenu ar led.

DYCHRYN.—Llais cynhyrfus a chrynedig. Dyfynwn  
 y canlynol o waith DAFYDD AB GWILYM,—

## Y DARAN.

Taro a wnaeth terwyn oedd  
 Trwst taran tros y tiroedd;  
 A ffrydiaw croew-wlaw crenlawn,  
 A phoeri meltt yn ffrom iawn.

Duryn filam y Daran filwech,  
 Dug warwyfa'n digrifwech:  
 Trwst enbyd, tristyd i'r trwyn,  
 Trwst mawr yn tristâu morwyn.  
 Twrf a glyw pob tyrfâ glau,  
 Tarw cryg yn tori creigiau.  
 Taran a ddu trinoedd yn,  
 Trwst arfau wybr tros derfyn;  
 Tân aml a dwr tew'n ymladd,  
 Tân o lid,—dwr tew'n ei ladd!  
 Clywais fry, ciliais o fraw,  
 Cawlrais utgorn y curwlaw:  
 Mil fawr yn ymlaferydd  
 O gadwynnau sugnan sydd.  
 Braw a ddisgynodd i'm bron;  
 Bwrw deri o'r wybr dirion!  
 Gwyllt yr awn a'm gwallt ar wŷr,  
 Gan ruad gwn yr awr:  
 Gwiddon goch yn gweiddi'n gau,  
 Gwrach hagr, dan guro ei chwagiau:  
 Rhegain garm rhyw gwn gomes;  
 Rhuglgoen, yn rhoi gwlaw a gwres;  
 Tori cerwyni crinion  
 A barai gri o'r wybr gron:  
 Canu trwmp o'r wybr gwmpas,  
 Guro gwlaw ar bob cruig las:

Croglaf yn dryllaw creiglawn,  
 Crechwen o'r ffurfafen fawr;  
 Trwy ei hun y trawai hwrdd,  
 Tebyg i ganu tabwrdd.

LLAWENYDD.—Y mae pawb o honoch yn gwybod rhywbeth am lawenydd, ac er mwyn i chwi arfer eich dawn, dyma i chwi "Briodasgerdd DAFYDD THOMAS, (*Dafydd Ddu o Eryri*,) ac ELEN ei wraig," gan DEWI WYN:—

Dewch feirddion hoywon hyawdl,  
 Yn effro i eilio Awdl;  
 Dafydd Ddu, fardd eu, hardd coeth,  
 Pen y gerdd, paun hygarddoeth,  
 Llondeg wr, yn Llandegai  
 Priodwyd—pwy nas prydai?  
 O'i ymuno â meinwen,  
 Cymhares cynhes ei gwân;  
 Per wawd a gân tafawd dyn;  
 Ond dylid canu telyn.  
 Er hyn fe ga'dd ei fawrhan,  
 Ddidawl aml wahoddiadau;  
 Ac annerehion cynnyrchiol;  
 Mawl neu gerdd yn mlaen ac ol  
 Fardd iawn rhoes foreu ei ddydd,  
 A'i flodau, ddyfal wawdydd;  
 Yn dilyn mwyn ei dolef;  
 Sef Awen o'i Awen ef.  
 Dysgodd ef eu dewisgamp;  
 Blaenawr yn eu gwerthfawr gamp.  
 Fe roddai gyfarwyddyd  
 I'r beirdd a geir, braidd i gyd:  
 Haeddai ef, hawdd ei ofyn,  
 Beraidd gerdd gan y Bardd Gwyn:  
 O'i uno yn ei einioes,  
 Ar brydnawn ei uniawn oes,  
 A'i ddyweddi, wiw ddeuddyn,  
 A pharhaus y coffeir hyn.  
 Gan Dafydd y gawdydd gwin,  
 Anwylaidd iawn yw Elin;  
 Caiff fawr gysur, hoywbur hawl,  
 O'i mynwes, wraig ddymunawl:  
 Hyfryd yw ei gwen hoywfron,  
 Adfywia'n glau ei frau fron.  
 Hithau un foddau, wen fad,  
 Yn ei gŵr o iawn gariad;

Mad ydynt mwy dywedaf,  
 Eu llwyddo dan eilio wnafl:  
 Hiroes, heirdd ddwy oes i'r ddau,  
 Ne' wed'yn i'w heneidiau. AMEN.

HIRAETH.—Dylai y llais fod yn gwynfanus a phrudd-  
 aidd. Dyma esiampl o waith y doniol TALHAIARN:—

## HIRAETH-GAN AM LLANFAIR-TALHAIARN.

Er cael pleserau o bob rhyw,  
 A byw mewn hufen byd;  
 Ni roddant imi fawr o hedd,  
 Ond gwagedd yn't i gyd:  
 Pa les i mi yw rhodio 'n rhydd  
 Ar hyd y gwledydd glân?  
 Pa fodd y gwnaf ymlawenhau  
 A'm ffryndiau ar wahan?  
 Fy nghalon dirion lam o hyd  
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i:  
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,  
 Os byth anghofiaf di.

Rhyw hudol fwyn hyfrydöl fan  
 Yw'r llan ar fin y lli;  
 Melusol ydyw owafriol gân  
 Hedyddion mân i mi:  
 O lawnder calon bronfraith lân  
 Gogleisgân ddiddan ddaw,  
 A pheraidd swyn y fwyalch fwyn  
 O gŵr y llwyn gerllaw:  
 Fy nghalon dirion lam o hyd  
 I'r dyffryn clud lle'm ganwyd i:  
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd  
 Os byth anghofiaf di.

Rhoi'r clod i Lundain gain ei gwedd  
 A'i mawredd yn mhob man;  
 Er hyny hoffwn fyw yn rhydd  
 A llonydd yn ein llan:  
 Cawn yno groesaw gan fy mam,  
 Heb ofyn pa'm y do'is;  
 Na'r achos imi droi yn ol  
 O siriol wlad y Sais:  
 Fy nghalon dirion lam o hyd  
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i:  
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd  
 Os byth anghofiaf di.



Er cael cyfeillion rif y sêr  
 A nwynder yn mhob man,  
 Hiraethu wna'f am fyn'd yn ol  
 Fm genedigol lan :  
 Cael eiste'n ymyl aelwyd hardd  
 Fy mam, yn fardd o fri,  
 Yn nghwmni bechgyn bochgoch iach,  
 Mil mwynach yw i mi :  
 Fy nghalon dirion lam o hyd  
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :  
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd  
 Os byth anghofiaf di.

Nid oes i mi ond gofid dwys  
 Wrth fyw dan bwys y byd ;  
 Rhyw oerfel drwy fy monwos draidd  
 A gwelwaidd yw fy mhryd :  
 Er holl bleseran 'r ddaear hon  
 Ni bydd fy mron yn iach,  
 Yn unman arall dan y ne',  
 Ond yn ein pentre bach :  
 Fy nghalon dirion lam o hyd  
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :  
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd  
 Os byth anghofiaf di.

Pe cawn adenydd e'loinen dâg  
 Chwim hedeg yno wnawn,—  
 Dros fryn a dyffryn, dâl a gwaen,  
 Ymlaen, ymlaen yr awn,  
 Nes imi fyn'd i'r dyffryn glwys  
 Heb orphwys ar fy hynt ;  
 Ond hedeg wnawn i'r hyfryd fan  
 Yn fuan fel y gwynt :  
 Fy nghalon dirion lam o hyd  
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :  
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd  
 Os byth anghofiaf di.

DIGALONDDID.—Y mae GLAN ALUN wrth ddarlunio y diweddar Barch. JOHN JONES, Talysarn, fel yn ehedeg yn agos i'r ddaear, o dan bwys digalondid ; ond yn y llinell ddiweddaf y mae yn codi drachefn i'r uchelder-au ac yn rhoddi ei bwysau ar "*fe ddichon Duw.*"

Ar y cyfan, ni

Ddisgwyllem ar y ddaear wel'd ei ail,  
 Cryn gymhorth i ddigymod a'r hen fyd  
 Oedd cofio fod y fath nodweddiad yn  
 Cydgyfarfod arno.—Er hyderus ddisgwyl  
 Ei gael yn rhodio yn gyfochrog hyd  
 I ben yr yrfa; wele, fe ddiflanodd:  
 A phan yr hunodd, i ein teimlad prudd  
 Bu farw fesur mawr o bleser einioes.  
 Ymdeimlem fel pe byddai cyfran fawr  
 O'r haul dan fythol feihiant, neu fod darn  
 O'r wybren wedi syrthio! Am eglwys Dduw,—  
 Ei hoff frodyr yn Nghymru, pan yn cyd-  
 Alaru uwch yr hardd-deg golofn a  
 Syrthiasai; tywyll a digysur iawn  
 Fuasai yn wir, oni buasai i rywun gael  
 Ysgrifen dan ei sail, "FE DDICHON DUW."

GWROLDER.—Dyma ddarluniad bywiog PEDR MOS-  
 TYN, o'r Gwynt, yn myned yn ei flaen, gan ysgytio pawb  
 a phobpeth, nes y gafaelwyd yn ei wâr gan vr Hwn a'i  
 gollyngodd:—

Fel cadfarch gornwyfus y gwynt a dywysir  
 O'i loches, a'r firwyn ar ei wâr a ollyngir;  
 Carlama'n ddiarswyd dros benau'r mynyddau  
 A swm ei weryriad yn adsain trwy'r creigiau;  
 Ymbrancia drwy'r maesydd a'r gerddi godidog  
 A'n prydfertth gynbyrchion a fathra'n ysgythrog!  
 Yndroella drwy'r llwyni—â'i chwim droadau  
 Dadwreiddia y coeddydd a rhwyga'n canghenau;  
 Ynesyd ar furian hên oesol gastelli  
 A chloddia â'i draed nes dynoethi'n sylfaeni:  
 Yn firwst ei orphwylledd daw heibio i'r clogwyn,  
 Dan ruthro ben-dra-phen fel hwrdd yn ei erbyn;  
 Y meini a holltant—ofnadwy yw'r cyffro!  
 Mae'i lais drwy'r agenau fel llewod yn rhuo:  
 Oddiyno ag anadl ei ffroenau chwyddedig  
 Crychferwa yr eigion fel crochan berwedig;  
 Ei donau ddeffroant dan rym yr ysgydwad,  
 A heriant eu gilydd mewn gwyllt ysgyrnyglad;  
 Eu hewyn lasferiant dan effaith cynddaredd—  
 I'w herch aflonyddwr bygythiant ddialcâd;  
 Ymdrechant i'w erbyn ag eithaf eu hegni,  
 Ond creulon orletha y march eu gwyrhydri:

Och ! tòn ar ol tòn a chwyrndafia yn giprys  
 O ddyfnder y weilgi i uwchder arswydus ;  
 Chwal eilwaith ddefnyddau y dòn ddisgynedig  
 Yn darth i'r cymylau ar fwng ysgwydedig,  
 Y llongau a gipir fel ùs i'r uchelder,  
 A chyflym ddisgynir hwynt eilwaith i'r dyfnder ;  
 Yn ngwely r dòn echrys ymdroant fel meddwyn,  
 A'r dynion gwrolaf a waeddant gan ddychryn !  
 Chwibana ellyllon y dymestl arnynt  
 Yn fyddar i'w cwynion—diystyr o'u helynt—  
 Uwch, uwch y dyrchufa ei lais ymrysongar,  
 Mwy fwy yr ymwylltia y gwgus fôr anwar !

DIGOFAINT.—GWTADDWCH fel y mae digofaint yr  
 “hen frawd du” yn ymdywallt am ben y patriarch Job,  
 yn Awdl benigamp EBEN FARD :—

Pared tŷ Iob y pryd hwn  
 A gylchynai gweilch annwn ;  
 Garw eu brys i dd'od ger bron,  
 Naill a llall, hen ellyllon !  
 Gan enyn mewn gwŷn annuw  
 Am iddo felldithio Duw !  
 Y prif Ddiabl oedd a'i safle  
 Ar gwmwl dwl yn y de',  
 Troai o'r abred trwy'r wybren,  
 Olwynai ar niwl y nen ;  
 Saethai fellt dros y gelltydd ;  
 Yn wyllt am enill y dydd ;  
 Wybr i gyd oedd yn bwrw gwawl  
 O dwymniad ei dân damniawl !

Ymestynai'r cwmwl brwmstanaidd—megis

Mwg tew ac anhydraidd ;  
 Nes anhuddo brô, o'r braidd,  
 Yn ei niwl annynolaidd !

At dŷ'r sant troes o entrych  
 Ei orddwl gwmwl, ar gyrch ;  
 I ro'i dyfyn o'r dufwg  
 Pw naw cân lleng dreng a drwg !  
 Hedai ogylech lu di-gorph ;  
 Aml eilun mewn cynllun corph,  
 Pob gwas, a'i wynias enau,—  
 A hanes Siob yn nesau.  
 Dysgwyliai'r duw ysgeler,  
 Y beiddiai Iob waeddi “hêr!”

Ar grechwen i'r Gorucha'  
 Wedi dwyn o'i dŷ y dâ:—  
 Oll a allai'r elylllon,  
 Er eu rhif, ddweyd yr awr hon,

Oedd, Wele Iob yn addoli!—ei Naf,  
 Yn nydd ei galedi;  
 Gallodd er i'r da golli  
 Fyw'n addas ar ras ei Ri.

Satan a droes, tynai draw,  
 Y niwl abred gwnai lwybraw;  
 O wyllt anian melltenodd,  
 A thua'i ffwrn eithaf ffodd;  
 Holl lu'r pwll mwell, yr un modd,  
 Hyd ael anwn—dyllynodd.

Yn mhorth anoddyn, mawr waith a naddai,  
 Ag un llawn olwg ei gynllun welai,  
 A dwyn iechyd Iob dan nych a dybiai,  
 I hurtio'i obaith oren atebai;  
 Yn rymus wed'yn yr ymosodai,  
 I wyneb dafar ar un wib deuai!  
 Iob, druan! i'r byw drywanai—gwayw chwyrn  
 Drwy fêr ei esgyrn a'i dirfawr wasgai!

Lluchio hadau llycheden,—a gwenwyr:  
 I ganol pob gwythen;  
 Ryw gŵr poeth ar rwygo'r pen,  
 Treiddiai wayw trwy ei ddwy-en.

Ysfa wyllt, a iâs fyw, oedd—drwy ei gnawd  
 Ar gnoi'r ymysgaroedd,  
 Herwydd ei blâ rhoddi bloedd,  
 A rhuadau, yr ydoedd.

Ac arno wed'yn cornwydydd—hadl iawn fu  
 A'i hoedl yn faich beunydd,  
 Can gweli'n enoi i'w gilydd;  
 Brydiwyd Iob ar hyd y dydd!

Yn nghas arogl anghysurns—ei glwyfau  
 Golifiawg, dolurus,  
 Gwan elai ac anhwylyus,  
 Llewgylyd oedd Llxw gwlad Us!

Gau waed a budredd, ei gnawd bydrai,  
 Hell dom dafar, a llaid a'i hamdoai!

Yno'i linorod, un law ni irai!  
 Yn ei wasg luniiaidd ei wisg a lynai;  
 Gwayw llym, mwy ei rym yr âi—braidd ar ol  
 Loesau mor ysol, na lesmeiriasai!

\* \* \* \*

TOSTURI.—Pwy fedr ddarllen y llinellau canlynol, o  
 Awdl DEWI WYN, heb *deimlo* tosturi? Dylai y llais  
 fod yn doddedig, y corff yn blygedig, a'r wedd yn  
 bruddaidd:—

Gwel dyfodion, a gwael adeiladau;  
 Gwragedd, plant, a thrichant o wrthddrychau;  
 Ymddifaid, gweddwon, wareiddion ruddiau;  
 Un a dyn bychan yn dwyn eu beichiau;  
 Dyn feichiog, lwydion fochau—mewn angen  
 Gwelid *elusen*,—dan gelyd loesau.

Luoedd ar luoedd ar welyau,  
 Rhwng eiddant echrys-haint a chroesau;  
 Holl awch dannedd y lluchedenau;  
 Chwerw ffrewyll, ffengyll, a phlâ angau,  
 Gan anghenion, cwynion yn cynau;  
*Elusen* deimla 'u heisiau,—a'i chynes,  
 Garuaidd fynwes, eu griddfanau.

Yn rhodd anfonodd nef wen,  
 O law Iesu, *elusen*.

Disgynodd dawies gwiwnef,  
 F'n daear ni, do o'r nef:  
 Llysoedd breninoedd heini  
 Is law ei holl sylw hi:  
 Chwyddai serch y dduwies hon  
 At aelwydydd tylodion;  
 Agor o'i thrysor wrth raid,  
 A'i ranu i drueiniaid.

\* \* \*

Edwyn eisiau dyn isel;  
 Yn hen a gwan, hon a'u gwel.

Gwel'd brawd ar ddelw 'Ngreawdwr,  
 A delw Duw ar dylawd ŵr;  
 A chofio 'nhlawd lachawdwr  
 Fu un dydd yn gofyn dŵr,  
 A enyna yn uniawn  
 Fy nhymer dyner a'm dawn.

Mewn ystyr brodyr o un bru ydym;  
 Ar y cyntaf yn Addaf un oeddym:  
 Ni, gyd oll, un gwaed y'm—yn ddiddadl,  
 Un enawd ac anadl, ac un Duw genym.

Yn ammodan hunanymwadiad,  
 Caed ammod amlwg cydymdeimlad:  
 Cyrhaedd deheulaw cariad—i bob dyn,  
 Pe b'ai yn elyn:—pawb un alwad;

Pe'r Tyrciaid, pe'r Awstriaid, pob rhyw estron,  
 Pe b'ai wael alltud o bliith pobl wylltton;  
 Arddel pob Gwyddel a gwiddon,—cofiwch,  
 Er bod dyngarwch, trwy'r byd, dan goron.

Porthaf bobl o bob parthau,—a byddaf  
 Yn porthi nesaf perthynasau;  
 Rhoi i'r rhai bach, ar air byr,  
 Ou frodyr, eu cyfreidiau.

Ystyriaf, teimlaf at ham,—hen wraig glaf,  
 Hen wr cloff, ysgwyddgam;  
 Helynt gwrach legach, law-gam,  
 Mal ethryb modryb a mam.

Fy nŵr hallt yn ddafnau rhed,  
 Uthr weled f' ewythr William;  
 Mamau, hen neiniau anwyl;  
 I'r drysau, mewn eisiau'n wyl;  
 O! r hên wr, mor druan yw!  
 Fy hên-daid, fy nhad ydyw;  
 Troednoeth a phennoeth, a'i ffon,  
 A'i gydau dan fargodion.

Gwgan oedd, nid gwag o nerth,  
 Ac arno wir ddelw *gwrnerth*;  
 O gyneddfau gweinyddfawr,  
 Cyrus, Ahasferus fawr.  
 Be'n eistedd yn senedd Sior,  
 Ef i'w chanol fal i *Chynor*;  
 Ac i'w Deyrnben, cadarnbwynt  
 Y Huniai hi'n well na hwynt.

\* \* \* \*

## PENNOD VI.

## YSTUM.

FEL y mae y llais dynol yn meddu nifer anherfynol o dônau, wedi eu cyfaddasu at bob math o nwydau, felly y mae y gwynebpryd a'r aelodau yn gallu myned trwy luaws mawr o gyfnewidiadau, cyfaddasol i bob ysgogiad o eiddo y meddwl; ond o holl beirianau y corff, y LLYGAD yw yr un ag sydd yn gallu cyfleu teimladau y galon oreu. Pa deimlad yn y galon nad yw yn alluog i'w ddangos? Mewn cynddaredd, y mae yn melldenu; mewn ofn, yn gymylog; yn awr yn dysglacio gan lawenydd; yn llanw mewn trallod; yn edrych i lawr mewn gostyngaidrwydd, i fyny gan falchder, neu yn toddi mewn tosturi. Gall arddangos pob teimlad yn y ddynoliaeth neu y dychymyg. Y mae creulondeb, tynerwch, gwroldeb, ymostyngiad, myfyrdod, ac anfoddlonrwydd, yn cael ei baentio gyda lliwiau dysglacio ganddo. Y mae y llygad yn gallu siarad iaith ei hun, a hono yn un mor nerthol, ac yn aml yn fwy nerthol na geiriau. Y mae y llygaid llawn yn siarad cyfrolau, a hyny yn llawer mwy effeithiol na'r tafod mwyaf llithrig. Y mae hon hefyd yn iaith a ddeallir gan bawb yn mhob man—y mae y geiriau yn newid mewn gwahanol wledydd, ond y mae iaith y llygaid yn cael ei deall gan bawb. Iaith y galon ydyw—dyma *index* i'r meddwl.

Gyda'n DWYLLAW gallwn ollwng ymaith, galw, gorchymyn, neu addaw; bygythio, erfyn, gofyn neu wrthod; dangos casineb, ofn, edifeirwch, neu edmygedd, &c.—anhawdd dweyd pa mor bell y gallem fyned â'r rhifres yn mlaen—am nad oes ond ychydig iawn o ddynion yn gallu arfer eu dwyllaw a'u breichiau yn briodol. Y mae gosod y llaw ar y pen yn arwyddo poen neu gyfyngder;

ar y llygaid, gywilydd neu ofid; ar y gwefusau, ddis-tawrwydd; ar y fynwes, apeliad at y gydwybod; y mae y llaw yn cael ei throi mewn llawenydd; yn blethedig mewn gweddi; yn agored pan yn bendithio; y maent yn cael eu gwasgu yn nghyd mewn gofid a thrallod; ac yn cael eu dal allan mewn cyfeillgarwch. Yr oedd dwrn cauedig a breichiau agored rhai o hen gewri Cymry yn siarad llawer, a hyny gyda'r fath effaith, nes trydanu y cynulleidfaoedd. Fel yr oedd breichiau yr hen CHRISTMAS EVANS yn *siarad* pan yn pregethu ar "Esgyniad Crist,"—ar ol darlunio yr un uffernol yn nesáu ato, dywedai, "Ha! dyma ddiabol ac angelion yn dyfod!" ebe Iesu Grist; "wel, tyred yn mlaen, dywysog y fagddu, a mi a'th darawaf nes y byddot ti yn disgyn fel sildyn torgoch yn y fan yna! Deuwch chwithau yn mlaen, hen deirw Basan, a'r cyrn degllath, a mi a'ch tarawaf ag un ergyd, nes y byddoch yn glynu yn holltau creigiau Judea, gerfydd eich cyrn! Deuwch chwithau yn mlaen, hen unicorniaid uffern, a mi a'ch llethaf ag un wasgfa, nes bo y parlys mud arnoch bob un, a mi a ysigaf eich balchder ag un dyrnod! Hawyr bach! bobl anwyl! dyma ddyffryn Jehosaphat wedi ei balmantu â charnau teirw a chyrn unicorniaid drosto i gyd! Wel, bellach, byrth, dyrchefwch eich penau! ddyrysau tragwyddol, ymagorwch! a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn. Haleluiah! dyna y pyrth yn agored, dyna y ffordd yn glir bob cam, dyna yr hen femrwn wedi ei hoelio wrth y groes; a'r udgyrn yn dechreu seinio, a'r telynau yn dechreu chwareu, a'r frwydr fawr drosodd am byth, a'r saint hwythau yn dechreu canu—

"Efe a ddrylliodd y bwa saeth,  
Y waew wnaeth yn ddarnau,  
Ysigai'r holl darianau pres,  
Fe dorai'r rhes cleddyfan," &c.

Sut yr oedd breichiau a dwylaw yr hen ELIAS o Fôn yn siarad, tybed, pan yn areithio yn nghyfarfod y



Feibl Gymdeithas, wrth ddarlunio y cadeirydd, Ardal-ydd Môn, ar faes Waterloo,—“Dychymygaf ei weled yn dyfod i'r maes ar farch gwyn: hwnw yn diystyru arswyd, ac yn herio pob dychryn—ei draed yn cloddio y dyffryn, yn llawenychu yn ei gryfder wrth gyfarfod arfau; y cawell saethau yn trystio yn ei erbyn—y cledd, y bidog, y waewffon, a'r darian, yn serenu yn ei lygaid, ac yn dysglaerio o'i amgylch; ond y cwbl i ddim ond i'w wneyd yn barotach i lyngcu y ddaear gan greu-londeb a chynddaredd.” Darluniai ef yn rhedeg i ganol yr udgyrn, ac yn gwaeddi, “Ha! ha!” mewn gwawd am eu penau; ac yn aroglu rhyfel o bell—twrf tywysogion a bloeddio! “Ond y marchogwr enwog mewn perffaith hunan-feddiant, yn nghanol y mwg a'r tân, yn cyfarwyddo y fyddin, ac yn arwain ei gadrod, nes yr oedd wedi hollol gylchynu y gelyn, fel nad allai fyned yn mlaen nac yn ol; ond yntau yn rhy fawr ac yn rhy foneddigaidd i'w ladd ei hun pan yr oedd yn ei gyrhaedd!” Ar hyn, attaliwyd peth ar hyawdledd yr ar-eithiwr gan deimladau y dorf: oblegid yr oedd si ddystaw yn rhedeg trwy yr holl ystafell; a chryn gamp i gadw griddfanau a chrechweniadau i lawr. Ond yn mlaen yr aeth Mr. Elias yn ei araeth; ac fel yr oedd yn cryfhau yn ei nerth, ac yn tanio yn ei ysbryd, yr oedd yn myned yn fwyfwy effeithiol o hyd! Dywedai yn awr,—“Dychymygaf glywed bloeddio concwest cyn ei henill. Iê, ond concwest ar draul colli bywyd un o bigion ein cenedl a fydd! Nage; dim ond colli un aelod! Ar hyn dyma angeu yn dyfod yn mlaen, ac yn tafu pelen nes ysgar aelod y llywydd; ond beth er hyny, dyma Ragluniaeth i'r maes yn yr un foment, ac yn gwaeddi ar angeu, fel y gwaeddodd yr angel ar Abraham gynt—‘Atal dy law—hyd yma yr äi, ac nid yn mhellach!’ Gochel gyffwrdd â'i einioes—na feiddia fyn'd gam yn nes at ei fywyd na'i aelod. Y mae arnaf eisiau ei wasanaeth eto fel cadfridog mewn brwydr o

natur uwch o lawer na hon—y mae arnaf fi eisiau ei wasanaeth i lywyddu yn nghadair y Feibl Gymdeithas—y mae arnaf eisiau iddo arwain byddin i daenu gair y bywyd i bob gwlad, ac iaith, a phobl, a chenedl, dros wyneb yr holl ddaear.” Cymerwyd y blaenorol o “*Adgofion am John Elias gan R. Parry.*”

Y mae Cicero yn dweyd fod nerth ystum yn llawer mwy nerthol na geiriau; ac yr oedd yr areithydd Groegaid yn ei ystyried y peth penaf; eto rhaid cofio nad yw areithyddiaeth ddiweddar yn gofyn yr holl symudiadau a ystyrid gan yr henafiaid yn anhebgorol, eto dylid cymeryd ychydig o drafferth i fabwysiadu rhai o honynt; a pha mor brin bynag y defnyddir hwynt, os byddant yn gyson â'r pwnc, rhoddant nerth a phwysigrwydd i'r geiriau.

Byddai dwyn yn mlaen nifer o reolau, a wnaethpwyd gan wahanol ysgrifenywyr, yn ddigon hawdd; ond gan nad ydym yn meddwl y byddant o fantais neillduol i'r efrydydd, bydd i ni foddioni ar roddi ychydig o awgrymiadau eglur ac ymarferol, y rhai, os na byddant yn ddigonol er cyrhaedd perffeithrwydd, a fyddant yn ddigonol i ochelyd rhai beiai.

Y mae rhai wedi dweyd mai gwaith ofer yw astudio symudiadau y corff, am fod y teimladau a gynyrchir gan y syniadau yn llywodraethu yr aelodau yn naturiol. Dywedir y dylai pawb fod yn naturiol yn ei holl symudiadau, a dywedwn ninau hefyd yr un peth. Ond dylid cofio fod prif areithwyr y byd, hen a diweddar, yn astudio eu holl symudiadau gyda'r manylder mwyaf, a thrwy hyny yn dyfod yn fwy derbynol a tharawiadol.

Dylai sefyllfa y corff ateb i natur y pwnc. Y mae y corff yn sefyll yn syth, yn arwyddo gwrolder; ei dasu yn ol, balchder; yn plygu, ufudd-dod neu gydymdeimlad; parch neu addoliad, yn myned ar y gliniau mewn gweddi; curo y traed, digllonedd; cilio yn ol, dychryn; nesu yn mlaen, feiddgarwch.

Dylai yr ystum fod yn benderfynol, fel na byddo i'r llaw gael ei chodi yn ddiidaro, neu ei gostwng mewn amheuaeth, ond bod yna ddyben yn ei chodiad a'i gostyngiad; wrth bwysleisio gair, dylai y llaw fod yn dilyn. Dylai y llaw ddilyn y llais, yr hyn a fawr ychwanega yr effaith. Y mae y prif symudiadau yn cael eu gwneyd gan y llaw ddehau wrth gael ei hestyn allan; a'r symudiadau israddol gan y llaw chwith. Y mae hyn yn wahanol i arferiad yr henafiaid: Dywed Quintilian, "Nis gall y llaw chwith wneyd yr un ystum priodol ei hun, er ei bod yn aml yn cynorthwyo y llall." Gall dull gwahanol yr henafiaid o wisgo, roddi rheswm dros y gwahaniaeth hwn.

Dylid cymeryd gofal mawr am fod y wyneb yn ateb i'r teimladau a goleddir yn y galon—y mae hyn yn bwysig—sef meddu perffaith lywodraeth dros y gwyneb, yr hyn a rydd fantais neillduol i'r areithydd a'r darllenydd. At y gwyneb yr edrychwn am *index* y galon; ac os bydd ei ymddangosiad yn ddiotal a dideimlad, neu ei ystum yn amhwrpasol, y mae yr effaith yn cael ei gollu, oherwydd bai nas gall y traddodiad mwyaf hapus wneyd iawn am dano.

Y mae Cicero yn dweyd fel hyn am y wyneb,— "Trwy y wynebpryd y mae y teimlad yn cael ei ddangos; ar hyn y mae y gwrandawyr yn ymddibynu; a dyma y peth a farnant cyn iddo agor ei wêfusau." Y mae yn ddiddadl fod hyn yn wir, oblegid cawn fod edrychiad y dyn yn effeithio arnom, ac yn cyfleu rhyw syniadau i ni heb iddo ddweyd yr un gair.

Wrth gwrs, y mae dull y wynebpryd yn amrywio yn ol natur y pwnc: ond dylai fod yr edrychiad yn onest, ac nid ffugio teimladau. Dylai ymddangos fel o dan ddylanwad yr amgylchiadau a ddesgrifir ganddo. Nid oes dim mor wrthun a ffug mewn areithyddiaeth.

Y mae y rhan hon o areithyddiaeth yn dibynu yn fwy ar ymarferiad na rheolau; yn wir, y mae gosod i

lawr reolau pendant yn anmhosibl. A chan mai felly y mae hi, glynu yn fanwl wrth natur yw y rheol fwyaf sier; oblegid y mae hyd yn nôd feiau y siaradwr yn well, pan yn onest a naturiol, na phe yn addurnedig a blodau benthyciol, am yr un rheswm fod y gwyneb-pryd mwyaf cyffredin yn fwy derbynol na'r un a fyddo wedi ei baentio â'r lliwiau mwyaf dysglaer. Y mae rhai dynion yn cyfnewid yn hollol pan yr ânt i siarad yn gyhoeddus—y mae eu llais, eu gwedd, a'u symudiadau mor anystwyth a chlogyrnaidd a dyn pren yn cael ei symud wrth dynu y llinynau; tra y mae yr un dynion yn siarad ac yn edrych yn burion pan yn siarad ar yr aelwyd. Y maent felly yn lladd y cydymdeimlad a ddylai fodoli rhwng y siaradwr a'r gwrandaer. Bydded i bob dyn arfer ei ddull naturiol ei hun—pa beth bynag fyddo, a bydd yn sier o fod yn dderbynol. Y mae efelychu pobl ereill yr un peth yn union a gwisgo *mask* am y wyneb. Y mae dynion yn gwahaniaethu yn fawr; fel y mae un ystum ag sydd yn naturiol i un yn eithaf annaturiol yn y llall. Arfered pawb ei ddull ei hun—gochelwech bob bai, hyd y gellwech, a chydag ymarferiad, deuwch yn siaradwyr gwyech. Byddwch eich HUNAIN beth bynag, ac nid *parrots!*

Mewn erthygl yn y "*Traethodydd*" ar WILLIAMS, Pantycelyn, y mae y sylw hwn, ar y dull difywyd ac annerbyniol a arferir wrth roddi hymynu allan,— "Ond och! fel y llurgynir ac y merthyrir y penillion sy'n canlyn a'u cyffelyb yn fynych drwy y dull bongleraid, marwaidd, a diarchwaeth, y'u dodir allan. Teimlem ysfa ar ein calon lawer tro i redeg at ambell bregethwr a'i lindagu, a churo ei ben yn erbyn y pared yn dda gyda hyny, oherwydd ei ddull anghelfydd ac aflafar yn doddi y fath benillion allan i'r gynulleidfa i'w canu. Y mae rhai fel pe byddent yn ymwneyd o bwrpas i gymylu a chuddio gogoniant yr emynau o olwg y gynulleidfa, drwy y modd oerllyd a musgrell y traeth-

ant hwy. Yr un dôn a'r un dull sydd ganddynt i draddodi pob math o benill. Dodant y ddau isod\* allan yn hollol yn yr un llais ac aceniadau, a'r rhai hyny yn eithaf amhriodol i bob un o honynt. Ni bu nemawr ddim yn fwy poenus i'n teimladau na chlywed penillion sychlyd, dienaid, a diansawdd, heb na mawl, na gweddi, nac un o elfenau addoli ynddynt, yn cael eu doddi allan i'w canu mewn addoliad cyhoeddus; ynghyd a'r dull aiferw o draddodi penillion da a theilwng. Dyna ein hesgusawd dros ollwng y ffrwyn i'n teimladau fel hyn. O ddifrif calon, cynygiem fod i'n gwyr ieuainge yn ein hathrofâu gael eu gwर्सio yn dda yn y gangen hon o ddysgeidiaeth, er dysgyblu a choethi eu chwaeth mewn caniadaeth grefyddol, fel y detholont emynau teilwng i'w gosod yn nghanau ein cynulleidfaoedd, ac y dysgont, fel Paul, 'adnabod grym y llais,' ac fel yr offeiriaid hyny gynt, i 'osod allan y synwyr,' y meddwl, a'r ysbryd, wrth eu doddi allan. Rhoddir math o orfod ar ein cynulleidfaoedd yn fynych i gyflwyno 'aberth ffyliad' i'w Creawdwr, drwy yr emynau ffolion a ddodir yn eu geneuau i'w canu; a thefir emynau yn cynwys

\* Dyma y penillion y cyfeirir atynt gan yr ysgrifenydd galluog :—

" Marchog Iesu yn llwyddianus,  
Gwisg dy gleddyf ar dy glun;  
Ni's gall daear dy wrthsefyll,  
Chwaith nag uffern fawr ei hun:  
Mae dy enw mor ardderchog,  
Pob rhyw elyn gilia draw:  
Mae rhyw arswyd drwy'r greadigaeth,  
Pan y byddi di gerllaw."

" O ! Hefara addfwyn Iesu,  
Mae dy eiriau fel y gwin,  
Oll yn dwyn i mewn dangnefedd  
Ag sydd o anfeidrol rin;  
Mae holl leisiau 'r greadigaeth,  
Holl ddeniadau enawd a byd,  
Wrth dy lais hyfrydaf tawel,  
Yn dystewi a myn'd yn fud."

yr ystyriaethau mwyaf dyrchafedig a thanllyd arnynt yn aml hefyd fel darnau o iâ, drwy y dull oerfarwol a ddynodwyd o'u hadroddi, nes y bydd meddyliau y bobl yn cael eu fferu a'u rhynu, yn lle eu bywiocâu a'u gwresogi."

Prif ddyben siarad ydyw hyfforddi a pherswadio; ac mewn trefn i wneyd hyny, y mae yn angenrheidiol i'r areithydd ymddangos fel yn teimlo yr hyn a ddywed o leiaf; nis gellir cyrhaedd hyn tra y mae yno arwyddion celfyddyd yn dyfod i'r amlwg; ond, ar y llaw arall, os bydd yr areithydd yn teimlo yr hyn y mae yn ddweyd, y mae gwneyd i ereill deimlo yn beth hawdd. At hyn y cyfeiria yr enwog Betterton yn ei atebiad i Esgob Llundain. Y mae yr hanesyn, er yn eithaf hysbys, yn werth ei ailadrodd yma. Pan y gofynwyd iddo beth oedd yr achos fod dynion yn cael eu symud i wyllo, a'u nwydau mwyaf ystyfnig yn cael eu cynhyriu, wrth edrych ar rhyw olygfa yn y chwareudy: golygfeydd, efallai, mewn gwledydd na fuont erioed ynddynt, yn mhlith personau yr oeddynt yn berffaith anwybodus am eu harferion, ac yn gwybod ar y pryd mai ffug ydoedd yr oll; eto fod yr un personau yn gallu gwrando heb deimlo ar bregethau ar y pyngciau ag y mae eu cysur amserol a thragywyddol yn ymddibynu arnynt. "Fy Arglwydd," atebai Betterton, "yr achos yw, ein bod ni yn ceisio bod yn ddifrifol: yr ydych chiwi yn pregethu y gwir fel pe byddai yn ffug; ac yr ydym ninau yn ar-ddangos ffug fel pe byddai yn wirionedd."

## PENNOD VII.

Y NWDYDAU (*The Passions*).

YN yr esiamplau canlynol bydded i'r efrydydd arfer yr holl reolau a osodwyd i lawr yn flaenorol, nes y byddo wedi eu meistroli. Taffed ei hun iddynt, gan ymddangos fel yn eu teimlo; a bydded i'w lais a'i wedd ynghyd a'i ystum fod yn briodol i'r gwahanol deimladau a arddangosir ynddynt.

## RHESYMU.

Y mae yr engraifft a gawn yn 1 Cor. xv. yn un mor gyflawn ac ardderchog, fel yr ydym yn cael ein temtio i roddi yr oll o hõni fel y mae ar lawr o'r bron:—

“Hefyd yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, yr efengyl a bregethais i chwi, yr hon hefyd a dderbyniasoch, ac yn yr hon yr ydych yn sefyll; trwy yr hon y'ch cedwir hefyd, os ydych yn dal yn eich cof â pha ymadrodd yr efengylais i chwi, oddi eithr ddarfod i chwi gredu yn ofer. Canys mi a draddodais i chwi ar y cyntaf yr hyn hefyd a dderbyniais, farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ol yr ysgrythyrau; a'i gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ol yr ysgrythyrau; a'i weled ef gan Cephas, yna gan y deuddeg. Wedi hyny y gwelwyd ef gan fwy nâ phum' cant brodyr ar unwaith: o'r rhai y mae y rhan fwyaf yn aros hyd yr awrhon; eithr rhai a hunasant. Wedi hyny y gwelwyd ef gan Iago; yna gan yr holl apostolion. Ac yn ddiweddaf oll y gwelwyd ef genyf finau hefyd, megis gan un anhymig. Canys myfi yw y lleiaf o'r apostolion, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Dduw. Eithr trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf; a'i ras ef, yr hwn a roddwyd i mi, ni bu yn ofer; ond mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll: ac nid myfi chwaith, ond gras Duw yr hwn oedd

gyda mi. Am hyny, pa un bynag ai myfi ai hwynt hwy, felly yr ydym yn pregethu, ac felly y credasoch chwi. Ac os pregethir Crist, ei gyfodi ef o feirw; pa fodd y dywed rhai yn eich plith chwi, Nid oes adgyfodiad y meirw?

[Dyma yr apostol wedi agor y pwnc mewn modd meistrolgar, ac wedi gosod ei *premises* i lawr, ac y mae yn awr yn myned yn mlaen i gyfarfod â'r gwrthddadl.]

Eithr onid oes adgyfodiad y meirw, ni chyfodwyd Crist chwaith. Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yn wir yw ein pregeth ni, ac ofer hefyd yw eich fydd chwithau. Fe a'n ceir hefyd yn gau dystion i Dduw; canys ni a dystiasom am Dduw, ddarfod iddo gyfodi Crist: yr hwn ni's cyfododd efe, os y meirw ni chyfodir. Canys os y meirw ni chyfodir, ni chyfodwyd Crist chwaith. Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yw eich fydd chwi; yr ydych eto yn eich pechodau. Yna hefyd y cyfrgollwyd y rhai a hunasant yn Nghrist. Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yn Nghrist, truanaf o'r holl ddynion ydym ni. Eithr yn awr Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw, ac a wnaed yn flaenffrwyth y rhai a hunasant. Canys gan fod marwolaeth trwy ddyn, trwy ddyn hefyd y mae adgyfodiad y meirw. Oblegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yn Nghrist y bywheir pawb. Eithr pob un yn ei drefn ei hun: y blaenffrwyth yw Crist; wedi hyny y rhai ydynt eiddo Crist, yn ei ddyfodiad ef. Yna y bydd diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad: wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth. Canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed. Y gelyn diweddaf a ddinystir yw yr angen. Canys efe a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef. Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu darostwng, amlwg yw mai oddieithr yr hwn a ddarostyngodd bob peth iddo. A phan ddarostynger pob peth iddo, yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll. Os amgen, beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw, os y meirw ni chyfodir ddim? paham ynte y bedyddir hwy dros y meirw? A phaham yr ydym ninau mewn



peryl bob awr? Yr ydwyf beunydd yn marw, myn eich gorfoledd yr hon sydd genyf yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. Os yn ol dull dyn yr ymleddais ag anifeiliaid yn Ephesus, pa lesâd sydd i mi, oni chyfodir y meirw? bwydawn ac yfwn; canys y fory marw yr ydym. Na thwyller chwi; y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da. Defrowech yn gyfiawn, ac na phechwch: canys nid oes gan rai wybodaeth am Dduw. Er cywilydd i chwi yr wyf yn dywedyd hyn. Eithr fe a ddywed rhyw un, Pa fodd y cyfodir y meirw? ac a pha ryw gorff y deuant? O ynfyd, y peth yr wyt yn ei hau, ni fywheir oni bydd efe marw. A'r peth yr wyt ti yn ei hau, nid y corff a fydd yr ydwyf yn ei hau, ond gronyn noeth, ysgatfydd o wenith, neu o ryw rawn arall. Eithr Duw sydd yn rhoddi iddo gorff fel y mynodd efe, ac i bob hedyn ei gorff ei hun. Nid yw pob cnawd unrhyw gnawd: eithr arall yw cnawd dynion, ac arall yw cnawd anifeiliaid, a chnawd arall sydd i bysgod, ac arall i adar. Y mae hefyd gyrff nefol, a chyrff daearol; ond arall yw gogoniant y rhai nefol, ac arall y rhai daearol. Arall yw gogoniant yr haul, ac arall yw gogoniant y lloer, ac arall yw gogoniant y ser: canys y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant. Felly hefyd y mae adgyfodiad y meirw. Efe a heuir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth. Efe a heuir mewn anmharch, ac a gyfodir mewn gogoniant: efe a heuir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth: efe a heuir yn gorff anianol, ac a gyfodir yn gorff ysbrydol. Y mae corff anianol, ac y mae corff ysbrydol. Felly hefyd y mae yn ysgrifenedig, Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn ysbryd yn bywhau. Eithr nid cyntaf yr ysbrydol, ond yr anianol; ac wedi hyny yr ysbrydol. Y dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol; yr ail ddyn yr Arglwydd o'r nef. Fel y mae y daearol, felly y mae y rhai daearol hefyd; ac fel y mae y nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd. Ac megis y dygasom ddelw y daearol, nyni a ddygwn hefyd ddelw y nefol. Eithr hyn meddaf, O frodyr, na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw; ac nid yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth. Wele yr wyf fi yn dywedyd i chwi ddirgelwch: Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn di-

weddaf. Canys yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn an-  
llygredig, a ninau a newidir. Oherwydd rhaid i'r llygradwy  
hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwol-  
deb. A phan ddarffo i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth,  
ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb, yna y bydd yr ymad-  
rodd a ysgrifenydd, Angau a lyngwyd mewn buddugoliaeth.  
O angau pa le y mae dy gelyn? O uffern pa le y mae dy  
fuddugoliaeth? Colyn angau yw pechod, a grym pechod yw  
y gyfraith. Ond i Dduw y byddo y diolch, yr hwn sydd yn  
rhoddi i ni y fuddugoliaeth trwy ein Harlwydd Iesu Grist.  
Am hyny, fy mrodyr anwyl, byddwch sicr, a diymod, a hel-  
aethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol; a chwi yn  
gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd."

### TRYCHINEB.

#### DYSTRYW SENACHERIB.

Fel blaidd ar y gorlan yr Assur a ruthrai,  
Ei fyddin mewn porphor ac aur ymddysgleiriaid,  
Llewyrchant fel sêr ar y lli eu glâs arfau,  
Pan yw nos ar fôr Galeli dulas ei dôsau.

Fel gwyrdd-ddail yr Haf yn y goedwig yn gwridaw,  
Oedd milwyr banierawg tra haul yn machludaw;  
Fel dail gwedi Hydref yn grin yn y goedwig,  
Yr oerdorf oedd dranoeth ar daen yn wywedig.

Canys Angel Marwolaeth ei esgyll ymledai,  
Ac wrth hedeg yn wyneb y gelyn anadlai;  
Nes i lygad y cysgwr oerwelwi yn angau,  
Y phallu ar unwaith gur olai eu bronau.

A'i froen yn agored gorweddai y cadfarch,  
Ond mwy ni weryrai mewn balchder dihafarch:  
Y dorlan oedd wên gan ddygyfor ei enau,  
Ac oer megys ewyn y môr ar y creigiau.

Gorweddai y marchog yn llwyd ac annelwig,  
Y gwllith ar ei rudd, a rhwd ar ei luryg;  
Y gwersyll oedd dawel, banieri heb gyffraw,  
Y picellau hyd lawr, a'r ytgorn heb seiniau.

A gweddwon Assyria yn erchyll a udant,  
 A delwau teml Baal yn ddrylliau a syrthiasant;  
 A grym y Cenedlyn, heb gleddyf yn ebrwydd,  
 A doddai fel eira yn ngolwg yr Arglwydd.

## LLONG DDRYLLIAD.

Rhwng tir y Werddon, fawr ei brad,  
 A Chymru wlad fynyddog,  
 Unigol long oedd ar ei hynt,  
 O flaen y gwynt tymhestlog.

A minan oeddwn ar fy nhro  
 Yn môr-yndeithio ynddi;  
 A chyda bywyd ar y traeth,  
 Yr unig ddaeth o hōni.

Y nos oedd dywell:—lloer na sêr,  
 O'r uchder ni ddysgleirient:  
 Ond tōnau'r môr ar fawr wahan,  
 Fel byd o dân dywynant.

Ac ambell fellten, er ein braw,  
 Y creigiau draw amlygai;  
 Y rhai adseinient yn y man  
 I'r daran a'i canlynai.

Y cenllysg oeddynt ddarnau iâ,  
 Ac eira o flaen y gyrwynt:  
 Y rhai a daenynt fantell au,  
 Ar fôr a'i dōnau danynt!

Yn uwch, yn uwch, cyfodai'r gwynt,  
 Oer helynt oedd i'r hwylliau;  
 Y llong heb lyw na llywydd ar  
 A syrthio wna'r hwyllbrenau.

Ar grib y dōn y treigla 'n awr,  
 I'r eigion lawr y syrthia;  
 A thōn ar dōn, yn nyfnder nos,  
 Yn agos a'i gorchuddia.

Er garwed ydoedd yn mysg myr,  
 Hên forwyr wrth arferiad;  
 Llesgan yr oeddynt hwythau 'n awr,  
 Gan ofni 'n fawr *Llong ddrylliad*.

\* \* \* \*

Ar hyn glas lewyrch welid draw,  
 Goleuo mae—diflanu !  
 "Ai canwyll corff, neu olen 'r byw,  
 Er rhybudd yw o Gymru?"

"Ah ! rhyw ddrychiolaeth yw, er gwac,  
 Ymneidio mae o'r creigiau,  
 I lle'r ymddengys môr yn wyn,  
 Gan dwrf ac ewyn tônau."

A buan iawn y clywyd cri,  
 A gweddi groch marwolaeth ;  
 Ar graig suddedig gyda hyn  
 Cai'r llong fawr gryn, ysywaeth.

Hi ar y graig a gurai 'n fawr,  
 Y môr a'r llawr a'i drylloedd ;  
 A'r naill ar ol y llall, y dôn  
 Er eigion a ysgubodd.

Ar ddarnau 'r llong y gwelid rhai,  
 Y môr ymdreiglai danynt ;  
 Ac oedd yn agor ac yn cau,  
 Fel megis beddau iddynt.

Ac ambell farch oedd yno 'n bod,  
 Ymddatod wnai o'i rwyman ;  
 Gan chwythu 'n ffrom, a chwala 'i fwng,  
 Ymdrechai rhwng y tônau.

Myfi fy hun o ddystryw môr,  
 Is goror dderchafedig,  
 Fel un o lewyg ddaeth i'r lân,  
 Hyn oedd fy rhan i'n unig.

\* \* \*

Ond, O fy Nuw ! ar doriad dydd,  
 Pa olwg hrudd a welais ?  
 Ac er mor hyfryd oedd cael byw,  
 Pa faint fy Nuw a wylais ?

O'r llong, fy nghartref lawer dydd,  
 Yr Werydd-for a Bisci,  
 Nid oedd ond darnau—ac un rhan  
 Oedd ar y lân o hōni.

\* \* \*

Y wraig yn mreichiau 'r gŵr ynglyn,  
A'r plentyn ar ei bronau,  
Oedd yno hefyd—megis rhai  
Na lwyr wahanai angau.

A gwelais yno 'n farw 'r march,  
Fu 'n un dihafarch hefyd;  
A'i lygaid oerion ar wahan,  
Fu gynt fel tân yn fflamlyd.

Marwolaeth yma yn mhob ryw lun,  
A'i ffurf ei hun a welid;  
Dinystriad eiddo, dinystr dyn,  
Fw ganlyn a phob gofid!

Ond, ha! rhyw drwst a glywais draw,  
A dwedais—"Daw cynorthwy;"  
A thybiais ddyfod llu o'r wlad,  
A'n bwriad yn glodadwy.

"Ymg'leddu meirw, cadw i'r byw  
En heiddo yw eu bwriad;  
Ac (meddwn) ni chais Cymry les  
Na mantais o *Long-ddrylliad*."

Ond, ah! os yno ambell fam,  
A wyddai am dosturio;  
Rhyw luaws mawr a ddaethai ynghyd,  
A'n bryd ar *Long-ysbeilio*.

\* \* \*

## MELLDITH.

EZEC. xxxv.—A daeth gair yr Arglwydd ataf, gan ddywedyd, Gosod dy wyneb, fab dyn, tu ag at fynydd Seir, a phrophwyda yn ei erbyn, a dywed wrtho, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Wele fi i'th erbyn di, mynydd Seir, estynaf hefyd fy llaw i'th erbyn, a gwnaf di yn anghyfanedd ac yn ddiffaethwch. Gosodaf dy dđinasoedd yn ddiffaethwch, a thithau a fyddi yn anghyfanedd, fel y gwypech mai myfi yw yr Arglwydd. Am fod genyt alanasdra tragywyddol, a thywallt o honot waed meibion Israel a min y cleddyf, yn amser eu gofid, yn amser diwedd eu hanwiredd hwynt: Am hyny fel mai byw fi, medd yr Arglwydd Dduw, mi a'th wnaif di yn waed, a

gwaed a'th ymlid di: gan na chasêi waed, gwaed a'th ddilyn. Gwnaf hefyd fynydd Seir yn aurhaith ac yn ddiffaethwech, a thoraf ymaith o hono yr hwn a elo allan, a'r hwn a ddychwelo. Llanwaf hefyd ei fynyddoedd ef â'i laddedigion: yn dy fryniau, a'th ddyffrynoedd, a'th holl afonydd, y syrth y rhai a laddwyd â'r cleddyf. Gwnaf di yn aurhaith tragwyddol, a'th ddinasoedd ni ddychwelant; fel y gwypoch mai myfi yw yr Arglwydd. Am ddywedyd o honot, Y ddwy genedl a'r ddwy wlad hyn fyddant eiddo fi, a nynt a'i meddianwn; er bod yr Arglwydd yno: am hyn fel mai byw fi, medd yr Arglwydd Dduw, gwnaf yn ol dy ddig, ac yn ol dy genfigen, y rhai o'th gâs yu eu herbyn hwynt a wnaethost; fel y'm hadwaener yn eu mysg hwynt, pan y'th farnwyf di. A chei wybod mai myfi yw yr Arglwydd, ac i mi glywed dy holl gabledd a draethaist yn erbyn mynyddoedd Israel, gan ddywedyd, Anrheithiwyd hwynt; i ni y rhoddwyd hwynt i'w difa. Ymfawrygasoch hefyd â'ch geneuau yn fy erbyn i, ac amlhasoch eich geiriau i'm herbyn: mi a'u clywais. Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw; Pan lawenycho yr holl wlad, mi a'th wnaif di yn anghyfanedd. Yn ol dy lawenydd di am feddiant tŷ Israel, oherwydd ei anrheithio, felly y gwnaf i tithau: aurhaith fyddi di, mynydd Seir, ac Edom oll i gyd; fel y gwypont mai myfi yw yr Arglwydd.

---

### GWENIAETH.

DIAR. vii. 14—21. Yr oedd arnaf fi aberthau hedd; heddyw y cywirais fy adduned: ac am hyn y daethum allan i gyfarfod â thi, i chwilio am dy wyneb; a chefais afael arnat. Mi a drwsiais fy ngwely â llenni, ac â cherfiadan a lliemian yr Aifft. Mi a fwg-derthais fy ngwely â myrr, aloes, a synamon. Tyred, moes i mi yndenwi o garu hyd y boreu; ymhyfyrdwn â chariad. Canys nid yw y gŵr gartref; efe a aeth i ffordd bell: efe a gymerth godaid o arian yn ei law; efe a ddaw adref ar y dydd ammodol. Hi a'i troes ef â'i haml eiriau teg, ac â gweniaith ei gwefusau hi a'i cymbellodd ef.

## CERYDD.

MAT. xxiii. 13—24. Eithr gwae chwi, ysgrifenyddion a Pharisëaid, ragrithwyr: canys yr ydych yn cau teyrnas nefoedd o flaen dynion: canys chwi nid ydych yn dyfod i mewn, a'r rhai sydd yn myned i mewn ni's gadewch i fyned i mewn. Gwae chwi, ysgrifenyddion, a Pharisëaid, ragrithwyr: canys yr ydych yn llwyr-fwyta tai gwragedd gweddwon, a hyny yn rhith hir-weddio: am hyny y derbyniwch farn fwy. Gwae chwi, ysgrifenyddion a Pharisëaid, ragrithwyr: canys amgylchu yr ydych y môr a'r tir, i wneuthur un proselyt; ac wedi y gwneler, yr ydych yn ei wneuthur yn fab uffern, yn ddau mwy na chwi eich hunain. Gwae chwi, dywysogion deillion, y rhai ydych yn dywedyd, Pwy bynag a dwng i'r deml, nid yw ddim; ond pwy bynag a dwng i aur y deml, y mae ef mewn dyled. Ffylliaid a deillion: canys pa un sydd fwyaf, yr aur, ai y deml sydd yn sancteiddio yr aur? A phwy bynag a dwng i'r allor, nid yw ddim: ond pwy bynag a dyngo i'r rhodd sydd arni, y mae efe mewn dyled. Ffylliaid a deillion: canys pa un fwyaf, y rhodd, ai yr allor sydd yn sancteiddio y rhodd? Pwy bynag, gan hyny, a dwng i'r allor, sydd yn tyngu iddi, ac i'r hyn oll sydd arni. A phwy bynag a dwng i'r deml, sydd yn tyngu iddi ac i'r hwn sydd yn preswyllo ynddi. A'r hwn a dwng i'r nef, sydd yn tyngu i orseddfaine Duw, ac i'r hwn sydd yn eistedd arni. Gwae chwi ysgrifenyddion a Pharisëaid, ragrithwyr: canys yr ydych yn degymu y mintys, a'r anis, a'r cwmin, ac a adawsoch heibio y pethau trymach o'r gyfraith, barn, a thru-garedd, a ffydd; rhaid oedd gwneuthur y pethau hyn, ac na adewid y lleill heibio. Tywysogion deillion, y rhai ydych yn hidlo gwybedyn, ac yn llyngcu camel.

## AMHEUAETH.

GEN. xxvii. 18—29. Ac efe a ddaeth at ei dad, ac a ddywedodd, Fy nhad. Yntau a ddywedodd, Wele fi: pwy wyt ti, fy mab? A dywedodd Jacob wrth ei dad, Myfi yw Esau dy gyntaf-anedig: gwnaethum fel y dywedaist wrthyf: cyfod, at-

olwg, eistedd, a bwyta o'm helfa, fel y'm bendithio dy enaid. Ac Isaac a ddywedodd wrth ei fab, Pa fodd, fy mab, y cefaist mor fuan a hyn? Yntau a ddywedodd, Am i'r Arglwydd dy Dduw beri iddo ddigwyddo o'm blaen. A dywedodd Isaac wrth Jacob, Tyred yn nes yn awr, fel y'th deimlwyf, fy mab; ai tydi yw fy mab Esau, ai nad ê. A nesiodd Jacob at Isaac ei dad; yntau a'i teimlodd; ac a ddywedodd, Y llais yw llais Jacob; a'r dwylaw, dwylaw Esau ydynt. Ac nid adnabu efe ef, am fod ei ddwylaw fel dwylaw ei frawd Esau, yn flewog: felly efe a'i bendithiodd ef. Dywedodd hefyd, Ai ti yw fy mab Esau? Yntau a ddywedodd, Myfi yw. Ac efe a ddywedodd, Dwg yn nes ataf fi, a mi a fwytaf o helfa fy mab, fel y'th fendithio fy enaid. Yna y dug ato ef, ac efe a fwytaodd: dug iddo win hefyd, ac efe a yfodd. Yna y dywedodd Isaac ei dad wrtho ef, Tyred yn nes yn awr, a chusana fi, fy mab. Yna y daeth efe yn nes, ac a'i cusanodd ef; ac a aroglodd arogl ei wisgoedd ef, ac a'i bendithiodd ef, ac a ddywedodd, Wele, arogl fy mab fel arogl maes, yr hwn a fendithiodd yr Arglwydd. A rhodded Duw i ti o wllth y nefoedd, ac o frasder y ddaear, ac o amlra yd a gwin; gwasanaethed pobloedd dydi, ac ymgrymed cenedloedd i ti: bydd di arglwydd ar dy frodyr, ac ymgrymed meibion dy fam i ti: melldigedig fyddo a'th felldithio, a bendigedig a'th fendithio.

### YMDAERU.

1 BREN. iii. 16—28. Yna dwy wragedd o bateiniaid a ddaethant at y brenin, ac a safasant ger ei fron ef. A'r naill wraig a ddywedodd, O fy arglwydd, myfi a'r wraig hon oeddym yn trigo yn yr un tŷ; a mi a esgorais yn tŷ gyda hi. Ac ar y trydydd dydd wedi esgor o honof fi, yr esgorodd y wraig hon hefyd; ac yr oeddym ni ynghyd, heb arall yn tŷ gyda ni, ond ni ein dwyoedd yn tŷ. A mab y wraig hon a fu farw liw nos; oherwydd hi a orweddodd arno ef. A hi a gododd ynghanol y nos, ac a gymerodd fy mab i o'm hymyl, tra yr ydoedd dy lawforwyn yn cysgu, ac a'i gosododd ef yn ei myuwes hi, a'i mab



marw hi a osododd hi yn fy mynwes innau. A phan godais i y bore i beri i'm mab sugno, wele marw oedd efe : ac wedi i mi ddal arno y bore, wele, nid fy mab i, yr hwn a esgoraswn i, ydoedd efe. A'r wraig arall a ddywedodd, Nage, eithr fy mab i yw y byw, a'th fab dithau yw y marw. A hon a ddywedodd, Nage; eithr dy fab di yw y marw, a'm mab i yw y byw. Fel hyn y llefarasant o flaen y brenin. Yna y dywedodd y brenin, Hon sydd yn dywedyd, Dyma fy mab i sydd fyw, a'th fab dithau yw y marw : a hon acw sydd yn dywedyd, Nage; eithr dy fab di yw y marw, a'm mab innau yw y byw. A dywedodd y brenin, Dygwch i mi gleddyf. A hwy a ddygasant gleddyf o flaen y brenin. A'r brenin a ddywedodd, Rhenwch y bachgen byw yn ddau, a rhoddwch yr hanner i'r naill, a'r hanner i'r llall. Yna y dywedodd y wraig bioedd y mab byw wrth y brenin (canys ei hymysgaroedd a gynhesasai wrth ei mab) ac a lefarodd, O fy arglwydd, rhoddwch iddi hi y bachgen byw, ac na leddwch ef ddim : ond y llall a ddywedodd, Na fydded eiddo fi na thithau, eithr rhenwch ef. Yna yr atebodd y brenin ac a ddywedodd, Rhoddwch y bachgen byw iddi hi, ac na leddwch ef ddim : dyna ei fam ef

---

## ESBONIO.

### CRIST YN ESBONIO Y GYFRAITH.

MAT. v. 17—26. Na thybiwch fy nyfod i dori y gyfraith, neu y prophwydi : ni ddaethum i dori, ond i gyflawni. Canys yn wir meddaf i chwi, Hyd onid el y nef a'r ddaear heibio, nid â un iod nac un tipyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblhaer oll. Pwy bynag gan hyny a doro un o'r gorchymynion lleiaf hyn, ac a ddysgo i ddynion felly, lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas nefoedd : ond pwy bynag a'u gwnelo, ac a'u dysgo i eraill, hwn a elwir yn fawr yn nheyrnas nefoedd. Canys meddaf i chwi, ni bydd eich cyflawnder yn helaethach na cyflawnder yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd. Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, Na ladd; a phwy bynag a laddo, euog fydd o farn : Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd

i chwi, Pob un a ddiogio wrth ei frawd heb ystyr, a fydd euog o iarn: a phwy bynag a ddywedo wrth ei frawd, Raca, a fydd euog o gynghor: a phwy bynag a ddywedo, O ynfyd, a fydd euog o dân uffern. Gan hyny, os dygi dy rodd i'r allor, ac yno ddyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn, gad yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith; yn gyntaf cymmoder di â'th frawd, ac yna tyred ac offrwm dy rodd. Cytuna â'th wrthwynebydd ar frys, tra fyddech ar y ffordd gydag ef; rhag un amser i'th wrthwynebwr dy roddi di yn llaw y barnwr, ac i'r barnwr dy roddi at y swyddog, a'th dafu yngharchar. Yn wir meddaf i ti, Ni ddeui di allan oddi yno, hyd oni thalech y ffyrlling eithaf.

## DESGRIFIAD.

Dyma engraifft dda gan IORWERTH GLAN ALED:—

## YR YMEANGIAD.

Yr awel fach  
 Ar fynydd iach  
 Un boreu oedd yn llon;  
 Deffrôai'n wan  
 Goruwch yr âng fan,  
 Anwylaf fan o'r ddaear gron;  
 Ei hedyn ledai, chwyddai'r cylich o hyd  
 Mal syniad angel mewn ysbrydol fyd,  
 Nes ffurfio'n wynt, yn gorwynt grymus fryd;  
 Clyw 'r chwiban draw,  
 Clyw gorn y gwlaw,  
 Clyw raud erchyll llawn o fraw,  
 Ysgydwa'r goedwig, deffry'r âng lwyn,  
 Ysbrydion anian yno draethant gwyn,  
 Ffroch-gerbyd tymhestl a gynhyrfa'r hyd,  
 Olwynion dyrfant mewn ymchwyddol fryd,  
 O'r ddaear draw i'r nen, o'r nen i'r llawr ar ffwrst  
 Ymdroella'n ffyrnig mewn cynddeiriog drwst,  
 Nes synu myrdd!  
 Yr awel fechan, fwyn—yn gorwynt dry  
 Wrth ymângu'n araf fry.  
 Aderyn mwyn  
 Mewn deiliog lwyn

Ar gangen gwyrddlas brên,  
 A bletha gân  
 O seiniau mân,  
 Mal alaw bêr o'r nen,  
 Nes taenu swyn i bawb a'i clyw,  
 Y swyn yr hoffir ynddo fyw,  
 Er lleddfu bywyd gyda sain  
 Anfarwol ryw :  
 Yn unig un  
 Rhydd gerdd i ddyn,  
 Er cychwyn mawl rhyw seingôr pêr cytun ;  
 Yn araf daw  
 O'r llwyni draw  
 Ar edyn cyflym, dorf ddi fraw,  
 Nes gwneyd y llwyn yn deml maes o law,  
 Clywch ! Clywch !  
 Y gân ymchwyddol sydd  
 O'u pigau mân  
 Yn llon ar foreu 'r dydd ;  
 Fel myrdd o gôrau 'r nef  
 Yn uno mewn un lef  
 Rhwng llwyni Eden werdd,  
 Gan chwareu ar delynnau aur, anfarwol gerdd—  
 Wrth chwyddo 'r gân trwy 'r deiliog lwyn,  
*Mae 'n ymëangiad mwyn.*  
 Ffynonig glir  
 Ar ochr gwyrddlas dir  
 Ymlifa draw ;  
 Mae 'r ffrwd yn fechan iawn,  
 Yn murmur foreu a nawn,  
 Mal pe mewn braw ;  
 Ar draws y graian mân,  
 Rhwng lliwiog flodau glan,  
 Nes cyrhaedd nant ;  
 Yn fuan yno cwrdd â hi,  
 Wna ffrydiau ereill yn eu lli',  
 Nes chwyddo 'n afon ëang fri.  
 Er gwlychu llawer mant ;  
 Ymdyrfa dros y graig,  
 Ymrúa yn yr aig,  
 Ac yn y tro-lŷn berwi wna yn grôch,  
 Mal twrf wybrenol gan y daran frôch—  
 I lawr dros greigiau gan ymdyrfa â  
 Yn mlaen i'r eigion—tynu yno wna,  
 Nes suddo 'n orlif i'r dyfnderau, pan  
 Ddystawa'i sain oedd gynt yn beraidd, wan,

I'r eigion rhuawl  
Ymgynddeiriogawl,  
Ewyna ar y lân ;  
Ffynonig fach, wrth ddod i'r terfyn hyn,  
*Mae'n ymdegiad syn !*

Mae Cristion gwan  
Mewn llawer unig fan  
Yn drist ei wedd mewn anial fyd ;  
Mae'n unig wrtho'i hun,  
Yn adfeddylol ddyrn,  
Heb fawr o fwyniant i'w wyleiddiaf fryd ;  
Fel awel fach heb nerth,  
Yn huno 'n nail y berth  
Yn aml iawn ;  
Neu fel aderyn mwyn  
Ar gangen fach mewn llwyn  
Yn eilio ambell gainc, er lleddfu cwyn ;  
Neu fel ffynonig fechan ar  
Y fron, rhwng blodau gwar,  
O'i fron ei hun yn esgor swyn ;  
Ond os ymchwydda'r awel  
Mewn awel fry yn dawel,  
Nes dod yn gorwynt cryf  
I droelli yno'n hyf—  
Os cainc aderyn swyna eto fyrdd  
I lunio miwsig yn y llwyni gwyrdd ;  
Os ffynon fechan gyda'i harian li'  
A chwydda'n gefnfor mewn ardderchog fri-  
Clyw Gristion gwan !  
Cei dithau yn y man  
Ymgodi 'n araf o'th wyleiddiaf fryd  
I chwyddo'r gân draw mewn ysbrydol fyd ;  
Daw chwiban awel leddf yn gorwynt cryf,  
A'th gainc sydd isel, yn un seingor hyf—  
Dy si sydd fel murmurog ffynon wan  
Ymchwydda yno'n rhaiadr yn y man—  
A'r oll mor bêr nes synu engyl cain  
Gan amrywiaethau y gyfunol sain ;  
Un halelulia fawr  
Hyd gyrau'r nefol wawr,  
A gyfd myrdd—  
Nes anthem Calfari  
Fydd yn ei dwyfol fri  
Rhwing llwyni gwyrdd—  
I blant y codwm, pery'n fythol ddydd,  
Uwch, uwch, ymgodant yn yr awyr rydd,  
O'u plaid yn awr, y gref addewid sydd,  
UN YMEANGIAD FYDD.

## PENNOD VIII.

ARDDULL (*Style*).

AR ol i'r darllenydd fyned dros, a dysgu y rheolau blaenorol, ni a awn yn mlaen yn bresenol i wneyd rhai sylwadau ar yr Arddull goreu i'w fabwysiadu. Y mae y pwnc hwn o'r pwys mwyaf i'r efrdydd—o gymaint pwys, fel os na thelir sylw priodol iddo, y mae ei holl lafur blaenorol yn myned yn ofer.

Y mae yn amlwg (er fod y gwirionedd yn aml yn cael ei esgeuluso yn ymarferol) mai y peth cyntaf ag sydd yn angenrheidiol mewn arddull, nid yn unig mewn cyfansoddiadau rheithegol, ond pob math arall, yw *eghurder*; am fod iaith nad yw yn ddealladwy, neu yn hawdd ei deall ar unwaith, yn ffaelw cyrhaedd y pwynt neu yr effaith ag y mae iaith wedi ei bwriadu i'w gyrhaedd. Ac nid digon fod yr arddull yn gyfryw ag a ddeallir gan y gwrandawyr, a chaniatâu y bydd iddynt roddi eu holl sylw iddi: y mae yna ystyriaeth bwysig arall, sef pa faint o sylw a dalant mewn gwirionedd; nid pa faint o sylw y maent yn *alluog* i'w roddi, ond pa faint a roddant: y mae hyny i'w gymeryd i ystyriaeth, a dylid darpar ar ei gyfer. Yr ydym yn nodi y *math* yn ogystal a'r *gradd* o sylw, am fod rhai gwrandawyr yn araf eu hamgyffredion—yn cymeryd amser maith i ddeall rhyw bwngc, ond yn alluog i gymeryd rhywbeth i mewn, ond arfer dull gwmpasog, ac eglur i'w osod allan; tra y mae ereill mor gyflym eu hamgyffredion, fel y maent yn gallu gweled y peth ar unwaith, heb fyned o gwmpas i'w egluro—y maent yn hoffi dull byr a chryno, ac yn cael eu blino yn fawr â dull cwmpasog. Y maent hwy yn analluog i dalu hir sylw i unrhyw bwngc—y mae yn rhaid iddynt hwy ddeall y pwnc ar

unwaith, neu beidio ei ddeall o gwbl—dyrsir hwy ag arddull gwmpasog.

Pan y mae y gwrandawyr yn amrywiol iawn eu cyrhaeddiadau, y mae cryn lawer o fedrusrwydd yn angenrheidiol er cyfaddasu yr arddull, ac yn wir, yr ymresymadau, a holl osodiadau yr anerchiad, at y gwahanol feddyliau y bwriedir eu heffeithio; ac, yn wir, y mae yn anhosibl i'r mwyaf cywrain lwyddo yn mhob amgylchiad, yn enwedig os bydd y gwahaniaeth mor fawr ag yn y cynulleidfaoedd a ymgasglant yn nghyd i wrando pregethau. Ond y mae yn bosibl, pa fodd bynag, i gyrhaedd y gradd hwnw o berffeithrwydd mewn arddull a dull o ymresymu, fel ag i gyfarfod â chyrhaeddiadau y rhan fwyaf o'r gynulleidfa, er mor amrywiol, heb fod yn ddiflas i neb. Y mae yn anhosibl boddhau pawb wrth goginio ymborth meddyliol, ond y mae modd cyrhaedd y perffeithrwydd hwnw fel y bydd y rhan fwyaf yn gallu ymborthi arno, a'r gweddill yn gallu cyneryd tamaid yn heddychol, er y carasant ei gael yn boethach neu oerach, yn ol fel y byddont yn teimlo.

Y mae yn eglur ac yn eithaf hysbys i bawb, fod byrdra gormodol yn anghyfaddasol i rai byr eu deall ac araf eu hamgyffredion: ac nid yw y dull cyffredin o arfer llawer o eiriau, a chylchynu ol a blaen, yn effeithiol: y mae y dull cwmpasog yn dyrsu y rhai ag sydd yn gyflym eu hamgyffrediaid, heb fod yn un cymhorth i'r rhai sydd yn hollol groes i hyny; y maent, wrth fyned yn rhyfaith i egluro unrhyw bwngc, yn anghofio y peth blaenaf, erbyn y daw y diweddglo, a thrwy hyny yn colli y pen a'r gyntion—y dechreu a'r diwedd. Rhaid ychwanegu at hyn hefyd y ffaith fod y pwnc yn myned yn wanach wrth ei dynu allan neu ei helaethu—y mae y rhaff wellt yn myned yn feinach wrth ei gwneyd yn hirach. Y mae llawer un wrth geisio profi aml bwngc ag sydd yn ddigon eglur ynddo ei hun, yn rhes-

ymu y synwyr allan o hōno wrth ddefnyddio gormod o eiriau. Ni ddylai yr areithydd egluro ei bwngce i'r fath raddau fel y bydd yn ddealladwy os telir sylw priodol iddo; ond dylai wybod pa faint o sylw a delir iddo: os bydd yn gwasgu llawer o fater i gylch bychan, i gynulleidfa ddifeddwl, y mae yn colli ei amcan; ac, o'r ochr arall, os bydd yn myned yn rhy gwmpasog, y mae y rhan gyflym a meddylgar o'r gynulleidfa yn cael eu blino.

Y rheol gyffredin i ochelyd yr anghyfleusderau cysylltiedig âg arddull *gwmpasog* ac un *fyr*, yw *ail-adroddiad*: i ail-adrodd, hyny yw, yr un drychfeddwl neu resymeg mewn gwahanol ffurfiau; pob un yn fyr a chryno ynddo ei hun, ond yr oll yn nghyd, yn dyfod a'r pwngce mor eglur fel y byddo pawb yn gallu ei ddirnad a'i ddeall mewn moment. Gellwch, trwy hyny, gyspellu y meddwl ar yr un pwngce, heb ei flino a'i ddyrysu. "Y mae llawer ffordd i gael Wil i'w wely, heblaw ei gario," meddant hwy, ac y mae llawer dull i gario argyhoeddiad i feddwl y gwrandawydd, heblaw ei orfodi i'ch credu o'i anfodd. Efridydd ieuange, os metha un peth a chario argyhoeddiad, gosod yr un peth allan mewn dull arall—tafl oleuni arno o wahanol bwyntiau, a byddi yn lled debyg o gyrhaedd dy amcan. Dyma y dull a ddefnyddid gan Horace a Burke: yr oeddynt yn ail-adrodd yr un syniadau mewn gwahanol frawddegau byrion a hawdd eu cofio, fel nad oeddynt braidd byth yn methu yn eu hameanion.

Dylid gofalu na byddo yr ail-adroddiadau yn rhy amlwg; ni ddylai yr amrywiad fod yn gynwysedig mewn defnyddio geiriau cyfystyr; ond dylai yr hyn fyddo wedi cael ei adrodd mewn iaith syml, gael ei ail-adrodd mewn iaith ffigyrol; gall y rhan ragflaenol a chanlyniadol o'r rhesymeg, neu ran o gyferbyniaeth, gael eu trawsddodi; neu ymadroddion gael eu gosod mewn goleuni gwahanol, trwy newid y drefn, &c.

## GEIRIAU.

Y mae cryn bwys yn cael ei ddodi ar ddewisiad geiriau gan Aristotle ; y mae yn dweyd y dylai y geiriau fod yn gyfryw ag a ddeallir gan bawb : peidio arfer rhai rhy sathredig, a gochel, ar bob cyfrif, ddefnyddio rhai rhy ansathredig. Yn ein gwlad ni, y mae yma un dosbarth ag sydd yn cymylu eu cyfansoddiadau trwy arfer geiriau ag nad ydynt yn ddealladwy i'r werin ; tra y mae dosbarth lluosog arall, ag sydd wrth osgoi y bai hwn, yn rhedeg i'r eithafion arall, ac yn arfer geiriau isel, dichwaeth, a bastardaidd. Dylid gochel y ddau eithafnod, trwy fyned rhyngddynt, ac arfer geiriau bychain, cryno, a hawdd eu deall gan yr annysgedig fel y dysgedig. Y mae y Gymraeg yn ddigon cyfoethog ynddi ei hun, heb fyned i unman arall i chwilio am gynorthwy.

Y mae rhai yn meddwl mai y ffordd oreu i foddhau y rhai anwybodus, yw arfer geiriau eglur a syml, heb eu haddurno mewn modd yn y byd. Y mae hyny yn gangymeriad dybryd, oblegid y mae yr anwybodus yn hoffach o lawer na'r gwybodus o iaith addurnol a ffigyrol. Y ffordd fwyaf effeithiol, fel y cawn engraifft yn ngeiriau Crist, er cyrhaedd calonau y werin, ydyw defnyddio cyffelybiaethau neu gyfatebiaethau. Os telir sylw i ieithoedd trigolion anwaraidd, fe geir eu bod yn hynod ffigyrol.

## BRAWDDEGAU.

Mewn perthynas i wneuthuriad brawddegau, y mae yn ddiangenrhaid rhybuddio yr efrydydd ieuangc i beidio a'u gwneyd yn rhy hirion ; ond camgymeriad yw tybio fod brawddegau yn aneglur am eu bod yn faith yn unig ; gall brawddeg hir, os wedi ei ffurfio yn briodol, fod yn hawddach ei deall nag un fêr, os bydd i hono fod wedi ei chamosod yn nghyd. Os bydd i frawddeg gael ei gwneyd yn y fath fodd fel y byddo y



meddwl yn eglur wrth fyned yn mlaen (er na fydd y synwyr wedi ei gwblhau) ni bydd ei hyd yn un rhwystr i eglurder; ond os na bydd i'r rhan flaenaf o'r frawddeg gynwys dim ystyr nes y cyrhaeddwn yn agos ei diwedd, pa mor eglur bynag y gall ymddangos y pryd hwnw, bydd, ar y cyfan, yn ddiffygiol mewn eglurder; oblegid y mae yn angenrheidiol ei darllen drosodd, neu ei *meddwl drosodd* yr ail waith, cyn y gellir ei hamgyffred yn llawn; yr hyn sydd yn ormod o drafferth yn y cyffredin, gan y gwrandawyr. Cymerwch, er engraifft, y frawddeg canlynol:—"Nid heb raddau o fanwl sylw ac ymdrech difflino, mwy nag y mae y cyffredin yn foddlon i'w roddi, er nad yn fwy nag a haedda y gwrthddrych, y gellir cyrhaedd yr arferiad o chwilio a barnu ein hymddygiadau ein hunain gyda'r un cywirdeb a didueddrwydd ag y gwneir gan ereill." Y mae y frawddeg hon yn llafurio o dan y bai yr ydym yn son amdano, a gellir ei gwella i ryw raddau ond ei doddi fel hyn: "Nis gellir cyrhaedd yr arferiad o chwilio a barnu ein hymddygiadau ein hunain mor fanwl ag eiddo ereill, a'u barnu gyda'r un didueddrwydd, heb ymdrech difflino a sylw manwl, dim mwy nag a haedda y gwrthddrych, ond mwy nag y mae y cyffredin yn foddlon i'w roddi." Y mae y ddwy frawddeg yn debyg o ran hyd, a'r geiriau a ddefnyddir; ond y mae cyfnewidiad y drefn, yn galluogi y gwrandawydd i ddeall y naill adran ar ol y llall hyd y diwedd. Y mae y gocheliad hwn yn ychwanegu yn ei bwysigrwydd, pan feddylion fod awdwyr wrth ddarllen eu brawddegau drosodd, a'u cael yn hollol ddealladwy, yn anghofio fod ganddynt hwy y fantais wrth ddechreu y frawddeg, o wybod pa beth yw ei therfyniad. Y mae pawb yn rhy dueddol o lawer i feddwl fod ereill yn gallu deall eu brawddegau yn gystal a hwy eu hunain; fod yr ymadroddion sydd yn ddealladwy iddynt hwy, oherwydd eu gwybodaeth flaenorol, yn ddealladwy a'r un mor

egllur i'w gwrandawyr. Dylid gochel y bai hwn ar bob cyfrif. Y mae yn rhaid ystyried mai cyfleu y wybodaeth *sydd* ganddo i ereill y mae, nad oeddynt yn feddianol arni yn flaenorol.

Y mae yr holl reolau blaenorol, fel y mae yn amlwg, wedi eu gosod i lawr oddiar y dybiaeth mai amcan y siaradwr yw gwneyd ei hun yn ddealladwy; ac nis gall fod ond fel hyn yn mhob achos o ddefnyddiad cyfreithlon rheitheg; ac yn wir, hyd yn nôd pan y bwriad yw ffug-resymu. Oblegid, fel y mae Dr. Campbell wedi sylwi, gall y twyll-ddadleuwr ddefnyddio rhesymau ag sydd ynddynt eu hunain yn gyfreithlon a goddefol, gan y gall tebygolrwydd fod ar y ddwy ochr, er nas gall y gwirionedd fod ond ar un; y mae ei dwyll yn gynwysedig mewn cadw o'r golwg y tebygolrwydd cryfach ag a ellid ei ddwyn yn ei erbyn, a rhoddi pwysau amhriodol ar y rhai a ddygwyd yn mlaen ganddo ef. Eto, gall gynyg rhyw osodiad fel un ag a fyddo yn profi ei hunan, heb fod yno ddigonol reswm dros hyny; neu dynu sylw ei wrandawyr at rhywbeth nad yw yn dal cysylltiad rheithegol â'r pwnc mewn llaw, a thrwy hyny eu dallu; gall wneyd hyn oll heb fabwysiadu arddull aneglur. Dyma ddarnodiad Dr. Campbell o ffugreswm, "Y mae yn amhosibl camgymeryd twyll-resymeg am wir-resymeg, ond pan nad ydyw yn cael ei ddeall yn briodol," ac amcan y ffug-ddadleuwr yw, nid cael ei ddeall, ond ei *gamddeall*; ar fod ei iaith yn *dwyllodrus* yn hytrach nag yn aneglur a chwmpasog. Ei amcan yw cael gan y gwrandawydd ffurfio barn *anghywir*, ac nid peidio ffurfio barn o gwbl am y pwnc mewn llaw, er gallu ei gamarwain. Mewn gair, nid yw y twyll yn gynwysedig mewn arddull tywyll ac aneglur: nid ydyw fel y tawch ag sydd yn peri i wrthddrychau ymddangos yn aneglur, ond fel y gwydr lliwiog ag sydd yn eu dangos yn wahanol i'r hyn ydynt mewn gwirionedd.

Y mae yna fathau twyllodrus ereill o areithyddiaeth (ar wahan i'r hyn a elwir yn dwyll-resymu) ag nad ydynt yn tarddu oddiar ddieithrwch yr arddull. Gwir ddyben areithyddiaeth, wrth gwrs, yw perswadio neu argyhoeddi, ond y mae yna fathau ereill o areithyddiaeth, os teilwng o'r enw, er cyrhaedd amcanion gwahanol. Un o honynt ydyw—

#### SIARAD ER MWYN SIARAD.

Sef ymddangos fel yn dweyd rhywbeth, pan mewn gwirionedd na bydd dim i'w ddweyd; er osgoi y diraddiad o gael ei drechu gan ei wrthwynebydd. I gyrhaedd yr amcan hwn, goreu po fwyaf aneglur y byddo y brawddegau, os gellir cario gyda hwynt ymddangosiad o wybodaeth, ac yn taro â'r pwngc. Nid oes dim yn ymddangos yn fwy hawdd na hyn, os bydd yr awdwr yn syrthio iddo yn naturiol; hynny yw, pan y mae yn twyllo ei hun yn ogystal a'r gwrandawydd; ond nid oes yr un arddull yn anhawddach, pan y mae yn fwriadol—y dyn yn bwriadu siarad er mwyn siarad. Y mae angenrheidrwydd hefyd, os dilynir y dull hwn, i feddu ar lawer o gyfrwysdra er mwyn gallu cydblethu âg ef ychydig synwyr yn awr ac eilwaith, er cadw y twyll i fyny; neu y mae personau o farn yn lled debyg o weled trwyddo, a darganfod ei amcan. Dyma ddywed un o'r beirdd Seisonig am un ag a fyddo wedi cael ei wthio i'r fath gongl anedwydd:—

*“Of darkness visible so much be lent,  
As half to show, half veil the deep intent.”*

Y mae y dull ffol hwn o ymresymu yn gwahaniaethu oddiwrth dwyll-resymeg briodol yn hyn: dyben twyll-resymeg yw argyhoeddi neu berswadio, ond nid oes dyben nac amcan yn y byd wrth “siarad er mwyn siarad;” wrth ffug-resymu y mae y gwrandawydd yn deall *rhywbeth*, ond nid yw yn deall yn *iawn*—amcan y

twyll-ddadleuwr yw eu perswadio i ddyfod i dynu casgliad anghywir—un ag na fyddo yn tarddu yn naturiol oddiar yr osodaeth. Ac y mae yr arddull ffugiol hwn yn aml nid yn unig yn ei gadw rhag syrthio i warth, ond y mae yn gwneyd mwy: y mae personau anwybodus nad ydynt wedi cael eu hargyhoeddi gan yr hyn na ddeallant, yn meddwl fod ereill yn ei ddeall; ac y mae arnynt gywilydd cyfaddef eu hanwybodaeth i'w gilydd. Fel os bydd i'r siaradwr, gyda llais awdurdodol ddweyd mai fel y mae ef yn dweyd, y mae pethau yn bod, y maent yn cymeryd hyny yn ganiatâol, ac ni fynent er dim a gadael iddo wybod eu bod ar ei ol mewn gallu i ddirnad pethau. Y mae eisieu cryn lawer o benderfyniad ac annibyniaeth meddwl i ddweyd yn groew, "Nid wyf yn deall yr hyn a ddywedasoch."

Dyben arall a enillir trwy y dull hwn o siarad, yw ei fod yn cael ei ddefnyddio fel esgus, un gwael y mae yn wir, gan ddynion i bleidleisio neu weithredu yn ol eu tueddiadau; gweithrediadau ag y buasai arnynt gywilydd eu cyflawni, pe buasai rhesymau cedyrn wedi cael eu dwyn o'r ochr arall, ac wedi aros heb gael eu hateb; y maent yn boddhau eu hunain os bydd *rhywbeth* wedi ei ddweyd yn bleidiol i'w hoff olygiadau, hyd yn nôd pe byddai y *rhywbeth* hwnw yn gynwysedig ond yn unig mewn geiriau gweigion ag na chyfleant ddim synwyr. Digon ganddynt fod atebiad *wedi ei roddi*, heb boeni dim yn nghylch pa fath fydd.

Dull arall o siarad a fabwysiedir, ag sydd yn fwy croes na'r blaenorol, os oes modd, i reolau areithyddiaeth, yw

## SIARAD I LADD AMSER.

Y mae hon yn ddinas noddfa ag y mae llawer yn ffoi iddi. Dyma ddull ag a arferir yn aml iawn yn y Senedd. Pan y mae eisiau amser i chwilio am aelodau absenol er cael eu pleidleisiau, cael gohirio y mesur er

cael dyfeisio rhyw ystranc newydd, neu flino y gwrandawyr i'r fath raddau, fel na byddo ganddynt ddim blas i wrando ar y blaid wrthwynebol, y mae aelod lled lithrig ei dafod yn cyfodi ar ei draed, ac yn arllwys allan gawodau o eiriau dengar, gan eu plethu yn nghyd yn y dull mwyaf cywrain a chelfyddgar. Nid ydyw yn siarad ffloneb, ac eto, nid ydym yn gwybod faint gwell ydyw. Y maent yn troi yn rhywle o amgylch y pwnc dan sylw, ond heb ddweyd dim o'i blaid, na rhoddi lle i'r blaid wrthwynebol i gael dim yn erbyn yr hyn a ddywedir. Y mae yn gallu cadw sylw y Tŷ am awr neu ddwy gyda'r fath yma o areithyddiaeth, heb fod ganddo ddim amcan wrth godi ond lladd amser. Y mae eisieu medrusrwydd mawr i wneyd hyn—mwy o lawer nag sydd yn angenrheidiol i siarad synwyr. Y mae yn rhaid iddynt fod yn hynod o'r barddonol, a chymysgu hyny âg arabedd. Ond wedi yr oll, y mae yn diweddu mewn mwg—*buret bubble* yw yr oll!

Fe geir engreiffiau o hyn yn ein cyfarfodydd cyhoeddus—ond gyda'r gwahaniaeth, fod un yn siarad er lladd amser, a thrwy hyny yn enill ar ei wrthwynebwyr, a'r llall yn siarad er lladd amser, heb fod ganddo un amcan yn y byd—o'r ddau ddrwg, y mae y blaenaf yn fwy goddefol o lawer. Fe glywir ambell i un yn codi, a threulia amser gwerthfawr i ddweyd—dim! Ymesgusoda, pesycha, edrycha o gwmpas—siarada am yr anhawsderau y mae danynt—cyfeiria at yr hyn a ddywedodd y siaradwr o'i flaen, ac yna ä yn mlaen i ddangos yr hyn sydd yn weledig i bawb, sef ei anghymhwysder; ac ar ol cyrhaedd y *climax* yna, y mae yn cymeryd ei wynt, ac yn dechreu ar yr ail ran o'i araith hyawdl, sef son am yr enwogion sydd o'i amgylch yn barod i anerch y cyfarfod, ac ar ol hir guro y llwyni, y mae yn cyrhaedd yr ail *glimax*, a'r mwyaf dedwydd iddo ei hun a phawb arall, sef eistedd i lawr yn nghanol “banllefau o gymeradwyaeth!”

Nodwn un math o areithyddiaeth ffugiol arall, sef—

ARFER IAITH CHWYDDEDIG A THYWYLL ER MWYN  
SYNU YR ANWYBODUS.

Y mae dynion yn dueddol iawn i edmygu yr hyn ag nad ydynt yn gallu ei amgyffred, os arferir iaith anghyffredin, ac os cyplysir geiriau chwyddedig yn nghyd. Y maent yn edrych yn isel ar yr areithydd ag sydd yn siarad mewn iaith ag sydd yn cyfateb i'w hamgyffredion. Am y blaenaf dywedant, "Oh! y fath ddyn mawr a dysgedig!" ac am yr olaf, "Hynod mor ddiffygiol ac annysgedig!" Nid ydynt yn ystyried mai gorchest fwyaf athrylith ydyw cymeryd gafael yn y gwirionedd pellenig, a'i gyfieithu i iaith synwyr cyffredin. Y maent yn camgymeryd dwir budr am ddwif dwfn, ac yn methu gweled gwahaniaeth rhwng y dyn sydd yn y cymylau a'r dyn sydd yn y tawch! Beth pe edrychid ar ambell i "araeth flodeuog," a "phregeth ehediadol" trwy lygaid synwyr cyffredin? Yn wir, y mae arnaf ofn mai ychydig o honynt a ddaliai y prawf. Nid ydym yn erbyn iaith brydferth pan yn cael ei defnyddio fel gwisg am rhyw wirionedd, er ei ddwyn i sylw. Y mae yn dda yn ei le, ond yn wrthun iawn pan ei defnyddir i synu yn unig—y mae fel fflachiad y fellten, yn gadael y tywyllwch yn fwy. Y mae gwerth araith yn dibynu ar y swm o wybodaeth fuddiol a gyfleir i'r gwrandawyr. Dylid chwilio am fater yr araith yn mlaenaf, ac yna dechreu gwisgo am dani—nid chwilio am *ceiriau* ond *pethau*—nid *gwisg* ond *corff*. Y mae llawer araith ag sydd yn synu y gwrandawyr fel *butterfly* yn ymddangos yn brydferth iawn ar y pryd, ond yn diflanu yn fuan—dim yn dal ar y meddwl—yr un bâch wedi gafael yn y galon a'r gydwybod.

GRYM (*Energy*).

Y MAE grym yn cynwys pob peth ag sydd yn cael ei ddefnyddio er cynyrchu sylw—i argraffu ar y meddwl y rhesymau a ddygir yn mlaen—i gynhyrfu y dychymyg, a chyffroi y teimladau.

Y mae grym yn dibynu ar dri pheth,—Yn 1af, *y dewisiad o eiriau*; 2il, *eu rhif*; ac yn 3ydd, *eu trefn*.

## DEWISIAD GEIRIAU.

Y mae Aristotlele yn rhanu geiriau yn ddau ddsbarth, sef “priodol” neu “gyffredin;” a’r ail ddsbarth yn cynwys yr holl eiriau ag nad ydynt yn cael eu harfer yn gyffredin; geiriau dieithr ac anarferedig; yn nghyd â’r geiriau *cyffredin* hyny a ddefnyddir rai prydiau i osod allan beth *anghyffredin*. Y mae yr holl droelleiriau a’r ffigyrau a ddefnyddir gan ramadegwyr a rheith-egwyr yn syrthio o dan y pen hwn.

Mewn perthynas, ynte, i eiriau “priodol,” y brif reol ag y gallwn ddibynu arni bob amser, yw peidio byth ag arfer geiriau *dansoddol* a *chyffredinol*. Y mae yn angenrheidiol er cynyrchu effaith, nid yn unig i gael gair ag sydd yn cynwys y meddwl, ond dylid chwilio am *y gair*—a’r unig air ag sydd yn cynwys y peth ar unwaith. Gellir cydmaru geiriau “priodol” i’r argraff a dderbynia y meddwl pan y mae y llygaid yn gallu gwled y gwrthddrych yn eglur—*y dyn*, os mynweh,—y mae yno yn berffaith—dim modd camgymeryd; mewn goleuni gwanach, neu yn hytrach yn mhellach, yr oll a welwn yw, bod yno ddyn; yn mhellach drachefn, y mae yno rywbeth yn symud; ac o’r diwedd, yr oll a allwn ddweyd yw fod yno rhyw wrthddrych. Y mae geiriau yn debyg i hyn. Gall y gair gynwys y peth ag y byddis yn son am dano, ond y mae mor bell ac anegllur, fel y mae yn methu cyfleu syniad nerthol i’r

meddwl. Dyma ddywed Dr. Campbell ar y pwngc, ac y mae yn eithaf gwir, "Po fwyaf *cyffredin* y byddo y geiriau, mwyaf aneglur y bydd y darlun; po fwyaf *arbenigol* a *phriodol*, mwyaf eglur y bydd y darlun. Gall yr un syniad gael ei gyfleu lawn mor gyflawn, a llawn mor eglur, yn y ffordd flaenaf, a'r olaf; ond gan fod y lliwiau yn y blaenaf yn fwy marw, ni rodda gymaint o bleser i'r dychymyg, ac fel canlyniad ni bydd yn gallu denu y sylw, nac argraffu ar y côf i'r fath raddau a'r olaf."

Ar yr olwg gyntaf, gellid meddwl nad oes gan yr areithydd fawr o ddewis yn y ffordd hon—ei fod yn gorfod arfer geiriau neillduol neu gyffredinol yn ol natur ei bwngc. Y mae yna le i ddewis, pa fodd bynag; oblegid yn y lle cyntaf, y mae yn dibynu arnom ni pa un a ddewisom ai peidio, eiriau *mwy* cyffredinol nag a ofynir gan y testun; yr hyn a ellir wneyd yn gyson â gwirionedd a phenodoldeb, ond nid â deddfau *grym* neu *ddyfanwad*: os bydd yn wirionedd fod dyn wedi cyflawni *llofruddiaeth*, gellir dweyd gyda phriodoldeb ei fod wedi cyflawni *trosedd*; os cafodd yr Iuddewon eu "gorchfygu," a "Jerusalem ei dymchwelyd," gan "fyddin Vespasian," gellir dweyd hefyd gydag eithaf priodoldeb, eu bod wedi eu "darostwng" gan y "gel-yn" a'u "dinas" ei chymeryd. Fel hyn, y mae y "neillduol" a'r "cyffredinol" yn wastad o fewn ein cyrhaedd, a gallwn newid y naill am y llall yn ol ein dewisiad; ac y mae llawer areithydd ieuange yn syrthio i'r bai hwn o arfer geiriau rhy gyffredinol, a thrwy hyny wanhau ei arddull yn fawr iawn; gan feddwl, y mae yn debyg, ei fod trwy hyny yn ymddangos yn fwy coeth a dyfnddysg, wrth arfer geiriau nad ydynt mewn arferiad cyffredin yn mhlith yr anwybodus. Y mae y geiriau a arferir felly yn cynwys *y peth*, ond eu bod yn cynwys llawer iawn mwy na hyny. Y mae pregethwyr ieuange yn dueddol i syrthio i'r bai hwn, trwy siarad



ar rinwedd a drygioni, duwioldeb ac annuwioldeb, mewn modd cyffredinol, heb fanylu; y maent yn anghofio wrth hyny, tra y maent yn cynwys *llawer*, nad ydynt yn cael ond ychydig os dim *effaith*.

Yr unig adeg briodol i arfer y dull cyffredinol hwn, yw pan ein hamcan fydd *peidio* cario argraff rhy fywiog, — pan ein hamcan fydd cuddio rhywbeth o natur atgas, fflaidd, neu ddychrynlyd; fel pan y byddwn yn son am ddyn wedi cael ei “golli,” pan yr ydym yn golygu fod y truan collfarnedig yn cael gwasgu ei anadl allan o hōno trwy gortyn y dienyddiwr: y mae engreiffiau o'r natur yma yn lluosog iawn.

Ond yn yr ail le, nid yn unig y mae gofal am “rym” yn gofyn i ni beidio arfer geiriau *mwy* cyffredinol nag a ofynir gan y pwngc, ond yr ydym yn cael caniatâd, mewn llawer o amgylchiadau, i ddefnyddo geiriau *llai* cyffredinol nag sydd yn briodol. Yn mha achos, yr ydym yn defnyddio geiriau nad ydynt yn “briodol,” ond yn perthyn i'r ail o'r ddau ddsbarth a nodwyd. Y mae defnyddiad troelleiriau yn bur gyffredin, am eu bod yn ychwanegu yn fawr at y “grym,” ac yn y cyffredin, heb beryglu y synwyr. Y mae yr adran a adroddir gan Dr. Campbell, allan o un o bregethau neu anerchiadau Crist, yn nghyd a'r nodiadau arnynt, yn egluro yr hyn a ddywedasom: “Ystyriwch y lili, pa fodd y maent yn tyfu: nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu; ac yr wyf yn dywedyd i chwi, na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn. Ac os yw Duw felly yn dilladu y llysieuyn, yr hwn sydd heddyw yn y maes, ac y fory a deslir i'r ffrwn; pa faint mwy y dillada efe chwychwi?” (Luc xii. 27, 28) Bydded i ni arfer dull esbonwyr diweddar o aralleirio yr adran hon o air Duw, trwy dynu y geiriau “neillduol,” a rhoddi rhai “cyffredinol” yn eu lle, — “Ystyriwch y blodau, fel y maent yn araf gynyddu mewn maintioli, nid ydynt yn gwneyd gwaith o fath yn y byd, ac eto

yr wyf yn eich sierhau nad ydyw brenin, pan yn ei wisg oren, yn gyffelyb iddynt. Os ydyw Duw, gan hyny, yn ei ragluniaeth yn addurno felly y cynyrchion llysieuol ag nad ydynt yn para ond ychydig amser ar y tir, ac wedi hyny yn cael eu defnyddio at y gorchwyl iselaf, pa faint mwy y gofala efe am ddillad i chwi." Mor wan, mor eiddil, onide? Yr oll a wnaethom oedd tynnu yr ymadroddion "neillduol," a gosod rhai "cyffredinol" yn eu lle: y mae yr aralleiriad yn cynwys y gwreiddiol, ond ei fod yn cynwys mwy, a dyna yr achos ei fod mor eiddil. Ond rhaid i ni fyned yn mlaen i sylwi ar y

#### TROELLEIRIAU A CHYFFELYBIAETHAU.

Ystyr gyfyngaf cyffelybiaeth, yw rhoddi y naill air am y llall, oherwydd y tebygolrwydd sydd rhyngddynt. Nid yw cydmariaeth yn gwahaniaethu oddiwrth gyffelybiaeth ond yn unig yn ei ffurf; y mae un yn cael ei ddatgan, a'r llall ei dybio. Y mae y naill fel y llall yn cael ei sylfaenu ar debygolrwydd y gwrthddrych; er engraifft, byddwn yn cydmaru tonau mawrion i fynddau. Y cyffelybiaethau a'r cydmariaethau a sylfaenir ar debygolrwydd ydynt bob amser y rhai mwyaf tarawiadol a nerthol. Y maent yn fwy aml, oblegid y mae gan bob gwrthddrych ugeiniau o wahanol gysylltiadau a gwrthddrychau a phethau ereill; ac y maent yn fwy tarawiadol, pan y mae gwrthddrychau ag sydd yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eu gilydd yn eu natur a'u ffurf, yn debyg i'w gilydd mewn rhyw un peth—po fwyaf anhebyg i'w gilydd, mwyaf nerthol y dylanwad. Pe baem yn myned i ddewis cydrhwng cyffelybiaethau a chydmariaethau, dewisem y blaenaf fel y mwyaf cyfaddasol at bob amgylchiad; ond gall yr hyn ag a fyddo yn ymddangos yn dywyll fel cyffelybiaeth, gael ei deall fel cydmariaeth. Gallwn ddweyd gyda phriodoldeb, fod "Cromwell wedi *sathru* y cyfreithiau," ond swniai yn

ddieithr pe dywedem "ei fod wedi ymddwyn at ein cyfreithiau gyda'r un diystyrwech a'r dyn a sathro unrhyw beth o dan ei draed." Ni ddylid byth fyned i'r drafferth i egluro a manylu ar y gydmariaeth neu y tebygolrwydd—dim ond ei nodi, a gadael i'r gwrandawydd y pleser o'i gael allan—nid ydynt yn hoffi i chwi ei nodi allan yn rhy amlwg. Y mae llawer o'n dynion mwyaf dysgedig yn defnyddio cymysgedd o'r ddau, yr hyn, pan yn cael ei ddefnyddio yn briodol sydd yn ychwanegu yn fawr at y grym. Y mae Aristotlele yn sylwi y gellir defnyddio cyffelybiaethau naill ai i ddyrchafu neu i ddarostwng unrhyw wrthddrych. Fel hyn, gellir dweyd am areithydd lled uchel ei lais, ei fod yn *taranu*. Yn mhob achos, os bydd y gyffelybiaeth yn briodol, y mae yn sicr o ychwanegu at y grym.

Y mae *troelleiriau*, meddai Dr. Campbell, yn ychwanegu at nerth yr ymadrodd, pan y mae angen am gael y meddwl i orphwys yn neillduol ar y peth mewn llaw. Felly y mae nerth yn aralleiriad Abraham o "Dduw," pan yn siarad am dano yn y cymeriad o Farnwr: "Oni wna *Barnwr yr holl ddaear* farn?" Ac eto pan yn cyfeirio at ei Hollbresenoldeb, gallem ei alw yn "*Chwiliwr y galon*;" ac os at ei nerth, yn "*Hollalluog*."

Y mae cyffelybiaethau yn ychwanegu at nerth yr ymadrodd, pan y mae pethau *teimladwy* yn cael eu defnyddio i ddangos allan wrthddrychau *meddyliol*. Fel hyn yr ydym yn siarad am "athrylith *tanllyd*," "calon *gareg*," "gollwng y *ffrwyn* i'w dymer," &c.

Ond y gradd uwchaf o nerth a gyrhaeddir trwy ddefnyddio y cyffelybiaethau hyny ag sydd yn rhoddi *bywyd* mewn pethau *difywyd*, fel hyn, "y dòn *ddigofus*," "y cleddyf yn *sychedu* am waed," "cawr y dydd yn *rhedeg* ei yrfa," "y gwynt yn *chwibanu*," "y daran yn *rhuo*," "y môr yn *ymgynddeiriogi*," "yr haul yn *gwenu*," "yr wybren yn *wylo*," "y weilgi yn *agor* ei safn," "y

saeth yn *awyddu* am brofi cnawd," &c. Wrth ddefnyddio cyffelybiaethau, dylid gochelyd dau beth:—

1. Peidio defnyddio rhai rhy gyffredin.
2. Peidio defnyddio rhai rhy bellenig a dieithrol. Dylid chwilio am rai newyddion a naturiol, os bwriedir cynyrchu effaith. Dylai siaradwyr ieuangc ofyn iddynt eu hunain yn aml, nid a ydyw y frawddeg yn un *ddydanwadol*, ond a ydyw yn cyfleu y meddwl yn *eglurach* na phe defnyddia un arall fwy cyffredin.

## GEIRIAU LLANW.

Y mae gormod o'r haner o'r rhai hyn yn cael eu harfer yn ein hiaith. Gwisgir meddyliau digon cyffredin â geiriau prydferth a barddonol, er mwyn iddynt ymddangos yn fawreddog a barddonol. Yr ydym yn hoffi blodau, ond peidier er dim a defnyddio gormod o honynt. Peidier a gorlwytho cyfansoddiadau â hwynt, ond bydded iddynt gael eu rhoddi yn y manau ag y maent yn briodol, er ychwanegu at yr effaith. Wrth oleuo y manau tywyll mewn darlun, yr ydym yn gwneyd yr un peth, a phe tywyllm y manau goleu: yn y naill achos a'r llall, y mae y *relief* a'r *contrast* yn cael ei anmharu; ac y mae gan y cyfansoddiad fel y darlun, ei *lights* a'i *shades*, y rhai y mae yn rhaid ei gwasgaru, os ydym am gynyrchu yr effaith bwriadol.

## GEIRIAU NEWYDDION.

Y mae llawer areithydd ieuangc yn camgymeryd yn anghyffredin yn y fan yma, sef meddwl fod arfer geiriau anarferedig a dieithr yn peri iddo ymddangos yn fwy dysgedig. Ni ddylid ar un achos ddefnyddio gair dieithr os gellir cael un cyffredin yn amlygu yr un meddwl. Y mae gwir fawredd yn gynwysedig, nid mewn bod yn ddieithrol, a thrwy hyny yn aneglur, ond mewn bod yn syml, goleu, ac eglur. Dywed ambell un, "Y mae Mr. — yn rhy ddysgedig i mi o lawer—

y mae allan o fy nghyraedd." Ond fel hyn y dywed y dysgedig am yr un dyn, "Y mae Mr. — yn siarad yn y *tawch*; nid yn mhell nac yn uchel y mae, ond yn ein hymyl, er hyny o'r golwg." Nid am fod y dyn yn ddysgedig y mae yn aneglur, ond y mae yn aneglur am ei fod yn anysgedig. Y mae y dyn gwir ddysgedig yn gallu dwyn pethau pell yn agos, a'r dyn anysgedig yn gyru pethau agos yn mhell.

## BYRDRA.

Pa beth bynag fyddo natur y frawddeg, dylid peidio defnyddio gormod o eiriau; y mae trwy hyny yn colli ei nerth i raddau helaeth. Y mae gwahaniaeth mawr cydrhwng ysgrifenu a siarad—wrth ysgrifenu dylai y brawddegau fod mor gynwysfawr ag y mae yn ddichonadwy eu gwneuthur, am y gall y darlennydd fyned drostynt eilwaith; ond y mae yn wahanol mewn areithyddiaeth; y mae yn rhaid iddynt fod yn gyfryw ag a ddeallir ar unwaith. Y ffordd i ochel meithder neu arfer gormodedd o eiriau wrth siarad yn gyhoeddus, yw *ail-adrodd* yr un syniad mewn gwahanol agweddau. Edrych ar yr un gwrthddrych o wahanol safleoedd—tynu darluniad o hono o wahanol *stand-points*, nes y byddo wedi cael ei argraffu yn ddigonol ar feddwl y gwrandawydd. Y ffordd i dori y gareg yw ei tharo yn aml, ac nid trwy arafu y dyrnodiau. Fe ddywedir yn aml am areithydd ieuangc, fod ganddo feddwl hynod gynrychiol, pan mewn gwirionedd, na bydd ganddo ond digonedd o eiriau, y rhai a reffyna allan yn ddiddiwedd. Nid yw hyawdledd yn gynwysedig mewn *geiriau*, ond mewn *pethau*. Gall dyn adrodd llawer o eiriau prydferth, heb ddweyd dim synwyr. Amcan siarad yw *perswadio*, a phan y methir cyrhaedd y nôd hwnw, y mae yr holl eiriau yn *ofer*. Gall yr areithydd gael ei wrandawyr i *synu* ac *edmygu*, trwy arfer llawer o eiriau

swynol, ond y mae yn anmhosibl iddo trwy hyny i *addysgu*, i *argyhoeddi*, a *pherswadio*.

Ar ol i'r areithydd ieuange ysgrifenu ei araith, byddai yn lles iddo gymeryd ei ysgrifbin yn ei law, a myned drosti yn fanwl, gan groesi allan bob gair a allo ei hebbor, heb niweidio y synwyr. Gall y frawddeg fod yn gyfryw ag y byddo yn anmhosibl ei byrhau fel y mae ar lawr, ond efallai y gellid gwneyd hyny trwy ei dweyd mewn rhyw ffurf arall.

#### BRAWDDEGAU DIANGENRHAIID.

Ar ol chwynu y geiriau, y mae yn angenrheidiol rai prydiau groesi brawddegau cyfain allan. Y mae yn digwydd yn aml mewn cyfansoddiad, amrai frawddegau na fydd angen am danynt. Y maent yn lle cynorthwyo i gynrchu dylanwad, yn ei farweiddio.

Dyma gynllun da,—Er mwyn gwneyd argraff ar y gwrandawyr, bydded i'r areithydd wneyd y frawddeg yn hir, pan byddo y pwngc yn gofyn hyny; ac yna bydded iddo grynhoi yr oll o hõni i gyleh bychan: wrth adrodd yr un hir, bydd y gwrandawyr yn cael eu parotõi i dderbyn yr un fër; byddant yn gallu *deall* yr un *hir*, a *chofiant* yr un *fër*. Y mae Burke a Johnson wedi bod yn hynod o lwyddianus gyda'r dull hwn. Y mae yn fanteisiol i'r efrydydd ieuange i arfer y dull hwn o siarad mewn ymddiddan cyffredin yn mhlith ei gyfeillion, er gweled yr argraff a gynyrcha.

Yr ydym wedi manylu ar y pethau blaenorol am fod yr areithydd ieuange yn dueddol i syrthio iddynt. Y mae defnyddio gormodedd o eiriau yn beichio athrylith yn ormodol, nes y metha ymgodi yn fawreddog a phrydferth. Nid yw tŷ wedi ei ddodrefnu yn dda am ei fod wedi ei orlanw â phethau diangenrhaid, ac yn wag o bethau angenrheidiol; ac nid oedd *wardrobe* Lucullus, yn yr hon, meddai Horace, yr oedd pum' mil o fantelli, yn gyfoethog os nad oedd yno wisgoedd ereill. Nid yw llyfrgell yn un dda am fod ynddi lawer o

lyfrau, ond pan fo ynddi lawer o lyfrau da; felly yn union gyda golwg ar iaith: nid yw yr areithydd yn gyfoethog o eiriau, ond mor bell ag y byddo y geiriau yn rhai da a phriodol. Dylai feddu ar eiriau a thipyn o *nerve* ynddynt—geiriau a bachau ynddynt i afael yn y bobl.

#### TREFN Y GEIRIAU.

Dyma bwngce a ddylai gael ystyriaeth fanylaf y *tyro* mewn areithyddiaeth. Gall dwy frawddeg fod yn cynwys yr un rhifedi o eiriau, ac eto fod yn wahanol iawn yn yr argraff a gynyrchir ganddynt—un yn *fyw*, a'r llall yn *farw*, a hyny oherwydd eu trefn. Fe sonir gan y doethion am drefn *naturiol* y frawddeg, sef y "*subject*" yn nghyntaf, yna y "*copula*," ac wedi hyny y "*predicate*;" ond yr ydym yn meddwl mai y dull goreu i drefnu y brawddegau, yw mabwysiadu y dull mwyaf sicr o gyrhaedd yr amcan, sef cynyrcu teimlad ac argyhoeddi y gwrandawydd. Dyna, yn ol ein meddwl ni, yw y ffordd fwyaf naturiol. Yn wir, nid yw rheolau ieithoedd diweddar yn rhwymo yr awdwr i fabwysiadu un drefn neillduol; ond pa gyfieithydd o chwaeth a newidia yn *wirfoddol* drefn y frawddeg ganlynol,—*Μεγάλη ἡ Ἀρτεμις Ἐφεσίων*, sef yn Gymraeg a ellir ei chyfieithu yn hollol fel y gwreiddiol: "*Mawr* yw Diana yr Ephesiaid!" Mor wan mewn cydmariaeth yw cyfieithiad Le Clare, "*La Diane des Ephesiens est une grande Déesse!*" Mor amherffaith yw eiddo Beausobre, "*La grande Diane des Ephesiens!*" Mor wan eiddo Saci, "*Vive la grande Diane des Ephesiens!*" Fe welir oddiwrth yr uchod mai y cyfieithiad Cymraeg yw yr agosaf at y gwreiddiol—yn wir y mae yn gosod y meddwl yn berffaith, a hyny yn yr un drefn. Y mae yr iaith Gymraeg yn rhoddi rhyddid i'r cyfansoddwr, a dylai ei ddefnyddio yn briodol. Dylid trefnu y geiriau yn y fath fodd fel y byddo y gair ag y bwriedir ei bwysleisio yn amlwg i bawb, a thrwy hyny wneyd italeiddio llawer o eiriau yn ddiangenrhaid.

## PENNOD IX.

## HYAWDLEDD Y PWLPUD.

YN y bennod a ganlyn, yr ydym yn bwriadu sylwi ar arbenigrwydd neillduol y Pwlpud yn ei gysylltiad âg Areithyddiaeth; ac, mewn trefn i wneyd hynny yn effeithiol, gwnawn ddefnydd o sylwadau Blair, Vandenhoff, Dr. Whately, Butler, ac ereill, ar y pwngc.

## MANTEISION NEILLDUOL Y PWLPUD.

Y mae y pyngciau yr ymdrinir â hwy yn fwy urddasol a phwysig na'r holl byngciau ereill ynghyd. Mae ambell i bwngc yn ddyddorol i un dosbarth, ond yn perthyn dim i'r dosbarth arall; ond mae y pyngciau a drinir yn y pwlpud yn perthyn i bawb—yn haeddu sylw pawb—ac yn gyfryw ag y gellir eu dwyn gartref, gyda nerth, at galonau pawb. Mae y pethau a ymdrinir yn y pwlpud, hefyd, yn rhoddi y *scope* fwyaf i'r gallu desgriafiadol, ac i'r gwres dirgymelliadol. Mantais neillduol arall sydd gan y pregethwr yw, ei fod yn cael dewis ei bwngc ei hun, ac yn ymddangos o flaen y cyhoedd gyda'r holl gynorthwy a all y rhagfyriad mwyaf manwl roddi iddo.

## GWISGO HEN BETHAU MEWN DULL NEWYDD.

Dyma gamp fawr pregethu. Y mae pyngciau ei draethiad yn dra chyffredin ac adnabyddus—wedi tynu sylw cymaint o lefarwyr ac ysgrifenywyr, fel y mae anghen am athrylith gref i wisgo yr hen wirioneddau pwysig ac ardderchog mewn agweddau newyddion. Nid oes eisieu gwirioneddau newyddion—Beibl newydd



ac efengyl newydd—ond gallu athrylith i wisgo yr *hen* wirioneddau mewn gwisgoedd *newyddion*. Dyma waith a dyma orchest ac na all ond athrylith ei chyflawni. Dyma lle yr oedd cryfder nerth yr hen bregethwyr a ysgydwasant Gymru â'u hathrylith—yr oeddynt yn cymeryd y gwirioneddau ac yn eu toddi yn eu *smelting furnaces*, ac yn eu lluchio allan, trwy gymhorth eu hyawdledd, nes tanio cynulleidfaoedd cyfain.

#### YR WRTHDDADL YN ERBYN HYAWDLEDD YN Y PWLPUD.

Fe geir llawer a ddywedant na ddylai hyawdledd gael ei ddwyn i'r Pwlpud, am, meddant hwy, fod gwirioneddau crefydd, heb gelfyddyd, yn fwy llwyddianus. Y mae y rhai a ddywedant hyny, yn amlwg, yn llafurio o dan gamgymeriad; oblegid nid yw hyawdledd yn gelfyddyd falch a thwyllodrus, ac yn astudiaeth o eiriau er gogleisio y glust yn unig. Nid dyna yw hyawdledd. Gwir hyawdledd ydyw y gelfyddyd o osod gwirioneddau yn y goleu mwyaf manteisiol i argyhoeddiad a darbwyllyad, meddai Blair. Gall pob pregethwr ddysgu y gelfyddyd hon, a chyn y gall fod yn *wir* bregethwr, rhaid iddo ei dysgu. Efallai y dywedir fod rhai o'r pregethwyr mwyaf llwyddianus heb wybod dim am hyawdledd fel celfyddyd; ond y pwngc i'w brofi yw, a oeddynt yn well pregethwyr am eu bod yn anwybodus yn y gelfyddyd; neu, oni fuasai y pregethwyr mawr hyn yn fwy pregethwyr pe buasant wedi galw y gelfyddyd hon i'w cynorthwyo?

#### DYBEN PREGETHU.

Dyben mawr pregethu yw darbwyllo, argyhoeddi, ac enill; a dyben areithyddiaeth i'w cynorthwyo i wneyd hyny yn effeithiol. Y mae y pregethwr i resymu, addysgu, a dadleu; ond ei brif waith yw darbwyllo; a'r darbwyllyad hwnw wedi ei sylfaenu ar argyhoeddiad. Dylai amcanu yn barhaus i weithio ei

fiordd at y deall a'r galon, mewn trefn i wneyd gwir les. Y mae ceisio dylanwadu ar nwydau dynion, heb yn gyntaf oleuo eu meddyliau, yn sicr, yn y pen draw, o brofi yn aneffeithiol. Gall gynyrchu teimlad ar y pryd, ond teimlad i ddislanu yw hwnw—gall trwy hyny gynyrchu gwresogrwydd dislanol; ond nis gall gynyrchu effaith barhaus. Y mae llawer wrth bregethu yn amcanu at ddychrynu eu gwrandawyr trwy osod o'u blaenau ddarluniau ofnadwy a effeithiant ar eu teimladau anifeilaidd, ond y mae y gwir bregethwyr yn goleuo y deall, ac yn cynhyrfu tiriogaeth y gydwytbod a'r galon

#### DYLAI FOD YN YMARFEROL.

Nid neges iawr pregethwr i'r pwlpud yw dysgu athroniaeth i'r gynulleidfa—eu hysbysu o ryw wirionedd newydd—na dadlu rhyw bwngc dyrus; ond dylai fyned yno gyda'r unig amcan o wneyd ei wrandawyr yn well dynion; ac mewn trefn i wneyd hyny yn effeithiol, dylai roddi iddynt olygiadau clir, ac argraffiadau perswadiol o wirioneddau crefyddol. Mae i gyfieithu y gwirioneddau pellenig i iaith teimlad y galon—dwyn y pell yn agos, a'r agos yn nes. Y mae pregethu athronyddol yn goleuo, ond y mae pregethu ymarferol yn goleuo ac yn gwresogi—goleu y lloer yw y blaenaf, ond goleu yr haul yw yr olaf.

#### DYLAI FOD YN DDYN DA.

Y mae hyn o'r pwys mwyaf—mewn gair, nid yw ei holl gyrhaeddiadau ereill yn werth dim, os na fydd yn ddyn da ei hunan. Y mae *bywyd* pregethwr yn siarad yn uwch na'i bregethau—mae ei fywyd yn bregeth agsydd yn cael ei darllen gan y byd. Y mae bywyd cyson llawer o bregethwyr yn rhoddi nerth i'w geiriau, tra y mae bywyd anghyson ereill yn gwanhau eu dylanwad. Y mae y gwir bregethwr yn credu yn ddiysgog yr oll a bregetha; ac nid hyny yn unig, ond y mae

yn teimlo yr oll a greda. Maent yn effeithio ar ei galon ac ar ei fywyd. Heb fywyd cyson nid yw hyawdledd celfyddydol yn werth dim.

#### MAE I FOD YN DDIFRIFOL A GWRESOG.

Ni all holl fedrusrwydd hyawdledd efrydol wneyd yn lle hyn, er ei fod yn gynorthwy iddo—ac nid yw difrifwch a gwresogrwydd efrydol, heb fod yn tarddu oddiar dduwioldeb, ond ffug a thwyll hawdd ei adnabod. Nis gall celfyddyd gynyrchu gwir deimlad a gwresogrwydd yn nghalon y pregethwr, ond gall ei gynorthwyo i amlygu y teimlad a'r gwres hwnw. Dyma y ddwy elfen ag sydd yn perthyn yn neillduol i hyawdledd y pwlpud, yn fwy na phob siarad cyhoeddus arall. “Y mae natur ddifrifol y pyngciau a berthynant i'r pwlpud yn gofyn dwysder; a'u pwysigrwydd i ddynolryw yn gofyn gwres.” Nid peth hawdd yw gallu uno y ddau beth hwn yn nghyd—y mae dwysder, pan yn cael y llywodraeth, yn tueddu at fod yn unfurfiol a marwaidd; a'r gwresog, heb gael ei gymysgu yn briodol â dwysder, yn ymylu ar yr ysgafn a'r chwarcus. Y mae cysylltu y ddau beth hwn yn nghyd yn anhawdd, mae'n wir, ond nid yw yn anmhosibl. Dylai pob pregethwr ag sydd yn dymuno bod yn llwyddianus, gymeryd trafferth i efrydu y pwngc hwn, gan fod ei lwyddiant, i raddau pell iawn, yn ymddibynu ar ei allu i gysylltu y ddau beth hyn yn nghyd—dwysder a gwres.

#### DYLAI Y PREGETHWR FOD YN DDEFNYDDIOL.

Y mae y pregethwr i ofalu, wrth chwilio am destunau i bregethu arnynt, at fod yn ddefnyddiol. Mae llawer o bregethwyr yn amcanu at fod eu pregethau yn synu y bobl; ond y mae defnyddioldeb yn ail beth. Y pwngc cyntaf yw, ymdrechu at fod yn ddefnyddiol, ac mewn trefn i fod yn fwy defnyddiol, nid yn fwy prydferth a barddonol, dylai alw am yr holl gynorthwyon a enilla trwy efrydu y gelfyddyd bwysig o areithyddiaeth.

## DEWIS PYNGCIAU DEALLADWY.

Camp fawr y pregethwr yw cael gan y gynulleidfa i'w ddeall; os na chyrhaedda y nôd hwn, y mae ei holl lafur yn waeth nag ofer. Ni ddylai er dim a chymeryd i fyny amser gwerthfawr ei gynulleidfa i ymdrin mewn dull tywyll, amleiriog, a chwmpasog, ar bwngc nad ydynt yn ei ddeall. Y mae clywed rhai yn dweyd fod hwn a hwn yn bregethwr mawr, am nad ydynt yn ei ddeall, yn ddigon a pheri i bob dyn o chwaeth i wenu. Nid yw hyawdledd yn byw yn rhywle yn y tawch, gan siarad dirgeledigaethau; ond y mae gwir hyawdledd yn cydio gafael yn y gwirioneddau mwyaf pellenig, a'u dwyn yn agos—i galonau ein gwrandawyr. Y mae y pregethwr mawr (a gamenwir felly) yn gwneyd pethau bychain yn bethau mawrion, ond y mae y pregethwr gwir hyawdl yn gallu gwneyd pethau mawrion yn fychain, syml, a dealladwy. Y pregethwr mwyaf dealladwy yw y pregethwr mwyaf hyawdl bob amser. Hefyd, wrth ddewis testunau, dylai defnyddioldeb fod mewn golwg bob amser. Testunau *cyffredin* oedd gan John Jones, Talysarn, ond yr oedd ei hyawdledd yn gallu dweyd pethau *anghyffredin* arnynt—ond yr oedd ef bob amser, fel pob dyn mawr arall, yn *ddealladwy*. Anmhosibl i'r dyn fod yn bregethwr da yn hir os na bydd yn un defnyddiol.

## PREGETH FEL CYFANSODDIAD.

Yn mhob pregeth y mae yn ofynol fod rhyw *leading idea* yn rhedeg drwyddi—un ffaith fawr, un wers fawr, o amgylch y rhai fel eu canolbwynt, y mae yr holl ffeithiau a'r holl wersi creill i ymgasglu. Nid dweyd pobpeth yw pregeth—nid casgliad o adnodau, wedi eu cyrdeddu yn nghyd yn fedrus yw pregeth—ond y mae pob gwir bregeth yn cynwys rhyw un wers fawr ag sydd i gael ei chadw yn barhaus o flaen sylw y gynulleidfa. Nid yw hyn yn tybio nad yw yn angenrheidiol i ranu ac adranu y bregeth, os bydd eis-

ieu, ond peidier a rhanu y pwngc, oblegid y mae trwy hyny yn cael ei wanhau. Fe wna yr efrdydd yn dda i sylwi ar y cyfarwyddiadau a ganlyn:—

1. Dylai y pregethwr fod yn neillduol a manwl. Y mae siarad ar byngciau mewn iaith gyffredinol yn rhwym o brofi yn anuniongyrchol ac anargyhoeddiadol—dylai ddyfod yn nes—siarad yn fanwl, cyfeirio yn neillduol at ryw bwngc, er cynyrchu effaith foddhaol a pharhaus. Pan yn dymuno cyfeirio y sylwadau at y meddwyn, na fydded i'r pregethwr ei alw yn ddim arall na meddwyn—anmhosibl cyfeirio ato, pan y mae yn cael ei osod mewn dosbarth mwy cyffredin, er fod hwnw yn ei gynwys. Y mae y meddwyn yn bechadur, ond nid yw pob pechadur yn feddwyn.

2. Peidier a dweyd yr oll a ellir ddweyd ar unrhyw bwngc. Pigwch allan y prif bethau, a'r pethau mwyaf defnyddiol.

3. Wrth fyfyrion pregeth dylai osod ei hun yn sefyllfa gwrandawr difrifol.

4. Dylai ymdrechu deall gwahanol gymeriadau ei wrandawyr, a chymhwyso ei sylwadau atynt yn ol eu gwahanol ddosparthiadau.

5. Dylai yr iaith a ddefnyddia fod yn syml a phur. Dylid gochelyd pob gair chwyddedig ac anarferol. Ar yr un pryd, y mae yr iaith i fod yn goeth ac urddasol. Cadwer allan o'r pwlpud bob gair gwerinaidd.

6. Dylai fod yn ddoeth wrth ddyfynu yr Ysgrythyrau. Y mae dyfyniad priodol ac uniongyrchol o'r Ysgrythyr yn rhoddi awdurdod i'r hyn a ddywedir.

#### GWAHANOL RANAU PREGETH.

Y mae Blair yn dosbarthu gwahanol ranau pregeth fel y canlyn:—

1. *Yr arweiniad.*
2. *Rhaniad y pwngc.*
3. *Y treithiad neu yr eglurhad.*

4. *Y rhesymiad.*
5. *Y rhan serch-gynhyrffiol.*
6. *Y diweddglo.*

1. *Yr Arweiniad.*

(1.) Mae i fod yn rhwydd a naturiol. Yn rhy aml o lawer y mae y rhagarweiniad yn anghysylltiol â phwngc y bregeth—yn ddernyn ar ei ben ei hun. Dylai efrydu gwahanol ranau y bregeth, neu y cynllun o hōni, cyn dechreu y rhagymadrodd; ac wrth wneyd hyn daw yr arweiniad yn rhwydd a naturiol.

(2.) Dylai fod yn fanwl. Mae sefyllfa y gwrandawyr y pryd hwnw yn gofyn manylwech—maent eto heb eu meddianu â'r pwngc na'r rhesymau, ac fel canlyniad naturiol, talant sylw manwl i ieithwedd a dull y llefarwr.

(3.) Mae i fod yn wylaidd. Peidied ag addaw gormod. Dylai ei ddull, ei lais, a'i holl ysgogiadau, fod yn wylaidd. Er dim, peidied a rhoddi ei holl nerth yn y dechreu, ond bydded iddo gryfhau ac ymddyrechafu fel yr â yn mlaen â'i bregeth.

(4.) Mae rhagarweiniad i fod yn y dull llariaidd. Nid oes yma le i danbeidrwydd a gwres. Rhaid i feddyliau y gwrandawyr gael eu paratoi yn raddol.

(5.) Ni ddylid dyddarbod un rhan bwysig o'r pwngc. Wrth gyfeirio at y pethau y bwriedir eu trin yn y bregeth yn y rhagarweiniad, y maent yn colli eu grym a'u newydd-deb.

2. *Rhaniad y pwngc.*

(1.) Dylai gwahanol benau y bregeth gael eu gwahaniaethu yn hollol oddiwrth eu gilydd, fel na byddo i'r naill gynwys y llall.

(2.) Wrth ranu dylid bod yn naturiol.

(3.) Dylai y gwahanol benau ddi-hysbyddu y pwngc.

(4.) Dylai y termau a arferir fod yn gryno ac eglur.

(5.) Gocheler rhag lluosogi y penau yn ddiangen-rhaid.

3. *Y treithiad neu yr eglurhad.*

Yn y fan hon y mae i draethu ei bwngce yn deg a thawel cyn dechreu ei resymu na chyffroi nwydau ei wrandawyr.

4. *Y Rhesymiad.*

(1.) Gocheler cymysgu rhesymau a'u gilydd mewn modd dyryslyd.

(2.) Gyda golwg ar y gwahanol raddau o nerth, y rheol oreu ydyw myned yn mlaen mewn ffordd o es-gyneb. Dechreu gyda'r rhesymau gwanaf, a diweddu gyda'r rhai cryfaf.

(3.) Pan y byddo y rhesymau yn gryfion, dylid eu trin ar wahan oddiwrth eu gilydd.

(4.) Ni ddylid estyn rhesymau yn rhy bell, a'u lluosogi yn ormodol.

5. *Y rhan serch-gynhyrfiol.*

(1.) Dylid ystyried a'fydd y pwngce yn caniatáu y fath deimlad; ac os bydd, pa ran o'r bregeth fydd yr un mwyaf addas i gynyg arno. Mae penderfynu hyn o'r pwys mwyaf. Cyn y gall y pregethwr gynhyrfu y serch, rhaid iddo yn gyntaf fod wedi enill drosodd y deall a'r farn.

(2.) Peidier a ffurfio un gosodiad i'r dyben o greu cyffroad. Mae y drefn anuniongyrchol yn fwy sier o lwyddo i wneyd argraff—cymeryd mantais ar yr adeg briodol i greu teimlad, ar ol parotôad priodol, yw y fiordd fwyaf effeithiol. Ni ddylai y pregethwr rybuddio y bobl o'i fwriad i'w cynhyrfu, ond dylai eu cyffroi heb yn wybod iddynt.

(3.) Sylwer fod gwahaniaeth rhwng dangos i'r gynulleidfa y dylent deimlo, a pheri iddynt deimlo yn weithredol.

(4.) Dylid gofalu am iaith briodol y nwydau. Gall fod y ffigyrau yn hyf, y geiriau yn gryfion, a'r agwedd yn gyffrous, ond ni ddylai yr iaith fod wedi ei beichio

âg addurniadau a gwychder. Mae hynny yn hollol allan o le yn y rhan yma o'r bregeth.

(5.) Na pharhewch y serch-gynhyrfiol yn rhy hir.

6. *Y Diweddsglo.*

(1.) Dylent gyfodi yn naturiol oddiwrth yr hyn a ddywedwyd.

(2.) Dylent beidio tori ar rediad ac undeb y bregeth.

### YR ESIAMPLAU

Yr ydym yn y fan hon yn rhoddi darnau o bregethau, a sylwadau ar bregethu, er mwyn i'r efrydydd weled gwahanol ddulliau pregethwyr hen a diweddar. Y mae trefn pob un o honynt yn dda, er yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eu gilydd. Yr oedd Morgan Howells yn fawr yn ei ddull ef, a John Elias yn fawr yn ei ddull yntau; Christmas Evans yn farddonol iawn, a Rowland Hughes yn rhesymwr cadarn; John Jones, Talysarn, yn gryf fel angel; John Evans, Llwynffortun, yn naturiol; a D. Roberts, Caerynarfon, yn wreiddiol a synwyrol. Nid pigion sydd yma o'r pregethau goreu—nid dyna ein hamcan—ond rhyw un bregeth yn perthyn i bob dosbarth.

#### PREGETH MORGAN HOWELLS.\*

"Da yw i mi fy nghystuddio; fel y dysgw'n dy ddeddfau."

PSALM CXIX. 71.

Yr oedd Martin Luther yn dweyd fod llawer Cristion wedi dysgu mwy mewn chwech wythnos o gystudd, nag mewn chwe' mlynedd o'r ysgol oreu. "Mawrhaist dy air uwchlaw dy enw oll:" pan y mae ei blant yn gŵyro, neu yn erwydro oddiwrth y gair, mae e yn gyru cystudd i'w galw yn ol. Ni fynai rhai o honom er dim fod heb y cystuddian ag sydd wedi ein cyfarfod,

\* Cymerwyd yr uchod o "Boanerges," gan y talentog E. Morgan, Caerdydd.



Y profiad mewn gorthrymderau—yr ymweliadau—*receipts* mawr ei Ragluniaeth ydynt; ond nid yw y rhai hyn da i bawb,—y maent yn dda i ni, os gallwn ni ddweyd “da.” “Yr un ddamwain a ddygwydd i’r cyfiawn a’r anghyfiawn.” Darfu i’r ystortymydd diweddaf yru llawer llong i’r porthladd, ond taffwyd ereill ar y creigiau. Mae cysuron y saint yn flaen-brawf o gysur y nef; gofidian yr annuwiol yn flaen-brawf o drueni uffern. Mae melldith Duw yn nhŷ yr annuwiol. Mae Duw yn rhoi aur ac arian wrth y canoedd a’r miloedd i’r annuwiol yn ei anfoddlonrwydd,—yn rhoi Twrc i Mahomet, fel asgrwn i gi. Fe aeth y gŵr goludog o lawnder i dlodi dragywyddol,—o wely o “down” i wely o dân. Neges rhai yn y byd yma i’w hel cyfoeth i’w plant, fel pe byddai Duw i fod yn *fankrupt* yn yn yr oes nesaf. Mae gan rai ormod o *sails* i’w llestri, a rhy fach o *falast*. Mae arnaf fi ofn fod y llwyddiant presenol ar fasnach yn *farnol*. Mae hi yn berygl bywyd ar yr ystrydoedd yn y gweithfeydd y dyddiau yma. Mae’r bobl yn gwneyd trugareddau Duw yn *shutters* i gan Duw allan, yn lle yn ffenestri i weled Duw trwyddynt,—yn *risiau* i fyned i lawr i uffern, yn lle i esgyn i fyny at Dduw mewn mawl. Maent yn *loado cannons* Rhagluniaeth i saethu yn ol at Ddaw. “*If God’s mercies are not loadstones to draw thy soul to Christ, they will be millstones to sink thee to hell.*” Mae gweinidogaeth yr efengyl yn foddion i galedu llawer. “*Sermon proof and gospel hardened,*” dyna fel y mae’r bobl y dyddiau hyn. Ni fu erioed fwy o ragrith nag yn yr oes hon. Mae’r bobl yn bwyta damnedigaeth yn y swper santiaidd, wrth y miloedd. Mae yr haul yna yn niwed i lygaid gweinion,—y mae ê yn toddi rhai pethau, ond yn caledu y clai; felly nid yw cystudd ddim yn dda i bawb.—Nid yw ddim yn dda yn ei natur,—nid yw ddim yn dda yn ei achos, sef pechod,—nid yw ddim yn dda yn ei effaith yn aml,—mae yn peri tuchan ac anghysur mawr,—nid yw ddim yn dda yn ngolwg dynion yn gyffredin, ac y mae dynion dauwiol yn aml yn dyrysu am hyn. “Yn fy erbyn i y mae hyn oll,” meddai un; a dim rhyfedd ychwaith ei fod yn dweyd felly. Yr wyf fi yn gweled mwy o Dduw yn hyn nâ dim;—ei fod yn tynu y daioni mwyaf o’r drwg mwyaf. Yr oedd Job yn gallu dweyd, “Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd,”—ond dyma y *class* uwchaf yn ysgol

Iesu Grist: eto, yn niwedd yr oruchwyliaeth, fe feiddiodd yntau ddydd ei enedigaeth, a'r nesaf peth at feiddithio Duw oedd hyn. Mwy o ddiolch i Dduw a'i ras, nag i Job a'i amynedd; eto, dylem gydymdeimlo â'r rhai y mae Duw yn eu trin fel hyn. Ond *da* i'r Cristion gael ei gystuddio, ac nid yn unig *da* yn ddyoddefol, ond yn weithredol. Peth mawr yw gallu dal pob cyflwr. "Na ddyro i mi na chyfoeth na thlodi." Dacw ddoethineb Ahitophel yn ffolineb,—parch ac anrhydedd Herod yn dybenu yn ei ddystryw. Mae y cyflwr fel y môr, yn troi pob afon a rêd iddo yn hallt fel esfe ei hunan. Peth mawr yw cael *constitution* i ddal pob *climate*,—llefwech am gyfansoddiad i ddal *climate* carcharau a ffagodan, &c. Mae llawer yn dyfod allan o'u cystuddian fel yr un y mae Bunyan yn sôn am dano, yn dyfod allan ar yr ochr nesaf i ddistryw; ond y mae y Cristion yn sicr o ddyfod allan yr ochr nesaf i'r nef. Y mae yn dda weithiau myned oddiwrth ragluniaeth dywell at y gair. "Dedwydd yw yr hwn a geryddir gan yr Arglwydd." Mi a ddarllenais fod yn mhlith y philosophyddion paganaidd, gant a haner o ffyrdd i fod yn ddedwydd, ond dim un trwy garcharau a dyoddefiadau. Dedwyddwch y *ffordd* yw hwn, ac nid dedwyddwch *pen y daith*. Ond diolch, os anialwch yw hi yma, yr ochr draw cawn ganu yn braf,—

"O frynïau Caersalem ceir gwelod  
Holl daith yr anialwch i gyd," &c.

Ond y mae *edrych ar y brynïau o'r anialwch* o'r un natur a llawn cystal, ond ei fod yn fyrach parhad, ag yw *edrych ar yr anialwch o'r brynïau*. Mae Satan weithiau yn peri i bob gwynt chwythu ar y Cristion er ei ddyfetha, ond y mae y nefoedd yn bwriadu yn wahanol. Y mae ei Dad yn eistedd wrth enan y ffwrn, ac yn dyfod â'r Cristion allan "wedi ei buro."

"Darfu 'n noddfa mewn creadur,  
Rhaid cael noddfa 'n nes i'r nef."

Pan oeddwn i yn Llundain, mi a gefais fy mhoem yn fwy nag erioed gan y diafol. Yr oedd yn dyfod bob boreu i'm 'stafell â *bundel* mawr o Rufain, ac weithiau un arall o Gymru, ac yn eu *unpacko* o'mlaen, ac yn rhoi *lectures* arnynt, nes y bum i bron a drysu;—ond, diolch am danynt, gwelais fwy o werth nag er-

ioed yn ein Harch-offeiriad Mawr, "yr Hwn ni âd eich temtio uwchlaw yr hyn a alloch," &c.

Diolch! Mae Duw yn gweled y diwedd o'r dechreu,—pob *wheel* yn ei le, y *fly-wheel* a'r *ciobl*. *Yr oeddwn i yn arfer tor? plans* i mi a'r plant, ond ceffais ddigon ar hyn; yr oedd "Duw yn eu dryllio hwy i gyd." Mae llawer o'r plant am *garvs* iddynt hwy eu hunain, ond yn tori eu bysedd wrth hyn: ac y mae rhai am eistedd yn y *parbur* gyda'r meist'r, yn lle gweithio *gwaith* y meist'r; ond y mae cariad, yn gystal a doethineb yn gweithredu. Dy les, Gristion, sydd mewn golwg yn y cwbl. Fe all'sai dy Dad Nefol dy gymeryd i'r nefoedd mewn cerbyd o dân, heb i ti wybod dim am rwystrau, na thlodi, na chystudd, &c. Ond, diolch, mae afiechyd corff yn *lles* i enaid,—colli priod yn gwneyd i ti, Gristion, i anwylo dy Dad yn fwy. Gwelwch *ddiwedd* yr Arglwydd. Jehofa yw yr *Actor* penaf ar y *stage*, er ei fod o'r tu ol i'r *curtains*; ond fe fydd gorfod ar Satau i *gwitio'r play* pan ddaw Duw i'r golwg. Mae y Cristion yn tynu cysur, yn laf, O gyfamod Duw;—2il, O addewidion Duw; Sydd, O briodoliaethau Duw. Byddai Luther mewn efyngder yn canu y 46fed Psalm. Gristion, mae genyt Dduw yn *Dad* i ti, yr eglwys yn *fam* i ti, a Christ yn *Frawd* i ti, ac angen heb golyn,—pob gwynt yn *dêg* i'r bywyd tragywyddol. Immanuel, Duw gyda ni mewn cnawd,—golud Calfaria,—y gyfryngdod fendigedig,—y feichniaeth,—y freniniaeth. "Ac a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef, ac a'i rhoddodd yn ben uwchlaw pob peth i'r *eglwys*." Ein *brawd* yw, gyfeillion.

"Ac y mae'r cwbl sydd mewn bod  
Dan ei awdurdod ef!"

Pan oeddwn i yn Llundain, yr oeddwn i yn gweled enwan ar rai o'r 'strydoedd, megis *Silver Street*, o *Gliden Crescent*, &c.; ond, dyma hwy mewn *profiad*. O! drefn Duw yn cynal mewn ystormydd! Beth yw cyfoeth y ddwy India at hyn? Mae *dirmyg* Crist yn fwy na *golud* yr Aipht. Mae'r *philosopher's stone* yn meddiant y Cristion, sydd yn troi pob peth yn aur pur,—yn gwneyd trefn o gymysgedd,—creadigaeth o *chaos*,—*harmony out of discord*,—cyfoeth o dlodi,—*jubili* o gaethiwed,—angu yn elw. Mae yn cael mêl o 'sgerbw'd yr hên lew,—yn

peri i falais Judas fod yn iachawdwriaeth i'r byd. Dacw'r pysgodyn yn llyngau Jonah,—yr oedd yn meddwl fod darfod am dano,—ond gorfod arno ei daflu a'r dir sych wedi hyny; felly fe fydd gorfod ar yr hên forfil anghu i daflu y Cristion yn *safe ashore* i'r hafan ddymunol. Yr wyf yn cofio am ryw ddyn da a *safiwyd* rhag boddi, wrth ddyfod ar gefn *dolphin* i dir sych. Ni waeth gan ein Duw ni pa un ai *inside* neu *outside passenger*, ond cael ei blentyn yn *safe ashore*. GOGONLANT! feth fyn di adref yn ddiogel, blentyn!

PREGETH JOHN ELIAS.

"A wyt ti yn credu yn Mab Duw?—Pwy yw efe, O Arglwydd, fel y credwyf yn ddo?—Yr hwn sydd yn ymddiddan â thi, hwnw ydyw efe.—Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd. Ac efe a'i haddolodd ef."—IOAN ix. 35—38.

Y MAB'r gofyniad hwn yn addas i'w ofyn i bob un o honom ni. Yr oedd y dyn hwn wedi cael peth mawr gan Grist,—yr oedd ganddo feddyliau uchel am dano,—wedi sefyll drosto, a dyoddef yn ei achos; eto, gofynwyd iddo, "A wyt ti yn credu yn Mab Duw?"

Mae'r bennod hon yn cynwys hanes gwyrth o eiddo Crist, na chlybuwyd erioed o'r blaen am ei bath. Adn. 32. Tua chan' mlynedd yn ol cafwyd allan, trwy gelfyddyd, ffordd i ddwyn rhai i weled a aned yn ddall. Ond ni arferodd Crist gelfyddyd na moddion meddygol, eithr cyflawnodd wyrth ryfeddol. Cyffrodd y Pharisëaid pan glywsant am y peth, a dechreuasant holi y dyn a'i rieni. Dywedodd y dyn mai Iesu a wnaethai hyn; ond yr oedd ef heb weled yr Iesu, oblegyd Efe a giliasai tra y bu y dyn yn ymolchi yn llyn Siloam. Adn. 12. Ond yr oedd gan y dyn feddwl mawr am dano, a thystiolaethai o flaen y rhai oeddynt yn ei holi, mai Iesu o Nazareth oedd,—mai prophwyd oedd,—a'i fod o Dduw; ac felly yr oedd yn ei ganmol a'i amddiffyn mor belled ag yr oedd yn ei adnabod. Cymerodd y Pharisëaid ei fod yn ei addef yn Grist, a'i fod yn ddysgybl iddo, a bwriasant ef allan o'r synagog.

Sylw 1. Dyoddefodd yn achos Crist er gwaned oedd ei ffydd.

2. Ymfynodd Crist am dano, cafodd ef, golenodd ac ymgeleddodd ef, ac eglurodd ei hun iddo.

3. Efe a wyddai o'r blaen gymaint ag y mae'r Sosiniaid yn ei addef am Grist, ei fod yn ŵr da, yn brophwyd, ac o Dduw; eto nid oedd yn gwybod digon i'w gadw, nes i Grist ei eglurhau ei hun yn fwy iddo. Mynodd Crist afael arno i wneithur hyny; ac yn y testun ni a gawn yr ymddyddan a gymerodd le rhyngddynt ar yr achlysur. Mae Crist yn gofyn iddo am ei ffydd; yntau yn gofyn am wrthddrych ffydd; Crist yn eglurhau ei hun iddo; a'r dyn yn gwneyd profies o'i ffydd, a ffrwyth ei broffes oedd ei addoli.

SYLWADAU ATHRAWIAETHOL.

I. Y MAE CREDU YN MAB DUW O BWYS MAWR.

II. Y MAE ADNABOD Y GWRTHDDRYCH I GREDU YNDDO YN ANGHENRHEIDIOL.

III. RHAI D I GRIST EI EGLURHAU EI HUN CYN Y CRED NEB YNDDO.

IV. Y MAE PROFFESU AC ADDOLI YN CANLYN GWIR GREDU.

I. Y MAE CREDU YN MAB DUW O BWYS MAWR. "A wyt ti yn credu yn Mab Duw?" Er cael agor dy lygaid, mae y per- ygl yn fawr heb gredu; ac o'r tu arall, er cael dy fwrw allan o'r synagog, ni byddi ddim gwaeth, ond credu.

1. Anfonodd Duw ei Fab i'r byd i gadw pechaduriaid. Ioan iii. 16; i. 18, 34; x. 36; Rhuf. i. 4.

2. Y rhai a gredant ynddo a gedwir. Ioan iii. 14, 15; i Ioan v. 13. "Credau yn ei enw Ef, a chael bywyd ynddo."

3. Er i Grist ddyfod i'r byd,—er ei fywyd a'i angeu ef, er clywed am dano, a bod â meddyliau parchus am dano, mewn llawer o bethau, ni chedwir neb heb gredu ynddo, i.e. credu ynddo fel Mab Duw. Nid digon ei alw yn Iesu, a'i gydnabod yn Brophwyd, a dyn da; y mae gwir ffydd yn edrych ar ei Dduwdod. Mat. xvi. 16; i Ioan iii. 20.

4. Dylem holi ein hunain a ydym yn credu ynddo. Y mae o'r pwys mwyaf i ni wybod hyn. Os heb gredu, yr ydym dan gollfarn, i.e. dan ddigofaint Duw. Ioan iii. 18, 36.

II. MAE'N ANGHENRHEIDIOL ADNABOD Y GWRTHDDRYCH I GREDU YNDDO. "Pwy yw efe?" Nid oedd y gŵr hwn yn

gwybod mai y gŵr a agorodd ei lygaid oedd yn ymddyddan âg ef, canys ni welsai ef erioed. Pwy yw Mab Duw? y mae arnaf eisieu adnabod y Person hwnw, "fel y credwyf ynddo ef." Pa beth ydyw ef ragor ereill? "Yn awr y gwyddom y gwyddost bob peth,—wrth hyn yr ydym yn credu ddyfod o honet allan oddiwrth Dduw." (Ioan xvi. 30.) *Gwybod, yna credu.* Mae'n rhaid cael "meddwl i adnabod yr Hwn sydd gywir," yna "yr ydym ni yn y Cywir hwnw," &c. (1 Ioan v. 20.) Y Tad sydd yn ei ddatguddio, Mat. xvi. 17; ac y mae'n gwneyd hyny i'r rhai yr ewyllysio, Mat. xi. 25—27.

Sylw 1. Dylai gweinidogion y gair bregethu yn eglur y gwrthddrych mae i bechadur gredu ynddo: Efe ddylai fod yn brif destun eu pregethau. 1 Cor. ii. 2; 2 Cor. iv. 5; Phil. i. 18. Pregethu ei Person, fel Mab Duw, ei gnawdoliaeth, ei osodiad yn ei swyddau ac yn neddfle ei bobl, ei fywyd ei angeu, ei adgyfodiad a'i esgyniad, &c.; ac oddiar hyny yr anghenheidrwydd o gredu ynddo,—beth yw credu?—pwy sydd yn rhoi ffydd? &c. Oni allai llawer sy'n gwrando ofyn i rai pregethwyr, ar ol iddynt eu hannog i gredu, "*Pwy yw efe, fel y credwyf ynddo?*"

2. Dylai y gwrandawyr eu holi eu hunain a ydynt yn gwybod pwy yw y person y gelwir arnynt i gredu ynddo, a llafario mwy am wybod yn gywir am y person hwn. Trwy hyny yr enillir i gredu.

III. RHAID I GRIST EI EGLURHAU EI HUN, A'R TAD TRWY EI YSBRYD EI DDATGUDDIO, I GAEL RHAI I GREDU YNDDO. "Ti a'i gwelaist ef" â'th lygaid yn awr: profaist ei waith,—gwelaist â'th feddwl ei fod Ef yn un mawr o'r blaen; yn awr y mae yn ymddyddan â thi; trwy ei eiriau y'th achubir, y dygir di i gredu. Mat. xi. 25; Ioan iv. 26; xiv. 21, 23.

Sylw,—Lle y mae ymfyniad am dano, efe a'i heglura ei hun yn fuan. Ioan vii. 17; Actau x. 31—33. Ac, O! mor felus yw y gair, "MYFI YW!"

IV. Y MAE PROFESU AC ADDOLI YN CANLYN CREDU YN MAB DUW. 1. Felly yr oedd gyda Thomas; wedi i'r Iesu siarad âg ef, "Fy Arglwydd a'm Duw!" ebai efe. Ioan xx. 26—28. Felly y rhai oedd yn y llong, ar ol tawelu yr ystorm pan aeth yr Iesu i mewn atynt—"hwy a'i haddolasant ef, gan

ddywedyd, Yn wir Mab Duw ydwyt ti." (Mat. xiv. 33.) Yr un modd y dysgyblion, ar ol ei adgyfodiad, "pan welsant ef, hwy a'i haddolasant." (Mat. xxviii. 9, 17; Luc xxiv. 52.) Mae'r nefolion i gyd yn ei addoli. Dat. v. 9—14.

2. Credu, a phroffesu ei fod yn credu. "Yr wyf yn credu, O Arglwydd." Felly y gwnaeth Pedr drosto ei hun a'i gyddysgyblion, "Ac yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod, mai tydi yw y Crist Mab y Duw byw." (Ioan vi. 29.) Felly tad y bachgen âg ysbryd aflan ynddo, "dan lefain ac wylofain, a ddywedodd, Yr wyf ti yn credu, O Arglwydd; cymhorth fy anghrediniaeth i." (Marc ix. 24.) Lle y bydd credu yn y galon, rhaid hefyd cyffesu â'r genau. Rhuf. x. 10.

3. Ymostwng ac ufuddhau iddo fel Brenin. Salm ii. 12; xiv. 11. "Yn Nghrist Iesu ni all enwaediad ddim, na dienwaediad, ond ffydd yn gweithio trwy gariad." (Gal. v. 6.)

#### CYMHWYSIADAU.

1. A ydym ni yn credu yn Mab Duw?
2. A adwaenom ni Ef? a welsom, ac a glywsom ni Ef ein hunain, yn wrthddrych teilwng i gredu ynddo?
3. A ydym yn ei gyffesu, ac yn ei addoli ef, ac yn ufuddhan iddo?
4. Gochelwn fyw heb hyn, neu ar lai na hyn. Ceisiwn wybod hyn.

#### PREGETH CHRISTMAS EVANS.

##### PRYNEDIGAETH TRWY BRIDWERTH A GALLU Y CYFRYNGWR.

"Gan ddileu ysgrifen-law yr ordeiniadau, yr hon oedd i'n herbwn ni, yr hon oedd yngwrthwyneb i ni, ac a'i cymerodd hi oddiar y ffordd, gan ei hoelio wrth y groes."—COL. ii. 14.

Y MAE y llythyr hwn yn llawn o ddirgelwch yr efengyl. Mae yr Apostol yn gosod allan ogoniant dwyfol person y Cyfryngwr, wedi ei wisgo â chyflawn fawredd Creawdwr a Chynnaliwr pob peth, ac wedi cael y blaen ar bob creadur yn y nef ac ar y ddaear, ac yn awdwr o'r holl greadigaeth; oblegid trwyddo ef y daeth bob peth, yr hwn ei hun oedd cyn pob peth, ac nid oes ond efe a all fod yn gylch am bob peth i'w dal ynghyd, neu i gyd-sefyll. Hwn a wisgodd natur dyn, ac yn nghorff ei

gnawd, trwy farwolaeth ar bren, a gymododd holl bethau Daw â Daw; ac y mae holl gyflawnder y Duwdod yn trigo, nid yn cael ei gynwys, eithr mewn undeb â'r enaid a'r corff hwnw a wahanwyd oddiwrth eu gilydd ar y groes; ond ni thorwyd yr undeb oedd rhwng y ddau a'r Duwdod. Yn awr, yn y testun y mae yn darlunio Crist fel Machniydd, mewn undeb â'i bobl, ac yn effeithio prunedigaeth trwy bridwerth a gallu.

I. DARLUNIAD O'R CAETHIWED YR OEDD EI BOBL YNDDO.

II. CRIST YN GWAREDU TRWY BRIDWERTH A GALLU; YF hwn a enillodd fuddugoliaeth ogoneddus ar y groes cyn ei gadael hi, ond eto yn anweledig i ddynion y pryd hwnw; ond ychydig iawn o'r haul oedd wedi dyfod allan i'r golwg o dan y diffyg mawr a fu arno. Gweithiodd yn y cwmwl, a gwnaeth ei ffordd trwy y môr, a llwybr yn y dyfroedd dyfnion, y rhai a lifant dros ei ben ef, a daeth i'r lán draw yn fuddygol ar foreu y trydydd dydd

I. DARLUNIAD O'R CAETHIWED YR OEDDEM NI YNDDO. Yr oeddem yn garcharorion cyflawnder, ac yn gaffaeliaid y cryfarfog. (1.) Yr oedd ysgrifen-law yn ein herbyn. Ysgrifen y ddyled, medd y cyfleithiad Ethiopaeg (*Ethiopic version*), medd Dr. Gill. Pan bechodd Adda, daliwyd ef ag ysgrifen y ddyled o farw, yr hon a ysgrifenwyd gan fys Duw yn llyfr y ddeddf foesol, a darllenodd hi i Adda cyn y cwmp; ond anghofiodd hi wrth geisio myned yn dduw, trwy fwyta ffrwyth y pren; ond wedi pechu, darllenodd Duw hi yn ei gydwybod ef, nes y llanwyd ef ag ofn. Daeth adref ato y geiriau, "gan farw ti a fyddi farw." Pwy a'i hysgrifenodd? Duw yn erbyn dyn. Pa faint oedd hi yn ymofyn gan ddyn? Llauer. Ai mwy na deng mil o dalentau? Iē, can' miliwn mwy; yr oedd yn gofyn ei enaid yn aberth bythol i farwolaeth gyfiawn. Ond wedi rhoddi yr addewid o Waredwr, darfa i drugaredd drefnu ebyrth o fywyd anifeiliaid i wneuthur taliad cysgodol i'r ysgrifen-ddyled hon. Pan y daeth Duw i lawr i gyfamodi a'i bobl ar Sinai, fe ddygodd ysgrifen y ddyled yno yn ei law, a dealiodd yr holl wersyll nad allasant fyw yn wyneb gofynion y ddeddf; gwelsant fod eu bywyd wedi eu fforffedu yn eu hwyneb. Trefnodd drugaredd i fustach gael ei ladd trwy dywallt ei waed yn lle dyn. Yr



oedd yr addolwyr yn y deml yn rhwym o ddwyn ebyrth a bywyd ynddynt at Dduw, i gael marw yn eu lle, a myned i'r tân. Ofnodd Moses fflam yr aberth oddiar y graig, rhag i'r fflam dallyd ei losgi ef yn lludw; ond dealodd ei wraig, gan i'r angel fyned ei hun yn eu lle hwynt i'r tân, fod ffafir i'w chael. Yr oedd yr holl addolwyr wrth ddwyn eu creaduriaid i gollu eu bywyd yn eu lle ar allorau Duw, yn cydnabod fod eu bywyd hwy yn ddyledus i'r ysgrifen-law, ac yr oedd eu harchoffeiriad yn rhwym o gyffesu ei holl bechod mewn modd manol ar ben yr aberth. Lef. xvi. Nid oedd dim gwir iawn am bechod mewn un modd yn cael ei wneyd trwy yr holl waed a liwiodd wisg Lefi yn goch, ac allorau Duw, na gwir faddenant am y bai lleiaf. Yn yr holl ebyrth hyny yr oedd adgoffa pechodau, ac nid eu madden. Am fwy na dwy fil o flynyddoedd bu achos cymod pechadur â Duw yn cael ei drin, a'r ysgrifen yn cael ei darllen ar fynydd Ebal bob blwyddyn, a'r ddyled yn chwaneu yn lle ei lleihau; ysgrifau newydd yn cael eu pinio wrth hên ysgrif Eden. Wedi agor y llyfrau o wyl i wyl, nid oedd ond gwaed anifeiliaid yn dyfod i'r allor, fel math o ysgrifau yn enw yr Iesu, ac addewid ynddynt o agor *bank* yr aur. Pan oedd nef a daear wedi blino ar ffugiad, neu y rhithiad o fadden pechod, pan nad oedd dim ond adgoffa beiau, clywaf lais rhyw un yn gwaeddi, Ymaith â'r aberthau a'r offrymau poeth, ni foddlonodd y nef ynddynt, dyma gorff wedi ei barotô i mi; ac wele fi yn dyfod i gymodi dynion â Duw ag un aberth. Yr oedd yn dyfod fel yn llamu ar y bryniau, a neidio ar y mynyddoedd. Galwodd heibio swyddfa yr ysgrifen-law yn wyth niwrnod oed, a rhedodd ychydig o'i waed ef ar lyfr yr ysgrifen, a dywedodd, Dyna it' ernes a gwystl y cei waed fy nghalon friw. Wedi byw yma dair-ar-ddeg-ar-ugain o flynyddau, gwelaf ef yn Gethsemane, a'r cwd aur (*liquid gold*) ar ei gefn, yr hwn a gariodd gydag ef trwy lys Caiaphas a Philat; ond nid oeddynt hwy yn adnabod y bathnod a'r ddelw, a'r argraffiad oedd ar ei aur ef; ond yr oedd ei Dad yn eu hadnabod yn llys ysgrifen-law Sinai; canys ysgrifen-law oedd yn gofyn yr holl fyd ydoedd hon. Dranoeth yr oedd Mab Mair, a'r cwd aur ar ei gefn, i dalu dyled yn ol rhif llyfr y bywyd, neu ei gynrychioliad ef; ond yr oedd digon o aur ar ei gefn i dalu dyled deng miliwn o fydoedd. Yn myned

trwy heolydd Caersalem tua swyddfa Sinai oedd yn awr, gyda y drugareddfa wedi ei symud i le y benglog; ac fel yr oedd yn myned, yn gwaeddi, "Ni ddaethum i dori ond i gyflawni:" pob melliith, a phob bygythiad yn erbyn fy mhobl, gyrwch lwynt i mewn cyn tri o'r gloch prydawn heno—deuwch â'r hen gynysgrif a dynodd fy mhobl yn eu pen cyntaf—pryaf dyrfa ddirif o fabanod heddyw, mynaf eu pen yn rhydd o hen ysgrif Eden—â'r llawer o gamweddau a biniwyd trwy yr oesoedd, o Adda ac Efa, ac Abel ac Enoch; a gwadiad Pedr o hono i neithiwr; ond am Judas, nid yw yn perthyn i'm llyfr i; mab y golledigaeth ydyw, efe a'm gwerthodd am ddeg-ar-ugain arian. Mae genyf ddigon yn y cwlyn coch yma i dalu y gofyniad, a digon o fodd i lanw pob addewid â phroffwydoliaeth o drugaredd, ac i fyw yn llawen, fi a'm dyweddi, i dragwyddoldeb, ar riaweddau fy marwol glwyf. Cyn tri o'r gloch y prydawn, nid oedd ysgrif yn Eden na Sinai nad oedd wedi ei dwyn at y groes. A phan yr oedd pob peth weithian wedi ei gyflawni, gogwyddodd Iesu ei ben, a chyda llais gwrol dywedodd, "Gorphenwyd," nes crynu pyrth uffern, a siglo pyrth marwolaeth, nes oedd rhiniogau dystryw yn ymsymud, a'r gagendor yn cau oedd rhwng Daw a'i bobl, a holl fellt a tharanau Sinai wedi llonyddu mewn boddlonrwydd yn ei aberth a'i bridwerth ef. Cymerodd o'r ffordd, dilëodd, a hoeliodd wrth y groes.

"Dacw Sina a Chalfaria  
 Heddyw wedi cwrdd ynghyd;  
 Sylwedd mawr yr holl gysgodau  
 Yn wynebu'r Ddwyfol Iid;  
 Dacw'r cleddyf wedi deffro  
 Ysgrifen-law yn d'od yn mlw,;  
 Dacw aar y prynedigion  
 Wedi ei buro yn y tân."

2. Rhan arall o'n caethiwed ni oedd, ein bod wedi syrthio yn ysbail i'r tywysogaethau uffernol, y rhai a gymerasant Adda a'i hiliogaeth yn garcharorion yn ngoresgyniad Eden gynt. Pan gollwyd Paradwys, syrthiasom i feddiant y cryf-arfog, teyrnasodd pechod arnom yn un chwant, a throsglwyddodd ni drosodd i feddiant marwolaeth; daliodd diafol ni yn magl ei gelwydd, —lladdodd pechod ni,—ymborthodd angen arnom. Dyma

degwech Paradvys wedi syrthio i ddwyllaw yr angenflod creulon hyn: ac nid oedd neb o galon am ddiange o'r caethiwed hwn; canys penfeddwyd pawb â gwin dreigiau. Gofynwyd cwestiwn: "A ddygir y caffeioliad o law y cadarn?" Pwy a'i gofynodd? Ai y cryf-arfog yn ei ymfrost? Ai yr eglwys yn ei hofn, a'i ffydd, a'i hiraeth? Neu y Gwardwr ei hun, pan y llamai ar y bryniau, ac y neidiai ar y mynyddau, wrth ddyfod o'r nef i farw, a'i gladdu, ac yn edrych ar gadernid y pyrth pres a'r barau heigrn, gan ddywedyd, "A waredir y rhai a garcharwyd yn gyfiawn?" A oes cymaint o gariad a thrugaredd yn aros mewn rhyw fynwes penadur trech nag angen, a'i cymhell ef i gymeryd y fath orchwyl a gwaredu y rhai hyn a hoeliant eu Gwardwr ar bren croes? Ond er syndod i'r nef a'r ddaear, y mae yn ateb, fel yn Gethsemane, Anrhaith y creulon a ddiangant bob un, a'r rhai a garcharwyd yn gyfiawn a waredir. Trwy law pwy, Arglwydd? Ai trwy law Gabriel yr archangel? O nage, y mae yn llai na dim at y fath orchwyl, er bod ynddo nerth a medr angel. "Myfi a ymrysonaf a'th ymrysonydd:" dof fi i babellu mewn enawd ar y ddaear, a byddaf farw dan hoelion ar y groes, a chleddir fi yn y graig a grëais i, a mi a achubaf dy feibion: aeth y gair o'm genau, a mi a'i cyflawnaf." Synu yr ydym yn yr olygia yma.

II. DARLUNIAD O'R PRYNEDIGAETH TRWY BRIDWERTH.—Nid dwyn y ddwy lech a wnaeth Iesu o law ei Dad, a'u malu hwy, a chuddio eu llwch; neu fel y dyhiryn yn Môn, a ymafaelodd yn y nôd-ysgrif oedd yn ei ofyn o law ei ofynwr, ac a'i drylliodd â'i ddanedd: O nage; trwy gyflawni y gyfraith y caelodd Iesu ei bobl yn rhyddion. Tri gair a ddefnyddir am hyn: yn Iaf, Dilëodd ysgrifen y ddyled, fel y gwneir pan y byddo y gofynwr yn gorchymyn iddo wedi cael ei dalu, ac yn rhoi cenad iddo redeg lliw coch dros yr ysgrif. A oedd y Tad yn foddlon i Iesu waeddi "Gorphenwyd?" Oedd: fel pe dywedasai yr Iesu. A gaf fi ddileu yr ysgrifau? A ydynt i mewn oll? Ydynt. A ydyw pob llythyren o'th gyfraith fel wedi ei throchi yn fy ngwaed i? Ydyw. Wele fi yn ei dileu; yna gwaeddodd, "Gorphenwyd." 2il, Efe a'i cymerodd oddiar y ffordd. Ni a wyddom fod ysgrif gofyn dyn mewn nwyf-dŷ yn ei erbyn i fyned yno;

ac yn sicr os byddai gwir ysgrif gan yr uchel-reithwyr wedi *passio* yn erbyn dyn mewn brawdlys yn peri ofn arno ddyfod yno, y mae euogrwydd yn y gydwybod, ac awdurdod y ddeddf fel y cyfryw ysgrif, yn rhwystro y dyn i weddio a nesau at Dduw wrth farw. Ond cymerodd Iesu ymaith derfynan a phicellau Sinai, a brathwyd ef ei hun â hwynt ar y groes. Cymerodd yr ysgrif o law uchel-reithwyr Sinai, a thalodd hi; cymerodd lyfr y ddyled o'r nwydd-dŷ i'w law ei hun, fel na byddai ar ffordd cyfiawnhad, a maddenant, a chymdeithas â Daw. Ac yn 3ydd, Efe a'i hoeliodd wrth y groes. Golygfa ogoneddus! Talodd Iesu ddeg ciwyd Sinai (*ten turnpike gates,*) a chafodd hwynt yn ei law o hyny allan, ac ni hoffodd ef osod neb i'w cadw yn ei enw ef, ac enill ambell geiniog, gan fod y llywodraeth dan ei choron yn achos y ciwydau. Efe a gododd y ciwydau a'r pyst o'r ddaear, ac a'u gosododd i grogi wrth hoelion ei groes gan ddywedyd, Yr wyf fi yn myned ymaith, ond aroswech chwi yna byth. A thithau hen *fil*, neu ysgrif Eden, a'r mân ysgrifau, oedd yn gofyn fy mhobl, yr ydych oll wedi eich gorchuddio a chuddio eich llythyrenau yn fy ngwaed; ac yr wyf finau yn cymeryd y northwyl hoelio o law trugaredd yn awr: hoeliodd fy Nhad yn y boreu, a dynion, dan dywysiad cythrenliaid, a thyma fy ngwaed yn lliwio y lle: ond minau a hoelias yr holl ysgrifen oedd yn erbyn fy mhobl, a gosodaf yr hoel ddirgel hon trwyddynt, nes y byddo ei blaen yn cyrhaedd y drydedd nefoedd, ac âf finau yno trwy fy ngwaed i eiriol, ac myfi a'i blaenblyga nes y byddo fel adfach, na ellir ei thynu yn rhydd i gael sypyn mwy i gondemnio un o'm pobl, heb holli ac anafu cerfiadau nef y nef. Pa sawl pechod o'm eiddo i cyn cael gras, a thithau a finau wedi profesu, a binwyd wrth ysgrif ein pechod gwreiddiol, sef llygredd ei natur? Ond daew yr holl ysgrif wedi ei hoelio! Cyfeirir yma at y tair ffordd i ryddhau oddiwrth ysgrifau-gofyn—dilen, symud hwynt o'r golwg, a thrwy eu hoelio wrth y groes.

III. DARLUNIAD O'R PRYNEDIGAETH TRWY ALLU. Nid cytuno âg uffern a wnaeth Iesu, ond ei gorchfygu. Nid talu i'r cryf-arfog y draul a aeth arno i adgyweirio y tŷ iddo ei hun; O nage, eithr dyfod arno a'i orchfygu, a gosod bwyell gras i

dori i lawr yr holl waith newydd, a'i holl arfogaeth ef, yn yr hon yr oedd yn ymddiried—sigo pen y Diafol, ond anrhydeddu y gyfraith—croeshoelio pechod, ond mawrhau y ddeddf—llyncu anghen, ond boddloni cyfiawnder â haeddedigaethau, gwaed, ac uludd-dod, hyd anghen y groes. Yr oedd yn prynu o ddwy-law cyfiawnder Daw, ond trwy orthrech a chryfder y mae yn gwaredu oddiwrth alluoedd y tri brenin a oresgynasant y byd yn nghwymp y dyn cyntaf. Dywedir pedwar peth am y prynedigaeith trwy allu hefyd yn y testun bwn. Yn 1af, Dywedir i Iesu yspeilio y tywysogaethau, yr hyn sydd yn profi eu bod yno yn un wersyllfa ofnadwy wedi ymgasglu gyda thywysog y byd hwn i Galfaria i ryfel â'r Ail Adda. Mae ysbeilio yn gryfach gair na phe dywedasid iddo wneyd iddynt encilio a ffoi; dilynodd hwy yn ngherbyd y groes, megis trwy eu gwersyll, nes cyrhaedd trwyddynt o'r pen bwy gilydd: agorodd ddrysau gwersyllfa greulonach na'r hen Bastile, a charcharau Algiers; cafodd afael mewn llawer o feibion a merched y gaethglud yno mewn cadwynau, a gollyngodd hwy yn rhyddion ar y groes, ond y cwbl bren yn anweledig i'r byd isod yma. 2il, Efe a'u harddangosodd hwynt. Ystyr y gair, medd rhai, ydyw, "Efe a wnaeth ymddangosiad o honynt." Daliodd hen sarff Eden, a chafodd hi i gawell haiarn y groes, a'i phen wedi ei ysigo dan ei sawdl ef, gau ei dangos ar y groes i deulu y byd nefol, a holl wlad dystryw. Ei ystyr, medd ereill, yw, "Efe a'u diosgodd," i ddangos ei bod wedi myned mor galed ar fyddin uffern yu y prydawn ar y groes, nad oedd cymaint o oddefiad iddynt ag i'r lleng yn Nghaderenia, i ffoi i genfaint o foch, na chario neb o'u harfau rhyfel gyda hwynt i'r maes; ond bod yn rhaid iddynt yn ddiamedol, rhoi eu hunain i fyny yn garcharorion rhyfel i Fab Mair, yr Ail Adda. Er i Pharao waeddi, "Ffown," ond yr oedd yn rhy ddiweddar: ffoi a hoffai y cythreuliaid tua thri o'r gloch brydnawn, ond ffoi nis gallent; canys iaith buddygoliaeth y groes oedd, Lloriwch eich harfau wrth droed y groes. Gythreuliaid, lloriwch eich harfau o flaen hoelion dur a choron ddrain, i ddifwyno balchder eich gogoniant. A llefaru mewn iaith filwraidd yn ol y testun, nid oedd yn mysg holl fyddin uffern, ychydig fynyddau ar ol y gair "Gorphenwyd," ddim un yn ei wisg filwraidd, ond fel pe buasant oll wedi ymwisgo mewn

gwarth—y capan rhyfel wedi syrthio oddiar eu penau, bwclau eu gwregysau wedi ymddatod, eu cleddyfau, a'u gwaewffyn yn syrthio o'u dwylaw, fel pe tarawsid hwy gan y parlys mud. Pob unicorn wedi colli corn ei dalcen,—teirw Basan yn benfoelion, —llewod wedi colli eu crafangan a'u danedd; a'r ei mawr, a holl gethern-gwn uffern mor fud a chwn yr Aipht pan gychwynodd Israel allan. 3ydd, Dywedir iddo gaffael y tir uchaf yn y diwedd arnynt, canys dywedir, "arnynt arni hi," sef y groes. Disgynodd Iesu i barthau isaf y ddaear, pan oedd byddinoedd Satan, pechod, ac anghen, a'r bedd yn meddianu uchelfanau y wlad; ond ymladdodd ei ffordd trwy y dyfnderau, nes cyrhaedd yr uchel-leoedd, a throï ei elynion i lawr i'r cymydd duon. Synodd y proffwyd wrth ei weled yn camu mor wisgi o ddyfnderoedd tir Edom i fyny, i ben gellytydd buddygoliaeth, a gofynodd, "Pwy yw hwn sydd yn dyfod o Edom?" A ydyw yn fyw? Ydyw yn fyw ei wala; ac y mae yn dyfod i fyny o Bozra! Pa fath o'wg sydd arno? "Y mae yn goch ei ddillad!" O! fe'i clwyfyd yn farwol? Do, ond fe ddaeth yn fyw. Nid ei waed ei hun, ond eu gwaed hwy sydd ar ei ddillad. A ydyw ddim wedi gwanychu yn yr ymdrech? Nac ydyw: y mae yn hardd yn ei wisg goch, ac y mae yn ymdaith yn amllder ei rym, heb golli y mymryn lleiaf arno. 4ydd, Dywedir am brynedigaeth trwy allu o ddwylaw y tri brenin, ydyw iddo orofoleddu arnynt hwy ar y groes (*triumphed over them*). Cafodd oruchafiaeth ogoneddus ar holl byrth uffern. Geiriau yn cyfeirio at oruchafiaethau milwraidd Groeg a Rhufain, ac Israel yn dwyn pen Goliath i Gaersalem, a merched Israel yn canu a dawnsio. Yr oedd yr oruchafiaeth hon bron i gyd yn anweledig i ddynion, ond bod rhyw fellt yn gweithio o'r cwmwl tywyll—gogwyddo ei ben y mae ef—ac amdoi yn nillad y bedd. A wyddoch pwy yw hwna a amdoi? Na wyddai nemawr o'r byd isod, mai Crewr y nef oedd wedi disgyn at ddynion. A wyddoch beth a wnaeth ef heddyw? Na wyddom.

"Gwnaeth gonwest ar Galfaria fryn,  
Am dano canodd myrdd cyn hyn:  
Fe faeddwyd uffern faith i gyd,  
Fe brynwyd gwael golledig ddyn,  
Fe wnaeth y ddwy blaidd ddig yn un,  
A gwaed Iachawdwr mawr y byd."

Ni chychwynodd neb o oruchafiaethau Cæsariaid ac Alectandriaid y byd yn eu marwolaeth, ac o'u beddau; pryd hyny y gwanychent hwy fel dynion ereill: daew Julius Cæsar yn ei amdo fel dyn arall; ond dyma Fab Mair yn enill buddugoliaeth wrth farw, ac yn ei chychwyn allan o'r bedd pen tri diwrnod. Buddygoliaeth a goruchafiaeth yn lledaenu a myneyd fwyfwy; y mae yn gryfach pen tri diwrnod ar lán y bedd nag yr oedd wrth y groes; a deg diwrnod a dengain wedi hyny yr oedd wedi cyrhaedd o byrth Jerusalem trwy byrth y ddinas nefol yn nhragywyddoldeb, ac ngain mil o gerbydau nefol, gyda llawen floedd a sain udgorn, yn hercyd Mab y dyn yn ol i dŷ ei Dad. Goruchafiaeth na anghofir ydyw hon; y mae holl fwäog oruchafiaethau penaf cedyrn byd wedi colli pob lliw a llun o'u mawredd, ond yn unig yn nhdalenau hanesyddiaeth; ond y mae goruchafiaeth Iesu yn cerdded y byd yn awr, a'i bywyd heb ddarfod; ac y mae yn cael ei ysgrifenu â bys y Duw byw yn nghalonau miloedd lawer. Mae merched Israel wedi tewi er ys talm i ganu wrth weled Dafydd a phen Goliath yn ei law; mae y bywyd, y canu, a'r dawnsio wedi darfod, ond mae Iesu yn fyw yn awr a sigodd ben y sarff, ac mae cwmpeini newydd o ferched Salem a meibion Seïon yn cael eu hysbrydoli i fyned â'r gân waredigol yn mlaen trwy y nef a'r ddaear, gan ddywedyd, "Iddo ef yr hwn a'n carodd ni ac a'n golehodd yn ei waed ei hun." Pan gano yr udgorn olaf, pan ymddangoso Iesu ar y cwmwl, pan y llosgo y ddaear, pan elo y nefoedd heibio fel llyfr, pan gyfodo y meirw, pan yr agorir llyfrau y farn, fe fydd buddygoliaeth Iesu yn ei gogoniant.

"A thelynau aur yn canu yn un,  
Effeithiol goncwest Mab y dyn."

## PREGETH ROWLAND HUGHES.

RHUF. i. 19—28.

Y DATGUDDIAD A RODDODD DUW O HONO EI HUN I DDYNNION; A'R  
EGWIDDORION A SEFYDLIR GAN YR UNRHYW.

## BHAGYMADRODD.

PRIF amcan yr apostol yn y geiriau hyn, ac yn y cyd-destun, yw amddiffyn cyfiawnder cymeriad y Duw byw; ac amlygu ei fod yn ymddwyn yn deilwng o'r cyfryw gymeriad, yn yr holl ddyrnodiau barnol a roddodd i'r cenedloedd, oherwydd eu heulunaddoliaeth.

Y mae yr apostol yn seilio ei hacriad, yn benaf, ar y wybodaeth oedd ganddynt am y gwir Dduw, a'u hadnabyddiaeth o egwyddorion gwell. Er nad oedd manteision y cenedloedd yn gyfartal i'r eiddo yr Iuddewon; ac er na fynegodd Duw ei eiriau iddynt hwy, fel y gwnaeth i "Jacob ac Israel," eto nid oeddynt yn hollol anwybodus am dano: "ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst" yn eu plith; "oherwydd yr hyn a ellir ei wybod am Dduw sydd eglur ynddynt hwy." Nid fod y cyfan a all dyn ei wybod am Dduw yn hysbys i'r cenedloedd, yw meddwl yr apostol; oblegid y mae yn yr efyngyl ddatguddiad o hono ag sydd yn tra rhagori ar bob peth a fu yn eu meddiant hwy mewn unrhyw genedlaeth ac oes. Er na ellir "cael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd," eto gellir cael adnabyddiaeth lawer helaethach o hono nag oedd yn meddiant y cenedloedd gynt; am hyn y mae rhai beirniaid yn cyfieithu y geiriau uchod yn y modd canlynol: "Oherwydd y wybodaeth am Dduw sydd eglur ynddynt (neu yn eu plith) hwy; canys Duw a'i heglurodd iddynt." Yr oedd Tad y goleuni wedi egluro ei hun iddynt, i raddau digonol i'w galluogi i ymgadw oddiwrth eilunod. Ond er iddynt "adnabod Duw," eto, "nis gogoneddasant ef megis Duw," ni chafodd y gogoniant, yr anrhydedd, a'r mawredd a ddylasai gael, yn ol y wybodaeth oedd ganddynt am dano; eithr "newidiasant ogoniant yr anlygredig Dduw, i gyffelybiaeth llun dyn llygredig," &c. Gelwir ef yma yn "anlygredig," mewn cyferbyniad i, ac er taflu dirmyg ar, dduwiau y cenedl-



oedd ; y rhai a heneiddient, a gyfnewidient, ac a falurient ; ond Efe, “yr un ydyw, a'i flynyddoedd ni ddarfyddant.” Pan y mae *llygredigaeth* yn cael ei briodoli i ddyn, y mae yn arwyddo ei fod yn ddarostyngedig nid yn unig i dranc, ond hefyd i halogrwydd moesol ; a phan y mae *anllygredigaeth* yn cael ei briodoli i Dduw, y mae yn arwyddo nad yw ef yn ddarostyngedig i'r naill na'r llall. “Yr hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb.” Gan fod y cenedloedd yn priodoli dwyfoldeb i greaduriaid, ac yn rhoddi iddynt yr addoliad oedd briodol i'r Creawdwr yn unig, dywedir eu bod yn “newid gogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwar-carnol, ac ymlusgiaid.” Y meddwl yw, nid fod y cenedloedd yn gosod yr amrywiol luniau hyn i arddangos y Duw anweledig, ond eu bod yn eu cymeryd yn ei le ef : nid cael ei gamddarlunio yr oedd ef ganddynt, ond ei wrthod yn hollol, a'i fawl yn cael ei roddi i “ddolwan cerfiedig ;” ac “nid oedd gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth.” “Newidiasant wirionedd Duw yn gelwydd :” y mae eilunod yn cael eu galw yn “gelwyddau” yn fynych ; eu gwneuthurwyr yn “athrawon celwydd ;” a'u haddolwyr yn rhai sydd yn “ymddiried mewn celwydd :” am hyny, y mae yn debyg, mai y meddwl yw, ddarfod iddynt newid y gwir Dduw am dduw gan ; gan “addoli a gwasanaethu y creadur yn fwy na'r Creawdwr, yr hwn sydd fendigedig yn dragwyddol.”

Yr oedd rhai o'u duwiau ar “lun dyn,” a hwnw, meddant hwy, o dymherau aflywodraethus ; am hyny y galwodd yr apostol ef yn “llun dyn llygredig.” Llygredig yw pob dyn aflywodraethus. Anrhydedd i ddyn oedd cael ei wneyd ar lun Duw, ond dirmyg ar Dduw yw ei wneyd ar lun dyn. Addolent “ehediaid” hefyd, megys yr *eryr* yn mhlith y Rhufeiniaid, yr *ibis a'r hebog* yn mhlith yr Aiphtiaid. Ymgrymai rhai i “anifeiliaid pedwar-carnol,” megys yr *apis* neu yr *ŷch gwyn* yn mysg yr Aiphtiaid ; oddiwrth yr hwn, fel y bernir, y cymeroedd Israel eilunaddolgar eu *llo awr* ; oblegyd mai eidion a welsant yn brif dduw gan yr Aiphtiaid. “Troisant eu gogoniant i lun eidion yn pori glaswellt.” “O chwi nefoedd, synwch wrth hyn, ac ofnwch yn aruthrol, a byddwch angbyfanedd iawn, medd yr

Arglwydd." Yr oedd "ymlusgiaid" hefyd, megys y *crocodile* a'r *chwilén ddu*, yn cael eu haddoli yn mhllith yr Aiphtiaid.

Y mae yn beth i sylwi arno, mai y cenedloedd a ymddangosent fwyaf rhwysgfawr mewn doethineb a gwybodaeth, oedd y rhai ynfydaf mewn crefydd. Tra yr oedd y barhariaid anllythrenog yn addoli yr haul a'r lleuad, yr oedd yr Aiphtiaid dysgedig yn addoli ých, a chwilen ddu, &c.; tra yr oedd y Groegiaid, y rhai a ragorent arnynt hwythau mewn doethineb, yn addoli clefydau a nwydan dynol; y Rhufeiniaid, y rhai a gyfrifid ddoethaf o'r cwbl, a addolent gythreuliaid; a thra y mae yr Americanaid tlodion, y dyddiau hyn, yn addoli taranau; y mae y Chinëaidd cywrain yn addoli y diafol. Er fod y naill greadur mor anghymhwys a'r llall i fod yn wrthddrych addoliad i ddyn, eto nid yw mawrhau chwiled a chythreuliaid yn fwy na haul na lleuad yn un prawf o ddoethineb.

Y mae yn amlwg fod gwaith y cenedloedd yn rhoddi addoliad Duw i eilunod, yn cael ei briodoli yn fwy i'w hanystyriaeth a'u rhyfyg nag i'w hanwybodaeth am y gwir Dduw; canys yr oeddynt "yn *adnabod* Duw." Y mae y dyfyniadau a wneir gan ddysgedigion o ysgrifau Cicero, Plato, Xenophon, Plutarch, &c., prif oleuadau y byd cenedlig, yn brawf diwrtheb fod ganddynt wybodaeth dra helaeth am "dragywyddol allu a Duwdod" ein Iôr ni. Ac y mae yn ddiâu fod Socrates yn gwybod am yr unig wir Dduw, pan y gwawdiodd aml dduwiau yr Atheniaid, am yr hyn ei dyfarnwyd i farwolaeth; ond wedi ei farnu, pan na feddai ddim yn ychwaneg i'w ofni, yn lle dwyn tystiolaeth gyhoeddus o blaid Duw y nefoedd, ac yn erbyn gaudduwiaeth ei wlad, efe a'i hamddiffynnodd yn hytrach, trwy y gân a gyfansoddodd yn y carchar i Apollo a Diana; a thrwy orchymyn i'w gyfeillion aberthu ceiliog drosto i Esculapius; er y gwyddai na allai hwnw ei wared, gystal ag y gwyddai Israel na fedrai y llô aur ddim rhwygo'r môr, na gwlawio y mana; yr oedd yn pechu yn erbyn goleuni. Er y gwyddai y cenedloedd ddigon am Dduw i'w galluogi i ymgadw oddiwrth eilunod, ac i weled eu rhwymau i'w anrhydeddu ef, eto nid yw hyn mewn un modd yn wrthwynebol i haerïad yr apostol mewn man arall, pan ddywedodd, "nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw;" oherwydd yr hyn a alwant hwy yn "ddoethineb," neu

athroniaeth, oedd un o'r prif achosion o lygriad crefydd wreiddiol y byd cenedlig; ac ni wnaeth golygiadau eu ddoethion, fel eu gelwid, ddim ond porthi y rhanau gwrthunaf o eiluoaddoliaeth: "pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid;" ac "ofer a fuont yn eu rhesymau;" canys yr oedd eu hathrawiaeth yn addysgu i'r bobl mai Duw yw pob peth, ac fod pob peth yn Dduw; yr hyn fu yn achlysur iddynt ddewis gwahanol ranau ac elfenau y greadigaeth; pan yr un pryd y gwyddent am fodolaeth yr unig wir Dduw. A chan na fynent ymddwyn yn unol â'r drychfeddyliau cywir oedd ganddynt am Dduw, ond eu llwyr-guddio, dywedir eu bod yn "attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder." Byddai dyweyd mai yr athronyddion a'r llywodraethwyr yn unig oedd yn euog o hyn, yn caethiwo y cyhuddiadau sydd yn canlyn hyd ddiwedd y bennod iddynt hwy yn unig, yr hyn fyddai yn dra anmhrifodol; gan fod yr apostol yn llefaru am y cenedloedd yn gyffredinol: a chan mai ei amcan oedd profi fod "yr holl fyd dan farn Duw," ni thalai iddo ddwyn yn mlaen reswm na pherthynai ond yn unig i ran fechan o'r byd, megys yr athronyddion a'r llywodraethwyr. Ond yr oedd y werin yn gyffredinol yn euog o hyn; yr oedd y chwantau llygredig yn eu hewyllys a'u serchiadau, yn fwy dewisol ganddynt na'r goleuni oedd yn eu deall; fel, yn lle byw yn unol â'r wybodaeth oedd ganddynt am y gwir Dduw, a gadael i hono lewyrchu yn eu bucheddau, ymddygent fel pe buasent hebddi; a thrwy attal y gwirionedd yn y modd yma, daliasant yn gaeth, yr hyn a'u gwnelasa hwy yn rhyddion: cyfrifir hyn yn "anghyfiawnder" ynddynt; ac yr oeddynt heb un math o reswm i'w roddi dros eu hymddygiad, gan fod ganddynt y goleuni yn eu deall, a gweithredoedd Duw o flaen eu llygaid, i wneyd cyfeiriad gwastadol atynt. "Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg; sef ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod; hyd onid ydynt yn ddiesgus." O holl briodoliaethau Duw, nid yw yr apostol yn enwi yma ond ei "allu;" oblegyd mai effeithiau y gallu Dwyfol yw yr hyn sydd yn taro meddwl dyn gyntaf yn yr olwg ar y pethau a wnaed. Y mae yr ymadrodd, "Dduwdod," yn cael ei arfer rai prydian i arwyddo y *Bôd* o Dduw; a phryd arall, ei *Fawrhydi*, a gogoniant y *Bôd* hwnw, yr hyn a "welir

yn amlwg" yn ei weithredoedd: nid "a arwyddir yn dywyll;" ond "a welir yn amlwg," yn y "pethau a wnaed."

Cafodd holl dduwiau y cenedloedd ddechreuad; a chanwyd gan rai o'r beirdd cenedlig i'r dyddiau y ffurfiwyd lluaws o honynt; ond am y gwir Dduw, "tragywyddol" yw ei "allu a'i Dduwdod" ef: y mae yn "preswyllo tragywyddoldeb;" dyma ei deml briodol ef.

"Bywyd wyd, eyn bod oes."

Yr oedd pob peth perthynol i'w duwiau hwy i'w gweled a llygaid o gnawd; ond y mae "pethau" y Duw byw yn "anweledig;" ac nid rhyfedd, canys y mae hyd yn nôd sylwedd y meddwl creddig wedi ei guddio oddi wrthym ni; llawer mwy "bethau" y Duw hwn, y mae pob gwycheder, mawrhydi, a gogoniant, yn cyfarfod ynddo. Dichon fod yn ei natur oruchel rai perffeithderau nad amlygodd mo honynt i ni erioed, a'r rhai nad yw ein galluoedd yn gymhwys i'w canfod i'r gradd lleief: ac y mae yn ddiâu y bydd llawer o "bethau" y Bod anfeidrol yn "anweledig" i feidrolion am byth."

Ond yn ngwyneb yr hyn a amlygodd o hono ei hun, hyd yn nod i'r cenedloedd, yr oeddynt "yn ddiesgus" am eu pechod, yn rhoddi ei "fawl i ddelwau cerfiedig;" oblegyd y mae gwirionedd, mor belled ag y mae yn amlygedig yn y "pethau a wnaed" gan Dduw, yn sefyll ar yr un awdurdod ag ydyw yn y pethau a ddywedwyd ganddo; ac y mae yr egwyddorion a ysgrifenwyd gan Dduw ar y meddwl dynol, yn gwneyd dyn yn rhwymedig, yn gystal a'r rhai a ysgrifenwyd gan fys yr un Duw ar y llechau i Moses, gan eu bod wedi tarddu o'r un ffynnon, ac yn cael eu hamddiffyn gan yr un awdurdod. Yn awr ymdrechwn i ddefnyddio y geiriau hyn yn fwy fel addysg i ni, nac fel hanes am y rhai gynt. Ymofynwn yn

I. YN MHA YSTYRIAETH Y MAE "GALLU A DUWDOD" IOR I'W "GWELED YN AMLWG YN Y PETHAU A WNAED."

Yn gyntaf, *Y mae sylwedd y "pethau a wnaed" yn amlygu ei dragywyddol allu a'i Dduwdod.*

1. *Nad ydynt yn bodoli erioed.* Gwelir hyn wrth ystyried y pethau canlynol:—

Y maent yn feidrol a therfynol yn eu hanfod.

Nis gallasai y sylweddau hyn osod terfynau arnynt eu hunain. Y maent oll yn ymddibynol ar ryw beth oddi allan iddynt eu hunain.

Y maent yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau.

2. *Nad allent ymfodoli o honynt eu hunain.*

3. *Os nad yw y sylweddau hyn yn bodoli erioed, nac wedi ymfodoli o honynt eu hunain, rhaid mai "pethau a wnaed" ydynt.*

Yn ail, *Y mae agwedd y "pethau a wnaed" yn amlygu ei "dragywyddol allu a'i Dduwdod."*

Yn drydydd, *Y mae llywodraethiad y "pethau a wnaed" yn amlygu ei "dragywyddol allu a'i Dduwdod."*

Sylwn yn

II. *AR RAI O'R EGWYDDORION A SEFYDLIR GAN YR ATHRAWIAETH HON.*

Yn gyntaf, *Y mae yr athrawiaeth yma yn datgan y dylem "ystyried" gweithredoedd Duw.*

Yn ail, *Y mae yr athrawiaeth hon yn datgan teilyngdod y Creawdwr o ddiolch gwresog oddiwrt h dyn.*

Yn drydydd, *Y mae yr athrawiaeth hon yn amlygu ein rhwymedigiaeth i anrhydeddu ein Creawdwr, gan ei "ogoneddu megys Duw."*

Yn bedwerydd, *Y mae yr athrawiaeth fu dan sylw yn sicrhau y bydd y colledigion oll yn fud yn y farn.*

#### A M Y N E D D D U W.

GAN JOHN JONES, TALYSARN.

Yr wyf am geisio dangos i chwi bod amynedd Duw yn fawr.—Yr ydym ni yn galw pethau weithiau yn fawr,—afon fawr, mynydd mawr, môr mawr, gwynt mawr, ac mae hyny yn ddigon priodol yn ol trefn ein byd ni. Nid mawr iawn yw y ddaear o ran hyny. Yn äangderau diderfyn y cread y mae bydoedd mawrion: mae yr haul yn fawr, ond y mae amynedd Duw yn anfeidrol. Pa le y buasai y ddaear heddyw pe buasai Duw cyf-iawn a hollalluog yn ei llywodraethu ac heb fod amynedd anfeidrol ganddo? Ni fuasai gareg ar gareg o'r hen ddaear i'w

chanfod. Pe bae gan ddyn da, santaidd, allu Duw, neu pe rhoddai yr Arglwydd fenthyg ei allu i mi, fe ddamniwn y byd hwn ar unwaith, heb gael amynedd hefyd. Mae ei lygaid ef yn gweled dan yr holl nefoedd. Gwelodd y diwedd o'r dechreu, ac er gynt yr hyn ni wnaed eto. Yr holl bechodau mawrion sydd yn cael eu cyflawni gan bob dyn yn mhob man! Beth pe bawn i yn gweled cymaint o ddrwg sydd yn cael ei gyflawni yn y dref hon (Liverpool), mewn un noswaith, a phob drwg yn gas gan fy enaid, beth wnawn i drigolion y dref? Wel, eu damnio oll a dymchweliad, heb amynedd Duw! Ond y mae Duw yn gweled pob pechod, yn clywed pob llw: mae ei lygaid ef yn dal ar gamrau y godinebwr, a'r puteiniwr, a'r llofrudd, a'r lleidr. Beth ydyw yr achos fod y dyn meddw yna heb syrthio i uffern yn fyw? Amynedd Duw, bobl! Beth ydyw yr achos eich bod yn cael agoryd eich llygaid yn y byd hwn bob dydd, ac nid gyda chythraeliaid yn y tân tragwyddol? Amynedd mawr Duw! Paham na buasai Duw wedi damnio y dyn yna er's blynyddoedd, am wrthod edifarhau a chredu yr efengyl? Ei amynedd, bobl anwyl. Pwy sydd yn cyfrif ei amynedd yn iachawdwriaeth? Oni bae fod amynedd Duw yn anfeidrol, ni chawsai yr un dyn byth amser i edifarhau am ei bechod.

O! y mae yn gas gan Dduw bechod. Mae pechod wedi cau ei ddyrnau yn ngwynneb amynedd Duw lawer gwaith. Hirymarhous yw Duw,—hwyrfydig ei lid. O! ie, mae bywyd tragwyddol a'r nefoedd i gyd wedi d'od i ran llawer pechadur, am fod Duw yn hwyrfydig ei lid. Duw'r amynedd yw yr Arglwydd.

Fe fyddwn ni yn son llawer am amynedd Job dduwiol, ac y mae amynedd dyn fel Job yn werth son am dano.

O! beth pe buasai Job yn myned o flaen plant Israel o'r Aipht trwy yr anialwch i wlad Canaan! Beth a wnaethai amynedd Job y tro gyda chenedl mor galed a hono? Na wnaetha yn wir. Nid oes perffaith fel yr Arglwydd.

## HOLLWYBODAETH DUW.

GAN JOHN JONES, TALYSARN.

Y MAE holl waith Duw yn ol ei ragwybodaeth, mewn creadigaeth, rhagluniaeth, ac iachawdwriaeth.

Mae y greadigaeth yn fawr, yn llawer mwy nag y gwyddom ni. Y mae rhan fawr iawn o honi yn ein golwg ni. Yr ydym yn gallu canfod llawer o fawrion weithredoedd Duw yn y greadigaeth, ond beth a wyddom ni? Nid ydym ni yn gweled ond rhanau o'i ffyrdd ef; ond pa faint bynag sydd o'r golwg, ni a ddywedwn fel y Salmydd, "Yn ol ei hollwybodaeth y gwnaeth efe bob peth,"—gweledig ac anweledig, yn y nefoedd, y ddaear, a'r môr mawr llydan.

Drychfeddwl rhyfedd ydyw i ddyn y pryd nad oedd nefoedd na daiar.

Yr oedd yr Arglwydd yn gwybod pa nifer o angylion i greu, rhoes enwan priodol i bob un o honynt.

Yr oedd Duw yn gwybod pa nifer o heuliau a ser i greu, a pha le i osod pob un o honynt; gwyddai pa mor agos at eu gilydd i'w gosod; a gwyddai fesur a phwysa pob un o honynt. Duw o bawb am fesur a phwyso, fy mhobl i.

Yr oedd Duw yn gwybod pa faint i wneyd yr haul sydd yn goleuo ein daear ni: ni wnaeth ef yn rhy fawr na rhy fychan, mae wedi cael ei osod yn union yn ei le—nid yn rhy bell na rhy agos. "I'r haul y gosododd efe babell ynddynt."

Y mae Hollwybodaeth i'w weled yn y pethau hyn. Mae ef yn gwybod i ba le i anfon ei lu mawr—y locustiaid. Yr ydym yn arfer dwrddio y brain ac adar yr awyr; ond ni a ddylem gofio fod gan Dduw lu mawr o locustiaid. Beth pe bae Duw yn newid dau lu, ac anfon llu o locustiaid yn lle haid diniwaidd o frain? Mae Duw yn gwybod pa ffordd i anfon y mellt allan rhag iddynt danio yr yd wedi ei gasglu. Mae yn ddigon siwr i chwi bobl y dylem ni ddiolch i'r Arglwydd am bob tamaid o fara.

Yr oedd Duw yn gwybod pa fodd i wneyd dyn,—a rhyfedd ac ofnadwy y gwnaeth Duw ddyn. O! y mae yn dda genyf y

funydd hon fod Duw yn Hollwybodol wrth greu dyn. Gwyddai yn mha ffurf i wneyd corff dyn;—ac yn wir y mae arnom waith hardd,—pa faint o nerth i roi yn mhob aelod o'r corff, pa faint o gymalau ac o ewynau, i.e, o fysedd i roi ar y traed a'r dwylaw, pa faint o wythienau i roi yn y corff dynol. Mae dyn yn medru eu cyfrif—ond Duw oedd yn gwybod pa faint oedd yn eisieu arnom. Ydyw, mae Duw yn gwybod cyfrif gwallt ein pen!—nid oes neb arall yn gwybod hyn o *sum*. Yr oedd yn gwybod y lle goreu i osod y clustiau—pa faint o nerth i roi i'r clustiau. Beth pe bae dyn yn clywed pob swm o'i amgylch am filltir o ffordd? Y fath achlysur i'r dyn fyddai clywed gormod. O'r ochr arall, beth pe na fuasai y glust yn clywed dim ond a ddywedir ynddi, yn wir, ni chawsech ehwi ddim haner cymaint o bregethau. Yr oedd Duw yn gwybod pa faint oedd eisieu i ni glywed, a gweled yr un modd. Mae y llygaid fel y clustiau yn waith yr un llaw. “Duw a adwaenir wrth ei waith.”

Y mae holl ddarpariaeth fawr yr iachawdwriaeth trwy yr Arglwydd Iesu Grist, ar gyfer byd o ddyinion colledig, yn ol rhagwybodaeth Duw.

Yr oedd Duw yn gwybod er tragwyddoldeb pa mor ddrwg yw pechod, a maint y trueni y mae pechod yn arwain iddo, ynghyd a'r gosbedigaeth am dano.

Anwyl bobl, peidiwch a rhyfeddu bod cenadon yr efengyl mor daer arnoch, mewn amser ac allan o amser. Am fod digofaint, gochel! Yr ydym ni yn credu bod Duw yn eirwir, a'r Duw hwnw yn Hollwybodol. Mae Duw yn gwybod am eich holl esgusodion, am eich holl addunedau, a'ch dirgel bechodau. Mae Duw yn gosod ein dirgel bechodau yn ngoleuni ei wyneb.

Pan y mae dynion yn ymryson â'u gilydd, y gorchfygwr sydd yn enill. Pan y mae y naill frenin yn rhoi i fyny i frenin arall, y mae un brenin yn colli ei deyrnas, a'r llall yn chwangu un at yr eiddo, ond pan y mae pechadur yn colli y mae yn enill, a phan yn enill y mae yn colli. Mae Duw yn addaw teyrnas i'r collwr yn y fan. Arfau i lawr, bechaduriaid! Mae Duw mawr wedi digio; y mae deddf fawr wedi ei thori; y mae iachawdwriaeth fawr wedi ei darparu,—“Iachawdwriaeth gymaint.”



PREGETH J. EVANS, LLWYNFFORTUN.

IOAN X. 16.

Yn y bennod hon y mae y bendigedig Iesu yn cyfeirio at y defaid a'r bugeiliaid yn y Dwyrain. Fe fyddai y bugeiliaid yn canu â math o gyrs neu *gones* bychain, a hwy fyddent yn myned o flaen y defaid, a'r defaid yn eu canlyn. Nid wyf fi ddim yn gwybod pa un a ydyw y defaid yn y Dwyrain yn gallach na'n defaid ni yn y Gorllewin, neu beidio; efallai, pe cai ein defaid ni eu dysgyblu fel y defaid Dwyreiniol, y byddent lawn mor gall a hwythau.

"A defaid ereill sydd genyf," &c. Dros y nos fe fyddai y defaid mawrion yn cael eu gosod mewn un cae, a'r defaid bychain yn y cae arall, a'r geifr yn y cae arall; ond yn y boreu yr oedd yn rhaid eu cael oll i bori gyda'u gilydd dros y dydd Dywedai y pen bugail wrth yr is-fugeiliaid (*assistant shepherds*) yn ol agor un lliidiart, "Mae defaid ereill fan draw, mae yn rhaid agor y glwyd, a chyrehu y rhai hyny hefyd."—"A defaid ereill sydd genyf," &c. At hyn, mae yn debyg, yr oedd y bendigedig Iesu yn cyfeirio wrth lefaru y testun dan sylw.

Ni sylwn dros ychydig yn bresenol fel hyn—sef, Bod y bobl dduwiol a'r defaid yn debyg iawn i'w gilydd. Creadur bach defnyddiol iawn yw y ddafad, ac y mae yn greadur diniwaid i'w ryfeddu. Ni chlywir un amser bod cyngaws cyfraith (*matter of law*) rhwng y ddafad ag un creadur; na, druan, y mae yn dyoddef, a hyny yn ddistaw, ac yn fynych yn dyoddef ar gam. Mae "yn tewi dan law y rhai a'i cneifant hi."

Y mae yn nodedig iawn am ei defnyddioldeb hefyd. Mae yn ddefnyddiol drwyddi. Mae ei gwlan hi yn ddefnyddiol iawn i wneuthur cludweh, i'n cadw rhag oerfel y gauaf du. Mae lli-einiau, a phethau teneuol felly, yn gwneyd y tro i'r llwythau sydd yn byw rhyngom a'r cyhydedd; ond i ni, sydd yn trigfann yn nes i begwn y gogledd na hwy, ac hefyd i'r trigolion sydd yn byw rhyngom ni a'r pegwn, y mae gwlan y ddafad braidd yn anmhrisiadwy o ddefnyddiol. Wel, diolch, ynte, am wlan y ddafad.

Mae ei chroen hi hefyd yn ddefnyddiol iawn. Yr ydych chiwi, y *farmers*, yn wybodus iawn o hyn; oherwydd chwi fyddwch yn gwneuthur gograu o groen y ddafad, i nithio yr ŷd a'r ŷs oddiwrth eu gilydd.

Mae cig y ddafad hefyd yn ymborth blasus iawn. Barna Syr Astley Cooper ei fod yn iachach nag un cig arall. Dyna lawer iawn o'r achos paham y mae pobl ochrau y mynyddoedd a'r brynau yn gryfach ac yn iachach na ni ar hyd y dyffryn-oedd acw, oblegid y maent yn bwyta mwy o gig y ddafad.

Y mae ymysgaroedd y ddafad yn ddefnyddiol hefyd. Gwna y bobl gall a chelfydd dannau y delyn swyn o ymysgaroedd y ddafad, y rhai a ganant yn bêrleisiol a hyfryd.

Defnyddia pobl *ingenious*, megys y Ffrancod a'r Italiaid, esgyrn y ddafad i wneuthur pethau defnyddiol iawn at yr *household concern*. Mae yn ddefnyddiol drwyddi. Llewch lawer, druain, am fod fel y ddafad.

Dyn enbyd iawn, meddai rhywun, oedd y Nero hwnw. Iâ, yn siwr, dyn enbyd iawn oedd e', fel yr y'm wrth naturiaeth. Mae holl ddefnyddiau drygau Nero ynot ti a finau, fy anwyl ddyn. Mae gan ein Duw ni ffordd i wneuthur bleiddiaid yn ddefaid o'r mwynceiddiaf. Y Nefoedd a'ch gwnelo yn ddefaid yn Myddfai, Llan'ddyfri, Llangadog, Llanddeusant a'r holl amgylchoedd o amgylch ogylch, ac yn Sir Forganwg, ac i eitha'r ddaear. "Mynyddoedd Israel" fyddo teyrnasoedd y ddaear, a defaid y "Pen Bugail" a'u meddiano, ac na byddo a'u tarfo.

PREGETH D. ROBERTS, CAERYNARFON.

GORPHWYSFA ENAID YN NUW.

"Dychwel, O fy enaid, i'th orphwysfa."—SALM cxvi. 7.

ARFERIE dweyd mai arwydd o ddiffyg synwyr fyddai bod un yn siarad llawer âg ef ei hun. Gallwn sicrhau, mai arwydd o ryw ddiffyg mawr ydyw bod dyn heb siarad dim âg ef ei hun. Y mae yn bradychu anfoesgarwch dirfawr i fod yn nghwmni un yn hir heb ddweyd dim, neu os dywedir, dweyd pethau anhriodol wrtho; dyma ymddygiad yr annuwiol gyda'i enaid:

y mae yn awyddus am gael gwybod helynt pawb, ond y mae ei enaid gydag ef yn barhaus, nad ydyw wedi dweyd dim yn ddifrifol wrtho erioed. Synai llawer un at atebiad ei enaid, pe gofynai iddo am unwaith, Wel, fy enaid, sut yr wyt ti? Dywedai, Gwael iawn ydwyf fi: os na chaf fi ryw ymgeledd yn fuan, byddaf fi yn sicr o farw! Os gwna ymddiddan â'i enaid, rhyw gellwair y mae, nid yw yn ymddwyn yn deilwng o un mor noble ag ydyw yr enaid; y mae genym hanes un yn siarad fel ffwl â'i enaid yn Luc xii. 19, 20. Ond y mae y saint yn ymddiddan llawer â'u henaid, ac yn ymddiddan llawer am dano; y mae ganddo lawer o bethau i'w dywedyd wrtho, a llawer o bethau i'w gofyn ganddo. Galw ar ei enaid adref y mae y Salmydd yn y testun, Wel, "dychwel, fy enaid, i'th orphwysfa," yr wyt wedi blino.

Y MAE ENAID AR OL GADAEI DUW HEB ORPHWYSEFA

*Y mae enaid wedi gadael Duw wedi myned o'i le.*—Pan ddaeth yr Arglwydd i alw y *roll*, yr oedd pob peth yn ateb; pan rifodd efe rifedi y ser, gan eu galw oll wrth eu henwan i gymeryd eu *numbers*, yr oedd pob un yn y *rank*. Haul, Yma—Lleuad, Yma—Holl ser y goleuni yn ateb, Yma—Ddaear, Yma—Y môr, Yma—Y mynyddoedd a'r bryniau oll yn ateb, Yma—Y coed frwythlawn a'r holl gedrwydd, Yma—Y bwystfilod a phob ymlusgiad, Yma—Yr anifeiliaid a'r adar asgellog, Yma—Pysg heb rifedi y môr, Yma—Enaid, dacw ddistawrwydd; Enaid, neb yn ateb; Enaid, *Absent*; y mae wedi cilio o'r rhenc—wedi *dissertio*, a Duw yn gwaeddi, "Hwy a'm gadawsant i!"

*Y mae heb orphwysfa ar ol gadael Duw.*—Ni ddarparodd yr Arglwydd orphwysfa i enaid yn un man ond yn ei fynwes ei hun, nid oes dim yn ddigon cryf i'w ddal am foment, y mae pob stol yn rhy wan i gynnal enaid, y maent yn ysigo dano ac yn ei ollwng i lawr; cilia pob creadur rhagddo, pan y mae am roddi ei oglud arnynt; a dywedant, Paid a phwyso arnom ni, nid allwn ni mo dy gynnal—ysgydwant ef i ffordd; y mae pob gwely yn rhy fyr iddo ymestyn arno. Y mae yr enaid heb gael gorphwysfa am un munyd erioed nes dyfod at I duw. Y mae fel colomen Noah, yn gwibio o'r naill greadur i'r llall, heb gael lle i osod gwadn ei droed i lawr.

*Ni orphwysodd Duw ddim nes gwneyd enaid.*—Gorphwysodd wed'yn; dyma blentyn ieuengaf y greadigaeth—*pet* y Creawdwr. Yr oedd rhyw le wedi ei ddarparu i bob peth arall orphwyso; mynyddoedd uchel i'r geifr—creigiau i'r cwingod, yr awyr i'r adar, y dwfr i'r pysgod; ond ei fynwes ei hun i'r enaid. Tra yr oedd y plant ereill yn cael eu rhoddi allan, yr oedd yr enaid i gael aros gyda'i Dad, nid oedd neb a allasai fod yn ddigon tyner wrtho. Ei Benjamin anwyl ydoedd; nid oedd teimladan Jacob, pan ganfu siaced Joseph wedi ei throchi mewn gwaed, yn ddim at deimladan Duw, pan ganfu enaid wedi colli, "Efe a ymofidiodd yn ei galon."

*Y mae enaid yn grwydryn ar ol gadael ei gartref.*—Y mae erwydryn yn fwy truenus na chardotyn, nid oes ganddo un nôd i gyfeirio ato, gwibia yma ac acw i ganlyn ei chwant. O! y mae yn chwith gweled creadur mor ardderchog ag enaid yn grwydryn hefyd. "Gŵr yn ymdaith o'i le ei hun sydd debyg i aderyn yn cilio o'i nyth."

*Y mae wedi colli pob ymddiried.*—Nid oes neb a ymddiriedai ddim i grwydryn. Yr oedd dyn yn un o ymddiried mawr unwaith, yn derbyn holl deyrnged y byd yma, ac yn ei gyflwyno i Dduw, ond y mae wedi colli ei gymeriad.

*Llais dyn duwiol sydd yn y testun yn galw ei enaid yn ol.*—Y mae yn bosibl i enaid duwiol adael Duw, a myned i grwydro o'i le, amser blin arno ydyw hwnw; clywch Dafydd yn gwaeddi, "Cyfeiliornais fel dafad, cais dy was;" yr oedd yn teimlo ei fod wedi colli y ffordd, ac yn dyrysu fel plentyn yn y tywyllwch, yn glynu yn y llaid, yn gwaeddi ar ei dad, "Cais fi," tyr'd i fy ngheisio i. "Dychwel di fi, O Dduw, a mi a ddychwelir." Yr oedd yr ystyriaeth y deuai Duw i'w geisio yn lloni ei feddwl mewn amgylchiad cyfyng, "Efe a ddychwel fy enaid."

Y MAE YN NUW ORPHWYSFA I ENAID.

*Esmwythdra.*—Ystyrir llonyddwch oddiwrth ofid a phoen yn anheggorol i orphwyso; er rhoddi esmwyth-fainge i'r lluddiedig, nis gall orphwyso tra y byddo mewn poen: ceisir gosod yr enaid blinedig ar eisteddle esmwyth, ond tra y mae yn llawn o arteithiau, nis gall orphwys am foment, y mae yn ymdroi dan ei gnofeydd, heb ddim ond "gorthrymder ysbryd" yn mhob man,

nes dyfod at Dduw ; addawa ef roddi “ gorphwysdra i enaid,” a’r peth cyntaf a wna fydd tynu y drain ; ar ol dychwel yma, efe a “ orphwys ac a gaiff lonydd.” Geilw ar y rhai blinderog a llwythog ato, a dywed, “ Myfi a esmwythâf arnoch ;” fe dÿn y llwyth i lawr oddiar y gydwybod, iachâ friwian yr ysbryd, rhwyma ddoluriau y galon, gwna ef yn esmwyth, a rhydd orphwysdra i’w enaid.

*Diogelwch.*—Pa faint bynag fyddo blinder un, gwawdio ei ludded fyddai peri iddo orphwys ar y traeth tra fyddai y llanw yn ei amgylchu ; pa mor ddiffygiol bynag a fyddai un, nis gallai orphwys, er cael ei osod mewn gwely esmwyth, os byddai y tÿ yn myned ar dân. Ond y mae yn Nuw berffaith ddiogelwch, “ A to y rhed y cyfiawn, ac y mae yn ddiogel ;” “ A’i asgell y cysgoda efe drosto, a than ei adenydd y bydd diogel.” Wedi cyrhaedd yma, efe a erys yn ddiogel, ac a gaiff lonydd oddiwrth ofn drwg.

*Cyflawnder.*—Prin y gellid edrych ar unrhyw fan yn orphwysdra os byddai yno brinder, neu berygl iddi fyned yn brinder. Y mae pob cyflawnder yn Nuw, digon i “ gyflawni ein holl raid ” ni. Ni bydd eisieu dim byth arnat nad ydyw yn Nuw ; ni raid i ti fyned allan o hono ef i geisio dim i’th wneyd yn gysurus, yn ddedwydd, ac yn llawen am dragywyddoldeb. Un achos paham nas gall enaid orphwys yn un man arall ydyw, ei fod yn methu a chael ei ddigoni—y mae yn gwaghau pob llestr, yn dyhysbyddu pob ffynon, yn treulio pob gwrthddrych ; ond y mae yn cael ei lawn ddigoni yn Nuw.

#### ANNOGAETHAU I’R ENAID DDYCHWELYD.

*Y mae yn myned yn waeth yn mlaen.*—Gwelir nifer o longau yn troi allan o’r porthladd weithiau, ac ar ol myned am filldir-oedd cyfyd tymhestl, deil rhai allan gan ddisgwyl iddi fyned yn well—dychwela ereill yn ol i’r porthladd, ac yn aml y rhai sydd wedi dal allan a wnaethant ddoethaf ; gwellhaodd y tywydd, a gwnaethant eu mordeithiau yn llwyddianus. Ond gwaethygu y mae yn mlaen, cynyddu y mae y dymhestl, y doethineb mwyaf ydyw dychwelyd ; rhyfygodd rhai ddal allan, gan dwyllo eu hunain y deuai yn well, ond aethant i le “ nad ydynt yn cael gorphwysfa na dydd na nos.” Y mae wedi bod

yn lled galed ar rai i ddal allan hyd yma, ond daw yn waeth eto, goreu po gyntaf i ddychwelyd.

*Y mae modd dychwel yn awr*, nid felly y bydd byth. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd, a'r ffordd sydd yn arwain i ddistryw; yn y porth y mae y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd yn gyfyng, ac yn gul iawn, ond y mae yn lledu wrth fyned yn mlaen; ond yn y cychwyn y mae y ffordd sydd yn arwain i ddistryw yn llydan, yna y mae yn culhan, ac yn cyfyngu, nes y bydd o'r diwedd wedi myned mor gul nas gall yr enaid droi yn ol, bydd yn rhaid myned yn mlaen, dim lle i edifeirweh, yn rhy gyfyng i ddychwel.

*Y mae galwad i ddychwelyd*.—Clywsom weithiau am blentyn wedi colli yn y mynyddoedd, a'r rhieni yn galw ar yr holl gymydogion i fyned gyda hwy allan i chwilio am dano; y mae yr enaid wedi crwydro oddi cartref, collwyd ef ben boreu, y mae yn tynu at yr hwyr ar rai heb eu cael eto, yn dechreu tywyllu, ac y mae mewn lle peryglus; yr ydym yn meddwl i ni glywed ambell un yn gwaeddi, yn y nos dywyll, am help—nid ydym sicr a glywodd Duw hwy ai peidio; y mae efe yn glust i gyd hefyd, ond sonir am rai yn galw ac yntau heb wrando. O! yr oedd clywed gwaedd rhai wrth godymu dros glogwyni, yn ddigon i hollti calon. Y mae yr Arglwydd wedi codi yr holl gymydogiaeth i chwilio am yr enaid crwydredig, a'r haul yn dal y *lantern*, y gwynt yn chwibanu ar ei ol, y melld yn lluchio eu *rockets* i dynu ei sylw, y daran yn saethu ei hergydion, y cwmwl yn wylo ei ddagrau yn hidl ar ei ol. Paham yr wyt yn wylo, gwmwl? I edrych a ddaw y dyn ol—pe deuai, mi sychwn fy ngruddian am byth wed'yn. I ba beth yr wyt ti yn dal y goleu yna o hyd, haul? I edrych a ddaw y crwydryn yn ol—pe deuai mi ddiffoddwn y *lantern* wed'yn. Y mae Duw wedi gwneyd Efengyl o bwrpas i fyned ar ei ol, yr oedd y clogwyni yr aeth drostynt mor ddychrynlyd, fel nad oedd yr un cerbyd yn dal i yru ar ei ol. Pe buasai yn saernio cerbyd o wahanol fydoedd, ac yn rhoi planedau yn olwynion iddo, buasai wedi myned yn ddrylliau er's talm. Ond gwnaeth Efengyl o ddefnyddiau digon cryfion, y mae wedi dal i yru ar ei ol dros yr holl glogwyni, ac y mae yn berffaith gyfan eto, heb eisieu dim adgyweir-

iad arni erioed, ac y mae yn llawn o rai yn chwythu mewn udgyrn, "Dychwel ataf fi, medd yr Arglwydd," "Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber, canys myfi wyf Dduw." "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch, a chwi a gewch orphwysdra i'ch encidiau."

*Rhaid dychwelyd.*—Y mae ambell fachgen drwg wedi gadael ei gartref, ac yn ddigon caled i ddiystyru holl wahoddiadau ei rieni oedranus, dywed wrth el gwmni llygredig, "Nid âf adref byth." Dyma y penderfyniad sydd yn meddwl y pechadur, Ni ddof i wyneb Duw byth; ond rhaid iddo dy gael i'w wyneb; fe waedda rai o'r dyddiau nesaf, "Dychwelwch feibion dyuion," ni waeth iddo beidio, onid ydyw yn gwaeddi ar hyd eu hoes, ni ddenant ddim, na, "Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes." Dos di mor bell ag y mynot, rhaid dy gael i'w wyneb. Bu llawer o chwilio am fynedfa o'r Môr Tawel i'r Môr Werydd, ond er bod yn aflwyddianus am yn agos i dri chant o flynyddoedd, o'r diwedd llwyddodd Capt. M'Clure i gael y *North-west passage*. Ond y mae pob *expedition* i gael mynedfa yn mlaen oddiwrth Dduw wedi profi yn aflwyddianus, ac ni lwydda neb byth. Rhaid dychwelyd!

PREGETHU CHWARYDDOL. — *Goodwin.*

Y MAE John Howe, mewn darlith ar "Ddwyfol Awdurdod yr Ysgrhythrau Santaidd," a draddodwyd Chwefror 20, 1691, yn adrodd yr hanesyn canlynol:—

"Yr wyf yn meddwl y gallai fod yn werth eich sylw am ychydig funydau, i mi adrodd a ganlyn, a glywais amser yn ol gan ddyn, (enw yr hwn sydd yn dra hysbys yn Llundain, a dyddordeb ynddo eto, Doctor Thomas Goodwin.) pan yr oedd yn Llywydd Coleg Magdalene, yn Oxford; yno y cefais yr hanes ganddo. Dywedodd wrthyf, pan yr oedd yn efyddu yn Cambridge, ar ol clywed llawer am Mr. Rogers, o Dedham, yn Essex, iddo fyned o bwrpas o Cambridge i Dedham i wrando arno yn pregethu ar ddiwrnod penodol, lle yr oedd

yr eglwys fawr yn cael ei llanw â gwrandawyr astud. Yr oedd Mr. Rogers (fel y dywedodd wrthyf) wedi bod am beth amser yn ymdrin â'r testun ag sydd genym ninaw yn awr—yr Ysgrythyrau. Ac yn y bregeth hono y mae yn syrthio i ddatleu â'r bobl yn nghylch eu diystyrwch o'r Beibl (mae arnaf ofn ei fod yn cael ei ddiystyru yn fwy yn ein dyddiau ni); mae yn personoli Duw i'r bobl, fel yn dweyd, 'Wel, yr wyf am gyhyd o amser wedi ymddiried y Beibl i chwi: yr ydych wedi ei ddiystyru; mae yn gorwedd yn eich tai wedi ei orchuddio â gwë y prif copyn. Nid ydych yn gofalu am edrych i mewn iddo. A ydych yn ymddwyn at fy Meibl felly? Wel, ni chewch fy Meibl yn hwy.' Yna cymera y Beibl oddiar yr areithfa, ac ymddangosai fel yn ei symud ymaith—ei gymeryd oddi arnynt; ond yn uniongyrchol yn troi drachefn, yn personoli y bobl wrth Dduw, yn syrthio ar ei liniau gan eiriol yn y dull mwyaf difrifol, 'Arglwydd, pa beth bynag a wnei â ni, paid a chymeryd y Beibl oddi arnom; lladd ein plant, hlosga ein tai, dinystrïa ein meddïanau, ond gâd i ni y Beibl, yn unig paid a chymeryd ymaith dy Feibl.' Yna personola Dduw drachefn wrth y bobl: 'A ydych yn dweyd hyn yna? Wel, mi a'ch profaf am ychydig amser yn ychwaneg; a dyma fy Meibl i chwi: mi a edrychaf pa fodd y defnyddiwch ef, a fydd i chwi ei garu yn fwy, ei ddi-lyn yn well, a'i arferyd yn amlach.' A thrwy y symudiadau hyn (fel yr hysbyswyd fi gan y Doctor), yr oedd yn peri i'r gynulleidfa fod yn yr ystumïau mwyaf hynod y gallai cynulleidfa fod; yr oedd y lle yn Bochim, y bobl wedi eu gorchuddio, a'u golchi â'u dagrau eu bunain; a dywedodd wrthyf ei fod ef ei hunan, pan yr aeth allan i gychwyn yn ol, wedi gorfod trenlio chwarter awr i wylo ar wddf ei anifail, cyn bod yn alluog i fyned ar ei gefn, gan mor ddwfn oedd yr argraff ar ei feddwl, a gallai weled y bobl wrth y canoedd yn cerdded gartref dan wylo, mewn canlyniad i bregeth y dyn da, aresgeuluso y Beibl Santsaidd."

GWEDDI YR ARGLWYDD.—*Wright.*

Y MAE Gweddi yr Arglwydd yn aml yn cael ei harferyd mewn dull difeddwl a thôn ddiweddi. Ar ol gweddio yn ddifyfyr gyda dylanwad difrifddwys, mae llawer o bregethwyr yn adrodd y weddi gynwysfawr a phrydferth hon o eiddo ein Harglwydd Iesu Grist yn undônol, cyflym, ac mewn arddull ddiolfal. Gall yr hanesyn canlynol fod yn gynorthwy i wella y bai:—

"Yn mhlith enwogion ereill, y mae America yn son am un chwareuwr poblogaidd o'r enw Booth. Ar un achlysur gwa-



hoddwyd Booth ac amryw o gyfeillion ereill i giniawa yn Baltimore, gydag hen ŵr boneddig neillduol am ei garedigrwydd, ei fanylwech, a'i dduwioldeb. Yr oedd y gwestywr, er yn anghymeradwyo y chwareudai a phawb a elai iddynt, wedi clywed cymaint am alluoedd anghyffredin Booth, fel yr oedd ei awydd am ei weled wedi llwyr orchfygu ei ragfarnau. Ar ol i'r cwmni (wedi iddynt fwynhau eu hunain wrth y bwrdd,) gymeryd eu heisteddleoedd yn y *drawing-room*, erfyniodd rhywun ar i Booth, fel ffafr neillduol, ac fel un a ystyrid felly gan yr holl gwmni, i ddarllen Gweddi yr Arglwydd yn uchel. Amlygodd Booth ei foddlonrwydd i gydsynio â'r cais, ac yr oedd pob llygaid yn gyfeiriedig tuag ato. Cyfododd Booth yn araf a defosionol oddiar ei eisteddle. Yr oedd yn hynod i sylwi fel yr oedd teimladau yn ymweithio yn ei wynebpryd. Aeth mor welw a marwolaeth, ac yr oedd ei lygaid crynedig ag oeddynt yn edrych i fyny, yn llawn dagrau. Nid oedd hyd yn hyn wedi siarad. Gellid teimlo y distawrwydd. Daeth yn boenus o'r diwedd, hyd nes y torwyd arno fel gan ergyd trydanawl, gan ymwithiad ei lais soniarus rhwng ei wesusau gwelw, yn adrodd, 'Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,' &c., gyda phwyslais ac mewn tŏn a darawodd y gwrandawyr â syndod. Diweddodd. Parhaodd y distawrwydd. Nid oedd llais i'w glywed, nid oedd na bys na llaw yn symud yn y lle, hyd nes y clywyd wylofain yn mhen draw yr ystafell, ac y daeth yr hen foneddwr, eu gwestywr, yn mlaen gyda llygaid gwlybion, a chorff crynedig, gan gydio yn llaw Booth, a dweyd mewn geiriau crynedig,—'Syr, yr ydych wedi rhoddi i mi y fath foddhad nas gallaf yn fy oes ei gydnabod yn ddigonol. Yr wyf fi yn hen ddyn, a phob dydd er pan yn fachgen, yr wyf wedi bod yn adrodd Gweddi yr Arglwydd, ond ni chlywais hi *erioed* o'r blaen, *erioed*.' Atebodd Booth,—'Yr ydych yn iawn. Y mae darllen y weddi fel y *dylai* gael ei darllen wedi costio i mi lafur caled a diflino am ddeng mlynedd ar hugain, ac nid wyf eto wedi haner boddloni fy hun wrth ddarllen y cynyreh rhyfeddol yma. Prin y gall un dyn mewn deng mil ffurfiio syniad priodol am y prydfferthwch, y tynerwch, a'r arucheledd sydd wedi ei wasgu i gan lleied o le, a'i gyfleu mewn geiriau mor syml. Y mae y weddi yna yn ddigon i brofi gwirioneddolrwydd y Beibl, ac argraffu arno sêl Dwyfoideb.' Gymaint oedd yr effaith fel na pharhaodd yr ymddyddan a gariwyd yn mlaen mewn geiriau toredig ond am ychydig amser—darfyddodd yn llwyr. Cyn hir torodd y cwmni i fyny, ac aeth pawb tua'i gartref gyda gwyneb trist a chalon lawn."

Frodyr, na fydded i ni *ddweyd*, ond *gweddio*, Gweddi yr Arglwydd.

# ATTODIAD:

YN CYNWYS

CWRS CYFLAWN O DDARNAU DEWISOL ER PERFFEITHIO  
YR EFRYDYDD MEWN

AREITHYDDIAETH, RHYDDIAETH,

BARDDONIAETH.

The first part of the book is devoted to a general  
 description of the country, its climate, soil, and  
 productions. The author then proceeds to a  
 detailed account of the various tribes and  
 nations which inhabit the country, and  
 describes their manners, customs, and  
 mode of life.

APPENDIX

This appendix contains a list of the names of  
 the various tribes and nations mentioned in  
 the text, and a description of their  
 languages and dialects.

LIST OF THE TRIBES AND NATIONS

The following is a list of the names of the  
 various tribes and nations mentioned in the  
 text, and a description of their languages  
 and dialects.

The first part of the list contains the names  
 of the tribes and nations which inhabit  
 the country, and a description of their  
 languages and dialects.

The second part of the list contains the  
 names of the various tribes and nations  
 mentioned in the text, and a description  
 of their languages and dialects.

# ATTODIAD.

## I. AREITHYDDIAETH.

YN ERBYN "OES RHESWM" PAINE.\*—*Erektinc.*

OND ymddengys fod hon yn *Oes Rheswm*, ac fod yr amser a'r person wedi dyfod ag sydd i chwalu y cyfeiliornadau ag sydd wedi bod yn gorchuddio y bobloedd mewn tywyllwch trwy yr oesau. Y mae y rhai sydd yn credu yn Nghristionogaeth yn lluosog, ond perthyna i ychydig ddoethion i gywiro eu barrlau a'u dwyn i'r iawn. Mae credu yn weithred o eiddo y rheswm, ac felly, gall rhai o reswm cryfach ddysgu y gwan. Wrth dafu golwg dros lechres faith o dduwiolion defos iynol a chywir, nis gallaf lai na gofidio na buasai Newton fyw hyd y dydd heddyw, er mwyn i'w *fásder* gael ei lanw gyda firwd y goleuni newydd yma.

Ond y mae y pwngc yn un rhy ofnadwy i wawdiaith.—Siaradaf yn eglur ac uniongyrchol. Yr oedd Newton yn Gristion! Newton, meddwl yr hwn a dorodd allan trwy y cadwyni a ddodir gan Natur ar ein hamgyffredion meidrol;—Newton, yr hwn yr oedd ei wyddoniaeth yn wirionedd, a sylfaen ei wybodaeth am dani yn athroniaeth—nid y peth cymylog a thywyll ag sydd yn rhy aml yn cymeryd ei enw, ond athroniaeth yn gorphwys ar fesuroniaeth, y rhai, fel ffigyrau, ni allant gyfeiliorni;—Newton, yr hwn a gariodd ei linynd a'i fesur i derfynau eithaf y greadigaeth, ac a archwiliodd yr egwyddorion trwy ba rai y mae defnydd yn bodoli ac yn cael ei gadw yn nghyd.

\* Dylai yr efrydydd sylwi yn fanwl ar y wawdiaith ag sydd yn y derbyn uchod. Y mae yn ymarferiad campus ar bwysleisiad.

Ond, efallai, fod y dyn rhyfeddol hwn, wrth ymestyn allan am bethau mawrion, wedi gadael yn ddisylw y profion hyny o gyfeiliornadau a allasai gasglu wrth chwilio y pethau bychain a breswylant y byd. Beth, ynte, a ddywedir am yr enwog Mr. Boyle, yr hwn a edrychodd i wneuthuriad a defnydd pob creadur, hyd yn nôd y gwrthdrysychau difywyd a sethrir dan draed? Gellid meddwl fod y fath ddyn lawn mor gymhwys a Mr. Paine i edrych trwy Natur at Dduw Natur! Eto, y canlyniad yw, fod ei holl ymchwiliadau *ef* yn troi allau yn ddim amgenach, yn ol barn Mr. Paine, na phethau teilwng o ddirmyg, ac effaith meddwl o dan ddylanwad ofergoeledd.

Ond gallai y cyfeiliornad, efallai, gyfodi oddiar ddiffyg sylw priodol i sylfaeni y meddwl dynol, a ffurfriad y deall hwnw ag sydd wedi ei roddi i ni gan Dduw i chwilio y gwirionedd. Bydded i'r gofyniad hwnw gael ei ateb gan Mr. Locke, yr hwn, yn ystyr fwyaf äang y gair, oedd yn Gristion!—Mr. Locke, gorchwyl yr hwn oedd darganfod cyfeiliornadau mewn meddwl, trwy fyned i fyny at darddle a ffynnonell meddwl; ac arwain meddwl cyfeiliornus dyn i redeg yn llinell briodol ymresymiad, trwy ddangos iddo ei holl symudiadau, o'r llewyrch cyntaf o reswm a oleua y meddwl, hyd at y goleuni mwyaf perffaith:—rhoddi ffrwyn ar farnau gau, trwy osod i lawr reolau ymarferol er defnyddio a llywodraethu y farn.

Ond efallai y dywedir am y dynion hyn, nad oedd-ynt ond meddylwyr dwfndreiddiol, yn byw yn eu llyfrgelloedd, yn anhysbys o'r byd, ac o'r cyfreithiau ag sydd yn llywodraethu dynoliaeth yn ymarferol. — Foneddigion, yn y lleoedd yr eisteddwn yn awr i weinyddu cyfiawnder yn y deyrnas fawr hon, y llywyddai y bythgofiadwy Syr Mathew Hale; ffydd yr hwn yn Nghristionogaeth sydd yn esboniad gogoneddus ar ei gwirionedd a'i rhesymoldeb, a bywyd yr hwn oedd yn

esiempl darawiadol o'i ffrwythau :—cyfiawnder yr hwn, wedi ei dynu o darddle yr oruchwyliaeth Gristionogol, a fydd, yn mhob oes, yn destun canmoliaeth ac edmygedd.

Ond dywedir gan yr awdwr hwn, nad yw y *ddameg* Gristionogol ond chwedl ofergoelus a ddyfeisiwyd gan yr henafiaid, ac y gellir ei dynoethi yn hawdd ond deall ffugchwedlau paganaid yn briodol.—A oedd Milton yn deall y ffugchwedlau hyn?—a oedd ef yn llai gwytbod na Mr. Paine yn ofergoeliaeth y byd? Na;—dyma oedd testun ei gân anfarwol; ac, er nad oedd yn gallu troi atynt, arllwysodd hwy allan o ystorfeydd cyfoethog ei feddwl toreithiog, ac a'u gosododd yn eu trefn fel egluradau o ffydd wirioneddol a dyrchafedig;—ffynnonell ddiammheuol yr athrylith danllyd hono ag sydd wedi taflu gweithiau pob dyn arall i'r cysgodion.

*“ He pass'd the bounds of flaming space,  
Where angels tremble while they gaze—  
He saw—till blasted with excess of light  
He closed his eyes in endless night !”*

Ond goleuni y *corff* yn unig a ddiffoddwyd; “yr oedd y *goleuni nefol* yn goleuo o'i fewn, ac yn ei alluogi i gyfiawnhau ffyrdd Duw i ddyn.”—Nid ydoedd cynyrch ei feddwl ef, pa fodd bynag, yn hollol yr un fath ag eiddo Mr. Paine—mae casgliadau y ddau yn bur wahanol oddiwrth yr un ffeithiau. Gwnaeth Milton ymgnawdoliad ein Hiachawdwr bendigedig, (yr hyn a geblir yn y gwaith hwn, mewn iaith mor hollol anghymhwys i enau Cristion, a chlustiau llys barn, fel na feiddiaf, ac na wnaef ei hadrodd) yn ddiweddglo ei “*Goll Gwynfa*,” ei orphwysfa oddiwrth ei lafur gorphenol, ac yn ddiweddaf, yn obaith, disgwyliad, a gogoniant y byd.

*“ A Virgin is his mother, but his Sire,  
The power of the Most High; he shall ascend  
The throne hereditary, and bound his reign  
With earth's wide bounds, his glory with the heavens !”*

Fel hyn, yr ydym yn cael fod yr oll ag sydd yn fawr, neu ddoeth, neu aruchel, yn mhlith bodau creuedig—yr holl feddyliau ag sydd wedi eu ffafrio tuhwnt i'r cyffredin, os heb eu hysbrydoli gan Awdwr mawr pobpeth, er cynnydd a gogoniant y byd—er wedi eu gwahanu gan oesoedd, a chan wahanol ddaliadau, eto yn uno, fel pe byddai, mewn un cydgan orfoleddus, i foli gwironeddau Cristionogaeth, ac i rod-di ar ei hallorau santaidd firwythau bythol-wyrdd eu meddyliau anfarwol.

---

DIWEDDGLŌ ARAITH ARGLWYDD BROUGHAM AR  
DDIWYGIAD SENEDDOL, 1831.

FY ARGLWYDDI,—Nid ydwyf yn cuddio y pryder mawr wyf yn deimlo o barth terfyniad y ddadl hon; oblegid yr wyf yn gwybod yn dda, fod heddwch y wlad yn ymddibynu ar y canlyniad. Nis gallaf edrych ond gyda dychryn ar wrthodiad y mesur. Ond, er mor boenus fyddai canlyniadau methiant amserol,—amserol yn unig y gall fod, oblegid y mae ei lwyddiant yn y dyfodol yn sicr,—nis gall dim yn awr ei rwystro. Peidiwch a goddef eich hunain i gymeryd eich perswadio, hyd yn nôd pe gyrid ymaith y gweinidogion ag sydd yn awr wrth y llyw, y gallai unrhyw un eich arwain trwy y tönau cynhyrfus ag sydd yn eich amgylchu, heb ddiwygiad. Ond byddai i'n hilynwyr gymeryd i fyny y gorchwyl o dan amgylchiadau llawer mwy anfanteisiol. O danynt hwy byddech yn ewyllysgar i ganiatâu ysgrif, wrth ei chydmaru â'r un a gynygir i chwi yn bresenol, a ystyrid yn hynod o'r rhesymol. Clywch ddameg y Sibyl; oblegid y mae yn cynwys gwers fuddiol ac iachusol. Y mae yn awr yn ymddangos o flaen eich pyrth ac yn cynyg yn dawel y cyfrolau—cyfrolau gwerthfawr—doethineb a heddwch. Mae y pris a ofyna

yn rhesymol—i arferyd yr etholfraint; yr hyn, heb yr un cytundeb, a ddylech roddi yn wirfoddol: yr ydych yn gwrthod ei thelerau, ei thelerau rhesymol,—ni thywylla y porth yn hwy. Ond yn fuan, oblegid nis gellwch wneyd hebddi, yr ydych yn ei galw yn ol. Drachefn mae yn dyfod, ond ei thrysorau yn llai; mae rhai o'r dalenau wedi eu tori ymaith gan y bobl allywodraethus, ac mewn rhan wedi eu dileu gan lythyrenau o waed. Ond y mae y wryf broffwydol wedi codi yn ei phris: senedd wrth y flwyddyn—pleidleisio trwy y tugel—pleidlais i'r miliwn! Oddiwrth hyn yr ydych yn troi ymaith yn ddigllon, ac am yr ail waith cerdda ymaith. Gochelwch ei dyfodiad y drydedd waith; oblegid rhaid i chwi gael y trysor, ond pwy all ddweyd pa bris a ofyna y pryd hwnw am dano? Efallai y gall fod y *mace* ag sydd yn gorphwys ar y gadair yna. Pa beth a ddilyna eich cwrs o gyndynrwydd, os daliwch ato, nis gallaf gymeryd arnaf fy hun i ddweyd; ac nid wyf yn hoffi dyfalu. Ond hyn wyf yn wybod yn dda, mor sicr ac fod dyn yn farwol, a chyfeiliorni yn naturiol, y mae cyfiawnder gohiredig yn codi y pris ag y gorfodir chwi i brynu diogelwch a heddwch; ac nis gellwch ddisgwyl casglu i fewn well enwd na'r rhai ag sydd wedi bod o'ch blaen, os bydd i chwi fynu dilyn eu llwybrau cyfeil iornus, sef hau anghyfiawnder a medi gwrthryfel.

Ond, yn mhlith yr ystyriaethau dychrynlyd ag sydd yn awr yn pwyso ar fy meddwl, y mae un ag sydd yn sefyll yn uwch na'r lleill. Y chwi sydd yn cyfansoddi y brawdle uchaf yn y wlad; yr ydych yn eistedd yma fel barnwyr, ac yn penderfynu pob achos, o bob natur, heb apeliad. Dyledswydd cyntaf barnwr yw peidio cyhoeddi ei ddedfryd ar y mater lleiaf, heb yn gyntaf roddi gwrandawriad. A wnewch chwi hyn yn eithriad? A ydych mewn gwirionedd yn barod i benderfynu, ond nid i *glywed*, yr achos mawr ar ba un y gorphwys gobeithion ac ofnau cenedl. Yr ydych? Yna gochel-



wch rhag eich penderfyniad! Peidiwch, yr wyf yn erfyn arnoch, a chynhyrfu pobl heddychol ond penderfynol; na thorwch ymaith oddiwrth eich corff serch yr holl genedl. Fel eich cyfaill, fel cyfaill fy urdd, fel cyfaill fy ngwlad, ac fel ufudd wasanaethydd fy Nheyrn, yr wyf yn eich tynggedu i wneyd eich goreu i gadw heddwch, a chynnal i fyny a pharhau y Cyfansoddiad. Felly yr wyf yn taer-erfyn arnoch i beidio gwrthod y mesur hwn. Er mwyn pobpeith ydych yn garu,—er mwyn y rhwymau ag sydd yn ein cysylltu â'n gilydd ac â'n gwlad, yr wyf yn eich tynggedu yn ddirifol—yr wyf yn eich rhybuddio—yr wyf yn taer erfyn arnoch—ie, *ar fy ngliniau*, yr wyf yn ymbil arnoch,—peidiwch a gwrthod yr ysgrif hon!

—

DYFODIANT Y SYMUDIAD DIRWESTOL.—*Gough.*

Yr oedd y bobl a amddiffynant y symudiad ac a goloddant yr egwyddorion yn cael eu hwtio ar yr heolydd, drysau eu tai yn cael eu duo, a'u hanifeiliaid yn cael eu lladd. Deifiodd tân yr erledigaeth rai personau i'r fath raddau fel y gadawsant y gwaith. Ereill a weithiasant yn y blaen, a bendithiodd Duw hwynt. Mae rhai yn fyw heddyw; a hoffwn sefyll lle safant yn awr a gweled y symudiad holl-bwysig yn cyfodi o'u blaenau. Gweithiasant yn galed. Codasant y dywarchen gyntaf—parotoisant y gwely i osod y gareg sylfaen. Dodasant hi i lawr yn nghanol ystorm o erledigaeth. Gweithiasant o'r golwg; ac yr oedd dynion bron ac anghosio eu bod yn brysur yn dodi y sylfaeni i lawr. O'r diwedd codasant yr adeilad uwchlaw gwyneb y tir, ac yna dechreuodd ystorm arall o erledigaeth. Yn awr yr ydym yn gweled yr oruwchadeilad—colofn ar ol colofn, tŵr ar ol tŵr, gyda'r arwyddair yn gerfiedig arnynt, "Cariad,

gwirionedd, cydymdeimlad, ac ewylllys da i ddynion." Y mae yr hen bobl yn syllu arni fel y mae yn cyfodi o'u blaenau. Ni byddant byw i'w gweled wedi ei chwblhau, ond trwy ffydd maent yn gweled y prif gonglfaen wedi ei gosod ar ben yr adeilad. Mae boneddigesau tynergalon yn wylo o lawenydd wrth ei gweled yn cyfodi mewn gogoniant: a phlant yn gorchuddio llwybrau y gweithwyr â blodau. Nid ydym eto yn gweled ei gogoniant—nid ydym eto yn gweled ardderchawgrwydd yr oruwchadeilad—oblegid yn cael ei hadeiladu y mae. Y mae yr ysgaffaldiau, rhaffau, ysgolion, a'r gweithwyr yn esgyn a disgyn, yn cuddio prydfferthwch yr adeilad; ond yn mhen ychydig amser, pan y bydd i'r dorff ag sydd wedi bod yn gweithio, yn dyfod yn ol dros ugain-mil o faesydd lle yr ymleddir yn bresenol, ond y pryd hwnw yn cael eu gorchuddio ag ŷd, byth i gael ei wasgu yn y disdyllyd—trwy winllanoedd lle y croga y gwinwydd yn eu holl ogoniant, byth i gael eu cyfnewid i'r hyn a all ddiraddio—pryd y deuant trwy berllanau, o dan goed yn cael eu pwyso hyd at lawr gan ffrwythau melynion ac addfed, byth i gael eu cyfnewid i'r hyn a all niweidio a darostwng—pan y deuant at y ddistyllfa olaf a'i dinystrio, at y ffrwd olaf o'r gwenwyn marwol, a'i sychu, at y wraig olaf a sychu ymaith ei dagrau, at y plentyn olaf a'i osod i sefyll yn y man y bwriadwyd iddo fod gan y Creawdwr mawr; at y meddwyn olaf a'i gynorthwyo i dori yn fil-fil o ddarnau ei gadwynau, nes peri i swm ei gadwyni toredig i chwyddo anthem fawreddog rhyddid—y pryd hyny, Ah! i'e, y pryd hyny y gosodir y pen conglaen ar yr adeilad; bydd i'r ysgyffaldiau syrthio gyda thwrff, ac ymddengys yr adeilad yn ei ogoniant ger bron byd synedig. Bydd i'r meddwyn olaf gael noddfa o'i fewn, a bydd llawenydd yn y nefoedd a gorfoledd ar y ddaear pan wawrio yr hyfrydfore. Yr wyf yn credu y daw. A wnewch chwi ein

cynorthwyo? Dyna y cwestiwn. Yr ydwyf yn ei adael gyda chwi. Noswaith dda.

---

Y GWIRIONEDD.—*Gough.*

MAE Milton wedi dweyd, ac y mae mor wirioneddol heddyw a phan ei llefarwyd,—“Bydded i wirionedd a thwyll ymladd â'u gilydd; ni dderbyniodd y gwirionedd y gwaethaf erioed wrth ymdrechu â thwyll.” Ah! bydded i'r gwirionedd sefyll ar y dienyddle a'r cortyn am ei wddf, tra yr eistedda twyll ar yr orsedd; bydded i wirionedd fwyta ei grystyn mewn unigedd darostyngol, tra yr eisteddo twyll wrth fwrdd y wledd; bydded i wirionedd gerdded yn droednoeth ac mewn carpiâu, tra y byddo twyll wedi ei wisgo mewn porphor a llian main; y mae yna osgorddalu o angelion yn wastadol o amgylch y gwirionedd, ac y mae Duw y gwirionedd yn amddiffyn iddo.

---

Y MEDD WYN.—*Gough.*

[Y llais i fod yn gyffrous a mawreddog—y breichiau i fod yn estynedig—  
a'r wynebpryd yn ddfrifol.]

EDRYCHWCH ar y Meddwyn! Pa beth ydyw? Edrychwch arno! Yn ymrwyfo yn ngwallgofrwydd meddw-dod, dyfroedd llonydd afiechyd yn sefyll yn ei lygaid, ac effeithiau y gwenwyn yn daenedig ar ei wefusau crasedig. Pa beth ydyw? Mae ei ddeall yn gythraul, a'r anifail o hono yn fwystfil. Pa beth ydyw? Edrychwch arno yn cael ei wthio ymaith gydag ysgubion y dafarn, ac effeithiau cyfeddach y nos o'r blaen yn glynu wrtho. Pa beth ydyw? Y mae cymdeithas wedi ei ysgwyd o'i mynwes fel un anheilwng o'i chariad a'i thosturi. Eto y mae yn ddyn—nid peth; dyn—nid anifail; bod, a chanddo galon dyn, ymenydd dyn,

rheswm dyn,—a all sefyll i fyny a dweyd, “Yr wyf yn fwy na holl greadigaeth Duw; nid ydyw ond magwrfa fy enaid anfarwol. Pa un fwyaf y plentyn ynte y fagwrfa? Yr wyf yn fwy na holl greadigaeth Duw. Gallaf ddweyd wrth yr haul, ‘Yr wyf yn fwy na thydi, fyd gogoneddus, oblegid byddaf ar gael pan na byddi di. Pan y byddi di wedi marw, ar ol i ddeng mil o ystormydd rhuthro dros benau y mynyddoedd; pan y bydd y mellt wedi peidio chwareu ar binaclau y greadigaeth; pan y bydd i'r sêr ddiffodd a diflanu; pan y bydd i'r greadigaeth gael ei symud fel bwthyn, a phob elfen gael ei thoddi yn y dinystr olaf—byddaf fi yn fyw; oblegid ynof fi y mae tân Duw nas gellir ei ddi-fodi, gwreichionen anfarwoldeb nas gellir ei diffodd.”

[Yn yr engraifft uchod, bydded i'r efrdydd ddechren yn y cywair cyffredin, ac fel llanw y môr, i godi yn raddol, yn uwch uwch, nes cyrhaedd y *climax*—ac drosti lawer gwaith.]

#### FFOLINEB UCHELGAIS,

YN CAEL EI DDANGOS YN ANERCHIAD Y SCYTHIAID I ALECSANDER FAWR.

*Q. Curtius.*

PE byddai eich person mor fawr a'ch dymuniadau, ni allasai y byd eich cynwys. Byddai i'ch llaw ddeheu gyffwrdd y dwyrain, a'ch llaw chwith y gorllewin ar yr un waith: yr ydych yn crafangu am fwy nag yr ydych yn alluog i'w gynnal. O Ewrop yr ydych yn cyrhaedd Asia; ac o Asia yr ydych yn cydio gafael yn Ewrop. A phe byddai i chwi orchfygu dynolryw, yr ydych fel pe byddech am fyned i frwydr gyda'r coed a'r eira, yr afonydd a'r bwystfilod gwylltion, ac i geisio gorchfygu Natur.

Ond a ydych wedi ystyried ewrs cyffredin pethau? a ydych yn ystyried fod coed mawrion yn cymeryd blynyddoedd i dyfu, ac yn cael eu tori i lawr mewn

awr? Ffolineb yw meddwl am y firwyth yn unig, heb feddwl am yr uchder mawr y rhaid i chwi ddringo er ei gyrhaedd. Cymerwch ofal rhag i chwi, tra yn ceisio cyrhaedd y pen uchaf, i syrthio i lawr gyda'r canghenau y cydiwch ynddynt.

Heblaw hyny, pa beth sydd a fynoch â'r Scythiaid, neu sydd a fyno y Scythiaid â chwi? Ni ddarfu i ni erioed oresgyn Macedonia; paham yr ymosodwch ar Scythia? Yr ydych yn cymeryd arnoch fod yn gopwr lladron; ac yr ydych eich hunan yn arch-leidr dynolryw! Yr ydych wedi cymeryd Lydia; yr ydych wedi gafael yn Syria; yr ydych yn feistr ar Persia; yr ydych wedi darostwng y Bactriaid, ac ymosod ar India; ni wna hyn eich boddloni heb osod eich dwylaw trachwantus ar ein dâoedd a'n diadelloedd.

Ond a ydych wedi anghofio faint o amser a gymerasoch i orchfygu y Bactriaid? Tra yr oeddych yn eu gorchfygu hwy, gwrthryfelodd y Sogdiaid. Nid yw eich buddugoliaethau yn ateb un dyben ond rhoddi gwaith i chwi trwy gynyrchu rhyfeloedd newyddion; oblegid y mae pob buddugoliaeth yn ddaublyg; i enill, ac i gadw; ac er y gellwch fod y rhyfelwr mwyaf, rhaid i chwi ddisgwyl y bydd i'r cenedloedd a orchfygir genych ysgwyd ymaith yr iau mor fuan ag y byddo yn bosibl; oblegid pa genedl sydd yn hoffi bod dan lywodraeth dramoraidd?

Os croeswch y Tanâis, gellwch deithio dros Scythia, a sylwi ar y fath wlad äang a breswylir genym. Ond mae ein gorchfygu yn orchwyl arall: cewch, ar yr un adeg, ein bod yn rhy gyflym i chwi allu ein goddiwedd- yd; a phryd arall, pan y tybiwch ein bod wedi diange ddigon pell oddiwrthych, cewch ni yn aflonyddu y gwersyll: oblegid y mae y Scythiaid yn gwybod y ffordd i ymosod yn ogystal a diange. Eich doethineb, gan hyny, yw cadw yr hyn sydd genych: wrth geisio ychwaneg, gellwch gollu yr hyn sydd yn eich meddiant.

Y mae genym ddiareb yn Scythia, nad oes gan Ffawd draed, ond fod ganddi ddwyllaw i gyfranu y rhoddion fo yn ei meddiant, ac esgyll i ysgoi cyffyrddiad y rhai y bu yn haelionus tuag atynt.

Yr ydych yn gosod eich hunan allan fel duw, mab i Jupiter Ammon : mae yn fwy cyson â chymeriad duw i gyfranu rhoddion i farwolion, na'u hamddifadu o'r hyn fo ganddynt. Ond os nad ydych yn dduw, meddyl-wch am sefyllfa ansefydlog dynoliaeth. Trwy hyny dangoswch fwy o ddoethineb, na thrwy sefyll uwchben y pyngciau hyny ag sydd wedi chwyddo eich balchder, a pheri i chwi anghofio eich hunan.

Yr ydych yn gweled mor ychydig a enillwch wrth geisio gorchfygu Scythia. Ar y llaw arall, gellwch, os dewiswch, gael ynom ni gyfeillion galluog. Yr ydym yn llywodraethu gororau Ewrop ac Asia. Nid oes dim rhyngom a Bactria ond yr afon Tanais ; ac y mae ein tiriogaeth yn ymestyn i Thrace, yr hon, fel y clywsom, sydd yn ymylu ar Macedonia. Os peidiwch ag ymosod arnom mewn dull rhyfelgar, gellwch gael ein cyfeillgarwch. Y mae cenedloedd nad ydynt erioed wedi bod mewn rhyfel â'u gilydd, yn sefyll yn gyfartal ; ond yn ofer y dodir ymddiried mewn cenedloedd gorchfygedig ; nis gall fod cyfeillgarwch gwirioneddol rhwng y gorthrymwr a'r gorthrymedig ; hyd yn nôd mewn heddwch. Y mae yr olaf yn ystyried fod ganddynt hawl gyfreithlon i fyned i ryfel â'r blaenaf.

Bydd i ni, os byddwch yn gweled hyny yn oreu, fyned i gyfammed â chwi, yn ol ein dull ni, yr hwn a ddygir oddiamgylch, nid trwy arwyddo cytundebau, a galw y duwiau yn dystion, fel ag y gwneir gan y Groegiaid ; ond trwy wneyd gwaith—mewn ymarferiad. Nid yw y Scythiaid yn arfer addaw, ond gweithredu heb addaw. Ystyriaf apeliad at y duwiau yn ddiangenrhaid, oblegid nad oes gan y rhai hyny na chadwant eu gair i ddynion, yr un parch i'r duwiau ychwaith.

Bydded i chwi, gan hyny, ystyried, pa un oreu genych gael dynion o'r fath gymeriad, ac wedi eu gosod yn y fath sefyllfa fel ag i feddu yn eu gafael y gallu i'ch cynorthwyo neu eich rhwystro, yn ol fel y byddwch yn eu cydnabod yn gyfeillion neu yn elynion.

## RHYDDIAETH.

### DIWYDRWYDD DEMOSTHENES.

EFFEITHIODD y ganmoliaeth a dderbyniodd yr areithydd Callistratus, ac yn neillduol y dylanwad a gafodd ei areithyddiaeth ar feddyliau y bobl, yn fawr ar Demosthenes, fel y penderfynodd ddyfod yn areithydd. Felly, o hyny allan, gadawodd bob astudiaeth a phleser; a thra yr arosodd Callistratus yn Athen, nis gadawodd ef am ddiwrnod, ond gwnaeth y defnydd goreu o bob awgrym a desfid allan ganddo.

Ei araeth gyntaf oedd yn erbyn ei geidwaid, y rhai a orfododd i dalu yn ol ran o'i gynysgaeth. Darfu i'w lwyddiant gyda'r gorchwyl hwn ei galonogi i'r fath raddau fel yr anturiodd siarad o flaen y bobl, ond ychydig fu ei lwyddiant. Yr oedd ei lais yn wan, ei dafod yn dew, a'i anadl yn fyr; er hyny yr oedd ei frawddegau mor hirion, fel y gorfodid ef yn aml i aros yn y canol i gymeryd gwynt. Parodd hyn iddo gael ei wawdio gan yr holl dorf.

Fel yr oedd yn myned ymaith, a'i ben i lawr, wedi ei suddo i ddyfnderoedd digalondid, cyfarfyddwyd âg ef gan hên gyfaill iddo, Satyrus, un o'r areithwyr mwyaf llwyddianus; yr hwn, ar ol cael allan yr achos o'i ddi-galondid, a'i sierhaodd nad oedd y drwg mor ddrwg na

ellid ei wella, ac nad oedd ei gyflwr mor druenus ag y tybiai ei fod. Parodd Satyrus iddo adrodd rhai darnau o Sophocles neu Euripides, yr hyn a wnaeth. Adroddodd Satyrus hwy ar ei ol, yn y fath ddull meistrolgar a chywir, fel y gwelodd Demosthenes eu bod yn hollol wahanol i'r hyn oeddynt yn ol ei adroddiad ef. Darganfyddodd ar unwaith pa beth oedd arno eisiau, a rhoddodd ei holl alluoedd ar waith er eu meddu.

Yr oedd ei ymdrech i wella ei ddiffygion naturiol, a pherffeithio ei hun mewn cynaniad, braidd yn anhygoel, ac yn dangos pa faint ellir ei wneyd gan ddiwydrwydd diffin. Yr oedd ei gynaniad mor anmherffaith fel nas gallasai swnio rhai llythyrenau, a'i anadl mor fyr, fel nas gallasai fyned trwy frawddeg gyffredin heb gymeryd ei anadl. O'r diwedd aeth dros yr anhawsderau hyn trwy lenwi ei enau a cheryg mân, ac adrodd amryw ddarnau anhawdd cyn eu cymeryd allan; a thrwy gerdded a rhedeg i fyny y gelltydd sythaf a allasai gael; fel o'r diwedd yr oedd yn gallu swnio pob llythyren yn berffaith, a myned trwy y frawddeg hiraf heb gymeryd ei anadl. Aeth hefyd at lan y môr, pan fyddai y tônau mewn agwedd gynhyrfus, gan draddodi un o'i areithiau, er arfer ei hun a thwrf ac a bloeddiadau y bobl yn eu cynulliadau cyhoeddus.

Yr oedd ei ofal yn gymaint hefyd am ei symudiadau ag am ei lais. Yr oedd ganddo yn ei ystafell ddrych mawr, wrth ba un yr arferai sefyll er gweled a pherffeithio ei symudiadau cyn ymddangos o flaen y cyhoedd. Er mwyn gwella yr arferiad drwg o godi ei ysgwyddau pan yn siarad, arferai areithio ar fath o esgynlawr, ac os digwyddai iddo, yn nghanol ei frwdfrydedd, godi ei ysgwyddau, yr oedd cleddyf yn eu trywanu, fel y daeth i adael yr arferiad wrthun hono yn llwyr.

Yr oedd ei ymroddiad bron yn anhygoel. Er mwyn bod yn ddigon pell o swm, ac osgoi y posibilrwydd o gael ei aflonyddu, parodd i ystafell fechan gael ei had-



eiladu iddo o dan y ddaear, lle y cauai ei hun i fyny, rai prydiau am fisoedd cyfain, wedi eillio un ochr i'w ben, rhag iddo gymeryd ei berswadio i fyned allan. Yno, wrth oleu lamp fechan, y cyfansoddodd ei areithiau anfarwol, y rhai, meddai y rhai a genfigenent wrth ei boblogrwydd, oeddynt yn aroglï o'r olew;—yr hyn a olygai eu bod yn rhy fanwl.

Yr oedd yn arfer codi yn bur foreu, ac arferai ddyweyd, y buasai yn ddrwg ganddo feddwl fod un gweithiwr yn codi o'i flaen. Gallwn ffurfio drychfeddwl am ei ymdrech i ragori yn mhob peth, oddiwrth y ffaith, ei fod wedi adysgrifenu Thriceydides wyth waith gyda'i law ei hun, er cyfarwyddo ei hun âg arddull y dyn mawr hwnw.

---

YMDDIBYNIAD Y NAILL AR Y LLALL.—*Sturm.*

Y MAE cysylltiad rhwng pob peth a wnaeth y Creawd-ydd Holl-ddoeth ar y ddaear—yr oll yn byw i'r un, a'r un i'r oll. Y mae y ddaear ei hun, gyda'i chreigiau, ei thywod, ei mŵnau, a'i thrysorau, yn ddyledus i'r elfenau am ei dechreuad. Y mae y coed, planhigion, a'r llysiau yn sugno eu bywyd o'r ddaear; tra y mae yr anifeiliaid yn eu tro, yn ymborthi ar y llysiau. Y mae y ddaear yn rhoddi maeth i'r planhigyn, mae y planhigyn yn fwyd i'r pryfyn, y pryfyn i'r aderyn, yr aderyn i'r bwystfilod; ac, yn eu cylch, y mae y bwystfilod yn dyfod yn ymborth i'r gigfran, y gigfran i'r pryfyn, y pryfyn i'r llysieuyn, a'r llysieuyn i'r ddaear. Y mae hyd yn nôd y dyn, ag sydd yn ceisio troi pob peth at ei wasanaeth, yn dyfod o'r diwedd yn ysglyfaeth iddynt.

Dyna y cylch yn mha un y mae pob peth yn cymeryd ei gwrs,—y naill wedi ei greu i'r llall. Y mae y lleopard, yr arth, a'r *lynxes*, yn rhoddi i ni eu crwyn i'n cy-nhesu: ymlidia y cŵn yr ysgyfarnogod a'r ceirw er hilio

ein byrddau: tröa y *terrier* y ewningod allan o'u lloch-sau, a rhedant i'n rhwydau: mae y march, y cawrffil, a'r camel, yn cario ein beichiau, a'r ých yn tynu yr aradr: mae y fuwch yn rhoddi ei llaeth: y ddafad ei gwlan: yr iâr yn rhoddi i ni ei hwyau: y ceiliog yn ein deffroi yn y boreu, a'r ehedydd yn ein difyru â'i gân yn y dydd: yr aderyn dû yn chwibanu o foreu hyd nawn, ac yn y nos y mae melysion acenau yr eos yn syrthio ar ein clustiau. Mae yr ŵyn chwareus, y colomenod diniwed, a lliwiau prydfferth y paen yn rhoddi pleser i'r llygaid: gwëa y pryf sidan ei wë i'n dilladu: casgla y gwenyn y mêl gyda manylweh er ein cysur: ac y mae hyd y nôd y môr yn taflu ar ei lànau ddefnydd ymborth i ni: y mae y *glow-worm*, neu bryf mawr Suroriam, yn goleuo yn y tywyllweh, er arwain trigolion y gwledydd hyny.

Os edrychwn hefyd ar wahanol alwedigaethau dynion, cawn eu bod yn ateb yr un dyben, ag sydd yn wel-edig yn ngweithrediadau natur. Mae y morwr yn gwyn-ebu peryglon y môr a'r ystormydd er cario nwyddau nad ydynt yn perthyn iddo ef, i ben ei daith: mae y ffermwr yn hau ac yn medi gwenith, ond ychydig a ddifa o hōno ei hun. Fel hyn, nid ydym yn byw yn gwbl i ni ein hunain; oblegid y mae y Creawdydd Mawr wedi ordeinio fod y naill beth a'r naill ddyn i fod yn ddefnyddiol i'r llall.

Bydded i ni oddiwrth hyn ddysgu ein dyledswyddau cymdeithasol. Dylai y cryf gynorthwyo y gwan; dylai y dysgedig ddysgu yr annysgedig; mewn gair, dylem garu ein cymydogion fel ein hunain, ac felly gyflawni bwriadau y Duw Mawr. Mae dyledswyddau y naill ddsbarth at y llall wedi peri iddynt ymffurfio yn gymdeithasau. Yr hyn nas gall gallu gwasgaredig ei wneuthur, a gwblheir gan allu unol. Byddai yn anhrosibl i un dyn godi cofgolofn neu deml ar-dderchog heb gymhorth; nis gallasai un dyn ddodi y

sylfaen i lawr, cloddio y selerydd, gwneyd a llosgi y priddfeini, codi y gwelydd, gosod y tô, gwneyd y ffenestri, a gosod y gwydr, a phrydferthu yr ystafelloedd; ond gwneir yr oll o hyn gyda rhwyddineb, pan y mae nifer o weithwyr yn cynorthwyo eu gilydd.

Mae y pethau lleiaf, y pethau sydd islaw ein sylw, yn tueddu i'n gwneyd yn ddedwydd. Mae y pryfaid, a amharchwn mor fawr, yn ddefnyddiol. Bydded i hyn oll ddysgu i ni y wers bwysig o fod y naill yn ddi-bynol ar y llall, a'r oll yn ddibynol ar Dduw.

RHYDDID A CHAETHIWED. — *Sterna.*

Oh liberty! thou goddess heav'nly bright,  
 Profuse of bliss, and pregnant with delight;  
 Eternal pleasures in thy presence reign,  
 And smiling plenty leads thy wanton train.  
 Eas'd of her load, subjection grows more light,  
 And poverty looks cheerful in thy sight;  
 Thou mak'st the gloomy face of Nature gay,  
 Giv'st beauty to the sun, and pleasure to the day.

YMDDEITHRA fel y mynot Gaethiwed! traffwnc chwerw ydwyt: ac er fod miloedd yn mhob oes wedi bod yn yfed o honot, nid wyt yn llai chwerw ar y cyfrif hyny.

Tydi, Ryddid, wyt dduwies brydferth a bendigedig, a addolir gan bawb, yn ddirgel a chyhoedd: yr hon wyt bur, ac a barhei felly hyd nes y cyfnewidir Natur ei hunan.—Ni all geiriau lychwino dy wisg glaerwyn, na'r un gallu fferyllol droi dy deyrnwialen yn haiarn.—O dan dy weniadau, y mae y cardotyn ag sydd yn bwyta ei grystyn, mor ddedwydd a'i frenin. Nefoedd haelionus! caniatâ i mi ond iechyd, y Rhoddwr mawr o hono, a'r dduwies hon yn gyfeilles; a gwlawia i lawr dy goronau a'th deyrnwial, os yn unol a'th Ragluniaeth Ddwylol, ar y rhai hyny ag sydd yn eu dynuno.

O dan ddylanwad y meddyliau hyn, eisteddais i lawr wrth fy mwrdd; ac ar ol rhoddi pwys fy mhen arno, dechreuais bortreadu o flaen fy meddwl drueni caethiwed. Yr oeddwn mewn ffurf gymhwys at y fath orchwyl, a rhoddais ffrwyn i'm dychymyg.

Meddyliais am un caeth; ac ar ol ei gau i fyny yn y ddaeargell,—edrychais trwy farau heyrn ei garchar i gymeryd ei ddarlun. Yr oedd ei gnawd wedi curio ymaith trwy hir ddisgwyliad a maith gaethiwed, ac yn cario yr afiechyd poenus hwnw yn ei galon a gynyrchir gan obaith siomedig.

Wrth edrych arno yn fanylach, gwelais ef yn welw ac afiach; am ddeng mlynedd-ar-hugain nid oedd y dwyreinwynt wedi cynhyrfu ei waed—na'r hanl na'r lloer wedi tywynu arno,—ac nid oedd na châr na chyfaill wedi bod yn sibrwd gobaith yn ei glust. Ei blant—ond yma dechreuodd fy nghalon waedu; a gorfodwyd fi i fyned yn mlaen â rhan arall o'r darlun. Yr oedd yn eistedd ar y llawr heb ond ychydig wellt o dano, yn nghongl bellaf ei garchar—dyma oedd ei eisteddle a'i wely; yr oedd pentwr bychan o briciau yn gorwedd yn ei ymyl, wedi eu rhicio drostynt gyda'r dyddiau a'r nosweithiau annyddan a dreuliodd yno. Yr oedd ganddo un o honynt yn ei law, a thrwy gymhorth hoelan rydlyd, yr oedd yn ychwanegu diwrnod arall o ofid at y pentwr a orwedda'i yn ei ymyl.

Fel yr oeddwn yn tywyllu yr ychydig oleuni a weithia i'w ystafell trwy y barau heyrn, cododd i fyny ei lygaid annobeithiol, a gostyngodd hwynt i lawr drachefn—ysgydwodd ei ben, ac aeth yn mlaen â'i orchwyl truenus. Clywais y cadwynau oeddynt am ei draed pan y trodd ei gorff i osod y pric ar y pentwr yn ei ymyl—rhoddodd ochenaïd droma. Gwelais yr haiarn yn myned i'w enaid—torais i wylo—nis gallwn edrych ar y darlun o Gaethiwed a dynodd fy nychymyg.

UCHELGAIS. — UN CAM YN UWCH. — *Elitha Burritt.*

AGORIR y darlun â golygfa o'r Bont Naturiol anferth yn Virginia. Saif tri neu bedwar o fechgyn yn y gwaelod, gan edrych i fyny mewn arswyd at y bwa anferthol o greigiau a daffodd yr Hollalluog dros y gwagle hwn "pan gydganodd sêr y bore." Y mae darn bychan o'r awyr a welir uwchben, yn llawn o sêr, er mai canol dydd ydyw. Y mae yr uchder o'r gwaelod hyd y clofaen, yr hon nid yw yn ymddangos iddynt hwy yn fwy na llaw dyn, yn agos i 500 o droedfeddi. Gwneir y dystawrwydd a deyrnasa yn fwy tarawiadol gan sŵn âfonig fechan a ddisgyna o graig i graig i'r gwaelod. Y mae yr haul wedi tywyllu, ac yn ddiarwybod iddynt eu hunain, y bechgyn a dynant eu capiau, fel pe yn sefyll yn ngwyddfod Creawdwr y byd-oedd. O'r diwedd gwisga y teimlad hwn ymaith; dechreuant edrych o'u cwmpas, a gwelent fod ereill wedi bod yma o'u blaen. Canfyddant enwau canoedd wedi eu cerfio ar y calch-feini. Daw teimlad newydd i'w calonau ieuainge, a thynent eu cyllill yn y fân.— "Yr hyn a wnaeth dyn, dyn a'i gwna," yw eu harwyddair, a cherfiant eu henwau droedfeddi yn uwch na'r eiddo canoedd o ddyinion cyflawn a fu yno o'u blaen.

Teimlant oll yn foddlon ar y gamp hon, ond *un*, esiampl yr hwn sydd ar unwaith yn egluro yr hên ddywediad, "nad oes ffordd freiniol i enwogrwydd." Sylla y bachgen uchelgeisiol hwn ar enw ychydig yn uwch na'i eiddo ef, a bery yn nghôf y byd pan y bydd enwau Alexander a Cæsar wedi myned i ebargofiant. Enw Washington ydoedd. Cyn cychwyn gyda Bradon i faes y frwydr angeuol, bu *ef* yno, a gadawodd ei enw droedfedd yn uwch na'r un o'r lleill. Drychfeddwl ardderchog o eiddo y bachgen ydoedd gosod ei enw ochr yn ochr â'r eiddo "tad ei wlad." Gwasga ei gyllell â gafael mwy diysgog; a chan gydio mewn darn fach a

daflai allan, tŷr le i'w ddwylaw oddeutu troedfedd yn uwch na'r lle y safai. Anturiaeth beryglus ydyw! Ond gan ei fod yn gosod ei draed a'i ddwylaw yn yr agenau a dorasai, ac yn ymestyn yn ofalus, cyrhaedda yn uwch o droedfedd na'r un enw a dorwyd yn y mur mawreddog. Tra y sylla ei gyfoedion arno mewn dychryn ac edmygedd, tŷr ei enw yn ddwfn, mewn llythyr-enau breision, yn y côf-lyfr creigiog. Y mae y gyllell eto yn ei law, nerth yn ei ewynau, ac ymchwydda ei galon â rhyw deimlad gorawyddus newydd. Unwaith eto y gwna hollt i'w ddwylaw, ac unwaith eto y cerfia ei enw mewn llythyrenau brasach. Nid yw yn foddlon ar hyn. Yn glustfyddar i ddymuniadau ei gydchwareuwyr, tylla a dringa drachefn. Y mae pob hollt newydd a wna yn pellhau oddiwrth y diweddfaf. Mesura ei hyd bob esgyniad a wna; â lleisiau ei gyfeillion yn wanach, wanach, nes o'r diwedd y mae wedi myned o sŵn eu geiriau. Am y tro cyntaf, teifi ei olygon i lawr i'r dyfnder. Pe buasai i'r cipolwg barhau am foment, y moment hwnw fuasai y diweddfaf iddo. Crafanga mewn arswyd yn ei hollt fechan. Y mae yr eigion dychrynllyd yn barod i'w dderbyn ar ei ddisgyniad. Teimla ei hun yn gwanhau o herwydd ei ymdrech galed, a chryna gan arswyd, wrth feddwl am y dinystr ofnadwy y mae yn agored iddo. Y mae ei gyllell wedi gwisgo at haner y llafn. Clyw lais ei gyfoedion dychrynedig, ond y mae yn rhy bell i glywed eu geiriau. O y fath foment! O'r fath obaith gwan i osgoi dinystr! Nis gall droi yn ol. Annhosibl fyddai iddo roddi ei draed a'i ddwylaw yn yr un hollt, a dal ei afael am foment. Gwel ei gyfeillion ei ddyrswch, a dysgwylant ei weled yn syrthio, gyda theimladau a oerai eu gwaed. Y mae efe yn rhy uchel—rhy wan i ofyn am i'w dad a'i fam, ei frodyr, a'i chwiorydd ddyfod i weled neu rwystro ei ddinystr. Ond rhagflaenodd un o'i gyfeillion ef yn ei ddymuniad, ac yn mhen ychydig hysbysir ei rieni am sefyllfa arswydlaen eu bachgen.

Treigla rhai mynudau o dragywyddol feithder heibio, a saif canoedd yn y gwaelod creigiog, ac ar y bont uwchben, yn dal eu hanadl, a disgwyl am y trychineb. Clyw y bachgen truan leisiau yr edrychwyr yn sibrawd yn ei glustiau. O'r braidd y gall glywed llais ei dad, yr hwn oedd yn gwaeddi â holl yni anobaith, "William! William! paid ag edrych i lawr! Y mae dy fam, a Henry, a'th chwirydd, yn gweddio drosot. Paid ag edrych i lawr! Cadw dy lygaid tuag i fyny!" Ni ddarfu iddo edrych i lawr. Y mae ei lygaid yn sefydlog ar y nefoedd, a'i galon ar yr Hwn sydd yn teyrnasu yno! Gwasga ei gyllell eto! Tŷr hollt drachefn, a chwanegir troedfedd eto at y canoedd a'i symudasant o gyrhaedd cymhorth dynol o'r gwaelod. Mor ofalus y defnyddia ei lafn! Gyda'r fath bryder y chwilia am y manau meddalaf yn y graig! Fel y mae yn osgoi pob man caled! Mor gynil ydyw o'r ychydig nerth sydd ganddo, gan orphwys ar ol pob cam a rydd! Fel y gwylir pob ysgogiad o'r gwaelod! Yno y saif ei dad a'i fam, ei frodyr a'i chwirydd, ar y fan, lle, os syrthia, ni syrth ei hun.

Y mae yr haul yn awr haner ffordd i lawr yn y gorllewin. Y mae y bachgen wedi gwneyd 50 o holltau yn ychwanegol yn y mur anferth, a saif yn union o dan ganol y bwa mawreddog o greigiau, coed, a phridd. Rhaid iddo dori ei ffordd yn mlaen mewn cyfeiriad newydd, er mwyn osgoi y gor-ddibyn. Y mae gobaith yn pallu yn ei fynwes,—cedwir ei wres i fyny gan floeddiadau canoedd o bobl sydd yn barod i'w gynorthwyo â rhaffau yn eu dwylaw ar y bont, ac ereill gydag ysgolion yn y gwaelod. Rhaid iddo dori 50 o holltau eto cyn y gall gyrhaedd yr haff hiraf. Tery ei lafn eto i'r calchfaen. Daw yn araf, mewn poen dirfawr, allan o dan y bwa uchel. Saif y bobl ar ochr y bont â rhaffau yn eu dwylaw, yn barod i estyn cymhorth iddo. Dau funud eto, a bydd y cwbl drosodd. Y mae y llafn wedi

treulio hyd yr haner modfedd diweddfaf. Y mae efe yn pendroni, a'i lygaid yn ymwithio o'u morteisiau. Palla ei obaith yn ei galon. Croga ei fywyd ar yr hollt nesaf a dŷr. Dyna'r hollt ddiweddfaf. Yn y ddiweddfaf, ei gyllell, ei gyllell ffyddlon, a syrth o'i ddwyllaw bach, a disgyna wrth draed ei fam. Griddfanau o anobaith anorchfygadwy a lanwant yr awyr, a dystawrwydd y bedd a deyrnasa.

Yn yr uchder o yn agos i 300 o droedfeddi, y bachgen a dry ei lygaid cauedig i fyny, gan gyflwyno ei hun i Dduw. Un foment, Ah! un troed a lithra, cryna—disgyna i dragywyddoldeb! Na! Clywch! Clywir y waedd o'r uchelder.

Y mae y dyn sydd yn crogi dros ochr y bont wedi cael cipolwg ar ei ben a'i ysgwyddau! Gyda chyflymdra meddwl y mae y rhaff yn nghyraedd y bachgen blinedig. Deil pawb eu hanadl. Gydag ymdrech wanaidd gwthia y bachgen ei fraich i'r rhaff. Tywyllweh a orchuddia ei lygaid, a chyda'r geiriau, *O Dduw! Mam!* yn ddigon uchel i'w clywed yn y nefoedd, y rhaff a'i tyn o'r hollt ddiweddfaf. Ni ysgydwai yr un wesus tra y crogai uwchben yr anwn dychrynlyd; ond pan, gyda braich gadarn, y cyfyd un o'r dynion ef, gan ei ddal yn ei freichiau o flaen y dorf, y fath waeddi—y fath neidio a wyl o lawenydd, ni ddisgynodd erioed ar glustiau un a achubwyd o agendor arswydlawn dinystr mor ofnadwy.

---

SEFYDLIAD CRISTIONOGAETH.\* — *Milman.*

MEDDYLIWCH, ynte, am apostolion yr Arglwydd Iesu Grist, y gwneuthurwr pebyll, neu y pysgotwr, yn myned fel dycithriaid i orwych ddinasoedd Syria, Asia Leiaf,

\* Rhoddwyd y deryn uchod gan yn awr y diweddar Dr. Whateley, yn ei Atddodiad i'w Elfenau Rheithog, fel engraiſt o allu y dychymyg yn rhoddi gwirioneddolrwydd i hanesiaeth.



neu Groeg. Meddyliwch eu bod, fel heb eu cynysgaeddu â doniau gwyrthiol, yn dechreu ar eu gweinidogaeth deithiol oddiar egwyddor fydol, ac er mwyn cyrhaedd dybenion bydol. Fel yr aent yn mlaen i'r rhandir bellenig, lle y disgwylant dderbyn pob caredigrwydd oddiar ddwyllaw eu cydgenedl, cymerant olwg ar gadernid y grefydd sefydledig, yr hon y maent yn benderfynol o ddadymchwel—dyma eu dyben proffesedig. Gwelent yn mhob man demlau, ag y mae symiau aruthrol wedi eu gwario ar eu haddurniant gan y naill genedlaeth ar ol y llall; delwau o'r gwneuthuriad mwyaf cywrain, wrth ba rai, os yw eu sêl addodiadol wedi gwanhau y glyn a y bobl gyda balchder lleol neu genedlaethol. Cyfarfyddant â gorymdeithiau, lle y ca y diog bleser parhaus, yr ieuainge rywbeth i'w synu, a'r cnawdol gynhyrfydd gwastadol i'w nwydau. Canfyddant offeiriadaeth luosog, ac ambell waith gyfoethog; ac nid dyma yr unig rai ag sydd wedi eu hannatodol gysylltu trwy fantais bersonol ar fydd sefydledig; mae amryw o'r crefftwyr, megis gwneuthurwyr yr allorau arian yn Ephesus, wedi eu rhwymo i amddiffyn y gyfundrefn y derbyniant eu bywoliaeth oddiwrthi. Aent heibio i chwareufa ardderchog, ar lwyddiant a gogoniant yr hon yr ymddibyna, gan mwyaf, boblogrwydd yr awdurdodau dinasol; ac yn mha rai y mae yr arddangosiadau mwyaf difrifol yn grefyddol, a'r rhai ysgafnach, yn annatodol gysylltiol â boddhad y nwydau iselaf. Gwelant adeilad cyhoeddus arall, lle y mae teimladau gwaeth,—y creulon a'r gwaedlyd, yn cael eu magu gan ymladdfeydd bwystfilod gwylltion a'r cleddyfwyr, yn mha le y gallant hwy yn fuan chwareu rhan ofnadwy,—

*Butcher'd to make a Roman holiday!*

Dangos a gweled ydynt fwynderau neillduol yr holl bobl, ac y mae pob arddangosiad yn gysegredig i'w teimladau crefyddol, neu yn cynhyrfu chwantau y cnawd; y teimladau hyny ag y rhaid eu dileu yn llwyr,

y chwantau hyny ag y rhaid eu dwyn yn gaeth i ufuddod Crist. Gwrthwynebir hwy hefyd gan swynyddion, ser-ddewiniaid, a brudwyr, y rhai a ddylanwadant ar yr ofergoelus, ac a gynhyrfent eiddigedd y dysgedig; yn yr achos blaenaf, yn gydymgeiswyr peryglus i'r rhai a geisiant ledaenu a sefydlu ffydd newydd trwy dwyll a hoced; ac yn yr olaf, yn tueddu yn naturiol i greu rhagfarn yn eu meddyliau yn erbyn pawb a hawliant allu gwrthiol: yma, fel Elymas, yn ceisio rhagori ar arwyddion a rhyfeddodau yr apostolion; acw, yn taflu amheuaeth ar bawb a gredant mewn gallu goruchnaturiol, trwy yr amlygiadau aml ac amlwg a roddant mai twyllwyr oeddynt. Cyfarfyddant ag athronwyr, yn aml yn deithwyr fel eu hunain; neu ddysgawdwyr a lledaenywyr crefyddau newyddion, offeiriaid Jsis a Jeraphis, y rhai sydd wedi dwyn i ddianrhydedd, yr hyn, pe na buasai hyny, a allasai ymddangos fel prawf o ddyngarwch, sef cyflawni teithiau blinderus ar draul amddifadu eu hunain o lawer o gysuron personol er gwella dynoliaeth yn foeso<sup>l</sup> a chrefyddol; neu, o'r hyn lleiaf, wedi arfer meddwl y cyhoedd â'r cyffelyb ymholiadau, fel ag i gymeryd ymaith pob dyddordeb a allasai ddeilliaw oddiwrth eu beiddgarwch neu newydd-deb eu dull. Yno hefyd y ceir dysgawdwyr y gwahanol ddirgelion, y rhai a gadwant sylw y dosbarth mwyaf cywrain ac ymholgar, a chynhyrfu, os nad bo'dloni, gobeithion y rhai mwyaf pur eu meddyliau. Y cyfryw raid fod yn mhlith y rhwystrau a gynygiant eu hunain i sylw y mwyaf selog yn eu myfyrdodau mwyaf tawel; y cyfryw oedd y rhwystrau anorfod ag y buasai yn amhosibl peidio eu gwled, a theimlo eu grym; y rhai nad oedd eisieu llawer o ymchwiliad er eu canfod; y rhai a'u cyfarfyddent ac a'u gwrthwynebant yn mhob man, a'r rhai, naill ai mewn beiddgarwch rhyfygus, neu ymddiried pwyllog ar eu galluoedd uwch-ddynol, a ddiystyrasant ac a feiddiasant.

Yr oedd dechreuad eu gyrfäoedd yn neillduol ddi-galon, ac yn tueddu ychydig at gadw yn fyw fflam ynfyd eu penboethni. Dechreuant ar eu gwaith yn synagogau tlodaidd a neillduedig eu cydwladwyr. Mae newydd-deb eu hathrawiaethau yn sicrhau iddynt wrandawriad astud; ond, fel y mae eu daliadau mwyaf gwrthun yn cael eu hegluro, mae y nwydau mwyaf gelyniaethus ac ymosodol yn cael eu cynhyrfu. Mae dygasedd a dirmyg i'w gweled yn gweithio yn aeliau cymylog a gwynebau cynhyrfus yr arweinwyr: os oes un yma ac acw yn cael *ei drywanu at ei galon*, mae yn gofyn gallu moesol anghyfredin i gydnabod ei argyhoeddiad; ac y mae yr athrawon newydd yn cael eu lluchio ymaith gan y gynulleidfa ddigiedig, yn agored i bob cosb a allant ddyfeisio—eu curo, eu rhwymo, neu eu carcharu; neu, os byddant yn alluog i ffurfio plaid, achosant gynhwrf mawr, ac fel hyn ymddangosant o flaen y barnwyr paganaidd, o dan y cyhuddiad o godi cynhwrf, a thori yr heddwch trwy eu dadleuon cynhyrfus; o'r hyn lleiaf, ni chydabyddir hwy gan y bobl hyny, ar draddodiadau y rhai yr adeiladant eu hathrawiaethau, ac at ysgrythyrau y rhai yr apeliant am brofion o'u hymoniadau. Dyoddefant, gweithiant yn mlaen yn ddi-ildio, parhant i ryfela yn erbyn Iuddewiaeth a Phaganiaeth. Eu hamcan professedig a digêl, yw dadymchwel y gyfundrefn fawr hon o eulunaddoliaeth; i dynu o'r gwraidd yr hen gyfeiliornadau; i ddistewi yr allorau, wedi eu cysegru i wasanaeth yr eulunod er ys oesau; i ddedfrydu yr holl demlau ardderchog i adfeilion, a'r delwau i anmharch; i ddiddyfnu y bobl oddiwrth eu holl bleserau cnawdol a barbaraid.

Ond mewn un olygwedd, y mae yn anmhosibl yn awr i ffurfio dirnadaeth am yr ergyd a roddodd apostolion y Crist croeshoeliedig i'r meddwl cyhoedd. Y mae sylfaen Cristionogaeth, rhyfeddod yr oesau, a gwrthddrych edmygedd y cenedloedd, wedi taflu o amgylch croes

Crist rhyw anrhydedd santaidd a chysegredig nas gellir ei ddileu na'i symud. Nis gall unrhyw ymdrech o eiddo y dychymyg wasgaru yr urddas ag sydd wedi ymgasglu o'i hamgylch; y mae am gymaint o amser wedi cael ei dinoethi oddiwrth bob arwydd o anmharch, fel nas gall fyned yn ol i'r sefyllfa gyntefig o waradwydd a darostyngiad. I'r anghredadyn mwyaf beiddgar yn ein plith yn yr oes hon, y mae, er mor ffol ac afresymol y gall ef ei ystyried, yn arwydd a berchir o grefydd nerthol a dylanwadol: Pa beth ydoedd i'r Iuddew a'r pagan? Cosbedigaeth fwyaf diraddiol y troseddwr iselaf!—dychryn diarebol y caethwas mwyaf truenus! Yr oedd iddynt hwy, yr hyn ydyw yr offeryn cospawl mwyaf brawychus i ni. Eto, at groes Crist yr oedd dynion yn troi oddiwrth eu duwiau, yn y rhai yr oedd pob priodoledd o allu, nerth, a mawredd; mewn amser anghymeradwy o fyr, darfu i dyrfäoedd reddi fyny wychder, balchder, a gallu paganiaeth, i addoli Bôd, yr hwn a ddiraddiwyd fel hyn yn is na'r isaf o blant dynion, yr hwn oedd wedi dyfod, yn ol ystyr lythyrenol y brophwydoliaeth, *yn waradwydd dynion, ac yn alltud yn mhlith y bobloedd.*

CENFIGEN A CHYDYMGAIS. — *Larbould.*

YN un o'r ysgolion arluniol nodedig yn Itali, cynyrchodd dyn ieuange ddarlun mor gampus, fel y derbyniodd ganmoliaeth gyffredinol y meistyr yn y gelfyddyd. Yr oedd yr orchest hon yn cael edrych arni gyda llygaid pur wahanol gan ddau o'i gyd-ysgolorion.

Yr oedd Burnello, yr hynaf o'r ddau, (dyn ieuange o gryn enwogrwydd,) yn ystyried yr holl barch a dderbyniai Quiddotto, fel yn lleihau ei eiddo ef i'r un cyfartaledd. Yr oedd arno ofn dweyd dim yn gyhoeddus yn erbyn y darlun ag oedd wedi enill y fath safle uchel yn

marnau y bobl, ond taffodd allan awgrymiadau dirgel-  
aidd fod Quidotto wedi cael ei gynorthwyo gan ei  
feistriaid, a gosododd y peth allan fel digwyddiad  
hapus, ac nad oedd yn debyg y byddai iddo byth gael  
ei fynychu.

Nid felly, Lorenzo. Er yn astudiwr ieuange o'r gelf-  
yddyd, yr oedd yn gallu prisio talent Quidotto, a  
daeth yn un o'i edmygwyr mwyaf brwdfrydig. Yn  
cael ei danio gan y canmoliaethau a roddid yn ddyddiol  
i Quidotto, ei gyd-ysgolwr, mawr ddymunai haeddu yr  
unrhyw enw da; a gosododd ef o flaen ei lygaid fel  
nôd eithaf ei ymgais. Aeth i mewn i'w wersi gyda'i  
holl enaid, yr oedd yn gyntaf a'r diweddfaf o'r holl  
cfrydwyr yn ystafell arluniol y coleg, a threuliai yr  
oriau a deffid ymaith gan creill mewn pleserau, i ymar-  
fer ei hun gartref.

Bu am hir amser cyn gallu boddhau ei hun gydag  
un o'i gynrychion, a dywedai yn aml wrtho ei hun, A!  
mor bell yw hwn oddiwrth Quidotto! O'r diwedd, pa  
fodd bynag, cafodd y boddlonrwydd o ddyfod yn ym-  
wybodol o gynydd; ac ar ol derbyn cryn ganmoliaeth  
am un o'i gynrychion anturiodd ddweyd wrtho ei hun,  
"A phaham nas gallaf finau ddyfod yn Quidotto?"

Yr oedd Quidotto yn awr wedi parotîi erbyn ar-  
ddangosfa flynyddol yr ysgol, pryd y rhoddid y gwobr-  
wyon, ddarlun ag oedd i fod yn well na'r un o'i gy-  
nrychion blaenorol. Yr oedd wedi ei orphen erbyn y  
noswaith cyn yr arddangosiad, ac nid oedd dim yn  
eisieu ond ei orchuddio â barnais tryloew er dwyn y  
lliwiau allan yn well. Darfu i Burnello, oherwydd ei  
genfigen tuag ato, trwy rhyw ystryw neu gilydd, dafu  
rhyw sylwedd fferyllol i'r gostrel a ddaliai y barnais, er  
distrywio prydferthwch a gogoniant y darlun. Gosod-  
odd Quidotto ef arno wrth oleu canwyll, ac yna, gyda  
llawer o humanfodddhad, crogodd ef i fyny yn yr ystafell  
gyhoeddus erbyn dranoeth. Yr oedd Lorenzo, ar ol

ymdrech galed, wedi gorphen darlun, y gostyngedig farnai a ddaliai ei gydmaru â rhai o gynyrchion cyntaf Quidotto.

Daeth y diwrnod pwysig. Ymgynullodd y dyrfa i'r ystafell fawr, a gollyngwyd y goleu i mewn trwy symud y lleni oeddynt yn gorchuddio y ffenestri. Aeth pawb i fyny at ddarlun Quidotto; pan, er eu mawr syndod, yn lle darlun perffaith, yr edrychasant ar ddarlun marw, amherffaith, a budr,—yr oedd y lliwiau wedi rhedeg i'w gilydd. Torodd y llange i wyllo yn hidl, gan gymaint oedd ei ofid, a dywedai ei fod wedi ei fradychu, ai ddifetha. Yr oedd Lorenzo yn teimlo agos mor ofidus ag yntan, a gwaeddodd allan,—“Foneddigion, Nid gwaith Quidotto yw hwn: gwelais ef pan ar haner ei orphen, ac yr oedd yn ddarlun ysblenydd.”

Yr oedd pob un yn edmygu Lorenzo, ac yn cydymdeimlo â Quidotto yn ei drallod: ond amhosibl oedd iddynt allu dyfarnu y wobwr am ei ddarlun yn y cyflwr yr oedd. Felly dyfarnwyd y wobwr i Lorenzo, yr hwn yn uniongyrchol a'i cyflwynodd i Quidotto, gan ddyweyd, “Cymerwch y parch a enillasoch, pe na buasai i falais a chentigen eich difreinio. Os bydd i mi byth geisio ymgystadlu â chwi, gwnaf hyny yn onest a theg, nid trwy gymhorth twyll.”

Darfu i ymddygiad canmoladwy Lorenzo dynu allan ganmoliaeth fwyaf gwresog y beirniaid, y rhai, o'r diwedd a benderfynasant i roddi, am y tro hwn, ddwy wobwr gyfartal; oblegid, os oedd Quidotto yn haeddu gwobr am ei ddarlun, yr oedd Lorenzo yn cyfiawn haeddu un am ei rinwedd.

DEWISIAD HERCULES. — *Tatter.*

PAN yr oedd Hercules yn yr oedran hwnw ag yr oedd yn naturiol iddo i feddwl am y cwrs o fywyd a ddilynai, aeth un diwrnod i'r anialwch, lle yr oedd y distawrwydd yn ffafriol i'w fyfyrdodau.

Fel yr oedd yn myfyrio ar ei sefyllfa bresenol, ac yn methu yn deg a gwybod pa gwrs o fywyd a arweiniai, gwelodd ddwy foneddiges o daldra anghyffredin yn nesâu tuag ato.

Yr oedd un o honynt o ymddangosiad mawreddog a boneddigaidd; yr oedd ei phrydferthwch yn naturiol a syml, ei pherson yn lân a difrychau, ei llygaid yn edrych yn wylaidd tua'r llawr, ei symudiadau a'i hymddygiadau yn llawn o wyleidd-dra, a'i gwisg mor wŷn a'r eira.

Yr oedd yn ngwynebpryd y llall lawer o iechyd a chochni, ond amlwg ei bod wedi defnyddio paent coch a gwyn; ac yr oedd yn ceisio bod yn fwy boneddigaidd na'r cyffredin yn ei hymddygiadau, trwy gymysgu gradd o serchogrwydd â'i holl symudiadau. Yr oedd graddau helaeth o hyfdrâ yn ei hedrychiad, a'r amryw liwiau yn ei gwisg yn dangos ei bod yn ymgeisio doddi ei hun allan yn y goleuni mwyaf ffafriol. Tafodd olwg arni ei hun ac yna trodd ei llygaid at y rhai oeddynt yn bresenol, i edrych pa fodd yr oeddynt yn ei hoffi, ac edrychai yn aml ar y ffigiwr a dorai yn ei chysgod. Pan yn ymyl Hercules, cerddodd o flaen y foneddiges arall, yr hon oedd yn dyfod yn mlaen yn gyson a phwyllog, a chan redeg tuag ato, cyfarchodd ef yn y wedd ganlynol:—

“Fy anwyl Hercules, yr wyf yn deall dy fod yn rhanedig iawn yn dy feddwl o berthynas i'r cwrs o fywyd a ddilyni: bydd fy nghyfaill, a dilyn fi; arweinias di i afael â phleserau, ac allan o gyrhaedd poen, a symudaf di oddiwrth dwrw a thrafferthion masnach. Ni fydd gan gyffroadau rhyfel na heddwch yr un dylanwad er dy aflonyddu. Dy holl waith fydd gwneyd dy fywyd yn esmwyth, ac i foddhau pob synwyr a nwyd. Y mae byrddau llawnion, gwelyau rhosynog, cymylau o beraroglau, y gerddoriaeth fwyaf swynol, a'r golygfeydd mwyaf boddhaol, oll yn barod i dy dderbyn. Tyred yn mlaen gyda mi i'r diriogaeth hyfryd, —byd o

bleser, a chana yn iach am byth i ofalon, poenau, a masnach."

Yr oedd Hercules, ar ol clywed y foneddiges yn siarad yn y dull hwn, yn dymuno cael gwybod ei henw, i'r hyn yr atebodd, "Mae fy nghyfeillion, a'r rhai sydd yn hysbys o honof, yn fy ngalw yn Ddedwyddwch; ond fy ngelynion a'r rhai a geisiant lychwino fy enw da, a'm galwant wrth yr enw Pleser."

Erbyn hyn yr oedd y foneddiges arall wedi dyfod i fyny, a chyfarchodd y dyn ieuange mewn iaith wahanol:—"Hercules, meddai hi, yr wyf yn cynyg fy hun i ti, oblegid yr wyf yn gwybod dy fod wedi disgyn oddi-wrth y duwiau, ac yn rhoddi profion o hyny, trwy dy gariad at rinwedd, a'th ymdrech i ddiwyllio dy feddwl. Mae hyn yn peri i mi obeithio, yr enilli i mi ac i'th hunan enw anfarwol. Ond cyn i mi dy wahodd i'm cymdeithas a'm cyfeillgarwch, rhaid i mi fod yn agored a gonest; a rhaid i mi osod i lawr fel gwirionedd sefydlog, nad oes modd prynu dim gwir werthfawr, heb boen a llafur. Y mae y duwiau wedi gosod pris ar bob pleser uchel a gwirioneddol. Os wyt am enill ffafr Duw, rhaid i ti fyned i'r drafferth o'i addoli; os myni enill ffafr dynion da, rhaid i ti fyfyrion pa fodd i'w boddhau; os wyt am gael dy barchu gan dy wlad, rhaid i ti ofalu am ei haeddu: yn fyr, os wyt am fod yn enwog mewn rhyfel neu heddwch, rhaid i ti feistrolï a meddianu yr holl gymhwysderau angenrheidiol er dy wneyd felly. Dyma yr unig delerau ar ba rai y gallaf fi gynyg dedwyddwch."

Yn y fan hon torodd duwies Pleser ar ei hymddiddan:—"Yr wyt yn gweled, Hercules, meddai hi, yn ol ei thystiolaeth, fod y ffordd i'w dedwyddwch hi yn faith ac anhawdd, tra y mae yr un a gynygiaf fi yn fyr a hawdd."

"A!" meddai y foneddiges arall, gwynebpryd yr hon oedd yn disgleirio gyda chymysgedd o dosturi a dir-



myg, "Pa beth yw y pleserau a gynygi di? I fwyta cyn bod newyn, yfed cyn bod syched, cysgu cyn bod blinder; boddbau dymuniadau cyn eu bod, a chynyrchu dymuniadau na phlanwyd erioed gan natur. Y gerddoriaeth felusaf yn y clustiau, yw hunan-ganmoliaeth; a'r gwrthddrych prydferthaf a wel dy lygad, yw cynyrch dy ddwylaw dy hun. Mae dy ddilynwyr yn treulio eu hieuengetyd mewn breuddwyd o bleserau tybiedig, tra y maent yn trysori blinder ac euogrwydd erbyn hen ddyddiau.

"Am danaf fy hun, yr wyf yn gyfeilles i'r duwiau, a dynion da; yn gydymaith boddhaol i'r crefftwr; yn amddiffyn dros benau teuluoedd; yn noddydd gweision a morwynion; ac yn aelod o bob cymdeithas dda a gwirioneddol. Mae fy ngwleddoedd yn dda, ond byth yn gostfawr; oblegid nid oes neb yn bwyta nac yn yfed o honynt heb eu gwahodd gan newyn a syched. Maent yn cysgu yn drwm, ac yn deffro yn llawen. Mae fy nynion ieuainge yn cael y boddhad o glywed eu hunain yn cael eu canmol gan yr henafgwyr; a'r henafgwyr yn cael eu parchu gan yr ieuainge. Mewn gair, y mae fy nilynwyr yn cael eu ffafrio gan y duwiau, eu caru gan eu cydnabod, eu parchu gan eu gwlad, ac, ar ol diwedd eu gyrfaeodd, yn cael eu canmol gan yr oesau a ddel."

Yr ydym yn gwybod hanes bywyd y dyn hynod hwn, ac i ba un o'r boneddigesau hyn y rhoddodd ei galon; ac, yr wyf yn credu, y bydd i bob un a ddarlleno hwn gymeradwyo ei ddewisiad.

---

YR ENWOG CRITCHTON. — *Hawksworth.*

MAE rhinwedd, meddai Virgil, yn fwy derbyniol pan y mae yn dyfod mewn ffurf foddhaol. Yr oedd person Critchton yn neillduol brydferth; ond yr oedd ei brydferthwch corfforol yn gyson â'r fath fywiogrwydd a

nerth, fel wrth ymladd y neidiai ar unwaith ar ei wrthwynebydd; a gallai ddefnyddio y cleddyf gyda'r fath nerth a deheurwydd, fel mai braidd y gellid cael neb cyfartal iddo.

Ar ol efrydu yn St. Andrews, Ysgotland, aeth i Paris pan yn un-ar-hugain oed, a gosododd i fyny ar borth Coleg Navarre, fath o feiddiad i ddysgedigion y coleg, i ddadleu âg ef ar ddiwrnod penodedig; y ca ei wrthwynebwy'r eu dewis o ddeg o ieithoedd, yn nghyd a'r gwyddonau a'r celfyddydau. Ar y diwrnod apwyntiedig, ymgynullodd tair mil, pryd yr ymddangosodd pedwar o ddoctoriaid a haner cant o weinidogion yn ei erbyn; ac y mae un o'i rtwhwynebwy'r yn cyfaddef fod y doctoriaid wedi eu gorchfygu; ei fod wedi dangos fod ganddo wybodaeth tu hwnt i gyrhaedd dyn; na byddai treulio can' mlynedd heb fwyta na chysgu yn ddigon i gasglu ei wybodaeth. Ar ol dadleu am naw awr, anrhegwyd ef gan y llywydd a'r proffeswyr, â modrwy werthfawr a phwrs o aur, ac ymadawodd yn nghanol banllefau cymeradwyol y dorf.

O Paris aeth i Rhufain, lle y gosododd yr un beiddiad, a chafodd, yn ngwydd y Pab a'i gardinaliaid, yr un llwyddiant. Ar ol hyny ymwelodd â Padna, lle yr ymddangosodd drachefn o flaen y cyhoedd, a dechreuodd ar ei waith gydag awdl ddifyfr o ganmoliaeth i'r ddinas a'r cwmni ymgynulledig ar y pryd, a diweddodd gydag araith amhosibl ei hefelychu, yn canmol ac yn cymeradwyo anwybodaeth.

Ni chyrrhaeddodd, pa fodd bynag, yr ystôr helaeth hon o wybodaeth, ar draul esgeuluso pethau angenrheidiol eraill er cyfansoddi y boneddwr perffaith. Ymarferodd ei hun, a llwyddodd i raddau tu hwnt i'r cyffredin, yn y gelfyddyd o arlunio; yr oedd yn chwareuwr campus ar offerynau cerddorol; gallai ddawnsio yn fawreddog a phrydferth; a'r diwrnod ar ol bod yn dadleu yn Paris, dangosodd ei fedrusrwydd

yn marchogaeth, o flaen llys Ffrainge; pryd, mewn cydymgais gyhoeddus, yr enillodd y fodrwy ddeg o weithiau yn olynol. Yr oedd hefyd yn rhagori ar y cyffredin mewn campau llai cyhoeddus; ac yn yr adeg o flaen ei ddadl gyhoeddus â dysgedigion Ffrainge, treuliodd gymaint o'i amser gyda'r cardiau a'r *dice*, fel y gosodwyd hysbysiad wrth borth Sorbonne, y gallai pwy bynag a ddewiso weled y dyn hynod, gael boddhau eu cywreinerwydd trwy alw gydag ef yn y dafarn.

Mor eang oedd ei wybodaeth am fywyd a digwyddiadau, fel mewn *comedy* Italaidd, a berfformiwyd o flaen llys Mantua, y dywedir iddo bersonoli pymtheg o wahanol gymeriadau. Yr oedd ei gôf mor afaelgar, fel, ar ol gwrando araith am awr, y gallai ei hadrodd air a llythyren, ac nid hyny yn unig, ond gallai ddilyn yr areithydd yn ei holl aceniadau, ei bwysleisiadau, a'i symudiadau.

Ac nid oedd ei fedrusrwydd gydag arfau yn llai nag mewn dysg, na'i wroldeb yn llai na'i ddyfais. Yr oedd yno ymladdwr mawr yn byw yn Mantua, ag ydoedd wedi gorechfygu yr ymladdwyr enwocaf mewn amryw ranau o Ewrop; ac yn Mantua, wedi lladd tri ag oedd-ynt wedi ymddangos yn ei erbyn. Yr oedd Crichton yn edrych ar ei lwyddiant gyda dirmyg, a chynygiodd gyngwystlo swm mawr o arian, ac ymddangos ar yr esgynlawr yn ei erbyn. Ar ol peth petrusder, cydsyniodd y Duc Mantua a'i gais; ac ar y diwrnod apwyntiedig cyfarfyddodd yr ymladdwyr. Daeth yr ymladdwr yn mlaen gyda nerth mawr, tra nad oedd Crichton yn gwneyd dim ymdrech, ond ceisio ysgoi ei ruthriadau, a thrwy hyny adael iddo dreulio ei nerth. Yna gwasgodd Crichton arno gyda'r fath nerth a medrusrwydd, fel y trywanodd ef ddwywaith trwy ei gorff, a gwelodd ef yn marw. Yna rhanodd yr arian a enillodd rhwng gweddwon y gwŷr a laddwyd ganddo.

Ar ol i Dduc Mantua gael y fath broffion o'i allu-

oedd mawrion, gwnaeth ef yn athraw i'w fab, Vincentio de Gonzaga, tywysog o arferion llygredig ac ysbryd dialgar. Ond yr oedd ei ogoniant i fod o fyr barhad; oblegyd, fel yr oedd un noswaith, yn amser y *carnival* yn cerdded trwy yr heolydd gyda'i *guitar* yn ei law, ymosodwyd arno gan chwech o ddynion wedi gorchuddio eu gwynebaw, y rhai a wrthwynebodd gyda'r fath fedrusrwydd, fel y diangasant ymaith, a diarfogodd eu llywydd, yr hwn, ar ol iddo symud y gorchudd, a adnabyddodd fel y tywysog, ei ysgolor. Syrthiodd Critchton ar ei liniau, a chyflwynodd iddo ei gleddyf, yr hwn a'i cymerodd; ac yn cael ei gynhyrfu, meddai rhai, gan genfigen, ereill a ddywedant mai meddw ydoedd, a'i gyrodd trwy ei galon.

Dangosodd llys Mantua ei galar am dano trwy ymwisgo mewn du, ac addurnwyd palasau Itali â darluniau o hono ar ei farch, â chleddyf yn un llaw, a llyfr yn y llall.

---

SOLON A CRÆSUS. — *Robinson.*

Y MAE enw Cræsus, punned a diweddaf frenin Lydia, yr hwn a deyrnasodd 557 o flynyddau cyn Crist, wedi myned yn ddiareb i ddesgrifio meddianiad cyfoeth mawr. Pan y daeth Solon, gwladyddwr Athen, ac un o'r hen athronwyr doethaf, i Sardis, lle y cynaliai Cræsus ei lys, derbyniwyd ef mewn dull teilwng o'i urddas. Ymddangosodd y brenin, yn cael ei amgylchu gan swyddogion y llys, yn ei holl ogoniant breninol, wedi ymwisgo yn y dillad mwyaf costfawr. Nid oedd Solon, pa fodd bynag, yn ymddangos fel wedi ei gyffwrdd â'r gradd lleiaf a'r gwychder a'i hamgylchai. Darfu i'w oerfelgarwech a'i ddifaterwech synu ac anfodddhau y brenin: yr hwn yn nesaf a orchymynodd ar i'w holl drysorau, ei ystafelloedd gwychion, ei ddodrefn drud-

fawr, ei berlan, a'i ddarluniau gael eu dangos i'r athronydd.

Ar ol i Solon weled yr oll, dygwyd ef yn ol at y brenin; yr hwn a ofynodd iddo a welodd ef ddedwyddach dyn nag ef yn ei fywyd. Do, atebai Solon: un Tellus, dinasydd tlawd ond teilwng yn Athen, yr hwn a drenliodd ei holl ddyddiau uwchlaw eisieu, a welodd ei wlad mewn cyflwr blodeuog, a gafodd blant a berchid gan hawb; ac, ar ol cael anrhydedd o weled plant ei blant, a fu farw yn ogoneddus wrth ymladd dros ei wlad.

Yr oedd y fath atebiad, yn mba un yr edrychid ar arian fel pethau diwerth, yn ymddangos i Cræsus fel yn arwyddo ffolineb ac anwybodaeth dybryd. Pa fodd bynag, gan feddwl ei fod ef yn yr ail radd o ddedwyddwch, gofynodd iddo ar ol Tellus, a wyddai ef am un mwy dedwydd? Atebodd Solon; Clæbis a Biton o Argos, dau frawd, esiamplau perffaith o'r hyn a ddylai plant fod, a'r parch sydd ddyledus ar blant i'w rhieni. Ar adeg bwysig, eu mam, offeiriades yn nheml Juno, oedd yn gorfod myned i'r deml; a chan nad oedd yr ychain yn barod i'w rhoddi yn ei cherbyd, aeth ei phlant i'r tresi, a thynasant hi yno yn nghanol bendithion y bobl. Darfu i bob mam ag oedd yn bresenol longyfarch yr offeiriades ar grefyddoldeb ei meibion. Hithau, gan faint ei llawenydd, a erfyniodd ar i'r dduwies i wobrwyo ei plant â'r peth goreu a allai y nefoedd roddi i ddyn. Gwrandawyd ei gweddi: pan yr oedd yr aberth drosodd, syrthiasant i gysgu yn y deml, ac yno buont feirw yn dawel a diboen.

Beth nesaf, gwaeddai Cræsus, nid ydych yn fy nghyfrif yn mhlith y rhai dedwydd! "Brenin Lydia," atebai Solon, "nid yw gwir athroniaeth, wrth ystyried y damweiniau lluosog y mae bywyd yn agored iddynt, yn caniatâu i ni orfoleddu yn y llwyddiant a fwynhawn ein hunain, nag i fawrygu dedwyddwch mewn ereill a all, efallai, brofi yn arwynebol a darfodedig. Nis gellir

cyfrif yr un dyn yn ddedwydd, ond yr hwn a fendithir gan y nefoedd hyd ddiwedd ei oes. O berthynas i'r rhai hyny ag sydd yn agored yn barhaus i beryglon, yr ydym yn cyfrif eu dedwyddweh mor ansicr a'r goron i'r ymgeisiwr cyn iddo ei henill."

Nid hir y bu Cræsus cyn cael allan wirionedd yr hyn a ddywedodd Solon wrtho. Ar ol ei drechu gan Cyrus, brenin Persia, a'r brif-ddinas gael ei chymeryd, daliwyd ef ei hunan yn garcharor, a thrwy orchymyn y gorchfygwr, rhwymwyd ef ar y fflagodau i gael ei losgi yn iyw. Darfu i'r tywysog anffortunus gofio yn awr gynghor yr athronydd Athenaidd, a llefodd yn uchel, "O Solon! Solon! Solon!"

Darfu i Cyrus, yr hwn gyda swyddogion ei lys, oedd yn bresenol, deimlo dyddordeb i gael gwybod yr achos i Cræsus alw ar ei enw gyda'r fath angherddoldeb. Ar ol ei hysbysu o'r achos, a myfyrio ar ansicrwydd pobpeth gweledig, amlygodd gydymdeimlad tuag ato; a gorchymynodd i'r brenin gael ei gymeryd i lawr, ac ymddygodd ato byth wedi hyny gyda pharch neillduol.

Fel hyn cafodd Solon yr anrhydedd o achub bywyd un brenin, a rhoddi gwers bwysig i un arall.

PERYGLON DIOGI A MOETHAU. — *Johnson.*

YR oedd Hacho, brenin Lapland, yn ei ieuengctyd, y mwyaf enwog o'r milwyr gogleddol. Mae ei wrhydri milwrol wedi eu cerfio ar golofn o farmor, sydd ar gael y dydd heddyw, a chofir am dano, a chenir iddo gan y trigolion yn eu gwyliau crefyddol, a gynelir yn y nos wrth oleu tân.

Ac nid oedd yn llai hynod am ei ddoethineb a'i bwyll nag ydoedd am ei wroldeb; ac uwchlaw y cwbl, yr oedd ei gymedroldeb a'i arferion manwl yn haeddu

iddo barch dauddyblyg. Yn ei flynyddoedd boreuol ni phrofaï win; ac ni yfai allan o gwpan paentiedig. Yr oedd bob amser yn cysgu yn ei arfogaeth, a'i bicell yn ei law; ac ni chymerai yr un waewffon wedi ei haddurno â phres. Ni ddarfu iddo, pa fodd bynag, barhau i ddirmygu moethau; ac ni ddiweddodd ei ddyddiau mewn anrhydedd.

Un diwrnod, ar ol bod yn hela y baedd gwyllt, wedi dyrsu a cholli ei ffordd yn y goedwig, a myned trwy lawer o beryglon heb damaid o luniaeth, darganfyddodd ystôr helaeth o fêl yn mhoneyff hen ffawydden fawr. Dyma y danteithfwyd cyntaf a brofodd erioed; ac oherwydd ei newyn a'i ludded, cyfranogodd yn helaeth o hono. Derbyniodd y fath bleser oddiwrth y saig felus hon, fel, ar ei ddychweliad gartref, y gorchymynodd ar fod i fêl gael ei ddwyn i'r bwrdd bob dydd.

Daeth ei archwaeth o radd i radd yn foethus a llygredig; dechreuodd golli ei archwaeth at fwyd cyffredin, ac ymarferodd ei hun i ymborthi ar foethau; gorchymynodd i erddi prydferth a amgylchai ei balas i gael eu taffu yn agored, (yn mha rai yr oedd y ffrwythau mwyaf deniadol wedi ei gadael i addfedu am dymhorau cylchynol, heb eu cyffwrdd na'u defnyddio,) a boddhaodd ei archwaeth newydd a moethus â'r ffrwythau mwyaf pêr. O'r diwedd, cafodd ar ei galon i ddefnyddio ychydig win; ac ar ol unwaith ei brofi, temptiwyd ef yn raddol i ymollwng i feddwod gwaradwyddus. Yr oedd y synyrwydd cyntefig wedi ymadael; perarogodd ei ystafelloedd, a gorchymynodd ar fod i'w lurig gael ei haddurno yn y modd mwyaf costfawr. Diogi a ddi-lynodd; collodd ei benderfyniad, a diffoddodd ei awydd am ogoniant milwrol.

Tra yr oedd Hacho fel hyn wedi ymwerthu i bleserau, ymosodwyd ar ei deyrnas gan frenin Norway, gyda byddin luosog. Ymysgydwodd Hacho, ac aeth i'w gyfarfod. Cyfarfyddodd y ddwy fyddin mewn brwydr

yn y goedwig, lle y collodd Hacho y ffordd wrth hela; ac anfonodd brenin Norway feiddiad ato i ddyfod i ymladd âg ef yn bersonol yn ymyl y fan y bwytaodd y mêl. Mewn byr amser, oherwydd ei ddiogi a'i ddiffyg yn arferiad, cafodd brenin Lapland ei orthrechu, a chyn i'w elyn dori ei ben oddiwrth ei gorff, dywedodd:—  
 “Yr wyf yn syrthio yn aberth i ddiogi a moethau. Y mêl a hoffais yn y goedwig hon, ac nid llaw bren Norway, sydd yn gorchfygu Hacho.”

MEDRUSRWYDD MILWROL ROBADII. — *Ben. Johnson.*

[Yn ymchwyddol a gwyntog.]

I WILL tell you, sir, by the way of private and under seal, I am a gentleman, and live here obscure and to myself; but were I known to his majesty and the lords, observe me, I would undertake, upon this poor head and life, for the public benefit of the state, not only to spare the entire lives of his subjects in general, but to save the one-half, nay, three parts of his yearly charge in holding war, and against what enemy soever. And how would I do it, think you? Why thus, sir. I would select nineteen more to myself; gentlemen they should be, of a good spirit, strong and able constitution; I would choose them by an *instinct*, a character that I have: and I would teach these nineteen the special rules, as your Punto, your Reverso, your Stoccato, your Imbrocato, your Passado, your Mountanto; till they could all play very near, or altogether, as well as myself. This done, say the enemy were forty thousand strong, we twenty would come into the field the tenth of March, or thereabouts; and we would challenge twenty of the enemy; they could not in their honour refuse us? Well, we would kill them; challenge twenty more, kill *them*;



twenty more, kill *them*; twenty more, kill them too: and thus would we kill, every man his twenty a day, that's twenty score; twenty score, that's two hundred; two hundred a day, five days a thousand: forty thousand—forty times five, five times forty,—two hundred days kill them all up by computation. And this I will venture my poor gentleman-like carcass to perform (provided there be no treason practised upon us,) by discreet manhood, that is, civilly, by the sword.

## BARDDONIAETH.

RHYBUDD LOCHIEL. \*—*Campbell.*

DEWIN.

YMOCHEL, Lochiel! rhag y dydd pau y daw  
 Yr Iseldir yn elyn o'th flaen yn ddifraw;  
 Maes gwaedlyd y meirwon i'n ngolwg sy'n troi,  
 A llwythan Cyloden ar wasgar yn fioi;  
 Maent eto 'n dychwelyd,—yn syrthio 'n eu gwaed.  
 Gwae! gwae! i'r marchogion a'u sarnant dan draed;  
 Rhuthro drostynt mae Cumberland falch fel rhyw gawr,  
 A'u mynwesau 'n sathredig dros wyneb y llawr.  
 Ond gwel! trwy felt buain y frwydr mewn poen,  
 Pa farch sydd yn rhedeg mo'r ffyrnig ei ffroen?  
 Dy farch di, Glenylin! sy'n rhedeg mo'r rhwydd,  
 A'th briod anwylwch, alarus ei swydd,  
 Fal goleu tŵr caniad, a'i llygaid yn llwyr,  
 A edrych am danat yn hir ac yn hwyr.  
 Mae march heb ei farchog, ŵr enwog ei ran,  
 Yn dychwel y boren yn wael ac yn wan:  
 Yn dychwel yn unig, ond oer ydyw'r ewyn,  
 Arwyddion anobaith sy'n goch ar ei ffirwyn.  
 Wyla, Albion! O bydded dy dristwch yn drwm,  
 I angen caethiwed cai 'th arwain yn llwm;

\* Yn y deryn uchod, dylai *tôn* y Dewin—yr hwn a dybir fel yn alluog i ragfynegu—fod yn *ddwfn* a *diffisol*; yn cynyddu mewn angherddoldeb a nerth, fel yr ymrithia y golygfeydd dychrynlyd i'r golwg, a'i anrwyio yn achlysurol gan don isel *gofid*. Rhaid i lais *Lochiel* fod yn *hyf*, *betddgar*, a *gwatawarus* o ragfynegiadau y Dewin.

Rhif gwllith boed dy ddagrau, mae achos yn wir;  
 Ond meirwon Cyfoden sy 'n dewach ar dir:  
 Cyfoden! cledd creulon dy lasn a fed,  
 Dros dy faes gwaed y dewraf yn ddilaw a red.

## LOCHIEL.

Ro'th bregeth i'r ofnus, ti Ddewin dilwydd,  
 Neu, os ydyw Cyfoden mo'r erchyll i'th wydd,  
 Tyn dros dy hen lygaid fy mentyll yn glau,  
 Rhag i flug-olygiadau dy synwyr wanhaa.

## DEWIN.

Na wawdia; daw 'r drom weledigaeth i ben;  
 Cai 'th ddarostwng, ti 'r balchaf aderyn is nen;  
 Clyw! rhuthrodd yr cryr a'i awydd yn fawr,  
 O gwngwl y gogledd mewn ymfrost i lawr;  
 Mwy buan na phelen elynol ei daith,  
 A dystryw o'i esgyll yn arllwys yn faith;  
 O uchder ei ddifrod disgyned mewn pryd,  
 Gerllaw mae 'r anrheithiwr yn waedlyd ei fryd!  
 Pa'm mae 'r banau 'n fflamychu eu marwor i'r lan,  
 Trwy 'r ffurfafen fel ser yn gwreichioni 'mhob man?  
 Tân-geulysg y dystryw sy'n chwyrn yn ei rwysg,  
 A dwylaw g'lanastru yn dirwyn y dwysg.  
 Arfogwech Lochiel! digyffelyb mewn nerth,  
 A'th fanerau ar wynt dros y banau tra serth,  
 Ymaith! tân sydd o'th amgylch i'th losgi a'th lys,  
 O dychwel i'th gartref yn unig ar frys,  
 Tywyllwch y lludw a noda lle'r oedd.  
 A mam plant newynog yn erchyll ei bloedd.

## LOCHIEL.

Taw! mil yw cleddyfau fy llwyth! maent ger llaw,  
 Ond un eu mynwesau difrad a difraw,  
 Yn filwyr tra ffyddlon—ni ofnir hwy byth,  
 I'r diweddaf o'u gwaed, i'r diweddaf o'u chwyth!  
 Fal medelwyr yn awchus am waith gyda'r wawr,  
 I gynhauf coch angen disgynant i lawr;  
 I Gumberland groesaw fal rhoad y don,  
 A'i farch dihafarch-droed o deued ger bron  
 Ond gwae idd ei dylwyth, a gwae idd ei blaidd,  
 Pan fydd Albion yn tynu 'r cledd mawr wrth ei rhaid,  
 Pan i faes buddugoliaeth yn dewach na'r grug,  
 Rhed Glenylin ddiarswyd a Morai ddiblyg,  
 Yn wisg yr Uheldir mor llon ar bob llaw.

## DEWIN.

Ymochel, Lochiel, rhag y dydd pan y daw ;  
 Mewn anobaith pe cwmpai fy llygaid a'm llef—  
 Nid dyn ddichon guddio a ddengys y Nef ;  
 Cefais addysg ddychrynlyd wrth ymyl y bedd,  
 A'r pethau a ddaw sy 'n cysgodi fy ngwedd ;  
 Cyloden a ddadsain yr oergri a rydd  
 Y gwaed-gwn wrth hela dy Frenin trwy 'r dydd.  
 Mewn tywyllwch ag ulw o'n golwg mae 'n troi ;  
 Ymgynhyrfa 'n ddu 'r dymhestl i'w guddio wrth ffoi.  
 Gorphenwyd ! Taranau y rhyfel sy'n awr  
 Yn ddystaw.—Ond Albion ! dy dristwch sy'n fawr,  
 Y caeth haiarn gadwynog y'mha le y mae ?  
 Canys llygad y frwydr a gauwyd mewn gwaed.  
 Yn alltud diobaith, O ! leithiodd e'r dôn,  
 Ei wlad yn amddifad o'i phenaeth a'i ffon.  
 Mae tristach arwyddion o'u blaen o bob tu ;  
 Mae 'r tabwrdd dan orchgudd, a'r elor yn ddu,  
 Cloch angeu yn galw ! trugaredd y nef !  
 Mae 'nghalon yn rhewi ! arswydus yw'm llef,  
 Mae mwg yr hyll weithred yn wenwyn ar led.

## LOCHIEL.

Hawyr ; wyt ddirmygus, ni roddaf it' gred ;  
 Pe bae fy holl ddewrion da gwych yn eu gwaed  
 Fal tew lysiau 'r Aig yu garneddau dan draed,  
 Heb ofni na chadwyn nag angeu yn eu gwaed,  
 Lochiel fydd yn gadarn a diflin ei gledd,  
 Os cyll fuddugoliaeth, myn angeu i'w ran,  
 Ei draed at ei elyn a'i wyneb i'r lân ;  
 A'i enw 'n ddisglaerwch, gobeithlawn bydd ef,  
 O wely marwolaeth fe edrych tua'r nef.

*Cyf. TALIESIN AB IGOLO.*

## Y GOES AUR.—Hood.

[Y mae Hood yn y gân hynod hon yn rhoddi hanes boneddiges ieu-  
 ange gyfoethog, ag ydoedd yn orhoff o aur—dyna oedd ei duw. Un di-  
 wrnod aeth allan i farchogaeth, dychrynodd yr anifail,—rhedodd ymaith,  
 a'r canlyniad yw, y mae yn cael tori ei choes, ac yn cael coes aur yn ei  
 lle. Mae boneddwr yn ei phriodi—yn troi allan yn feddwyn—yn myned  
 yn dlawd—ac un noswaith y mae yn tynn ymaith y goes aur, a'r fonedd-

iges yn marw. Difynwn ran fechan o hont, sef ei ddarluniad o'r march yn rhedeg ymaith, a hithau yn syrthio, ac yn tori ei choes. Dylid ei adrodd yn gyflym, i ddynewared yr anifail yn rhuthro : yr aceniad yn sydyn, a'r llais yn ddigrif-ddifrifol. Yr ydym yn rhoddi y dyfyniad yn y Saesonaeg, rhag i ni wrth geisio ei gyfieithu, amharu yr efaith.]

AWAY she gallops!—it's awful work!  
It's faster than Turpin's ride to York,  
On Bess that notable clipper!  
She has circled the ring!—She crosses the Park!  
Mazzeppa, although he was stripped so stark,  
Mazzeppa couldn't outstrip her!

The fields seem running away with the folks!  
The elms are having a race with the oaks!  
At a pace that all jockeys disparages!  
All, all is racing! The serpentine  
Seems rushing past like the "arrowy Rhine,"  
The houses have got on a railway line,  
And are off like the first class carriages!

She'll lose her life! she is losing her breadth!  
A cruel share, she is chasing Death,  
As female shriekings forewarn her:  
And now—as grates as blood of guelf—  
She clears that gate, which has cleared itself  
Since then, at Hyde Park Corner!

Alas! for the hopes of the Killmauseggs!  
For her head, her brains, her body and legs,  
Her life's not worth a copper!

Willy-nilly,  
In Picadilly,  
A hundred hearts turn sick and chilly,  
A hundred voices cry, "Stop her!"  
And one old gentleman stares and stands,  
Shakes his head and lifts his hands,  
And says, "How very improper!"

On and on!—what a perilous run!  
The iron rails seem all mingling in one,  
To shut out the Green Park Scenery!  
And now the Cellar its dangers reveals,  
She shudders—she shrieks—she's doomed, she feels,  
To be torn by powers of horses and wheels,  
Like a spinner by steam machinery!

Sick with horror she shuts her eyes,  
 But the very stones seem uttering cries,  
 As they did to that Persian daughter,  
 When she climb'd up the steep vociferous hill,  
 Her little silver flagon to fill  
 With the magical Golden Water.

“Batter her! shatter her!  
 Throw and scatter her!”  
 Shouts each stony-hearted chatterer!  
 “Dash at the heavy Dover,  
 Spill her! kill her! tear and tatter her!  
 Smash her! carsh her!” (the stones didn't flatter her!)  
 “Kick her brains out! let her blood spatter her!  
 Roll on her over and over!”

For so she gather'd the awful sense  
 Of the street in its past immacadamized tense,  
 As the wild horse overran it,—  
 His four heels making the clatter of six,  
 Like a Devil's tattoo, played with iron sticks  
 On a kettle drum of granite!

On! still on! she's dazzled with hints  
 Of oranges, ribbons, and coloured prints,  
 A Kaleidescope jumble of shapes and tints,  
 And human faces all flashing,  
 Bright and brief as the sparks from the flints,  
 That the desperate hoofs keeps dashing!

On and on! still frightfully fast!  
 Dover street, Bond street, all are past!  
 But—yes—no—yes!—they'r down at last!  
 The Faries and Fates have found them!  
 Down they go with a sparkle and crash,  
 Like a Bark that's struck by the lightning flash—  
 There's a shriek—and a sob—  
 And a dense dark mob  
 Like a billow closes around them!

\* \* \* \* \*

“She breathes!”  
 “She don't!”  
 “She'll recover!”  
 “She wont!”

"She's stirring! she's living, by Nemesis!"  
 Gold, still gold! on counter and shelf!  
 Gold dishes as plenty as delf!  
 Miss Killmanseggs coming again to herself  
 On an oppulent Goldsmith's premises!

Gold! fine gold—both yellow and red,  
 Beaten and molten—polish'd and dead—  
 To see the gold with profusion spread,  
 In all forms of its manufacture!  
 But what avails gold to Miss Killmansegg,  
 When the femoral bone of her dexter leg  
 Has met with a compound fracture?

Gold may soothe Adversity's smart,  
 Nay, help to bind up a broken heart;  
 But to try it on any other part  
 Were as certain disappointment,  
 As if one should rub the dish and plate,  
 Taken out of a Staffordshire crate—  
 With Singleton's "Golden Ointment!"

CATO AR ANFARWOLDEB YR ENAID. — Addison.

[Mae Cato yn eistedd â thraethawd Plato yn ei law, a'i gleddyf wrth ei ochr. Dylai y don fod yn ddifrifddwys a mawreddog.]

RHAID yw hyn—Plato, gwych dy gymhwyl di—  
 Os amgen, py y daeth hwn obaith pèr,  
 Hwn hoff ddymuniad, ac yr hiraeth hwn  
 Am Anfarwoldeb? Ynte, o ba le  
 Y tardd hwn ddirgel fraw, a mewdol swyd  
 Rhag syrthio i ddifodaeth? A pha ham  
 Ymwylltia'r enaid gan ofn dinystr certh?  
 Y Duwdeb yw, o'n mewdol sydd yn cyffroi;  
 Y nef ei hun, yn gweyd am fyd a ddaw,  
 Gan ddysgu dyn am dragwyddeldeb, yw.  
 Bytholdeb! hyfryd, erchyll feddwl wyt!  
 Trwy ba amrywiaeth, ammhrofwl fod,  
 Cyflyrau, a newidion, myned raid!  
 Yr ardrem ang, anherfyn rhagof sydd;  
 Ond cysgod, gwyll, a chaddug, sy'n ei thoi.

Arosaf yma. Od oes Gallu fry,  
 (A'i fod, yn groch dolefa anian oll  
 Trwy ei holl waith.) mewn rhinwedd hoffa ef;  
 A'r hyn a hoffa, dir mai dedwydd yw.  
 Ond pryd? Pa le? I Caisar gwnaed hwn fydd:  
 Blin wyf ar ddychymygion—rhaid i hyn  
 Osodi bythol derfyn arnynt oll.

[*Yn cymeryd i fynny y cleddyf.*]

Mal hyn amarfog wyf—fy hoedl a'm tranc,  
 Fy ngwenwyn a'm cyfaredd y'nt o'm blaen:  
 Hwn im' mewn eiliad i derfyniad dwg;  
 Ond hwn a'm dysg na fyddaf farw byth.  
 Yr enaid, diogel yn ei hanfod, chwardd  
 Ar y fidogan noeth, a heria ei min:  
 Diflana'r sêr, gan henaint gwelwa'r han!,  
 Ac anian eidiog yn fethiannus eiff;  
 Ond ti flodeni mewn antarwol hoen,  
 Heb friw y'nghanol brwydr elfenau gwrdd,  
 Grill eich defnyddiau, a chлиндarddach byd.

SAITH GRADD EINIOES.—*Shakespeare.*

CHWAREUFA ydyw'r byd,  
 A chwarenyddion yw'r trigolion,  
 Hwy ddeuant yn eu tro, ac ant bob un:  
 Amrywiol ranau chweru pob dyn byw:  
 Mae ganddo saith gyfraniad i ymdroi:  
 Yr olwg gyntaf arno'n blentyn cawn;  
 Y'mreichiau mamaeth yn rho'i egwan floedd.  
 Yna'n llange, tua'r ysgol a'i gwd bach,  
 A'i wyneb yn disglario, heb ddim serch,  
 Ymlusgo yno fel malwoden dawdd.  
 Ac yna cawn e'n garwr brwd ei hynt,  
 Yn ocheneidio megis ffwrnes fawr,  
 Er enill serch yr eneth sydd yn troi i ffwrdd.  
 Yn nesaf milwr fydd, yn llawn rhegfeydd,  
 A'i farf, fel eiddo llewpart, fydd yn grych!  
 Eiddigus o'i anrhydedd, gwyllt mewn llid,  
 Diarswyd fydd i droi ei wyneb dewr  
 Ar fagnel lwythog, er mwyn enill clod,  
 Sy'n ansefydlog megis cloch y dŵr.  
 Ymddengys ar ol hyn yn ynad tew,

Yn eym'ryd ymborth o'r fath oreu gaiff :  
 A'i lygaid llym, a'i farf o doriad chwith,  
 Yn llawn o ddywediadau doeth dros ben ;  
 Fel hyn y chweru ef. Y chweched oes  
 Newidia i'r gwrthwyneb iddynt oll,  
 Y dyn ganfyddwn yn myn'd oddentu 'n awr  
 A'i goesau mewn hosan-glos : O ! mor gul !  
 A'i wydrau ar ei drwyn, a'i gôd wrth glun,  
 A'r cîos a wisgai 'n ieuange yn rhy fawr  
 I'w goesau meinion, sy' fel gwerthyd troell ;  
 Y llais fuasai 'n gryf, yr awrhon sydd  
 Yn chwiban. Yr olygfa olaf oll,  
 Rydd derfyn ar yr hanes rhyfedd hwn,  
 Yw ail fabandod, anghof o bob peth,  
 Heb ddanedd, llygaid, blas, na dim yn y byd !

BETH YW BYWYD? — *Lewis Glyn Dyff.*

BETH yw bywyd? Cragen dyner  
 Dafwyd gan dragwyddol li,  
 I dywodog draethell anser  
 Am ryw gyfyng foment gu :  
 Tôn fawreddig roddes iddi  
 Le am dro ger gwydd y byw ;  
 Wele arall dôn yn golchi'r  
 Traeth, a'r gragen dlos nid yw.

Beth yw bywyd? Defnyn bychan  
 Sugnyd draw o'r cefnfor mawr :  
 Wedi gado i wlad ei hunan,  
 Crwydro wnaeth nes daeth yr awr  
 I'r cymylau a'u dyferion  
 Wlychu gwyneb bryn a dôl ;  
 Yna 'n nghwmni dafnau'r afon  
 Brysiodd yntan adre 'n ol.

Beth yw bywyd? Siriol wlithyn  
 A ddisgynodd yn y nos  
 I gusana lili'r dyffryn,  
 Neu'r blodeuyn ar y rhos :  
 Ond yr haul dywynai arno,  
 Teimlai yntau i angerdd dwys :  
 Cyn canolddydd nid oedd yno  
 Ond lle buasai'r gwllithyn glwys !



Beth yw bywyd? Dyfrgloch egwan  
 Yn marchogaeth ar y lli,  
 Gan ymchwyllo 'n falc ei hanian,  
 Mewn (tybiedig) uchel fri;  
 Ond rhyw don neu awel ruthra  
 Mewn cythrymiad arni hi,  
 Hithau tanynt ymollynga,  
 Gan ddychwelyd fel y bu.

Beth yw bywyd? Ysgafn nifwl,  
 Welir weithiau fore 'r dydd  
 Yn amdoi y fro fel cwmwl,  
 Gan ei chadw dano 'n gudd.  
 Aros ronyn: yna chwilia  
 Yr ardaloedd ar ei hyd:  
 P'le mae 'r tarth oedd gyneu yma?  
 Llwy'r ddiflanu wnaeth i gyd!

Beth yw bywyd? Gwel y cysgod  
 Acw sydd yn hofran draw;  
 Gwel, wrth graffu, wrthddrych hynod  
 Dano yn y glyn islaw:  
 Dyn sydd acw 'n ymdrafferthu,  
 Saig oferedd hulia 'i fwrdd:  
 Clyw, greadur! tremia i fyny  
 Cyn i'r cysgod gipio 'i flwrdd.

Os gofynir, Beth yw bywyd?  
 Cysgod ac nid sylwedd yw;  
 Ofer iti ro'i dy oglyd  
 Ar beth sydd mor wael a gwyw.  
 Ni cheir ganddo aros mynyd,  
 Llithro ymaith mae bob awr;  
 Myned wna, nes troi ryw enyd  
 Yn dragwyddol sylwedd mawr.

Beth yw bywyd? Dim ond rhaglith  
 Cyfrol fawr y bythol fyd;  
 Troi y ddalen gyntaf yma,  
 Ond fe 'u chwelir yno gyd.  
 Bywyd! Einioes! eiriau pwysig!  
 Anhawdd eu darlunio yw,  
 Nes gollynga 'r byd pellenig  
 Arnynt oleu gorsedd Duw.

[Yn yr engraifft uchod dylid talu sylw manwl i'r gofyniadau, "Beth yw Bywyd?" Maent i fod mewn llais uchel-bryderus; a'r atebion mewn tón isel a difrifol.]

## CYMYLAU DYSGLAER AR FACHLUDIAD HAUL.

GAN MRS. SIGOURNEY.

[Y corff yn syth—y dwylaw a'r llygaid yn cyfeirio tuag i fyny, a'r llais yn awdurdodol, a gradd o sarcasm ynddo—y penill olaf mewn tŷn fudd-ugoliaethus a mawreddog.]

GYMYLAU dysglaerwch! o un i un draw  
Y dystaw ymgesglwch yn llu ar bob llaw;  
Dysgubo yr ydych, mewn rhwysg heb ei ail,  
O amgylch prudd wely marwolaeth yr haul,  
A baner borphoraidd, ac amdo aur wedd,  
Fel byddin i rodde eu llyw yn y bedd;  
Fe allai wrth ymdaith fod genych gân drist,  
Er nad yw ei seiniau yn cyrhaedd ein clust.

Ond tybiwyf eich bod yn ymdyru yn nghyd  
A gwedd ry arglwyddaidd, yn nghyda rhyw wrid  
Mawreddog ryfeddol, tra mae yr haul eu  
Yn suddo i orphwys ar fynwes y lli:  
Nid felly y gwnelsech yn malchder ei ddydd,  
Ei ffordd ni feiddiasech ei chroesi mor rhydd;  
Y bore, pan dremiai, cydgrynech gan ofn,  
Gan frysio i ymguddio i'ch niwlog gell ddofn.

A ydych yn bloeddio, "Bu farw?"—Aha!  
Gyda'ch harddwisg o enfys, eich iaith ni lesâ;  
Eich ymfrost sydd ofer; yr heulwen yn hyf  
Ymddyrrha fry eto â'i belydr yn gryf;  
Teyrnasa mewn mawredd ar ol i chwi oll  
Ddiffann o'r golwg a myned ar goll,  
Pan yn eich llys anwedd y crymwech yn nghyd  
Yn noeth, a dilewyrch, a dystaw i gyd.

Yr Enaid!—yr Enaid!—â'i lygaid o dân,  
Fel hyn ymddyrrhafa, pan gilia yn lân  
Ei holl flin clyniion; uwch pob poenus fryn  
Ei edyn amleda;—gadawa'r pryd hyn  
Y drygau a'i cuddient, a'r beiau a fu  
Yn hir yn llychwino ei harddwech a'i fri:  
Pan dderfydd holl rodres y ddaiar a'i dig,  
Lle na ddaw un cwmwl ymruthrawl y trig.

## Y FAM A'R GLOEWYN BYW.

[Efelychiad.]

DISGYNAI Gloewyn Byw ryw ddydd  
 Ar isel feddrod baban bach,  
 Ar ael yr hwn ddamweiniau fod  
 Hoff lili dlos yn tyfu 'n iach :  
 Dywedai 'r fam, "Ti wyt yn cael  
 Mewn lliwiau heirdd ymchwae 'n rhydd,  
 Tra mae y bach a garwn i  
 Yn cysgu 'n dawel yn y pridd.

Ar hyn yr edn eliedai fry  
 Gan ddystaw sibrwd braidd yn syn,  
 "Pryf oeddw'n i cyn imi gael  
 Y tiws adenydd hyfryd hyn ;  
 A'r eneth fach a gollaist ti  
 Fel seraff glân a gân yn awr ;  
 Gan hyny taw.—A fynit ti  
 Ei chael yn ol o'r gwynfyd mawr ?"

Y CRISTION YN MARW.—*Pops.*

[Yr anhawdder i draddodi y deryn prydfferth hwn, yw gallu cadw tón wanlyd a darfyddol y dyn yn marw, ac eto cyfleu y syniad o sierwydd *buddugoliaethus* y *Cristion gobeithiol*. Dylai yr efrydydd gadw y gwahan-iaeth yma mewn golwg wrth ei adrodd.]

Fywiol fflam nefolaidd, gu,  
 Gad, O gad dy farwol dŷ !  
 Braw a gobaith, ing a hiraeth,  
 Poen ac elw yw marwolaeth !  
 Paid, hoff natur, paid â'rh gur ;  
 Gad im' lesgau i'r bywyd pur !

"Clyw !" medd yr angylaid lu,  
 "Tyr'd, ein chwaer ysbrydol, fry !"  
 Beth sy'n awr yn dwyn fy mryd,  
 Can fy ngolwg ar y byd,  
 Boddi'm synwrr, dwyn fy nghlyw ?  
 F' enaid, d'wed, ai angen yw ?

Yn iach i'r byd, 'rwy 'n gado 'r llawr ;  
 Y nef sy 'n agor imi 'n awr,  
 A sain seraffaidd rym !  
 Rhowch, rhowch eich edyn, hedaf fry.  
 O fedd, pa le mae'th gonewest di ?  
 A'th gelyn, angen llym ?

---

AMYNEDD A GOBAITH.—*Bulwer.*

UPON a barren steep,  
 Above a stormy deep,  
 I saw an angel watching the wild sea.  
 Earth was that barren steep,  
 Time was that stormy deep,  
 And the opposing shore—Eternity !

“Why dost thou watch the wave ?  
 Thy feet the waters lave,  
 The tide engulphs thee, if thou do remain.”  
 “Unscath'd I watch the wave ;—  
 Time not the angel's grave,—  
 I wait until the waters ebb again.”

Hushed on the angel's breast  
 I saw an infant rest,  
 Smiling on the gloomy hell below.  
 “What is the infant prest,  
 O angel, to thy breast ?”  
 “The child God gave me in the long ago !

“Mine all upon the earth—  
 The angel's angel birth,  
 Smiling all terror from the howling wild !”  
 Never may I forget,  
 The dream that haunts me yet,  
 Of PATIENCE nursing HOPE—the angel and the child !


---


' NID MARW HI: EITHR CYSGU Y MAE."

The baby wept;  
The mother took it from the nurse's arms,  
And soothed its grief,—and stilled its vain alarms,  
And baby wept.

Again it weeps;  
And God doth take it from the mother's arms,  
From present pain, and future unknown harms,  
And baby sleeps.

Y DIWEDD.





SGU





VA